

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

16/07/2014

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd: Ymgysylltu â Phobl Ifanc](#)
[Statement by the Presiding Officer: Youth Engagement](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Datganiad: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod—Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#)
[Statement: Introduction of a Member-proposed Bill—The Financial Education and Inclusion \(Wales\) Bill](#)

[Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ynghylch y Cynllun Ieithoedd Swyddogol](#)
[The Assembly Commission's Report on the Official Languages Scheme](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Goridor yr M4 o amgylch Casnewydd](#)
[Statement: Update on the M4 Corridor around Newport](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Argaeledd Gwasanaethau Bariatrig](#)
[The Health and Social Care Committee's Report on the Availability of Bariatric Services](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllid Cymru](#)
[The Finance Committee's Report on Finance Wales](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Chwarae Teg? Amser i Ymgynghori ar Daliadau Comisiwn Tecach wrth Werthu Cartrefi mewn Parciau](#)
[Short Debate: A Fair Slice? Time to Consult on Fairer Commissions on Park Home Sales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:37 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:37 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Datganiad gan y Llywydd: Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Before we start the proceedings this afternoon, following our youth engagement consultation, which attracted 3,000 responses and demonstrated a huge appetite among young people to get involved, I am very pleased to make this statement today to launch our new approach to youth engagement. Our vision is for young people's views to be fed into all aspects of the Assembly's work and our approach to youth engagement will have three key parts. First is reaching out: whoever and wherever they are, young people in Wales will be encouraged to take part. Second is enabling debate: we will provide a variety of innovative ways for young people to take part in our work. Third is feedback: we will explain to young people how their contributions are making a difference so that they are inspired to engage further.

Statement by the Presiding Officer: Youth Engagement

Cyn i ni ddechrau ar y trafodion y prynhawn yma, yn dilyn ein hymgynghoriad ar ymgysylltu ag ieuencid, a ddenodd 3,000 o ymatebion ac a ddangosodd fod awydd mawr ymhlith pobl ifanc i gymryd rhan, rwy'n falch iawn o wneud y datganiad hwn heddiw i lansio ein dull newydd o ymgysylltu â phobl ifanc. Ein gweledigaeth yw sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cyfrannu at bob agwedd ar waith y Cynulliad a bydd tair rhan allweddol i'n dull o ymgysylltu ag ieuencid. Y rhan gyntaf yw estyn allan: pwy bynnag a lle bynnag y maent, bydd pobl ifanc yng Nghymru yn cael eu hannog i gymryd rhan. Yr ail yw galluogi trafodaeth: byddwn yn darparu amrywiaeth o ffyrdd arloesol i bobl ifanc gymryd rhan yn ein gwaith. Y drydedd ran yw adborth: byddwn yn esbonio i bobl ifanc sut y mae eu cyfraniadau yn gwneud gwahaniaeth fel eu bod yn cael eu hysbrydoli i ymgysylltu ymhellach.

We are bringing in high-quality youth worker skills to complement our existing expertise and establishing a programme of events to put young people at the heart of our engagement work. Central to all of these efforts are our determination to involve young people from harder-to-reach groups, developing toolkits to bring together best practice and advice for Members and staff, and making the most of our online presence by using our youth website as a hub for information and discussion, as well as finding new ways to communicate through our social media channels. This work is underpinned by a new charter, which forms our contract with the young people of Wales. I was delighted that the leaders of all the parties represented in this Chamber joined me earlier to sign that charter. I am very pleased that the young people who participated in today's celebration of signing the charter and our new approach are in the public gallery.

I now call on party leaders to make statements outlining their political groups' commitment to youth engagement.

First is the leader of Welsh Labour, Carwyn Jones.

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, Llywydd. On behalf of the Labour group, I very much welcome the National Assembly's focus on youth engagement. It fits very well with the efforts we are making in our constituencies to ensure that young people are heard loud and clear. It is increasingly important, as our Welsh democracy matures, that young people understand and appreciate the role of the Assembly in their lives. The Executive and the legislature need to work closely together, and with our partners, to give young people the chance to have their say at all stages of policy development and implementation.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call on the leader of the Welsh Conservatives, Andrew R.T. Davies.

13:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, Presiding Officer. I too am pleased, on behalf of the Welsh Conservative group, to join my colleagues in the other parties in supporting this initiative. Reaching out across Wales to tell young people about our work is indeed vital for our democracy. We need to find every way we can to make sure that young people do not miss the opportunities to get involved. These are opportunities to share their experiences and their views to give us the evidence that we need to ensure that policy development and law making in Wales are the best they can be. We must ensure that we pool the collective knowledge and expertise of all Members and their constituents for the benefit of Wales and its citizens. If young people miss the opportunities to contribute then we miss the opportunity to learn from them about what Wales wants to see for the future. The more avenues that we find to promote our work the better—through Members themselves, through our staff, through our many partner organisations, and, of course, increasingly, online.

Rydym yn cyflwyno sgiliau gweithwyr ieuencid o ansawdd uchel i ategu ein harbenigedd presennol ac yn sefydlu rhaglen o ddigwyddiadau i roi pobl ifanc ynghanol ein gwaith ymgysylltu. Yn ganolog i bob un o'r ymdrechion hyn y mae ein penderfyniad i gynnwys pobl ifanc o grwpiau anos eu cyrraedd, gan ddatblygu pecynnau cymorth i ddwyn ynghyd arfer gorau a chynghor i Aelodau a staff, a gwneud y gorau o'n presenoldeb ar-lein drwy ddefnyddio ein gwefan ieuencid fel canolbwynt ar gyfer gwybodaeth a thrafodaeth, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd newydd o gyfathrebu trwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ategu gan siarter newydd, sy'n ffurfio ein contract â phobl ifanc Cymru. Roeddwn wrth fy modd bod arweinwyr yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Siambr hon wedi ymuno â mi yn gynharach i lofnodi'r siarter. Rwy'n falch iawn fod y bobl ifanc a gymerodd ran yn y dathliad heddiw wrth lofnodi'r siarter a'n dull newydd o weithredu yn yr oriel gyhoeddus.

Galwaf yn awr ar arweinwyr y pleidiau i wneud datganiadau yn amlinellu ymrwymiad eu grwpiau gwleidyddol i ymgysylltu â phobl ifanc.

Yn gyntaf, arweinydd Llafur Cymru, Carwyn Jones.

Diolch i chi, Lywydd. Ar ran y grŵp Llafur, rwy'n croesawu'n fawr iawn ffocws y Cynulliad Cenedlaethol ar ymgysylltu â phobl ifanc. Mae'n cyd-fynd yn dda iawn â'n hymdrechion yn ein hetholaethau i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed yn uchel ac yn glir. Wrth i'n democratiaeth yng Nghymru aeddfedu, mae'n gynyddol bwysig fod pobl ifanc yn deall ac yn gwerthfawrogi rôl y Cynulliad yn eu bywydau. Mae angen i'r Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa weithio'n agos gyda'i gilydd, a gyda'n partneriaid, i roi cyfle i bobl ifanc leisio'u barn ar bob cam o'r broses o ddatblygu a gweithredu polisi.

Galwaf yn awr ar arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, Andrew RT Davies.

Diolch i chi, Lywydd. Ar ran grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, rwyf innau hefyd yn falch o ymuno â fy nghydweithwyr yn y pleidiau eraill i gefnogi'r fenter hon. Mae ymestyn allan ar draws Cymru i ddweud wrth bobl ifanc am ein gwaith yn wirioneddol hanfodol ar gyfer ein democratiaeth. Mae angen inni ddod o hyd i bob ffordd y gallwn o wneud yn siŵr nad yw pobl ifanc yn colli cyfleoedd i gymryd rhan. Mae'r rhain yn gyfleoedd i rannu eu profiadau a'u barn i roi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom er mwyn sicrhau bod y broses o ddatblygu polisi a deddfu yng Nghymru y gorau a all fod. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cronni gwybodaeth ac arbenigedd cyfunol yr holl Aelodau a'u hetholwyr er lles Cymru a'i dinasyddion. Os yw pobl ifanc yn colli cyfleoedd i gyfrannu, yna rydym yn colli'r cyfle i ddysgu oddi wrthynt am yr hyn y mae Cymru eisiau ei weld ar gyfer y dyfodol. Gorau po fwyaf o ffyrdd y down o hyd iddynt i hyrwyddo ein gwaith—drwy'r Aelodau eu hunain, drwy ein staff, drwy ein sefydliadau partner niferus, ac wrth gwrs, yn gynyddol ar-lein.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I now call Leanne Wood, the Leader of Plaid Cymru. Galwaf yn awr ar Leanne Wood, Arweinydd Plaid Cymru.
- 13:40 **Leanne Wood** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru
Diolch, Lywydd. On behalf of the Plaid Cymru group I would like to pledge our support for more and better youth engagement by this Assembly. I particularly welcome the commitment to find new ways to enable meaningful debate. It is important that we have a diverse range of methods for talking to young people so that as many people as possible feel able and confident to give us their views. It is especially important that we do everything we can to make sure that young people from all parts of Wales, from all communities, and from all backgrounds, can participate. That means that we need to understand how young people are most comfortable having their say. It is excellent that Members will have access to youth working skills to enable us to do this. Our work needs to inspire young people to get involved in tackling the issues that they care about and to ensure that they enjoy and benefit from the experience of the working of the Assembly.
Diolch, Lywydd. Ar ran grŵp Plaid Cymru, hoffwn addo ein cefnogaeth i fwy a gwell ymgysylltiad â phobl ifanc gan y Cynulliad hwn. Croesawaf yn arbennig yr ymrwymiad i ddod o hyd i ffyrdd newydd o alluogi trafodaeth ystyrion. Mae'n bwysig bod gennym amrywiaeth eang o ddulliau ar gyfer siarad â phobl ifanc fel bod cymaint o bobl â phosibl yn teimlo y gallant roi eu barn i ni, a gwneud hynny'n hyderus. Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pobl ifanc o bob rhan o Gymru, o bob cymuned, ac o bob cefndir, yn gallu cymryd rhan. Mae hynny'n golygu bod angen inni ddeall sut y gall pobl ifanc leisio'u barn yn y ffordd fwyaf cyfforddus. Mae'n wych y bydd yr Aelodau yn gallu defnyddio sgiliau gwaith ieuencid er mwyn ein galluogi i wneud hyn. Mae angen i'n gwaith ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan a mynd i'r afael â'r materion y maent yn malio amdanynt ac i sicrhau eu bod yn mwynhau ac yn elwa o'u profiad o waith y Cynulliad.
- 13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I call on Kirsty Williams, the Leader of the Welsh Liberal Democrats. Galwaf ar Kirsty Williams, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.
- 13:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
Thank you very much, Presiding Officer. The Welsh Liberal Democrat group welcomes a renewed focus on youth engagement and involving young people in Assembly business. It is clear that feedback is critical to building strong relationships with young people across Wales, and it is important that we can have a mature dialogue. We have particular ways of doing things, which sometimes take a long time, and we represent interests as diverse as the people of Wales. Young people will understand that as long as we explain our work to them. We need to demonstrate how young people's views actually influence the work that we do: the work that we do in committees, in this Chamber, and within communities. We need to demystify the procedures that we follow when we are gathering and analysing evidence, and, vitally, Presiding Officer, we need to make sure that the Assembly continues to deliver for Wales in the ways that we represent our country's interests, in how we make laws, and in how we hold the Welsh Government to account.
Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Mae grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu ffocws o'r newydd ar ymgysylltu ag ieuencid a chynnwys pobl ifanc ym musnes y Cynulliad. Mae'n amlwg bod adborth yn hanfodol i adeiladu perthynas gref gyda phobl ifanc ar draws Cymru, ac mae'n bwysig inni gael deialog aeddfed. Mae gennym ffyrdd penodol o wneud pethau, sydd weithiau'n cymryd amser hir, ac rydym yn cynrychioli buddiannau sydd mor amrywiol â phobl Cymru. Bydd pobl ifanc yn deall hynny cyn belled â'n bod yn esbonio ein gwaith iddynt. Mae angen inni ddangos sut y mae barn pobl ifanc yn dylanwadu mewn gwirionedd ar y gwaith rydym yn ei wneud: y gwaith rydym yn ei wneud mewn pwyllgorau, yn y Siambr hon, ac yn y cymunedau. Mae angen inni symleiddio'r gweithdrefnau y byddwn yn eu dilyn wrth inni gasglu a dadansoddi tystiolaeth, ac yn allweddol, Lywydd, mae angen inni sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i gyflawni dros Gymru yn y ffyrdd y byddwn yn cynrychioli buddiannau ein gwlad, yn y ffordd rydym, yn gwneud cyfreithiau ac yn y ffordd rydym yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.
- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Thank you very much. It is very good to have the commitment of all the parties here. However, I would like to stress that this is about every single individual Assembly Member and all the young people in the gallery. So, thank you very much indeed for coming and I think that deserves a real round of applause. [Applause.]
Diolch yn fawr iawn i chi. Mae'n dda cael ymrwymiad yr holl bleidiau yma. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio bod hyn yn ymwneud â phob Aelod Cynulliad unigol a'r holl bobl ifanc yn yr oriel. Felly, diolch yn fawr iawn yn wir am ddod a chredaf fod hynny'n haeddu cymeradwyaeth wresog. [Cymeradwyaeth.]

Now we move on to the business of the day, and questions to the Minister for Finance.

Yn awr, symudwn ymlaen at fusnes y dydd, a chwestiynau i'r Gweinidog Cyllid.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Questions to the Minister for Finance

Prosiectau Cyfalaf

Capital Projects

13:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
1. A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddariad ar weithredoedd Llywodraeth Cymru i ariannu prosiectau cyfalaf? OAQ(4)0445(FIN)

1. Will the Minister provide an update on Welsh Government actions to fund capital projects? OAQ(4)0445(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance
Ers mis Mai, rwyf wedi cyhoeddi £1.25 biliwn o fuddsoddiad arloesol mewn prosiectau cyfalaf yng Nghymru.

Since May, I have announced £1.25 billion of innovative investment in capital projects in Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch am yr ateb. Mae eich datganiad diweddar yn dweud bod dyraniadau cyfalaf yn dod â £2.7 biliwn o fuddsoddiad, gan gynnwys £250 miliwn ar gyfer tai fforddiadwy. Mae sawl ysgol yn Llanelli wedi manteisio ar adeiladau newydd sbon yn ddiweddar, sy'n gwella'r amgylchedd a chyfleusterau dysgu. Rwy'n croesawu'r weithred ar brosiectau cyfalaf. Gyda'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, beth yw'r cynlluniau i sicrhau bod rhagor o ysgolion yn gallu parhau i fanteisio ar y cynllun?

Thank you for that response. Your recent statement states that capital allocations bring £2.7 billion of investment in, including £250 million for affordable homes. Many schools in Llanelli have benefitted from brand new buildings recently, which improves the teaching environment and facilities. I welcome the actions on capital projects. With the twenty-first century schools programme, what plans are in place to ensure that more schools can continue to take advantage of that scheme?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch yn fawr, Keith Davies. I think it is very important that we are using innovative finance as well as our own direct capital funding to support twenty-first century schools programme investment. If you look at west Wales, band A of the programme will see over £300 million-worth of investment in educational facilities in south Wales. Of course, this is alongside other innovative opportunities to fund capital projects such as the housing finance grant.

Diolch fawr, Keith Davies. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn defnyddio cyllid arloesol yn ogystal â'n cyllid cyfalaf uniongyrchol ein hunain i gefnogi buddsoddiad yn rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Os edrychwch ar orllewin Cymru, bydd band A y rhaglen yn cael gwerth dros £3 miliwn o fuddsoddiad mewn cyfleusterau addysgol yn ne Cymru. Wrth gwrs, daw hyn ochr yn ochr â chyfleoedd arloesol eraill i gyllido prosiectau cyfalaf megis y grant cyllid tai.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the opposition spokesperson, Paul Davies.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:44 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch, Lywydd. Minister, in the 2014 annual report of the Wales infrastructure investment plan, one of your primary goals includes improving control and public visibility. The plan, of course, was launched two years ago, so can the Minister tell us how she is measuring that goal and outline what specific steps the Welsh Government has taken to improve public visibility of this plan?

Diolch, Lywydd. Weinidog, yn adroddiad blynyddol y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ar gyfer 2014, mae un o'ch nodau sylfaenol yn cynnwys gwella rheolaeth ac amlygrwydd cyhoeddus. Wrth gwrs, lansiwyd y cynllun ddwy flynedd yn ôl, felly a all y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae'n mesur y nod hwnnw ac amlinellu pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella amlygrwydd cyhoeddus y cynllun hwn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for this question because in terms of visibility of the plan, it is the pipeline that provides the confidence to the private sector, particularly to the construction sector in terms of the public spend. The annual report now includes the public spend of local government. Also, this year we have included for the first time the energy sector. Importantly, in terms of the delivery of the infrastructure investment plan, using the Welsh Government's better business case ensures that we are taking a robust approach to the spending proposals.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn oherwydd o ran amlygrwydd y cynllun, dyma'r cyfrwng sy'n darparu'r hyder i'r sector preifat, yn enwedig y sector adeiladu o ran y gwariant cyhoeddus. Mae'r adroddiad blynyddol bellach yn cynnwys gwariant cyhoeddus llywodraeth leol. Eleni hefyd rydym wedi cynnwys y sector ynni am y tro cyntaf. Yn bwysig, o ran cyflawni cynllun buddsoddi yn y seilwaith, mae defnyddio achos busnes gwell Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gennym ddull cadarn o ymdrin â'r cynigion gwario.
- 13:46 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to the Minister for that response. One of my concerns has been how the Wales infrastructure investment plan works with the national procurement service and how small and medium-sized businesses should be on a level playing field with larger businesses when competing for contracts. Can the Minister tell us what steps the Welsh Government has taken to engage with SMEs to create that level playing field? Also, what work has the Welsh Government done on collecting information on the size of each business that is awarded a contract and the benefits that those businesses provide to the local economy?
- Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb. Un o fy mhryderon yw sut y mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn gweithio gyda'r gwasanaeth caffael cenedlaethol a sut y dylai busnesau bach a chanolig eu maint fod ar yr un lefel â busnesau mwy wrth gystadlu am gontractau. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymgysylltu â busnesau bach a chanolig i sicrhau cystadleuaeth gyfartal? Hefyd, pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar gasglu gwybodaeth am faint pob busnes y rhoddir contract iddynt a'r manteision y mae'r busnesau hynny yn eu darparu i'r economi leol?
- 13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, the delivery of the Wales infrastructure investment plan is predicated on the use of our public procurement policy. I think that it is important to look at the impact of the new supply qualification information database, which closely monitors the construction sector, lowering barriers for suppliers. Now Welsh contractors are winning 73% of all major construction awards through Sell2Wales. That is up 30% since the introduction of SQUID. We are working very closely with the construction sector to ensure that it dovetails procurement with the Wales infrastructure investment plan.
- Wrth gwrs, mae cyflwyno'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn ddiibynnol ar y defnydd o'n polisi caffael cyhoeddus. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig edrych ar effaith y gronfa ddata gwybodaeth newydd am gymwysterau cyflenwyr, sy'n monitro'r sector adeiladu yn agos, gan leihau rhwystrau i gyflenwyr. Yn awr mae contractwyr yng Nghymru yn ennill 73% o'r holl ddyfarniadau adeiladu mawr drwy GwerthwchiGymru. Mae hynny 30% yn uwch ers cyflwyno'r gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r sector adeiladu i sicrhau ei bod yn cydgyssylltu caffael â'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.
- 13:47 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Bydd datganiad nes ymlaen heddiw gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar yr M4. Pe byddai'r Llywodraeth yn dewis traffordd lawn i gyd-redeg â'r M4 presennol, byddai'n costio tua £1 biliwn. Rydych wedi cael hawl gan y Llywodraeth glymbleidiol yn Llundain i fenthycu £0.5 biliwn, felly o ble fyddai'r £0.5 biliwn arall yn dod?
- There will be a statement later on today by the Minister for Economy, Science and Transport on the M4. If the Government opted to go for a full motorway parallel to the current M4, it would cost about £1 billion. You have been given the right by the coalition Government to borrow £0.5 billion, so where would the other £0.5 billion come from?
- 13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We need to await the statement this afternoon from the Minister for Economy, Science and Transport.
- Mae angen inni aros am y datganiad y prynhawn yma gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

- 13:48 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Nid wyf yn gofyn i chi wneud datganiad ar yr M4. Rwyf yn gofyn i chi am yr oblygiadau ariannol. Felly, gofynnaf eto: pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu ar llwybr y draffordd, a wnewch chi ddod â datganiad llawn i'r Cynulliad yn manylu ar oblygiadau hynny i'r rhaglen gyfalaf a hefyd o ran y costau benthyca ychwanegol?
- I am not asking you to make a statement on the M4. I am asking you about the financial implications. So, I repeat my question: if the Government decided on the motorway route, will you bring a full statement to the Assembly going into detail about the implications of that on the capital programme and also in terms of the additional borrowing costs?
- 13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that it is important that, as we see the Wales Bill progressing through Parliament, we do have new borrowing powers. That is a commitment in terms of borrowing for capital investment, which is currently set at £500 million, and a commitment in terms of the Wales Bill to review that borrowing ceiling for capital investment. However, as we move forward with those borrowing powers, I will be able to, as I do, account for the sources of finance, from direct capital, from innovative finance and from direct borrowing powers.
- Wrth inni weld Bil Cymru yn symud ymlaen drwy'r Senedd, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig fod gennym bwerau benthyca newydd. Mae'n ymrwymiad o ran benthyciad ar gyfer buddsoddi cyfalaf, sydd wedi'i osod ar £500 miliwn ar hyn o bryd, ac yn ymrwymiad o ran Bil Cymru i adolygu'r terfyn benthyca ar gyfer buddsoddi cyfalaf. Fodd bynnag, wrth inni symud ymlaen gyda'r pwerau benthyca, byddaf yn gallu rhoi cyfrif am y ffynonellau cyllid, o gyfalaf uniongyrchol, o gyllid arloesol ac o bwerau benthyca uniongyrchol wrth imi wneud hynny.
- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 13:49 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you have mentioned innovative forms of finance in terms of capital projects and yet you have been far more cautious than England about running pilots on different ways of raising cash for capital projects. As you start to look for next year's budget, are you looking at any additional innovative forms of capital funding to try to bring in additional resources to create jobs and to build new infrastructure in Wales?
- Weinidog, rydych wedi crybwyll ffurfiau arloesol ar gyllid o ran prosiectau cyfalaf ac eto rydych wedi bod yn llawer mwy gwyladwrs na Lloegr ynghylch cynnal cynlluniau peilot ar wahanol ffyrdd o godi arian ar gyfer prosiectau cyfalaf. Wrth i chi ddechrau ystyried cyllideb y flwyddyn nesaf, a ydych yn edrych ar unrhyw ffurfiau arloesol ychwanegol o gyllid cyfalaf i geisio dod ag adnoddau ychwanegol i mewn ar gyfer creu swyddi ac i adeiladu seilwaith newydd yng Nghymru?
- 13:49 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for his question, but I do not think that I have been cautious, I would beg to respond. In terms of the housing finance grant that I announced recently, there has been a £250 million extension of this pioneering, innovative housing finance grant. Just look at the outcomes; that is what is important about finance, is it not? It is going to deliver over 2,000 new homes and is expected to provide a significant boost to the construction sector, creating 5,000 jobs. This £250 million scheme will replicate the funding mechanism of the existing scheme. It is about the Welsh Government co-funding the revenue costs of borrowing to support additional investment in housing. It is very pioneering, I would beg to suggest to the finance spokesperson.
- Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn, ond hoffwn ymateb nad wyf yn meddwl fy mod wedi bod yn wyladwrs. O ran y grant cyllid tai a gyhoeddais yn ddiweddar, cafwyd ychwanegiad o £250 miliwn tuag at y grant cyllid tai arloesol a blaengar hwn. Nid oes raid ond edrych ar y canlyniadau; dyna sy'n bwysig gyda chyllid, onide? Mae'n mynd i ddarparu dros 2,000 o gartrefi newydd a disgwylir iddo roi hwb sylweddol i'r sector adeiladu, gan greu 5,000 o swyddi. Bydd y cynllun hwn sy'n werth £250 miliwn yn ailadrodd trefn ariannu'r cynllun presennol. Mae'n ymwneud â Llywodraeth Cymru yn cydariannu costau refeniw benthyciad i gefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn tai. Hoffwn awgrymu wrth y lefarydd cyllid fod hynny'n arloesol iawn.

13:50

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. I very much welcome the outcomes in terms of that money for housing. You will know that there are pilot projects in England around local authorities borrowing money against anticipated income from rates in regeneration areas, a facility that could be made available in pilot projects in Wales, particularly in Swansea, Cardiff and some of the bigger towns. They could be using that innovative form of raising money to develop areas of dereliction and deprivation. Are you looking at bringing that particular mechanism into Wales?

There is a great deal of interest in England in terms of our local government borrowing initiative, which is a made-in-Wales initiative. It is not only funding highways improvements across the whole of Wales, but it is now boosting the twenty-first century schools programme. I would say, as I do regularly to the Welsh Liberal Democrats spokesperson, that we are not discounting the use of tax incremental financing. We are certainly awaiting consideration of that, particularly from the business rates task and finish group.

Effeithlonrwydd Gwariant

13:51

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sicrhau effeithiolrwydd gwariant ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0444(FIN)

13:51

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is committed to ensuring that we spend every pound effectively.

13:51

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. The Finance Committee's report into the draft budget recommended that you lead a review into the financial management and planning of the natural resources and food portfolio, especially the planning for and use of European funding. Given the importance of European funding, particularly in north Wales, which I am sure you will be aware has a large number of deprived areas that qualify for European funding support, can you tell me whether you will be undertaking that review prior to this autumn's budget?

13:52

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are a number of aspects of that question that are important in terms of preparation for the draft budget. Also, you are asking direct questions about preparations in terms of our new opportunities with European structural funds. Just to update Members, we have submitted our draft operational plans. In relation to Natural Resources Wales, we are working closely with it, and with the Ministers responsible, to ensure that we can use those funds effectively in terms of the environment.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n croesawu'r canlyniadau yn fawr iawn o ran yr arian ar gyfer tai. Byddwch yn gwybod bod prosiectau peilot yn Lloegr sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yn benthycu arian yn erbyn incwm a ragwelir o ardrethi mewn ardaloedd adfywio, cyfeuster y gellid sicrhau ei fod ar gael mewn prosiectau peilot yng Nghymru, yn enwedig yn Abertawe, Caerdydd a rhai o'r trefi mwy o faint. Gallent fod yn defnyddio'r dull arloesol hwn o godi arian i ddatblygu ardaloedd diffaith a difreintiedig. A ydych yn ystyried cyflwyno'r drefn benodol hon yng Nghymru?

Mae llawer iawn o ddiddordeb yn Lloegr o ran ein menter fenthycu ar gyfer llywodraeth leol, sy'n fenter a wnaed yng Nghymru. Mae'n ymwneud nid yn unig ag ariannu gwelliannau priffyrdd ar draws Cymru gyfan, ond mae bellach yn rhoi hwb i raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Byddwn yn dweud, fel rwy'n ei wneud yn rheolaidd wrth lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, nad ydym yn diystyru'r defnydd o ariannu cynyddrannol ym maes treth. Rydym yn sicr yn aros i hynny gael ei ystyried, yn benodol gan y grŵp gorchwyl a gorffen ar ardrethi busnes.

Effectiveness of Spend

2. Will the Minister make a statement on ensuring effectiveness of spend across the Welsh Government's budget? OAQ(4)0444(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwario pob punt yn effeithiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft yn argymhell eich bod yn arwain adolygiad ar reolaeth ariannol a chynllunio'r portffolio cyfoeth naturiol a bwyd, yn enwedig y cynlluniau ar gyfer cyllid Ewropeaidd a'r defnydd ohono. O ystyried pwysigrwydd cyllid Ewropeaidd, yn enwedig yn ardal gogledd Cymru, y byddwch yn ymwybodol mae'n siŵr ei bod yn cynnwys nifer fawr o ardaloedd difreintiedig sy'n gymwys i gael cymorth arian Ewropeaidd, a allwch ddweud wrthyf a fyddwch yn cynnal adolygiad o'r fath cyn y gyllideb yr hydref hwn ?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae nifer o agweddau ar y cwestiwn sy'n bwysig o ran paratoi ar gyfer y gyllideb ddrafft. Hefyd, rydych yn gofyn cwestiynau uniongyrchol ynghylch y paratodau mewn perthynas â'n cyfleoedd newydd gyda chronfeydd strwythurol Ewropeaidd. I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, rydym wedi cyflwyno ein cynlluniau gweithredol drafft. Mewn perthynas â Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn gweithio'n agos â hwy, a gyda'r Gweinidogion sy'n gyfrifol, er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio'r cronfeydd hynny yn effeithiol o ran yr amgylchedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a oes modd i chi esbonio inni ba brosesau rydych chi'n mynd drwyddynt fel Llywodraeth er mwyn gweld sut mae elusennau yn defnyddio'r arian rydych chi'n ei roi iddyn nhw? Rwy'n gofyn hyn oherwydd bod arian wedi cael ei dynnu oddi wrth nifer o fudiadau megis y Welsh Music Foundation a Funky Dragon yn ddiweddar. Mae angen inni fel Aelodau Cynulliad ddeall pam mae'r arian hwnnw wedi cael ei gymryd i ffwrdd—ai oherwydd nad ydyn nhw'n gweithio'n ddigon effeithiol neu oherwydd bod yr arian yn cael ei wario mewn ffordd amhriodol? Sut allwn ni ddeall sut mae hyn yn digwydd o fewn y Llywodraeth, os gwelwch yn dda?

Minister, could you explain to you us what processes you go through as a Government in order to identify how charities use the money that you provide to them? I ask this because funding has been withdrawn from a number of organisations such as the Welsh Music Foundation and Funky Dragon recently. As Assembly Members, we need to understand why those funds have been withdrawn—is it because they do not work effectively or because the funding is spent in an inappropriate manner? How can we understand how this happens within Government, please?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:53

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have a grants management scheme and we have clear direction in terms of the governance, operation and delivery of our funding streams, not just to the third sector, but to business as well. Also, in terms of the realities of our budget and our priorities, we have had a 10% real cut in our finances since 2010-11. So, it has to be an approach by responsible Ministers to reducing budgets, identifying priorities and identifying, as we do with external panels, appropriate bids to fund.

Mae gennym gynllun rheoli grantiau ac mae gennym gyfeiriad clir o ran llywodraethu, gweithredu a chyflawni ein ffyrddiau ariannu, nid yn unig i'r trydydd sector, ond i fusnes hefyd. Hefyd, o ran y sefyllfa wirioneddol mewn perthynas â'n cyllideb a'n blaenoriaethau, rydym wedi cael 10% o doriad real yn ein cyllid ers 2010-11. Felly, mae'n rhaid iddo fod yn ddull gan Weinidogion cyfrifol o leihau cyllidebau, nodi blaenoriaethau a nodi ceisiadau priodol i'w hariannu, fel y gwnawn gyda phaneli allanol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, bu'n rhaid i'r Llywodraeth roi £50 miliwn ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd ym mis Chwefror, a dyna'r unig reswm i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr aros o fewn ei gyllideb. Mae'r bwrdd iechyd wedi methu â chyflwyno cynllun tair blynedd i'r Llywodraeth, yn ôl y disgwyl, a rwan mae'n dweud ei fod wedi gorwario £10 miliwn yn ystod dau fis cyntaf y flwyddyn ariannol, ac yn amcangyfrif y bydd gorwario o £35 miliwn eleni. Beth ydych chi'n mynd i wneud fel Llywodraeth i wella rheolaeth ariannol o fewn y gwasanaeth iechyd, o ystyried ei bod yn amlwg nad yw'r gweision sifil yn yr adran iechyd yn gallu rheoli'r sefyllfa?

Minister, the Government had to give an additional £50 million to the health service in February, and that is the only reason why Betsi Cadwaladr University Local Health Board stayed within its budget. The health board has failed to present the three-year plan to the Government, as expected, and now it is saying that it has overspent by £10 million during the first two months of the financial year, and is estimating that it will overspend by £35 million this year. What are you as a Government going to do to improve financial management within the health service, bearing in mind that it is obvious that civil servants within the health department cannot control the situation?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that you welcome the fact that we are investing in our health service and that we have invested an additional £180 million in 2014-15 in the health service. This is in recognition of increasing demand facing the NHS and particularly the pressures experienced in our unscheduled care system. However, it is also very clear, as the Minister for Health and Social Services said—and this was a response as well in terms of his statement on the Nuffield report—that this funding would not remove the need for significant changes in the NHS in terms of relieving pressures and in terms of delivering value for money.

Rwy'n siŵr eich bod yn croesawu'r ffaith ein bod yn buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd a'n bod wedi buddsoddi £180 miliwn ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd yn 2014-15. Gwnaed hyn i gydnabod y galw cynyddol sy'n wynebu'r GIG ac yn arbennig, y pwysau a brofir yn ein system gofal heb ei drefnu. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol—ac roedd yn ymateb yn ogystal mewn perthynas â'i ddatganiad ar adroddiad Nuffield—mae'n glir iawn hefyd na fyddai'r cyllid hwn yn cael gwared ar yr angen am newidiadau sylweddol yn y GIG o ran lleddfu pwysau ac o ran sicrhau gwerth am arian.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol

Structural Funds Programme

13:55

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynydd y trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd am y rhaglenni cronfeydd strwythurol? OAQ(4)0434(FIN)

3. Will the Minister provide an update on the progress of negotiations with the European Commission on the structural funds programmes? OAQ(4)0434(FIN)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gylch ariannu nesaf Cronfeydd Strwythurol yr UE? OAQ(4)0438(FIN)

7. Will the Minister provide an update on the next round of EU Structural Funds? OAQ(4)0438(FIN)

13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that you have given permission for questions 3 and 7 to be grouped. Negotiations with the European Commission on the new structural funds programmes are progressing well. We are working to secure their approval at the earliest opportunity after the UK partnership agreement has been approved.

Deallaf eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 3 a 7 gael eu grwpio. Mae trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar raglenni newydd y cronfeydd strwythurol yn symud yn eu blaen yn dda. Rydym yn gweithio i sicrhau eu bod yn cael eu cymeradwyo ar y cyfle cynharaf ar ôl i gytundeb partneriaeth y DU gael ei gymeradwyo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. I recently hosted an event for the ASTUTE advanced manufacturing group, which is a £27 million-project, partly funded by the European regional development fund and led by Swansea University, that also contributes to the Horizon 2020 aims of coupling research and innovation with an emphasis on excellent science and industrial leadership. The goals are to ensure world-class science, remove barriers to innovation and make it easier for the public and private sectors to work together in delivering that innovation. Minister, how can we ensure that the new EU structural funds programme dovetails with Horizon 2020 to support such innovative projects in Wales? Will the Minister co-ordinate those funds to ensure the best result?

Diolch i chi, Weinidog. Yn ddiweddar cynhaliais ddiwyddiad ar gyfer ASTUTE, y grŵp gweithgynhyrchu uwch, sef prosiect gwerth £27 miliwn a gyllidir yn rhanol gan gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop dan arweiniad Prifysgol Abertawe, sydd hefyd yn cyfrannu at nodau Horizon 2020 o gyplysu ymchwil ac arloesi â phwyslais ar arweinyddiaeth wyddonol a diwydiannol ragorol. Y nodau yw sicrhau gwyddoniaeth o'r radd flaenaf, cael gwared ar rwystrau i arloesedd a'i gwneud yn haws i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat weithio gyda'i gilydd i ddarparu arloesedd o'r fath. Weinidog, sut y gallwn sicrhau bod rhaglen newydd cronfeydd strwythurol yr UE yn cydweddu â Horizon 2020 er mwyn cefnogi prosiectau arloesol o'r fath yng Nghymru? A wnaiff y Gweinidog gydgyssylltu'r cronfeydd hynny i sicrhau'r canlyniad gorau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Swansea West for that question, because it is key to the optimum participation and success in terms of bids for Horizon 2020 that they are dovetailed with European structural fund programmes and, of course, I think it is important to recognise in terms of Swansea University that we have a £35 million ERDF commitment to Swansea University's innovation hub and engineering manufacturing centre projects. It is crucial that, with competitive research funding like Horizon 2020, the university bids successfully for that to dovetail with that ERDF investment.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin Abertawe am y cwestiwn, gan ei fod yn allweddol i gyfranogiad gorau a llwyddiant ceisiadau am Horizon 2020 eu bod yn cydweddu â rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewrop ac wrth gwrs, rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod o ran Prifysgol Abertawe fod gennym ymrwymiad ERDF o £35 miliwn i ganolfan arloesi a phrosiectau canolfan weithgynhyrchu peirianeg Prifysgol Abertawe. Gyda chyllid ymchwil cystadleuol fel Horizon 2020, mae'n hanfodol i'r brifysgol sicrhau cais llwyddiannus er mwyn i hynny gydweddu â'r buddsoddiad ERDF.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Mick Antoniw.

Galwaf ar Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no question, Presiding Officer.

Nid oes gennyf gwestiwn, Lywydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you outline how you will ensure effective financial monitoring of structural funds, particularly as some of them will be across portfolios and that there will be multifunded projects, so that outcomes may be effectively monitored?

Weinidog, a wnewch chi amlinellu sut y byddwch yn sicrhau bod cyllid y cronfeydd strwythurol yn cael ei fonitro'n effeithiol, yn enwedig gan y bydd rhai ohonynt yn croesi rhwng un portffolio a'r llall ac y bydd prosiectau sy'n cael eu hariannu o fwy nag un ffynhonnell, fel bod modd monitro'r canlyniadau yn effeithiol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This is critical because, if we are going to ensure that we take advantage not just of the structural funds but of Horizon 2020 and indeed a range of strands of funding from Europe, we have to ensure that the monitoring is robust, and that of course is the responsibility of the managing authority.
- Mae hyn yn hollbwysig oherwydd, os ydym yn mynd i sicrhau ein bod yn manteisio nid yn unig ar y cronfeydd strwythurol ond hefyd ar Horizon 2020 ac yn wir ar amrywiaeth o lwybrau ariannu o Ewrop, mae'n rhaid inni sicrhau bod y gwaith monitro'n drylwyr, a chyfrifoldeb yr awdurdod rheoli yw hynny wrth gwrs.
- 13:58 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Roeddwn mewn cynhadledd yr wythnos diwethaf yn Ewrop yn trafod y posibiladau o ddefnyddio rhai o'r cronfeydd Ewropeaidd i wella cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Rwy'n gwybod ein bod yn rhoi pwyslais mawr ar drydaneiddio rheilffyrdd ar hyn o bryd, ond a wnewch chi edrych ar y posibiladau o wella'r cysylltiadau yng nghefn gwlad hefyd trwy gael mynediad i gronfeydd Ewropeaidd?
- I attended a conference last week in Europe discussing the possibilities of using some of the European funds in order to improve public transport links in rural areas. I know that we place a great emphasis on electrification of railway lines at present, but will you look at the possibilities of improving connections in rural areas also by accessing European funds?
- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, the Commission is very interested in our proposals that are emerging, particularly in relation to public transport—more interested in public integrated transport and public transport connectivity than in roads. We have invested in roads and, of course, there is still a requirement for that. However, in terms of the structural funds, we have to look to those integrated approaches and, certainly, that is where we are encouraging—particularly on a regional and sub-regional basis—proposals to come forward.
- Yn sicr, mae gan y Comisiwn ddiddordeb mawr yn ein cynigion sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus—mae ganddi fwy o ddiddordeb mewn trafndiaeth gyhoeddus integredig a chysylltedd trafndiaeth gyhoeddus na mewn ffyrdd. Rydym wedi buddsoddi mewn ffyrdd ac wrth gwrs, mae angen hynny o hyd. Fodd bynnag, o ran y cronfeydd strwythurol, rhaid inni edrych ar y dulliau integredig hynny ac yn sicr, dyna lle rydym yn annog cynigion—yn enwedig ar sail ranbarthol ac isranbarthol.
- 13:59 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, clearly, the south Wales metro proposal is a fantastic opportunity for us to boost gross domestic product through structural funds, potentially. Can you tell us any more about the Commission's suggestions as to which parts of the metro proposals might be supported through structural funds in terms of the physical infrastructure, the rolling stock for rail and also support for bus and other forms of transport?
- Weinidog, yn amlwg, mae cynnig metro de Cymru yn gyfle gwych o bosibl inni roi hwb i gynnyrch mewnwladol gros drwy'r cronfeydd strwythurol. A allwch ddweud mwy wrthym am awgrymiadau'r Comisiwn ynglŷn â pha rannau o'r cynnig metro y gellid eu cefnogi drwy'r cronfeydd strwythurol o ran y seilwaith ffisegol, y trenau ar gyfer y rheilffyrdd a chymorth hefyd tuag at fysiau a mathau eraill o drafndiaeth?
- 13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Eluned Parrott is right that, in terms of the metro, we already have, from our earlier discussions with the commission, a very appropriate candidate for European structural funds. It is still early days in terms of the business planning for that, but you know that I have already put direct funding into the development of the metro, which will help move forward with the business plan, which can attract structural funding.
- O ran y metro, mae Eluned Parrott yn iawn fod gennym eisoes, o'n trafodaethau cynharach gyda'r comisiwn, gais addas iawn ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewrop. Mae'n dal i fod yn ddyddiau cynnar o ran cynllunio busnes ar gyfer hynny, ond gwyddoch fy mod eisoes wedi rhoi cyllid uniongyrchol tuag at ddatblygu'r metro a fydd yn helpu i symud ymlaen gyda'r cynllun busnes, a gallai hynny ddenu cyllid strwythurol.
- 14:00 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As you know, Minister, NUTS 2 regions must have a population of between 800,000 and 3 million. With NUTS 2 being vital in deciding eligibility for European Union structural funds, does the Welsh Government have any plans to review the current NUTS 2 and NUTS 3 areas?
- Fel y gwyddoch, Weinidog, mae'n rhaid i ranbarthau NUTS 2 gynnwys rhwng 800,000 a 3 miliwn o boblogaeth. Gyda NUTS 2 yn hanfodol wrth benderfynu ar gymhwyster ar gyfer cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, a oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i adolygu ardaloedd cyfredol NUTS 2 a NUTS 3?

14:00 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Mike Hedges for that question. In terms of eligibility for structural fund support with financial allocations in terms of the units for the NUTS system in the future, they have already been determined, as you know, for the 2014-20 period. So, that is where we are at the moment, and any changes require approval from the Office for National Statistics and Eurostat.

Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn. O ran cymhwyster i gael cymorth y cronfeydd strwythurol gyda dyraniadau ariannol mewn perthynas ag unedau ar gyfer y system NUTS yn y dyfodol, maent eisoes wedi cael eu pennu, fel y gwyrddoch, ar gyfer y cyfnod 2014-20. Felly, dyna ble rydym ar hyn o bryd, ac mae angen i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Eurostat.

14:01 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I am sure that you are aware that Llanbedr airport in Snowdonia National Park has been shortlisted as a suitable site out of all of the military and civilian aerodromes in the country for the UK's first spaceport, which is an exciting prospect, as you will no doubt agree. The space industry is a growing and extremely important industry. Can you update the Chamber on what work you are doing with the next round of structural funds in mind and tying into Horizon 2020 to support this development and create attractive conditions for the industry to grow domestically and locate to Wales?

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod maes awyr Llanbedr ym Mharc Cenedlaethol Eryri wedi'i roi ar y rhestr fer fel safle addas ymhlith holl feysydd awyr milwrol a sifil y wlad ar gyfer creu maes awyr cyntaf y DU i'r gofod, sy'n syniad cyffrous, fel y byddwch yn cytuno mae'n siŵr. Mae'r diwydiant gofod yn hynod bwysig ac mae'n ddiwydiant sy'n tyfu. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am y gwaith rydych yn ei wneud gan gadw'r cylch nesaf o gronfeydd strwythurol mewn cof, gan gysylltu â Horizon 2020 i gefnogi'r datblygiad hwn a chreu amodau deniadol er mwyn i'r diwydiant dyfu'n ddomestig a lleoli yng Nghymru?

14:01 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure that we are all very pleased across this Chamber about the fact that Llanbedr airfield has been shortlisted as a possible spaceport, and we look forward to hearing more on this. I am sure that the Minister for Economy, Science and Transport will be able to update us. Clearly, where structural funds are available and we can meet the criteria, then we would explore them.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn falch iawn ar draws y Siambr hon o'r ffaith bod maes awyr Llanbedr ar y rhestr fer fel maes awyr posibl i'r gofod, ac rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy am hyn. Rwy'n siŵr y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni. Yn amlwg, os oes cronfeydd strwythurol ar gael a lle y gallwn fodloni'r meini prawf, yna byddem yn eu harchwilio.

Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

The Wales Infrastructure Investment Plan

14:02 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ? OAQ(4)0439(FIN)

4. Will the Minister provide an update on the Wales Infrastructure Investment Plan? OAQ(4)0439(FIN)

14:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Last month, I published the Wales infrastructure investment plan 2014 annual report, highlighting that, through the steps we have taken, we will deliver almost £3 billion of new capital investment in the Welsh economy.

Y mis diwethaf, cyhoeddais adroddiad blynyddol ar gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru 2014, gan dynnu sylw at y ffaith y byddwn yn cyflawni gwerth bron i £3 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf newydd yn economi Cymru drwy'r camau rydym wedi'u cymryd.

14:02 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response. Has the Minister been able to arrange an appointment yet with the new Secretary of State for Wales to discuss the availability of borrowing powers to fund infrastructure projects? Does she think that, with a new Secretary of State, there is more likely to be success in coming to a conclusion about paying for the electrification of the Valleys lines?

Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb. A yw'r Gweinidog wedi llwyddo i drefnu apwyntiad gydag Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru eto i drafod pwerau benthyca ar gyfer ariannu prosiectau seilwaith? Gydag Ysgrifennydd Gwladol newydd, a yw'n credu bod llwyddiant i ddod i gasgliad ynghylch talu am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn fwy tebygol?

14:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for Cardiff North for that question. I have to say that, yesterday, I wrote to Stephen Crabb, our new Secretary of State for Wales, to congratulate him on his appointment. I have worked constructively with the new Secretary of State on infrastructure matters in his previous role as a junior Minister in the Wales Office. Indeed, we will both be members of the new joint exchequer committee—our inter-governmental forum taking forward our new financial powers—so it will be about maintaining that positive working relationship with the new Secretary of State. I believe that the Welsh Government's position on the funding for the delivery of railway electrification in Wales is well rehearsed, but there are ongoing discussions with the UK Government.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn. Rhaid imi ddweud fy mod wedi ysgrifennu at Stephen Crabb, Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, ddoe i'w longyfarch ar ei benodiad. Rwyf wedi gweithio'n adeiladol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd ar faterion seilwaith yn ei rôl flaenorol fel Gweinidog iau yn Swyddfa Cymru. Yn wir, bydd y ddau ohonom yn aelodau o gydbwyllgor newydd y trysorlysoedd-ein fforwm rhynglywodraethol ar gyfer datblygu ein pwerau ariannol-felly bydd yn ymwneud â chynnal y berthynas waith gadarnhaol hon gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd. Rwy'n credu bod safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cyllid ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd yng Nghymru yn gadarn, ond mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU.

14:03 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n edrych ymlaen at glywed datganiad ar fuddsoddiad seilwaith yr M4 y prynhawn yma, pan ddylai'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth fod yn cadarnhau bod angen edrych ar bob opsiwn cyn comitio arian i'r prosiect. A allaf gael sicrwydd bod y Gweinidog Cyllid wedi pwysu arni hi ar bob achlysur i fynd am opsiwn sy'n rhoi mwy o werth am arian na'r cynllun £1 biliwn?

I look forward to hearing a statement on the M4 infrastructure investment this afternoon, when the Minister with responsibility for transport should confirm that there is a need to look at every option before committing funding to the project. Can you give me an assurance that the Finance Minister has urged her on all occasions to go for an option that provides more value for money than the £1 billion-scheme?

14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, we have to ensure value for money in all of our infrastructure projects and that is why, as I said in response to an earlier question, our better business planning case procedure is so robust in terms of all infrastructure projects.

Yn amlwg, rhaid inni sicrhau gwerth am arian ein holl brosiectau seilwaith ac fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn cynharach, dyna pam y mae ein gweithdrefn ar gyfer cynllunio achos busnes mor gadarn mewn perthynas â'r holl brosiectau seilwaith.

Buddsoddiad Cyfalaf

Capital Investment

14:04 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fuddsoddiad cyfalaf ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0446(FIN)

5. Will the Minister make a statement on capital investment in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0446(FIN)

14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I set out our spending plans for 2014-15, including details of new capital investments in south Wales, in the budget approved by the Assembly last December.

Nodais ein cynlluniau gwario ar gyfer 2014-15, gan gynnwys manylion buddsoddiadau cyfalaf newydd yn ne Cymru, yn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cynulliad fis Rhagfyr diwethaf.

14:04 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Minister. I think you just said that you set out your priorities for south Wales. Brecon and Radnorshire does not find itself in the position of being in south Wales and I would be grateful if you could outline whether you have had time to consult with the Minister for health about the need for a £5 million capital investment in Llandrindod Wells hospital. Such investment would be able to increase the capacity of that hospital to see more people from mid Wales in their home community, rather than their having to travel to services in Herefordshire, as well as being an opportunity to improve the working conditions for the local NHS staff. Could you give us an update on the much-needed funding for Llandrindod Wells?

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Rwy'n credu eich bod newydd ddweud ichi nodi eich blaenoriaethau ar gyfer de Cymru. Nid yw Brycheiniog a Sir Faesyfed i'w gweld wedi'u cynnwys yn ne Cymru a byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu a ydych wedi cael amser i ymgynghori â'r Gweinidog iechyd ynghylch yr angen am fuddsoddiad cyfalaf o £5 miliwn yn ysbyty Llandrindod. Byddai buddsoddiad o'r fath yn cynyddu capasiti'r ysbyty hwnnw i wasanaethu mwy o bobl yng nghanolbarth Cymru yn eu cymuned eu hunain, yn hytrach na'u bod yn gorfod teithio i gael gwasanaethau yn Swydd Henffordd. Byddai'n gyfle hefyd i wella amgylchiadau gwaith i staff lleol y GIG. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cyllid sy'n fawr ei angen ar gyfer Llandrindod?

- 14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I want to first assure the Member for Brecon and Radnorshire that it is an all-Wales infrastructure investment plan. However, in response to your question in terms of Llandrindod Wells County War Memorial Hospital, Powys Teaching Local Health Board is developing a case, as you know, to improve facilities at the hospital. Of course, it requires major reconfiguration of the hospital, with three related phases of capital works, and we have the value now of £5.3 million construction on-site, and it is estimated to begin in late 2015 or 2016.
- Yn gyntaf, rwyf am sicrhau'r Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed ei fod yn gynllun buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, mewn ymateb i'ch cwestiwn ynghylch Ysbyty Coffa Sirol Llandrindod, mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wrthi'n datblygu achos, fel y gwyddoch, i wella cyfleusterau yn yr ysbyty. Wrth gwrs, mae angen gwaith ail-gyflunio mawr ar yr ysbyty, gyda thri cham cysylltiedig o waith cyfalaf, ac mae cost y gwaith adeiladu ar y safle bellach yn £5.3. Amcangyfrifir y bydd y gwaith yn dechrau ar ddiwedd 2015 neu yn 2016.
- 14:06 **Paul Davies** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Minister, in your recent statement on capital investments, you estimate that your capital investments would create around 20,000 jobs. Can you tell us how many of those jobs will be created in Brecon and Radnorshire, and will you commit to publishing job creation statistics per constituency in the future, so that Members can see how their respective areas have been impacted by Welsh Government capital investment?
- Weinidog, yn eich datganiad diweddar ar fuddsoddiadau cyfalaf, rydych yn amcangyfrif y byddai eich buddsoddiadau cyfalaf yn creu tua 20,000 o swyddi. A allwch ddweud wrthym faint o'r swyddi hynny a fydd yn cael eu creu ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed ac a wnewch ymrwymo i gyhoeddi ystadegau creu swyddi fesul etholaeth yn y dyfodol, fel y gall yr Aelodau weld sut y mae eu hardaloedd eu hunain wedi cael eu heffeithio gan fuddsoddiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru?
- 14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I think that those are important questions and they also signify to me the importance of the Wales infrastructure investment plan in terms of enabling not just the construction sector, but accountability for us to assure you of the impact of the spend. Looking back to Powys, as you asked a question about Powys, I would have to write to you and, I am sure, the local Member, specifically on that point in terms of capital investment. However, if we look to the investment in twenty-first century schools in Powys, for example, it is £56 million, including £33 million for the Brecon campus; £15.13 million in terms of primary education in the Gwernyfed area, and also Llanidloes and Machynlleth. We are investing, and we need to then identify where these construction jobs are. I will be happy to look at that question in terms of more detail.
- Rwy'n meddwl bod y rhain yn gwestiynau pwysig ac maent hefyd yn dynodi pwysigrwydd y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru o ran galluogi nid yn unig y sector adeiladu, ond hefyd atebolrwydd er mwyn i ni roi sicrwydd i chi ynghylch effaith y gwariant. Wrth edrych ar Bowys, gan ichi ofyn cwestiwn am Bowys, byddai'n rhaid imi ysgrifennu atoch ac at yr Aelod lleol rwy'n siŵr, ar y pwynt hwnnw'n benodol o ran buddsoddiad cyfalaf. Fodd bynnag, os edrychwn ar y buddsoddiad mewn ysgolion unfed ganrif ar hugain ym Mhowys, er enghraifft, mae'n £56 miliwn, gan gynnwys £33 miliwn ar gyfer campws Aberhonddu; £15.13 miliwn o ran addysg gynradd yn ardal Gwernyfed, a hefyd Llanidloes a Machynlleth. Rydym yn buddsoddi, ac mae angen inni nodi wedyn lle y mae'r swyddi adeiladu hyn. Rwy'n hapus i edrych ar y cwestiwn yn fwy manwl.
- 14:07 **Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I am sure that we will look forward to welcoming the Royal Welsh to Llanellwedd next week once again. Many people will arrive at the Royal Welsh in a more convenient and quicker way, thanks to the investment in the road infrastructure in Brecon and Radnorshire by the previous Government, led by the then Minister for transport, Ieuan Wyn Jones. [Interruption.] There is the wonderful Newbridge bypass and the much improved positions there. The previous Minister for transport thought it was better to spread the money around in a properly integrated transport figure of eight throughout Wales, rather than bulldozing a new M4 through the wetlands around Gwent. Will you now, as the Minister for Finance, maintain that policy of ensuring spending in all parts of Wales, including Brecon and Radnorshire, rather than wasting £1 billion on an M4 that is not needed environmentally or for transport or for the economy?
- Rwy'n siŵr ein bod yn edrych ymlaen at groesawu Sioe Frenhinol Cymru i Llanellwedd yr wythnos nesaf unwaith eto. Bydd llawer o bobl yn cyrraedd Sioe Frenhinol Cymru mewn ffordd fwy cyfleus a chyflymach, diolch i fuddsoddiad y Llywodraeth flaenorol yn y seilwaith ffyrdd yn Aberhonddu a Sir Faesyfed, dan arweiniad y Gweinidog trafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones. [Torri ar draws.] Mae ffordd osgoi Bontnewydd-ar-Wy yn wych a'r amgylchiadau'n llawer gwell yno. Credai'r Gweinidog trafnidiaeth blaenorol ei bod yn well rhannu'r arian mewn ffigwr wyth ar gyfer trafnidiaeth integredig briodol ym mhob rhan o Gymru, yn hytrach na thurio M4 newydd trwy wlyptiroedd Gwent. A wnewch chi yn awr, fel y Gweinidog Cyllid, gynnal y polisi o sicrhau gwariant ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys Brycheiniog a Sir Faesyfed, yn hytrach na gwastraffu £1 biliwn ar M4 nad oes mo'i hangen yn amgylcheddol nac ar gyfer trafnidiaeth na'r economi?

14:08	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I know that the Member would welcome, and has welcomed, as I am sure that his party does, the £300 million that we have invested in completing the dualling of the A465. This is a major, key Welsh transport artery in terms of the Heads of the Valleys, and I hope that the Minister is nodding—I hope that the Member is nodding. The Minister is certainly nodding in terms of the £300 million for the Heads of the Valleys road. That is a trans-European transport network that is going to be completed by 2020, and I am sure that we played a part together in the One Wales Government in ensuring that investment. However, we, a Welsh Labour Government, are completing it.</p>	<p>Gwn y byddai'r Aelod yn croesawu, ac mae wedi croesawu, fel ei blaid rwy'n siŵr, y £300 miliwn rydym wedi'i fuddsoddi yn cwblhau'r gwaith deuoli ar yr A465. Dyma un o brif wythiennau, trafndiaeth allweddol Cymru o ran Blaenau'r Cymoedd, ac rwy'n gobeithio bod y Gweinidog yn nodio—rwy'n gobeithio bod yr Aelod yn nodio. Mae'r Gweinidog yn sicr yn nodio o ran y £300 miliwn ar gyfer ffordd Blaenau'r Cymoedd. Dyna rwydwaith trafndiaeth traws-Ewropeaidd sy'n mynd i gael ei gwblhau erbyn 2020, ac rwy'n siŵr ein bod wedi chwarae rhan gyda'n gilydd yn Llywodraeth Cymru'n Un i sicrhau'r buddsoddiad hwnnw. Fodd bynnag, ni, Llywodraeth Lafur Cymru, sy'n ei gwblhau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Buddsoddiad Cyfalaf		Capital Investment	
14:09	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad cyfalaf yn y rhanbarth Dwyrain De Cymru?</i> OAQ(4)0443(FIN)</p>	<p><i>6. Will the Minister make a statement on capital investment in the South Wales East region?</i> OAQ(4)0443(FIN)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>The Wales infrastructure investment plan sets out our priorities for capital investment across Wales, including the South Wales East region. [Interruption.]</p>	<p>Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf ar draws Cymru, gan gynnwys rhanbarth Dwyrain De Cymru. [Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I am sorry, but Members listened to the answers that you were given and when you were asking questions, so can you listen to the others, please?</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf, ond gwrandawodd yr Aelodau ar yr atebion a roddwyd i chi a phan oeddech yn gofyn cwestiynau, felly a allwch chi wrando ar y lleill, os gwelwch yn dda?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I think that William Graham did receive my answer.</p>	<p>Credaf fod William Graham wedi cael fy ateb.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much, Minister; I am most grateful. You will be aware of the open letter from Wales's leading business organisations outlining the M4 relief road's key role in economic prosperity for Wales. It is therefore a vital capital investment for South Wales East, and for Wales as a whole. We look forward to the statement later in the day and, having repeatedly called for action on this for many years, I am also grateful to the Minister for her help in the financial transactions that are yet to be completed.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn, Weinidog; Rwy'n ddiolchgar iawn. Byddwch yn ymwybodol o'r llythyr agored gan sefydliadau busnes mwyaf blaenllaw Cymru yn amlinellu rôl allweddol ffordd liniaru'r M4 yn ffyniant economaidd Cymru. Felly mae'n fuddsoddiad cyfalaf hanfodol ar gyfer Dwyrain De Cymru, ac ar gyfer Gymru gyfan. Rydym yn edrych ymlaen at y datganiad yn ddiweddarach yn y dydd ac ar ôl galw dro ar ôl tro am weithredu ar hyn ers blyneddau lawer, rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei chymorth gyda'r trafodion ariannol sydd eto i'w cwblhau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I have nothing further to add.</p>	<p>Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:10 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, there has been some criticism from various sources regarding the level of funding that will be made available for the implementation of the south-east Wales city region metro plan. I appreciate that there is now a working board and that relationships have to be established first to ensure effective working, but are you confident now that adequate money can be made available for the plan since the monopoly madness of the M4, so that it can live up to expectations in terms of infrastructure improvements that are pre-requisite to its success, or will we, in fact, not be able to pass Go and collect even £200?

Weinidog, cafwyd beirniadaeth o wahanol ffynonellau ynglŷn â lefel yr arian a fydd ar gael ar gyfer gweithredu cynllun metro dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi bod gweithgor yn bodoli bellach a bod yn rhaid sefydlu perthynas yn gyntaf i sicrhau gweithio effeithiol, ond a ydych yn hyderus yn awr y bydd digon o arian ar gael ar gyfer y cynllun ers gwallgofrwydd Monopoly yr M4, fel y gall gyrraedd y disgwyliadau o ran gwelliannau seilwaith sy'n hanfodol ar gyfer ei lwyddiant, neu a fyddwn ni, mewn gwirionedd, yn methu â chasglu £200 am basio Ewch hyd yn oed?

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I am glad that Lindsay Whittle has raised the question about our investment in the metro plan. It is the south-east Wales region, in terms of the integrated transport scheme, that will benefit from the metro. I already said in answer to an earlier question that I have already put in £62 million over three years for this new and potentially transformational scheme for south-east Wales through bus and rail links. I would also have to say that, again, in terms of south-east Wales, there is the investment that we have already put into the A465, and, indeed, in terms of rail links with the Ebbw Vale rail link, which is crucial in terms of those investments.

Rwy'n falch bod Lindsay Whittle wedi gofyn y cwestiwn am ein buddsoddiad yn y cynllun metro. O ran y cynllun trafnidiaeth integredig, rhanbarth de-ddwyrain Cymru sy'n mynd i elwa o'r metro. Dywedais eisoes wrth ateb cwestiwn yn gynharach fy mod eisoes wedi rhoi £62 miliwn dros dair blynedd tuag at y cynllun newydd, a thrawsnewidiol o bosibl, ar gyfer de-ddwyrain Cymru drwy gysylltiadau bysiau a rheilffordd. Rhaid imi gyfeirio, unwaith eto o ran de-ddwyrain Cymru, at y buddsoddiad rydym eisoes wedi'i wneud yn yr A465, ac yn wir, mewn perthynas â'r cysylltiadau trên â chyswllt rheilffordd Glyn Ebwy, sy'n hanfodol hefyd o ran y buddsoddiadau hynny.

14:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Question 7 was grouped with question 3, so we move to question 8.

Cafodd cwestiwn 7 ei grwpio gyda chwestiwn 3, felly rydym yn symud i gwestiwn 8.

Cyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

The Health and Social Services Budget

14:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba mor ddigonol yw'r gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0435(FIN)

8. Will the Minister make a statement on the adequacy of the overall budget allocated to the Health and Social Services portfolio? OAQ(4)0435(FIN)

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

This Government is committed to protecting health and social services in these challenging times, and the Minister for Health and Social Services and I keep his budget under close review.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i ddiogelu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y cyfnod heriol hwn, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau yn cadw llygad manwl ar y gyllideb hon.

14:12 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, every report, review and evaluation into the Welsh NHS comes to the conclusion that it is underperforming, underfunded, and under-resourced. The section of the budget allocated to the Welsh NHS by the Welsh Government clearly is insufficient, and report after report says so. You are going to undertake some work over the summer period with the Minister for Health and Social Services. Which pocket are you going to pinch from in order to support the Welsh NHS?

Weinidog, daw pob adroddiad, adolygiad a gwerthusiad ar GIG Cymru i'r casgliad ei fod yn tangyflawni, ac nad oes ganddo ddigon o arian ac adnoddau. Mae'r rhan o'r gyllideb a ddyrennir i GIG Cymru gan Lywodraeth Cymru yn amlwg yn annigonol ac mae adroddiad ar ôl adroddiad yn dweud hynny. Rydych yn mynd i wneud rhywfaint o waith dros yr haf gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. O ba boced rydych yn mynd i ddwyn er mwyn cynorthwyo GIG Cymru?

- 14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that Darren Millar needs to be reminded again that UK Government cuts—your UK Government cuts—mean that, by 2015-16, the Welsh budget can—[Interruption.] Do they want to hear, Llywydd? The Welsh budget will be 10% lower in real terms than it was in 2010-11. Despite this, of course, the budget for the Welsh NHS is the biggest that it has ever been, which is a clear demonstration of this Government's commitment to a sustainable health service for Wales and, importantly, a sustainable health service for Wales which, in Wales, is free at the point of need.
- Rwy'n meddwl bod angen atgoffa Darren Millar unwaith eto bod toriadau Llywodraeth y DU—toriadau eich Llywodraeth chi—yn golygu y gall cyllideb Cymru erbyn 2015-16—[Torri ar draws.] A ydynt eisiau clywed, Lywydd? Bydd cyllideb Cymru 10% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11. Er gwaethaf hyn, wrth gwrs, mae'r gyllideb ar gyfer GIG Cymru yn fwy nag y bu erioed, sy'n arwydd clir o ymrwymiad y Llywodraeth hon i wasanaeth iechyd cynaliadwy ar gyfer Cymru ac yn bwysig, gwasanaeth iechyd cynaliadwy ar gyfer Cymru sy'n rhad ac am ddim lle y mae'r angen yng Nghymru.
- 14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call Nick Ramsay. I see that you do not wish to speak. Your name is down.
- Galwaf ar Nick Ramsay. Gwelaf nad ydych yn dymuno siarad. Mae eich enw i lawr.
- Gwerth am Arian** **Value for Money**
- 14:13 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau gwerth am arian ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0432(FIN)*
- 9. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to deliver value for money across all Welsh Government departments? OAQ(4)0432(FIN)*
- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Government is committed to securing value for money for every pound that we spend.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian pob punt a wariwn.
- 14:13 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In last year's Finance Committee report on the draft budget, a recommendation was made that the Welsh Government makes greater efforts to evidence the value-for-money considerations that go into its funding decisions. Ahead of the next budget, can you tell us, Minister, what specific steps the Welsh Government has taken to actually address that particular recommendation?
- Yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid y llynedd ar y gyllideb ddrafft, gwnaed argymhelliad bod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ymdrech i ddangos tystiolaeth o'r ystyriaethau ynghylch gwerth am arian sy'n sail i'w phenderfyniadau cyllido. Cyn y gyllideb nesaf, a allwch ddweud wrthym, Weinidog, pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r argymhelliad penodol hwn mewn gwirionedd?
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to Paul Davies for his question because it very much follows through our debate yesterday on the supplementary budget. We have already, of course, in terms of the progress report by the First Minister on the programme for government, which was published in June of this year, set out how the Welsh Government resources have to align to the four priority areas. Those priority areas, again, are worth repeating: growth and jobs; health and wellbeing; educational attainment; and supporting children, families and deprived communities. We are working to ensure that those spending decisions are informed by robust evidence and what we consider to be value for money through the policy development and delivery on those themes. It is more important than ever, in terms of the toughest public finance climate that we are in, that we have cost-effective approaches to delivery.
- Diolch i Paul Davies am ei gwestiwn oherwydd mae'n dilyn ymlaen yn bendant o'n dadl ddoe ar y gyllideb atodol. O ran yr adroddiad cynnydd gan y Prif Weinidog ar y rhaglen lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin eleni, rydym eisoes wrth gwrs wedi nodi sut y mae'n rhaid i adnoddau Llywodraeth Cymru alinio â'r pedwar maes blaenoriaeth. Mae'n werth ailadrodd y meysydd blaenoriaeth eto: twf a swyddi; iechyd a lles; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y penderfyniadau gwariant yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn a beth rydym yn ei ystyried sy'n werth am arian drwy ddatblygu polisi a chyflawni ar y themâu hynny. O ran yr hinsawdd cyllid cyhoeddus anoddaf sy'n ein hwynebu, mae'n bwysicach nag erioed fod gennym ddulliau cost-ffeithiol o gyflawni.

14:15	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Yn dilyn rhannu'r cyn-bortffolio a'r gyllideb ar gyfer cyfoeth naturiol a bwyd ymhlith dwy adran newydd—a rhwng dau Weinidog newydd a Dirprwy Weinidog—beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau na fydd hynny'n arwain at lai o werth am arian i'r pwrs cyhoeddus?</p>	<p>Following the splitting of the former natural resources and food portfolio and budget among two new departments—and between two new Minister and a Deputy Minister—what are you doing to ensure that it will not lead to less value for money for the public purse?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Clearly, in terms of value for money for the public purse, it is our responsibility as a Government that will drive that, working very closely with the Ministers to deliver on it.</p>	<p>Yn amlwg, o ran gwerth am arian y pwrs cyhoeddus, ein cyfrifoldeb fel Llywodraeth a fydd yn sbarduno hynny, gan weithio'n agos iawn gyda'r Gweinidogion i'w gyflawni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Trysorlys EM</p>		<p>HM Treasury</p>	
14:15	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chyfarfod diwethaf gyda Gweinidogion Trysorlys EM? OAQ(4)0433(FIN)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on her last meeting with HM Treasury Ministers? OAQ(4)0433(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I met with UK Treasury Ministers last month to discuss a range of financial issues, including the important financial reforms being taken forward by the Wales Bill.</p>	<p>Cefais gyfarfod â Gweinidogion Trysorlys y DU y mis diwethaf i drafod ystod o faterion ariannol, gan gynnwys y diwygiadau ariannol pwysig sy'n cael eu datblygu gan Fil Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much for that. The target date for the devolution of business rates, as you know, is 1 April next year. We are less than 12 months away from that now. Is there any detail that you are able to share on whether negotiations with the Treasury are progressing to enable us to get out there to talk to businesses about what the devolution of business rates will mean?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn. Y dyddiad targed ar gyfer datganoli ardrethi busnes, fel y gwyddoch, yw 1 Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae llai na 12 mis i fynd tan hynny yn awr. A oes unrhyw fanylion y gallwch eu rhannu â ni ynglŷn ag a yw'r trafodaethau gyda'r Trysorlys yn symud ymlaen er mwyn ein galluogi i fynd allan i siarad â busnesau am yr hyn y bydd datganoli ardrethi busnes yn ei olygu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Ann Jones for that question. We are aiming to secure full non-domestic rates devolution by April of next year. We are on track so far. Significant work is also being done in agreeing the details with the Treasury. Of course, there are multiple issues that we have to work through, in terms of the mechanics of the new system. However, it is vital that we get that system in place to ensure that businesses can benefit, and that we can deal with any new risks and uncertainties that might be forthcoming in terms of tax devolution.</p>	<p>Diolch i Ann Jones am y cwestiwn. Rydym yn anelu i sicrhau bod ardrethi annomestig llawn yn cael eu datganoli erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Rydym ar y trywydd iawn hyd yn hyn. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud hefyd ar gytuno ar y manylion gyda'r Trysorlys. Wrth gwrs, mae llawer o faterion sy'n rhaid inni weithio drwyddynt, o ran trefniadau'r system newydd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn cael y system honno ar waith i sicrhau y gall busnesau elwa, ac y gallwn ymdrin ag unrhyw risgiau ac ansicrwydd newydd a allai godi yn sgîl datganoli treth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>What discussions have you had with the UK Treasury regarding payment for social care, reflecting the written statement from the Deputy Minister for Social Services in January? Referring to UK Government reforms in terms of how people in England will pay for their care and support from April 2016, she said that, until she had detail of the reform to be introduced in England, its funding applications and its impact on the Barnett formula, she would be unable to make final decisions on the exact nature of reforms that she would introduce in Wales.</p>	<p>Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Thrysorlys y DU ynghylch talu am ofal cymdeithasol, i adlewyrchu'r datganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Wasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr? Gan gyfeirio at ddiwygiadau Llywodraeth y DU o ran sut y bydd pobl yn Lloegr yn talu am eu gofal a'u cymorth o Ebrill 2016, dywedodd na fyddai'n gallu gwneud penderfyniadau terfynol ar union natur y diwygiadau y byddai'n eu cyflwyno yng Nghymru hyd nes bod ganddi fanylion y diwygio sydd i'w gyflwyno yn Lloegr, ei geisiadau am gyllid a'i effaith ar fformiwla Barnett.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:17	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, I stand in support of the Deputy Minister for Social Services, in progressing her negotiations and discussions with the UK Government, in terms of payment for social care and the implications that that might have for developing our draft budget.</p>	<p>Wrth gwrs, rwy'n cefnogi'r Dirprwy Weinidog Wasanaethau Cymdeithasol wrth iddi ddatblygu ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU, o ran taliadau am ofal cymdeithasol a'r goblygiadau y gallai hynny eu cael ar ddatblygu ein cyllideb ddrafft.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Rhaglen Buddsoddi i Arbed		Invest-to-save Programme	
14:17	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>11. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Buddsoddi i Arbed? OAQ(4)0436(FIN)</p>	<p>11. Will the Minister provide an update on the Invest-to-Save programme? OAQ(4)0436(FIN)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Paul Davies Bywgraffiad Biography		13. Will the Minister make a statement on the Invest-to-Save fund? OAQ(4)0431(FIN)	
14:17	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Presiding Officer, I understand that you have given permission for questions 11 and 13 to be grouped. Since the invest-to-save fund has been operating, £11.8 million has been provided to public sector organisations covering the constituency of Islwyn. The Welsh Government has published today a response to the recent independent review of the invest-to-save fund.</p>	<p>Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 11 a 13 gael eu grwpio. Ers i'r gronfa buddsoddi i arbed fod yn weithredol, darparwyd £11.8 miliwn i sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n cynnwys etholaeth Islwyn. Heddiw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r adolygiad annibynnol diweddar o'r gronfa buddsoddi i arbed.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer. The Minister will be aware that my constituents in Islwyn will benefit from the fund, to the tune of £1 million to be provided to the Aneurin Bevan Local Health Board, leading to estimated savings of £2.5 million by 2020. Does she agree with me that a programme of investment represents a better approach to efficiency in public services than the blunt one forced upon us by the UK Government?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol fod fy etholwyr yn Islwyn yn mynd i elwa o'r gronfa, drwy'r £1 filiwn a ddarparwyd ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, gan arwain at arbedion amcangyfrifedig o £2.5 miliwn erbyn 2020. A yw hi'n cytuno â mi bod rhaglen fuddsoddi yn ddull gwell o wneud arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus na'r un greulon a orfodir arnom gan Lywodraeth y DU?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Again, the invest-to-save fund—and I thank Gwyn Price for that question—is an example of the innovative way in which we are levering in new sources of finance to the public sector, to drive that kind of change and innovation. It is an excellent approach to achieve efficiencies, as well as innovation, in public services at a time when we have seen—and I will repeat this again—a 10% real-terms cut in our budget up to 2015.</p>	<p>Unwaith eto, mae'r gronfa buddsoddi i arbada diolch i Gwyn Price am y cwestiwn-yn enghraifft o'r ffordd arloesol rydym yn denu ffynonellau newydd o gyllid i'r sector cyhoeddus er mwyn gyrru'r math hwn o newid ac arloesedd. Mae'n ddull gwych o gyflawni arbedion effeithlonrwydd, yn ogystal ag arloesedd, yn y gwasanaethau cyhoeddus ar adeg pan rydym wedi gweld-ac rwyf am ailadrodd hyn eto-10% o doriad mewn termau real yn ein cyllideb hyd at 2015.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:19	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>As you have already highlighted, an independent evaluation was undertaken to consider the progress being made by the fund, and the projects that it has supported. The report, though positive, highlighted that guidance should be developed to enable project applications to better identify and subsequently monitor non-cash-releasing benefits of fund projects. In light of that report, Minister, will you be issuing guidance, so that projects are better able to plan for, and demonstrate, non-cash-releasing savings in the future?</p>	<p>Fel rydych eisoes wedi nodi, cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y gronfa, a'r prosiectau y mae wedi'u cefnogi. Roedd yr adroddiad, er yn gadarnhaol, yn tynnu sylw at y ffaiith y dylid datblygu canllawiau i alluogi ceisiadau prosiect i nodi, ac yna i fonitro manteision y prosiectau cyllido nad ydynt yn rhyddhau arian parod. Yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw, Weinidog, a fyddwch yn cyhoeddi canllawiau, fel bod modd i brosiectau fynd ati i gynllunio'n well a dangos arbedion nad ydynt yn rhyddhau arian parod yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:19	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Certainly, I welcome that question. That independent evaluation made a number of recommendations, and I have accepted them all. You will see that in my written statement today. I think that it is important that we look at the non-cash-releasing benefits, because invest-to-save is driving change—it is driving collaboration, as the evaluation has shown, it is also enabling innovation, and it is enabling collaboration between health and social care, as well as in local government and across the whole of Wales. So, certainly, I will be producing the guidance.</p>	<p>Rwy'n sicr yn croesawu'r cwestiwn. Gwnaeth y gwerthusiad annibynnol nifer o argymhellion ac rwyf wedi derbyn pob un ohonynt. Byddwch yn gweld hynny yn fy natganiad ysgrifenedig heddiw. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni edrych ar y manteision nad ydynt yn rhyddhau arian parod, gan fod buddsoddi i arbed yn ysgogi newid-mae'n ysgogi cydweithio, fel y dangosodd y gwerthusiad, ac mae hefyd yn galluogi arloesedd a chydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, o fewn llywodraeth leol ac ar draws Cymru gyfan. Felly'n bendant, byddaf yn cynhyrchu'r canllawiau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae'n bwysig cofio egwyddor buddsoddi er mwyn arbed arian. A yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai buddsoddi £400 miliwn mewn M4 gallach na'r cynllun du yn fodd o arbed cannoedd o filiynau o bunnau i'w gwario ar brosiectau strwythurol ledled Cymru?</p>	<p>It is important to bear in mind the principle of investing in order to save money. Does the Minister agree that investing £400 million in a better M4 than the black route would save hundreds of millions of pounds to be spent on structural projects across Wales?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I think, Llywydd, that I am not sure of the relevance of this question, but I would say this:</p> <p>Rhun, mae'n bwysig iawn symud ymlaen gydag 'invest-to-save'.</p>	<p>Lywydd, nid wyf yn siŵr fod y cwestiwn yn berthnasol, ond byddwn yn dweud hyn:</p> <p>Rhun, it is very important to move forward with invest-to-save.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I think that we will be grateful for any reception this afternoon, the way we are going on, Minister.</p>	<p>Rwy'n meddwl y byddwn yn ddiolchgar am unrhyw dderbyniad y prynhawn yma, o ystyried y ffordd rydym yn mynd drwyddi, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Tryloywder yn y Broses Gyllidebol		Transparency in the Budgetary Process	
14:21	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>12. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau tryloywder ym mhroses gyllidebol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0441(FIN)</i></p>	<p><i>12. What steps is the Minister taking to ensure transparency in the Welsh Government's budgetary process? OAQ(4)0441(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Accountability and transparency are an important principle at the heart of this Government and its budgetary process. That is why we have taken a number of steps in recent years to improve the transparency of our spending plans.</p>	<p>Mae atebolrwydd a thryloywder yn egwyddorion pwysig sy'n ganolog i'r Llywodraeth hon a'i phroses gyllidebol. Dyna pam rydym wedi rhoi nifer o gamau ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella tryloywder ein cynlluniau gwariant.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:21

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Nid yw hwn am yr M4 newydd, ond mae'r Gweinidog yn ymwybodol bod cwestiynau wedi eu codi yn ystod yr wythnosau diwethaf ynglŷn â pherthynas yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei ddatgan yw ei hymrwymiad mewn perthynas â gwario ar ysgolion ag unrhyw arian ychwanegol sy'n dod yn sgîl cytundebau gyda phleidiau eraill—yn y cyd-destun hwn, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru—a materion y grant amddifadedd disgyblion. Roedd y Llywodraeth wedi dweud y byddai mwy o wybodaeth yn dod yn gyhoeddus yn fuan, ac roeddem wedi gobeithio, erbyn y cwestiwn hwn, y byddai wedi dod yn gyhoeddus, i esbonio'r cyswllt rhwng y ddau ymrwymiad hyn. A fedr y Gweinidog ddweud mwy heddiw am sut y mae diogelu bod y ddau ymrwymiad yn cael eu trin yn deg a chyfartal a bod modd gweld hynny yng nghyllideb Llywodraeth Cymru?

I thank the Minister for that reply. This is not about the new M4, but the Minister is aware that questions have been raised in recent weeks about the relationship between what the Government has declared its commitment to be with respect to spending on schools in relation to any extra money that comes in the wake of agreements with other parties—in this context, the Liberal Democrats and Plaid Cymru—and issues of the pupil deprivation grant. The Government has said that more information would become public soon, and we had hoped, by the time of this question, that that would have become public, to explain the link between these two commitments. Could the Minister say more today about how to safeguard the two commitments to ensure that they are treated fairly and equally and so that that can be seen in the Welsh Government's budget?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question, and I also responded, of course, on this point yesterday fully in the supplementary budget report. I certainly will want to ensure that you do get the information in terms of the 1% spend as speedily as possible, and I would want to write to Members, or get the Minister for Education and Skills to write to Members, in terms of the timing of that. However, I do just want to make a final point on this. My understanding is that we have increased spending on Welsh schools by more than 1% above the overall changes to the block grant since our commitment in 2011-12, but also, vitally important, in terms of pupil deprivation grant, is that we have delivered on our budget agreement in terms of doubling that spend, and, indeed, we are monitoring that very carefully in terms of the delivery of that spend at school level.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn, ac ymatebais ar y pwynt hwn yn llawn ddoe hefyd wrth gwrs yn yr adroddiad ar y gyllideb atodol. Byddaf yn sicr yn awyddus i'ch sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth o ran y gwariant 1% mor gyflym ag y bo modd, a byddwn yn awyddus i ysgrifennu at yr Aelodau, neu ofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ysgrifennu at yr Aelodau, o ran amseriad hynny. Fodd bynnag, hoffwn wneud un pwynt terfynol ar hyn. Fy nealltwriaeth i yw ein bod wedi cynyddu gwariant ar ysgolion Cymru fwy nag 1% uwchben y newidiadau cyffredinol i'r grant bloc ers ein hymrwymiad yn 2011-12, ond hefyd, yr hyn sy'n allweddol bwysig o ran y grant amddifadedd disgyblion, yw ein bod wedi cyflawni ein cytundeb cyllidebol o ran dyblu'r gwariant hwnnw, ac yn wir, rydym yn monitro hynny'n ofalus iawn o ran y cyflawni'r gwariant ar lefel ysgolion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, with the three-year cycle now available to local health boards, it is important, obviously, that there is as much transparency as possible in their budgets, so that there cannot be some nasty shocks built up over the years. What confidence do you have, Minister for Finance, that such transparency does exist in their budget arrangements and that you are not just storing up more problems for three years down the road, either for the next Assembly or for future Ministers?

Weinidog, gyda'r cylch tair blynedd bellach ar gael i fyrdau iechyd lleol, mae'n amlwg yn bwysig fod eu cyllidebau mor dryloyw â phosibl, fel na fydd dim a allai beri syndod annisgwyl yn cronni dros y blynyddoedd. Pa hyder sydd gennych, Weinidog Cyllid, fod tryloywder o'r fath yn bodoli yn eu trefniadau cyllidebol ac nad ydych yn storio mwy o broblemau ymhen tair blynedd, naill ai ar gyfer y Cynulliad nesaf neu ar gyfer Gweinidogion yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the leader of the opposition for that question, because, of course, we worked together across the Chamber, led by the Minister for Health and Social Services, to get these three-year planning cycle arrangements for health finance, and I can assure the Member that not only has it been welcomed by the health boards and sectors, but that we are monitoring it very closely indeed. Of course, plans will not be signed off in terms of the three-year span, unless they deliver in terms of the business planning expectations.

Rwy'n diolch i arweinydd yr wrthblaid am y cwestiwn, oherwydd buom yn gweithio gyda'n gilydd ar draws y Siambr, wrth gwrs, dan arweiniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar lunio'r trefniadau cylch cynllunio tair blynedd ar gyfer cyllid iechyd, a gallaf sicrhau'r Aelod ei fod nid yn unig wedi cael croeso gan y byrddau iechyd a'r sectorau, ond ein bod hefyd yn ei fonitro'n agos iawn yn wir. Wrth gwrs, ni fydd cynlluniau'n cael eu cymeradwyo ar gyfer y cyfnod o dair blynedd oni bai eu bod yn cyflawni'r disgwyliadau o ran cynllunio busnes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 13 was grouped with question 11, so question 14 from Jenny Rathbone is next.

Cafodd cwestiwn 13 ei grwpio gyda chwestiwn 11, felly cwestiwn 14 gan Jenny Rathbone sydd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfrifoldebau Amgylcheddol Llywodraeth Cymru

The Welsh Government's Environmental Responsibilities

14:24 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad yn y gyllideb i gwrdd â chyfrifoldebau amgylcheddol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0440(FIN)

14. Will the Minister make a statement on the budget allocation to meet the Welsh Government's environmental responsibilities? OAQ(4)0440(FIN)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank Jenny Rathbone for the question. In the 2014 budget, the natural resources and food main expenditure group included some £300 million in revenue and £114 million in capital. As well as the environmental programmes within the natural resources, culture and sport portfolio, our environmental responsibilities are supported by programmes across Welsh Government budgets.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn. Yng nghyllideb 2014, roedd prif grŵp gwariant cyfoeth naturiol a bwyd yn cynnwys tua £300 miliwn o refeniw a £114 miliwn o gyfalaf. Yn ogystal â'r rhaglenni amgylcheddol yn y portffolio cyfoeth naturiol, diwylliant a chwaraeon, caiff ein cyfrifoldebau amgylcheddol eu cefnogi gan raglenni ar draws cyllidebau Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:25 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Looking at the sustainability of our companies, some of our largest employers are also very large consumers of electricity. I was concerned to learn that neither Celsa nor Tata are using conventional renewables on their sites, which would help reduce their electricity bills—although Tata does recycle some of its gas from its gas furnace in order to capture and use it in its power turbines. What can the Government do to encourage private companies to see what opportunities exist for using renewables to reduce their energy bills and therefore safeguard jobs?

O edrych ar gynaliadwyedd ein cwmnïau, mae rhai o'n cyflogwyr mwyaf hefyd yn defnyddio llawer iawn o drydan. Roeddwn yn bryderus o glywed nad yw Celsa na Tata yn defnyddio ynni adnewyddadwy confensiynol ar eu safleoedd, a fyddai'n helpu i leihau eu biliau trydan—er bod Tata yn ailgylchu peth o'i nwy o'i fwrnais nwy er mwyn ei ddal a'i ddefnyddio yn ei dyrbinau pŵer. Beth y gall y Llywodraeth ei wneud i annog cwmnïau preifat i weld pa gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy i leihau eu biliau ynni, ac felly ddiogelu swyddi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:26 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Companies are fully aware of Energy Wales, our low carbon transition framework. It sets out priorities for the transition to a low-carbon economy. In terms of that transition, it is important that the impact of energy and climate change policy on energy-intensive industries is fully considered. That is a matter not just for me as Minister for Finance, but also the Minister for Economy, Science, and Transport.

Mae cwmnïau yn gwbl ymwybodol o Ynni Cymru, ein fframwaith newid carbon isel. Mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer y newid i economi carbon isel. O ran y newid hwnnw, mae'n bwysig bod effaith y polisi newid yn yr hinsawdd ar ddiwydiannau ynni-ddwys yn cael ei ystyried yn llawn. Mae hynny'n fater nid yn unig i mi fel y Gweinidog Cyllid, ond hefyd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth, a Thrafnidiaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gostyngiad yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru

Reduction in the Welsh Government's Budget

14:26 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gostyngiad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ers dechrau'r Cynulliad hwn? OAQ(4)0437(FIN)

15. Will the Minister make a statement on the reduction in the Welsh Government budget since the beginning of this Assembly? OAQ(4)0437(FIN)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:26 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Erbyn 2015-16, bydd y gyllideb 10% yn is mewn termau real nag yr oedd pan ddaeth Llywodraeth bresennol y DU i rym yn 2010.

By 2015-16, the Welsh budget will be 10% lower in real terms than it was when the current UK Government came into office in 2010.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:27 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch yn fawr am hynny. Mae'r Prif Weinidog a Gweinidogion eraill wedi cyhuddo Llywodraeth San Steffan o dagu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gwtogi ar y grant canolog, fel rydych newydd nodi a fydd 10% yn is mewn termau real. Pe bai Llafur yn ennill a ffurfio Llywodraeth yn San Steffan flwyddyn nesaf, a ydych yn rhagweld y bydd y duedd hon yn newid ac y bydd rhagor o arian yn dod i gyllideb Llywodraeth Cymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for that. The First Minister and other Ministers have accused the Westminster Government of stifling public services in Wales by cutting the block grant, as you just pointed out, which will be 10% lower in real terms. If Labour wins and forms a Government in Westminster next year, do you anticipate that this trend will change and that more money will be coming to the Welsh Government budget?

14:27 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am the Welsh Labour Minister for Finance, as Alun Ffred Jones knows. I have made the response, as has the First Minister, that we are responsible for our budget in Wales. We are responsible now. I welcome, at the end of my session of oral questions this afternoon, the fact that we have legislation coming through on our new fiscal powers. It is going to be about how we work with the next Government, which I hope will be a Labour Government, to ensure that we get a fair deal for Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gweinidog Cyllid Llafur Cymru ydwyf fi, fel y gŵyr Alun Ffred Jones. Rwyf wedi ymateb, fel y gwnaeth y Prif Weinidog, drwy ddweud ein bod yn gyfrifol am ein cyllideb yng Nghymru. Rydym yn gyfrifol yn awr. Ar ddiwedd fy sesiwn gwestiynau llafar y prynhawn yma, rwy'n croesawu'r ffaith bod gennym ddeddfwriaeth yn dod drwedd ar ein pwerau cyllidol newydd. Mae'n mynd i ymwneud â'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth nesaf, y gobeithiaf mai Llywodraeth Lafur fydd hi, er mwyn sicrhau ein bod yn cael bargein deg i Gymru.

14:28 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister for Finance, it is important, with the precious resources that you were given via the block grant, that every pound is made to work on behalf of the people of Wales. Previous Welsh Governments have proved to be inept in spending that money. Let us look at the Technium project, for example—over £100 million was wasted on an enterprise initiative that did not prove to be worth the paper it was written on. What confidence can you have that future Assembly Members will not look back on your tenure as Minister for Finance and this particular Government with its other white elephant projects as the precious resources that you were given and squandered?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog Cyllid, gyda'r adnoddau gwerthfawr a gawsoch drwy gyfrwng y grant bloc, mae'n bwysig fod pob punt yn cael ei gwneud i weithio ar ran pobl Cymru. Mae Llywodraethau Cymru yn y gorffennol wedi methu â gwario'r arian hwnnw'n effeithiol. Gadewch inni edrych ar brosiect Technium, er enghraifft—gwastraffwyd dros £100 miliwn ar gynllun menter nad oedd yn werth y papur y cafodd ei ysgrifennu arno. Pa hyder y gallwch ei gael na fydd Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol yn edrych yn ôl ar eich cyfnod fel Gweinidog Cyllid a'r Llywodraeth benodol hon gyda'i phrosiectau eliffant gwyn eraill fel adnoddau gwerthfawr a roddwyd i chi ac a wastraffwyd gennych?

14:29 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is a shame to end these OAQs on this kind of note. I am looking forward to a period of respectful relations with our new Secretary of State for Wales. As Stephen Crabb said, it will be for the benefit of Wales that we develop that respectful working relationship to deliver on what is the toughest financial time that we have faced since devolution and for generations. It is in that tough time that we are now working to deliver for our economy and for the people of Wales, in terms of our values as a Welsh Labour Government for social justice.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n drueni ein bod yn dod â'r cwestiynau hyn i ben ar nodyn o'r fath. Rwy'n edrych ymlaen at gyfnod o berthynas barchus gydag Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru. Fel y dywedodd Stephen Crabb, byddwn yn datblygu perthynas waith barchus er budd Cymru, er mwyn cyflawni yn ystod y cyfnod ariannol anoddaf rydym wedi'i wynebu ers datganoli ac ers cenedlaethau. Yn y cyfnod anodd hwn rydym yn awr yn gweithio i gyflawni dros ein heconomi a thros bobl Cymru, o safbwynt ein gwerthoedd fel Llywodraeth Lafur Cymru, dros gyfiawnder cymdeithasol.

Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydgyhyrchu

Questions to the Minister for Local Government and Government Business

Public Services and Co-production

14:29 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae cyd-gynhyrchu yn cael ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
OAQ(4)0456(LG)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. Will the Minister outline how co-production is used in the delivery of public services in Wales? OAQ(4)0456(LG)

- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business
 Public services need to be a shared endeavour between the user and the service, based on the principles of co-production. Placing people at the heart of the design and the delivery of public service will ensure that they are responsive to their needs. Public service organisations, including local authorities, should work with communities and individuals on service design, involving partners and particularly the third sector, as well as their own staff.
 Mae angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn ymdrech ar y cyd rhwng y defnyddiwr a'r gwasanaeth, yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu. Bydd gosod pobl ynghanol y cynllun a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn ymatebol i'w hanghenion. Dylai sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, weithio gyda chymunedau ac unigolion ar gynllunio gwasanaethau, gan gynnwys partneriaid a'r trydydd sector yn benodol, yn ogystal â'u staff eu hunain.
- 14:30 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Last week, when I asked to what extent you realised that co-production means a complete revolution in the way that things are done, you replied,
 Yr wythnos diwethaf, pan ofynnais i ba raddau y sylweddolech fod cydgyhyrchu yn golygu chwyldro cyflawn o ran y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud, eich ateb oedd,
 'It is not a completely new way of working'.
 'Nid yw'n ffordd gwbl newydd o weithio'.
 What dialogue have you had, or will you consider having, with Co-production Wales, which told me that it is not just a nice add-on, but a new way of operating for the Government, as well as public service professionals, and citizens themselves? Colleagues in Western Australia, who sent their mental health commissioner to speak at a conference in Cardiff on co-production last December, advised Wales that we have to decide whether we are adding on a programme or are reforming the system.
 Pa ddeialog a gawsoch, neu y byddwch yn ystyried ei chael, gyda Cydgyhyrchu Cymru, a ddywedodd wrthyf nad ychwanegiad bach yn unig ydyw ond ffordd newydd o weithredu ar gyfer y Llywodraeth, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus, a dinasyddion eu hunain? Cynghorwyd Cymru gan gydweithwyr yng Ngorllewin Awstralia, a anfonodd eu comisiynydd iechyd meddwl i siarad mewn cynhadledd yng Nghaerdydd ar gyd-gynhyrchu fis Rhagfyr diwethaf, fod rhaid inni benderfynu ai ychwanegu rhaglen rydym yn ei wneud ynteu ddiwygio'r system.
- 14:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I am very happy to have discussions with them. I think that I actually saw last week that the first time that the term 'co-production' was used was something like 1973, so, as I say, it is not completely new. I do think that it is very important that service users, in particular, are asked their views as those service designs are taken forward. But, I am very happy to have discussions with them, if they wish.
 Rwy'n hapus iawn i gael trafodaethau gyda hwy. Mewn gwirionedd, rwy'n credu fy mod wedi gweld yr wythnos diwethaf mai'r tro cyntaf y defnyddiwyd y term 'cydgyhyrchu' oedd tua 1973, felly fel rwy'n dweud, nid yw'n gwbl newydd. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn holi barn defnyddwyr gwasanaeth, yn benodol, wrth weithredu'r cynlluniau hynny ar gyfer gwasanaethau. Ond rwy'n hapus iawn i gael trafodaethau gyda hwy, os ydynt yn dymuno.
- 14:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Cydweithio yr ydych chi wedi bod yn ei bwysleisio, fel Llywodraeth, er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus, a dyna oedd yn eich maniffesto chi, wrth gwrs. Bellach, rydych wedi penderfynu—neu mae'r Prif Weinidog wedi penderfynu—bod yn rhaid ad-drefnu llywodraeth leol er mwyn cael y gwasanaethau gorau. A ydy hynny'n golygu bod eich rhaglen gydweithio chi wedi bod yn fethiant?
 You, as a Government, have been emphasising collaboration in order to improve public services, and that was included in your manifesto of course. By now, you have decided—or the First Minister has decided—that local government needs to be reorganised in order to get the best services. Does that mean that your collaboration programme has been a failure?
- 14:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Not at all, but I do not think that we have seen the extent of collaboration that we would do. Some Members have asked me whether we will encourage collaboration still, and that is certainly the case.
 Dim o gwbl, ond nid wyf yn credu ein bod wedi gweld faint o gydweithredu y byddem yn ei wneud. Mae rhai Aelodau wedi gofyn i mi a fyddwn yn annog cydweithredu o hyd, ac mae hynny'n sicr yn wir.

Brycheiniog a Sir Faesyfed

Brecon and Radnorshire

14:32	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0452(LG)</p>	<p>2. Will the Minister make a statement on the delivery of public services in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0452(LG)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Our purpose is to ensure better public services and better outcomes for the people of Wales. Strengthening democratic leadership and governance is key to the delivery of better sustainable public services, capable of meeting the challenges ahead.</p>	<p>Ein pwrpas yw sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus a gwell canlyniadau i bobl Cymru. Mae cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu democrataidd yn allweddol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy gwell a all oresgyn yr heriau sydd o'n blaenau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, what analysis have you carried out of demographic changes within Brecon and Radnorshire, and the effect that that will have on the design, delivery, and sustainability of public services? Over the next decade or so, we will see a significant increase in the number of people in Brecon and Radnorshire over the age of 80—a much higher proportion than anywhere else in Wales—as well as a net migration of young people out of the county. That has significant consequences for the funding of social services and health services, and, indeed, for the ability to recruit and retain staff to deliver those services. Have you been looking at this in how you plan for service delivery, and, indeed, in how you fund counties that have a significantly aged population?</p>	<p>Weinidog, pa ddadansoddiad rydych wedi'i wneud o newidiadau demograffig ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, a'r effaith a gaiff hynny ar gynllun, cyflawniad a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus? Dros y degawd neu ddau nesaf, byddwn yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed sydd dros 80 oed—cyfran lawer uwch nag unrhyw le arall yng Nghymru—yn ogystal ag allfudo net ymhlith pobl ifanc o'r sir. Mae i hynny ganlyniadau sylweddol o ran cyllido gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, ac yn wir, o ran y gallu i recriwtio a chadw staff i ddarparu'r gwasanaethau hynny. A ydych wedi bod yn edrych ar hyn o ran y ffordd rydych yn cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau, ac yn wir, o ran y modd y byddwch yn cyllido siroedd sydd â phoblogaeth oedranus sylweddol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, that is something that we are looking at. You will be aware that the commission's recommendation to merge Powys County Council and Powys Teaching Local Health Board is something that the Minister for Health and Social Services and I are looking at, to take it forward. I think that the reason for that is because there are obviously unique circumstances in Powys: you have two small organisations trying to deliver sustainable services and I think that demographic change is something that is putting an increased pressure on those two organisations.</p>	<p>Ydym, mae hynny'n rhywbeth rydym yn edrych arno. Byddwch yn ymwybodol bod argymhelliad y comisiwn i uno Cyngor Sir Powys a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn rhywbeth y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau yn edrych arno er mwyn symud ymlaen. Rwy'n meddwl mai'r rheswm am hynny yw ei bod yn amlwg fod amgylchiadau unigryw ym Mhowys: mae gennych ddau sefydliad bach yn ceisio darparu gwasanaethau cynaliadwy ac rwy'n meddwl bod newid demograffig yn rhywbeth sy'n rhoi mwy o bwysau ar y ddau sefydliad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Simon Thomas.</p>	<p>Galwaf ar Simon Thomas.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Sorry, no.</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf, na.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 3 is from Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p>Daw cwestiwn 3 gan Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015-16	The Local Government Settlement for 2015-16		
14:33	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2015-16? OAQ(4)0451(LG)</p>	<p>3. Will the Minister make a statement on the 2015-16 local government settlement? OAQ(4)0451(LG)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The indication provided in December last year aligned the published Welsh Government budget. A number of reports have recognised that local government in Wales has been protected from the level of cuts experienced by authorities in England. I will be announcing the provisional settlement for 2015-16 in the autumn term.
- Roedd y dynodiad a roddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd yn alinio'r gyllideb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o adroddiadau wedi cydnabod bod llywodraeth leol yng Nghymru wedi cael ei diogelu rhag lefel y toriadau a brofir gan awdurdodau yn Lloegr. Byddaf yn cyhoeddi'r setliad dros dro ar gyfer 2015-16 yn nhymor yr hydref.
- 14:34 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Mae'n wir i ddweud, Weinidog, fod llywodraeth leol yng Nghymru ac, oherwydd hynny, y gwasanaethau y mae llywodraeth leol yn eu darparu, wedi cael eu diogelu i raddau helaeth iawn o'r toriadau sydd wedi digwydd ar draws y ffin yn Lloegr. Fodd bynnag, yr ydych eisoes wedi rhybuddio llywodraeth leol yng Nghymru y gall y toriadau y flwyddyn nesaf fod hyd at 4.6%. Ydy hwnnw'n ffigur realistig o ran y toriadau, ac a oes yn rhaid i gynghorau baratoi ar gyfer y math hwnnw o doriadau yn awr?
- It is true to say, Minister, that local government in Wales and, because of that, the services that local government delivers, have been protected to a great extent from the cuts that have happened across the border in England. However, you have already warned local government in Wales that the cuts next year could be up to 4.6%. Is that a realistic figure as regards the cuts, and should councils be preparing for cuts of that order now?
- 14:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, first, I did not issue a warning. They asked me for information, and I provided a sort of update on the outlook, because they requested that dialogue. What I wanted to do was to inform a mature approach to planning for the reality of the financial changes that we have had. So, what I said was that they should be looking at scenarios of up to 4.5%.
- Wel, yn gyntaf, ni roddais rybudd. Gofynnwyd i mi am wybodaeth, a darperais ddiweddariad o fath ar y rhagolygon, oherwydd eu bod wedi gofyn am y ddeialog honno. Yr hyn roeddwn am ei wneud oedd llywio ymagwedd aeddfed tuag at gynllunio ar gyfer realiti'r newidiadau ariannol rydym wedi'u cael. Felly, yr hyn a ddywedais oedd y dylent edrych ar senarios o hyd at 4.5%.
- 14:35 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Ond, os oes rhaid iddyn nhw edrych ar doriadau ar y raddfa honno, sy'n llawer iawn mwy na maen nhw wedi gorfod ei wneud ar gyfer y gyllideb y flwyddyn nesaf, bydd rhaid iddyn nhw baratoi ar gyfer y toriadau hynny yn awr. A ydych chi yn dweud wrth lywodraeth leol yng Nghymru i fod yn barod ar gyfer toriadau o hyd at 4.5% neu 4.6% yn y flwyddyn 2015-16, a bod yn rhaid iddyn nhw baratoi ar gyfer hynny nawr?
- But, if they have to look at cuts on that scale, which is far greater than they have had to consider for next year's budget, they will have to prepare for those cuts now. Are you saying to local authorities in Wales that they should be ready for cuts of up to 4.5% or 4.6% in the year 2015-16, and that they should prepare for that now?
- 14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- That is what I have told them, that they should be looking at those scenarios, because the indicative budget figure that I gave them in the autumn of last year was not that high. They came to me asking for an update on the outlook and that is what I gave them.
- Dyna rwyf wedi'i ddweud wrthynt, y dylent fod yn edrych ar y senarios hynny, gan nad yw ffigur y gyllideb ddangosol a roddais iddynt yn yr hydref y llynedd mor uchel â hynny. Daethant ataf yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolygon a dyna'r hyn a roddais iddynt.
- 14:36 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Yn dilyn Rhodri Glyn Thomas, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn trafod eto codi ffioedd caeau chwarae. Rwy'n meddwl am ordewdra yng Nghymru. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y dylai'r sir ystyried yr effaith o godi ffioedd a'r pwysau ychwanegol a all godi ar y gwasanaeth iechyd?
- Following on from Rhodri Glyn Thomas, Carmarthenshire County Council is again discussing increasing the charges for playing fields. I am thinking about obesity in Wales. Does the Minister agree with me that the county should consider the impact of increasing these charges, and the additional pressures on the health service that could arise?

14:36

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, the provision of sport and leisure facilities, and related charges, are matters for each individual local authority, and I know that local authorities are having to make some very tough decisions. However, it is important and they are obviously responsible for wellbeing in their local area. This week, on Monday, I attended the physical activity executive group that is chaired by my colleague the Minister for Natural Resources, Culture and Sport and this was something that we discussed. However, what is really important is that equality impact assessments are taken as local authorities set their budgets, so that they can see the impact of their decisions to withdraw services such as you suggest.

Yn amlwg, mae darparu chwaraeon a chyfleusterau hamdden, a thaliadau cysylltiedig, yn faterion ar gyfer pob awdurdod lleol unigol, ac rwy'n gwybod bod awdurdodau lleol yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig ac maent yn amlwg yn gyfrifol am les yn eu hardal leol. Ddydd Llun yr wythnos hon, mynychais y grŵp gweithredol ar weithgarwch corfforol sy'n cael ei gadeirio gan fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon, ac mae hyn yn rhywbeth a drafodwyd gennym. Fodd bynnag, yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal wrth i awdurdodau lleol bennu eu cyllidebau, fel y gallant weld effaith eu penderfyniadau i ddiddymu gwasanaethau o'r math rydych yn eu hawgrymu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If I may, I will just return to this significant cut that has been announced to local government with just a few months to go, part way through this financial year. Minister, when you give an indicative figure, local government will just appreciate that you stick to it, so that it can plan accordingly, even if that figure is higher in the first place. People can cope with a reduction, but they need to know the worst case scenario upfront. How could you have gotten your planning so wildly wrong in a six-month period, so that the scale of the cuts has been that much more? Can you tell us which part of the Welsh Government's budget have you, as a Cabinet, agreed to increase—which department will benefit—in order that yours can be cut?

Os caf, rwyf am ddod yn ôl at y toriad sylweddol a gyhoeddwyd i lywodraeth leol gyda dim ond ychydig fisoedd i fynd, ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol hon. Weinidog, pan fyddwch yn rhoi ffigur dangosol, bydd llywodraeth leol yn gwerthfawrogi eich bod yn cadw ato, fel y gall gynllunio'n unol â hynny, hyd yn oed os yw'r ffigur yn uwch yn y lle cyntaf. Gall pobl ymdopi gyda gostyngiad, ond mae angen iddynt wybod ymlaen llaw beth yw'r senario waethaf bosibl. Sut y gallech fod wedi cynllunio mor gyfan gwbl anghywir mewn cyfnod o chwe mis, fel bod graddau'r toriadau wedi bod cymaint yn fwy? A allwch ddweud wrthym pa ran o gyllideb Llywodraeth Cymru rydych chi fel Cabinet wedi cytuno i'w chynyddu—pa adran fydd yn elwa—fel bod modd torri eich un chi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I gave an indicative figure based on the budget, as I have explained. I have given local government this information early. I very much respect the budget cycle that we have in this place, and that it is right that Assembly Members discuss the budget first. What they asked me to do was to provide an update on the outlook. As I said, I did not issue a warning; I gave them the information that I could so that they can start planning now for their budgets in a very mature way.

Rhoddais ffigur dangosol yn seiliedig ar y gyllideb, fel yr esboniais. Rwyf wedi rhoi'r wybodaeth hon i lywodraeth leol yn gynnar. Rwyf yn parchu'n fawr iawn y cylch cyllidebol sydd gennym yn y lle hwn, a'i bod yn iawn fod Aelodau'r Cynulliad yn trafod y gyllideb yn gyntaf. Yr hyn y gofynnwyd imi ei wneud oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolygon. Fel y dywedais, ni roddais rybudd; rhoddais yr wybodaeth y gallwn ei rhoi fel y gallant ddechrau cynllunio yn awr ar gyfer eu cyllidebau mewn ffordd aeddfed iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Simon Thomas to ask question 4.

Galwaf ar Simon Thomas i ofyn cwestiwn 4.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd, ac ymddiheuriadau.

Thank you, Presiding Officer, and my apologies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Uno Cynghorau

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. *Pa arbedion y mae'r Gweinidog yn disgwyl eu cronni drwy uno cynghorau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf?*
OAQ(4)0446(LG)

Merging Councils

4. *What savings does the Minister expect to accumulate by merging councils during the next financial year?*
OAQ(4)0446(LG)

- 14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The White Paper on reforming local government, published last week, sets out detailed timings for the merging of authorities. It does not include the merger of authorities during the next financial year. However, we will make specific legislative provision in the Bill to be introduced in January 2015, which will allow willing and committed authorities to move at pace.
- Mae'r Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn nodi amseriadau manwl ar gyfer uno awdurdodau. Nid yw'n cynnwys uno awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol benodol yn y Bil i'w chyflwyno yn Ionawr 2015, a fydd yn caniatáu i awdurdodau sy'n barod ac yn ymroddedig i symud yn gyflym.
- 14:38 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae'n bwysig, rwy'n meddwl, tanlinellu na fydd uno neu ad-drefnu llywodraeth leol, beth bynnag sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf, o reidrydd yn arwain at arbedion ariannol. Felly, mae'n rhaid i gynghorau wynebu'r toriadau sydd ar y gorwel a pharatoi ar gyfer y rheini yn eu cyllidebau. Pa gamau byddwch chi yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf felly i wneud dau beth? Yn gyntaf oll, sut fyddwch yn sicrhau nad yw'r toriadau yn rhy drwm ar rai cynghorau, yn enwedig y cynghorau hynny yng nghefn gwlad lle mae newid poblogaeth wedi digwydd sy'n arwain at doriadau mwy o faint nag y maen nhw'n gallu ymdopi â nhw o ystyried y gwasanaethau maen nhw'n gorfod eu cynnal yng nghefn gwlad? Yn ail, sut fyddwch yn sicrhau bod y cynghorau hynny sy'n debyg o uno yn ystod y cyfnodau nesaf yn cael eu trin yn deg a chyfartal fel na fydd gormod o wahaniaeth rhwng y dreth gyngor mewn un cyngor a chyngor arall sy'n debyg o uno?
- Thank you, Minister, for that response. It is important, I think, to highlight the fact that merging or reconfiguring local government, whatever happens over the next year or two, will not necessarily lead to financial savings. Therefore, councils have to face the cuts that are on the horizon and prepare for those in their budgets. What steps will you take over the next year or two to do two things? First, how will you ensure that the cuts are not too onerous on some councils, particularly those rural councils where there has been a change of population that can lead to greater cuts than they can actually cope with given the services that they have to maintain and provide in rural areas? Secondly, how will you ensure that those councils that are likely to merge over the ensuing years will be treated equitably so that there will not be too much of a difference between council tax in one council and another with which it is likely to merge?
- 14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that fairness of funding is very important and I am particularly keen on ensuring that it occurs. You are absolutely right that mergers are not just about saving money. Equally, they are not an end in themselves. If we want to see truly transformational changes, we cannot just create bigger authorities and expect them to deliver. There has to be robust local democracy, accountability, strong governance and scrutiny—all the things that were highlighted in the commission's report.
- Credaf fod tegwch o ran cyllido yn bwysig iawn ac rwy'n arbennig o awyddus i sicrhau ei fod yn digwydd. Rydych yn llygad eich lle nad yw uno'n ymwneud yn unig ag arbed arian. Yn yr un modd, nid yw'n ddiben ynddo'i hun. Os ydym am weld newidiadau sy'n wirioneddol drawsnewidiol, rhaid inni wneud mwy na chreu awdurdodau mwy o faint a disgwyl iddynt gyflawni. Rhaid sicrhau democratiaeth leol gadarn, atebolrwydd, proses lywodraethu a chraffu gref—yr holl bethau a amlygwyd yn adroddiad y comisiwn.
- 14:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the opposition spokesperson, Mark Isherwood.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.
- 14:40 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Good corporate governance requires essential transformational change, as I think that you referred to, to be based on strong foundations. Last week, you quoted analysis by the Welsh Local Government Association on costs of about £204 million with regard to the proposed mergers, but recurrent annual savings of between £92 million and £100 million. Do you not recognise that that is not immediate? Mergers take years to deliver savings and, therefore, the Welsh Government's own cost evaluation, which has not been produced yet, and the WLGA's independently commissioned analysis, which has not been completed yet, are required before any proposals to move forward take wing.
- Mae llywodraethu corfforaethol da yn gofyn am newid trawsffurfiol hanfodol yn seiliedig ar sylfeini cadarn, fel rwy'n meddwl eich bod wedi sôn. Yr wythnos diwethaf, roeddech yn dyfynnu dadansoddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd cost yr uno arfaethedig oddeutu £204 miliwn, ond y bydd arbedion blynyddol rheolaidd o rhwng £92 miliwn a £100 miliwn. Onid ydych yn cydnabod nad yw hynny'n mynd i ddigwydd ar unwaith? Mae uno'n cymryd blynyddoedd i sicrhau arbedion ac felly, mae gofyn cael gwerthusiad cost Llywodraeth Cymru ei hun, nad yw wedi'i gynhyrchu hyd yn hyn, a'r dadansoddiad a gomisiynwyd yn annibynnol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nad yw wedi'i gwblhau eto, cyn y gall unrhyw gynigion i symud ymlaen ddod yn weithredol.

14:41	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Certainly, that was the WLGA's analysis not the Welsh Government's. You will be aware that we are in the process of having our own cost evaluation.</p>	<p>Yn sicr, dadansoddiad CLILC nid Llywodraeth Cymru oedd hwnnw. Byddwch yn ymwybodol ein bod yn y broses o gynnal ein gwerthusiad ein hunain o'r gost.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:41	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Only this morning, I chaired a session at Policy Forum for Wales on older people's care in Wales, where the Vale of Glamorgan Council's head of business management and innovation reminded us that safe and sustainable change takes years. We must bear in mind the lessons learnt from the police merger that did not go ahead several years ago, after a sub-committee here did the work for the Home Secretary in London showing that, had it happened, contrary to expectations, it would have generated massive deficits by 2012 of up to £120 million consequent upon that merger. There would have been no savings. Why will you not take the lessons from that and delay until equivalent detailed analysis has been done, rather than pursue something that may, as happened then, have to be suspended if the figures do not add up?</p>	<p>Y bore yma, cadeiriais sesiwn yn Fforwm Polisi Cymru ar ofal pobl hŷn yng Nghymru, lle'r oedd pennaeth rheoli busnes ac arloesi Cyngor Bro Morgannwg yn ein hatgoffa bod newid diogel a chynaliadwy yn cymryd blynyddoedd. Mae'n rhaid inni gadw mewn cof y gwersi a ddysgwyd o'r cynllun i uno heddluoedd nad aeth yn ei flaen sawl blwyddyn yn ôl, ar ôl i is-bwyllgor y fan hon wneud y gwaith ar gyfer yr Ysgrifennydd Cartref yn Llundain a ddangosai, pe bai wedi digwydd, yn groes i'r disgwyliadau, y byddai wedi cynhyrchu colledion enfawr o hyd at £120 miliwn erbyn 2012 o ganlyniad i uno. Ni fyddai wedi creu unrhyw arbedion. Pam na ddysgwyd chi'r gwersi o hynny a gohirio hyd nes y gwneir dadansoddiad manwl cyfatebol yn hytrach na mynd ar drywydd rhywbeth y gallai fod yn rhaid ei atal, fel y digwyddodd bryd hynny, os nad yw'r ffigurau'n gwneud synnwyr?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>We all accept that change is inevitable if our public services are to become more efficient, effective and accessible. I do not think that the people of Wales would be very happy to wait years and years as the Member suggests.</p>	<p>Rydym i gyd yn derbyn bod newid yn anochel os yw ein gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i fod yn fwy effeithlon, effeithiol a hygyrch. Nid wyf yn meddwl y byddai pobl Cymru yn hapus iawn i aros am flynyddoedd a blynyddoedd fel y mae'r Aelod awgrymu.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, you have taken a very clear line as a Government on what local government should look like over the next few years as part of that merger programme. When will the costings of that programme be available?</p>	<p>Weinidog, rydych wedi gwneud safiad clir iawn fel Llywodraeth o ran sut olwg a ddylai fod ar lywodraeth leol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fel rhan o'r rhaglen uno. Pryd fydd costau'r rhaglen honno ar gael?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>As a Government, we are currently having our cost evaluation done. I would hope that it would be available towards the end of this year.</p>	<p>Fel Llywodraeth, rydym ar hyn o bryd yn cynnal ein gwerthusiad cost. Byddwn yn gobeithio y bydd ar gael tua diwedd y flwyddyn hon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:43	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. May I ask whether that cost evaluation will actually look at the payback period in terms of any expenditure on the mergers? Will you also be looking at the impact on council tax in terms of those mergers, and whether you are able to put any dampening mechanism in place to try to relieve the impact of those council tax increases on some citizens in some areas who will suffer as a result of those mergers?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A gaf fi ofyn a fydd y gwerthusiad cost mewn gwirionedd yn edrych ar y cyfnod ad-dalu o ran gwariant ar yr uno? A fyddwch hefyd yn edrych ar yr effaith ar y dreth gyngor yn sgîl uno, ac a allwch roi mecanwaith dampio ar waith i geisio lleddfu effaith cynnydd o'r fath yn y dreth gyngor ar rai dinasyddion mewn rhai ardaloedd a fydd yn dioddef o ganlyniad i uno?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:43	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Yes, I am sure that the payback time will be part of the analysis. In relation to your question about council tax, I think that we are going to have to look at all aspects of funding as we go forward.	Rwy'n siŵr y bydd y cyfnod ad-dalu yn rhan o'r dadansoddiad. Mewn perthynas â'ch cwestiwn am y dreth gyngor, rwy'n meddwl ein bod yn mynd i oford edrych ar bob agwedd ar gyllido wrth inni symud ymlaen.	Senedd.tv Fideo Video
Codi Tâl am Wasanaethau		Charging for Services	
14:43	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar awdurdodau lleol yn codi tâl am wasanaethau? OAQ(4)0442(LG)</i>	<i>5. Will the Minister make a statement on local authorities charging for services? OAQ(4)0442(LG)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:43	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Local authorities are able to charge for services where there is statutory provision to allow this. They are not entitled to make a profit and should focus on using charging as a mechanism to deliver quality services while providing value for the local taxpayer.	Mae awdurdodau lleol yn gallu codi tâl am wasanaethau lle y mae darpariaeth statudol i ganiatáu hyn. Nid oes hawl ganddynt i wneud elw a dylent ganolbwyntio ar ddefnyddio taliadau fel mecanwaith ar gyfer darparu gwasanaethau o safon wrth ddarparu gwerth i'r trethdalwr lleol.	Senedd.tv Fideo Video
14:44	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Efallai eich bod yn gwybod bod cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi casglu dros £40,000 mewn dirwyon parcio gan bobl a oedd wedi defnyddio manau parcio i'r anabl nad oeddent wedi cael eu marcio'n gywir. A oes canllawiau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y dylai'r marciau hyn gael eu diweddaru, oherwydd mae nifer fawr o bobl wedi dod ataf fel Aelod Cynulliad lleol yn cwyno am y ffaith eu bod wedi colli'r arian hwnnw yn sgîl y ffaith nad oedd y safleoedd hynny wedi cael eu marcio?	Thank you for that response, Minister. You may be aware that Neath Port Talbot council has collected over £40,000 in parking fines from people who had used disabled parking areas that were not properly marked. Does the Welsh Government have any guidance on how these road markings should be updated, because many members of the public have approached me as a local Assembly Member complaining about the fact that they have lost that money due to the fact that those sites had not been properly marked?	Senedd.tv Fideo Video
14:44	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I was not aware of the figure that you mentioned. I would have thought that it was the responsibility of local authorities to ensure that such parking spaces were properly marked. However, if the Member would like to write to me about that, I will look into it.	Nid oeddwn yn ymwybodol o'r ffigur a grybwyllwyd gennych. Byddwn wedi meddwl mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau bod manau parcio o'r fath yn cael eu marcio'n briodol. Fodd bynnag, os hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny, byddaf yn edrych ar y mater.	Senedd.tv Fideo Video
14:44	Byron Davies Bywgraffiad Biography On the issue of local authorities charging, Minister, my fellow AM from South Wales West, Peter Black, yesterday raised with the First Minister the issue of the Elba estate in Gowerton. The First Minister was unsure whether or not he had the power to act. Having looked into the issue overnight, in terms of whether the Government can make a change in this law, I now understand that we have the right to legislate on this in Wales. I want to know what assurance you can give that you will take steps to reign in the greed of freeholders such as Swansea council. Specifically, will you commit to reviewing the whole leasehold system with a view to reforming it to protect vulnerable residents from these increases?	Ar fater awdurdodau lleol yn codi tâl, Weinidog, ddoe, cyfeiriodd fy nghyd-aelod Cynulliad o Orllewin De Cymru, Peter Black, at fater ystâd Elba yn Nhre-gŵyr gyda'r Prif Weinidog. Roedd y Prif Weinidog yn ansicr a oes ganddo bŵer i weithredu ai peidio. Ar ôl edrych i mewn i'r mater dros nos, o ran gallu'r Llywodraeth i wneud newid yn y gyfraith hon, rwy'n deall yn awr bod gennym hawl i ddeddfu ar hyn yng Nghymru. Rwyf eisiau gwybod pa sicrwydd y gallwch ei gynig y byddwch yn cymryd camau i ffrwyno trachwant rhydd-ddeiliaid megis cyngor Abertawe. Yn benodol, a wnewch chi ymrwymo i adolygu'r system brydlesol yn ei chyfanrwydd gyda golwg ar ei diwygio er mwyn amddiffyn trigolion sy'n agored i niwed rhag y codiadau hyn?	Senedd.tv Fideo Video

14:45	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I am sure that Peter Black the Assembly Member and Peter Black the councillor are very interested in that. I will look into it and, again, I will write to the Member.</p>	<p>Wel, rwy'n siŵr fod gan Peter Black yr Aelod Cynulliad a Peter Black y cynghorydd ddiddordeb mawr yn hynny. Byddaf yn edrych i mewn i'r mater ac unwaith eto, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.</p>
Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Drefaldwyn		Public Services in Montgomeryshire
14:45	Russell George Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>6. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Drefaldwyn?</i> OAQ(4)0448(LG)</p>	<p>6. <i>Will the Minister make a statement on the delivery of public services in Montgomeryshire?</i> OAQ(4)0448(LG)</p>
14:45	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Improving public services for people in Wales is a key priority. The Commission on Public Service Governance and Delivery confirmed what we already knew: our current arrangements are not fit for purpose. Reform must be significant and sustainable. This also means strengthening democratic governance and accountability for the delivery of local services.</p>	<p>Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru yn flaenoriaeth allweddol. Cadarnhaodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yr hyn rydym eisoes yn ei wybod: nid yw ein trefniadau presennol yn addas at y diben. Rhaid i ddiwygio fod yn sylweddol a chynaliadwy. Mae hyn hefyd yn golygu cryfhau llywodraethu democrataidd ac atebolrwydd ar gyfer darparu gwasanaethau lleol.</p>
14:46	Russell George Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for your answer, Minister. You will probably be aware that Powys County Council is looking at removing an important public recycling service in Machynlleth due to cost pressures. The facility is actually well used, not just by residents in north Powys, but also by residents and communities in both north Ceredigion and in south Gwynedd. However, of course, those local authorities do not pay any contribution towards that service. Leaving the Williams proposals to one side, what support can the Welsh Government provide now to help to facilitate a co-produced solution between the three authorities so that this important public service remains in Machynlleth?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'n debyg y byddwch yn ymwybodol fod Cyngor Sir Powys yn ystyried dileu gwasanaeth ailgylchu cyhoeddus pwysig ym Machynlleth oherwydd pwysau costau. Mae'r cyfleuster yn cael defnydd da mewn gwirionedd, nid yn unig gan drigolion yng ngogledd Powys, ond hefyd gan drigolion a chymunedau yng ngogledd Ceredigion ac yn ne Gwynedd. Ond wrth gwrs, nid yw'r awdurdodau lleol hynny yn talu unrhyw gyfraniad tuag at y gwasanaeth. Gan roi cynigion Williams ar un ochr, pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu yn awr i helpu i hwyluso ateb cyd-gynhyrchu rhwng y tri awdurdod fel bod y gwasanaeth cyhoeddus pwysig hwn yn parhau ym Machynlleth?</p>
14:47	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, we provide funding to Powys County Council. Obviously, the revenue support grant is not the only funding that it gets. It is then up to it to set its budget and provide the services for its local population. It is, obviously, answerable to that electorate and, again, I am very aware that you are a councillor on Powys County Council.</p>	<p>Wel, rydym yn darparu cyllid i Gyngor Sir Powys. Yn amlwg, nid y grant cynnal refeniw yw'r unig arian y mae'n ei gael. Lle'r cyngor felly yw pennu ei gyllideb a darparu gwasanaethau ar gyfer ei boblogaeth leol. Yn amlwg, mae'n atebol i'r etholwyr yno ac unwaith eto, rwy'n ymwybodol iawn eich bod yn gynghorydd ar Gyngor Sir Powys.</p>
Parthau Dim Galw Digroeso		No-cold-calling Zones
14:47	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>7. <i>A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu awdurdodau lleol i sefydlu parthau dim galw digroeso yng Nghymru?</i> OAQ(4)0447(LG)</p>	<p>7. <i>Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to help local authorities to establish no-cold-calling zones in Wales?</i> OAQ(4)0447(LG)</p>

- 14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The programme for government includes a commitment to extend the coverage of no-cold-caller zones in Wales. I have provided funding to local authorities to support the development of new zones, and this has contributed to increasing the number of households covered by zones by almost 23,000.
- Mae'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ymestyn cwmpas yr ardaloedd dim galw diwahoddiad yng Nghymru. Rwyf wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi datblygiad ardaloedd newydd, ac mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd o bron i 23,000 yn nifer y cartrefi sydd wedi'u cynnwys yn yr ardaloedd.
- 14:47 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwyf yn derbyn bod safonau masnach yn gyfrifoldeb i Lywodraeth San Steffan, ac rwyf yn croesawu'r ffaith eich bod yn ceisio cynyddu nifer yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, mae Age Cymru wedi dweud bod problem ynghylch y ffaith nad yw'r data o'r wahanol awdurdodau yn gyson. A wnewch chi felly, fel Gweinidog, sicrhau bod trafodaethau efo'r awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod y data'n gyson er mwyn cyflwyno system ar draws ein gwlad?
- I accept that trading standards are the responsibility of the Westminster Government, and I do welcome the fact that you are endeavouring to increase the number of these zones. However, Age Cymru has said that there is a problem regarding the fact that the data from the various authorities are not consistent. Will you therefore, as a Minister, ensure that there are discussions with local authorities to ensure that the data are consistent in order to introduce a pan-Wales system?
- 14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely. That is something that I am looking at. I am going to publish figures on the increase in the zones and on the impact of the funding in September. That is something that we can look at in that review.
- Gwnaf, yn sicr. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n edrych arno. Rwy'n mynd i gyhoeddi ffigurau ar y cynnydd yn yr ardaloedd ac ar effaith y cyllid ym mis Medi. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno yn yr adolygiad hwnnw.
- 14:48 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As the Minister is aware, I am an advocate of no-cold-calling zones and I recently welcomed the new one in my own constituency. Given my ambition to see Offa's Dyke as the border between a no-cold-calling Wales and England, can the Minister provide an update on the number of local authorities that have taken advantage of funding made available this year to implement more no-cold-calling zones?
- Fel y mae'r Gweinidog yn ymwybodol, rwy'n un o hyrwyddwyr yr ardaloedd dim galw diwahoddiad ac yn ddiweddar croesawais yr un newydd yn fy etholaeth i. O ystyried fy uchelgais i weld Clawdd Offa fel ffin rhwng Cymru dim galw diwahoddiad a Lloegr, a all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi manteisio ar y cyllid a ryddhawyd eleni ar gyfer gweithredu mwy o ardaloedd dim galw diwahoddiad?
- 14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I mentioned in my original answer that the number of households covered has increased by almost 23,000, which is an increase of 40% between March 2013 and March 2014. So, we now have a current total of just over 70,000 households. Twelve authorities applied for the funding that I made available late last year, and, as I mentioned in my answer to Aled Roberts, I will be publishing the figures on the increase in zones and the impact that that funding has had in September.
- Gallaf. Soniais yn fy ateb gwreiddiol fod cynnydd o bron i 23,000 yn nifer y cartrefi sydd wedi'u cynnwys, sef cynnydd o 40% rhwng Mawrth 2013 a Mawrth 2014. Felly, mae gennym bellach gyfanswm cyfredol o ychydig dros 70,000 o gartrefi. Cyflwynodd deuddeg awdurdod gais am y cyllid a ryddheais ddiwedd y llynedd, ac fel y soniais yn fy ateb i Aled Roberts, byddaf yn cyhoeddi'r ffigurau ar y cynnydd yn nifer yr ardaloedd a'r effaith y mae cyllid wedi'i chael ym mis Medi.
- 14:49 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- On this side of the house, we are also very keen on no-cold-calling zones and have called for these in the past. Minister, you have provided around £35,000 for local authorities. That is very welcome and you have now reached 70,000 houses. In terms of the future, do you hope to increase your budget so that there can be a really realistic attempt to deal with the consequences of scams and swindles?
- Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym hefyd yn frwd iawn ynghylch ardaloedd dim galw diwahoddiad ac rydym wedi galw am y rhain yn y gorffennol. Weinidog, rydych wedi darparu tua £35,000 ar gyfer awdurdodau lleol. Mae hynny i'w groesawu'n fawr ac rydych bellach wedi cyrraedd 70,000 o dai. O ran y dyfodol, a ydych yn gobeithio cynyddu eich cyllideb fel y gellir sicrhau ymgais wirioneddol realistig i ymdrin â chanlyniadau sgamiau a thwyll?

14:49

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What I have decided to do is to have a look at how many more local authorities come forward. It is not just about funding. One of the reasons that I did give the funding was that I was under the impression that perhaps funding was a barrier for some local authorities to set them up. However, if you consider that 12 applied for the funding, that means that 10 did not. Unfortunately, in the case of some of the local authorities that did not apply, it was not because of the funding, clearly, as we were providing that. There were other issues that were raised with me. Age Cymru raised concerns with me about the way that information had to be gathered by local authorities before they approached me for funding. That area is actually non-devolved, and I wrote to the Minister for Employment Relations and Consumer Affairs in the UK Government to see whether we could get over the bureaucracy regarding that collection, but, unfortunately, the UK Government does view the consultation process as an important part of local authorities' legal requirements in this respect.

Yr hyn rwyf wedi penderfynu ei wneud yw cael golwg ar faint rhagor o awdurdodau lleol sy'n dangos diddordeb. Nid yw'n ymwneud ag ariannu'n unig. Un o'r rhesymau y rhoddais y cyllid oedd fy mod dan yr argraff efallai bod cyllid yn rhwystro rhai awdurdodau lleol rhag eu sefydlu. Fodd bynnag, os ystyriwch fod 12 awdurdod wedi gwneud cais am y cyllid, mae hynny'n golygu na wnaeth 10 awdurdod hynny. Yn anffodus, yn achos rhai o'r awdurdodau lleol na chyflwynodd gais, nid oedd yn ymwneud â chyllid, mae'n amlwg, gan ein bod yn ei ddarparu. Mynegwyd materion eraill wrthyf. Lleisiodd Age Cymru bryderon ynghylch y ffordd roedd yn rhaid i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth cyn gofyn i mi am arian. Mae'r maes hwnnw'n un nad yw wedi'i ddatganoli mewn gwirionedd ac ysgrifennais at y Gweinidog Cysylltiadau Cyflogaeth a Materion Defnyddwyr yn Llywodraeth y DU i weld a allem oresgyn y fwiocratiaeth sy'n ymwneud â chasglu gwybodaeth ond yn anffodus, mae Llywodraeth y DU yn edrych ar y broses ymgynghori fel rhan bwysig o'r gofynion cyfreithiol ar awdurdodau lleol yn hyn o beth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Cynllun Rhyddhad Treth Gyngor

The Council Tax Relief Scheme

14:50

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y cynllun rhyddhad treth gyngor ar gyllidebau awdurdodau lleol? OAQ(4)0449(LG)

8. Will the Minister make a statement on the impact of the council tax relief scheme on local authority budgets? OAQ(4)0449(LG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is providing £244 million to local authorities for council tax reduction schemes in 2014-15. This funding replaces council tax income that authorities would otherwise raise from households that qualify for support in meeting their council tax liability. Authorities may spend this money on any of the services they provide.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £244 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2014-15. Daw'r cyllid hwn yn lle incwm y dreth gyngor y byddai awdurdodau fel arall yn ei chodi ar gartrefi sy'n gymwys i gael cymorth i dalu eu treth gyngor. Gall Awdurdodau wario'r arian hwn ar unrhyw un o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn y sesiwn gwestiynau diwethaf, dywedasoch fod pwysau'r cynllun rhyddhad treth gyngor yn rhywbeth sy'n gorfod cael ei ystyried gan gynghorau wrth bennu eu treth gyngor, ond mae traean o unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor yn fy etholaeth i yn mynd ar y cynllun hwn. Mae'n gynllun sy'n bwysig iawn, wrth gwrs, ac mae hynny'n cael ei ddangos wrth y ffaith bod un o bob tri o gartrefi yn Ynys Môn yn gymwys am yr arian hwn. Fodd bynnag, a yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer y cynllun rhyddhad yn ffordd uniongyrchol o sicrhau nad yw gwasanaethau yn dioddef oherwydd y diffyg yn y cynllun pwysig hwn?

In the last questions session, you said that the pressures of the council tax relief scheme are something that would have to be borne in mind by councils in deciding on their council tax, but a third of any increase in council tax in my constituency is spent on this scheme. It is a very important scheme, of course, and that is demonstrated by the fact that one in three homes on Anglesey qualifies for this funding. However, does the Minister agree that increasing the funding available for the relief scheme would be a direct way of ensuring that services do not suffer because of the deficit in this important scheme?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, we do provide the vast majority of funding for council tax reduction schemes. Local authorities are expected to meet any further shortfall if there is a gap between the funding provided for CTRS and the amount of council tax that might have been raised. Such gaps are almost always directly a result of local decisions to increase council tax.</p>	<p>Wel, rydym yn darparu'r mwyafrif helaeth o'r cyllid ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Disgwylir i awdurdodau lleol dalu unrhyw ddiffyg pellach os oes bwch rhwng yr arian a ddarperir ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a faint o dreth gyngor a allai fod wedi'i chodi. Deillia bylchau o'r fath bron bob amser yn uniongyrchol o ganlyniad i benderfyniadau lleol i gynyddu'r dreth gyngor.</p>
14:52	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, you said that you would anticipate local authorities in some measure picking up any shortfall that there might be in the funding of the council tax reduction scheme. I have been looking through some of the responses to the Welsh Government's consultation on the review of council tax support, which finished in March, and there are some interesting comments in there. In particular, the Royal British Legion has argued that local authorities should not have discretion when it comes to taking a war widows pension into account, for instance. Will you look at this in detail and ensure that war widows do not find themselves worse off when seeking council tax relief because some local authorities may well factor in service-related pensions before giving council tax relief because they do not feel that they get enough money from the central pot, now or in the future?</p>	<p>Weinidog, dywedsoch y byddech yn disgwyl i awdurdodau lleol ysgwyddo peth o'r diffyg yng nghyllid cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Rwyf wedi bod yn edrych drwy rai o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad o gymorth y dreth gyngor a ddaeth i ben ym mis Mawrth a cheir rhai sylwadau diddorol ynddo. Yn benodol, mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi dadlau na ddylai awdurdodau lleol gael disgrisiwn ynghylch cymryd pensiwn gweddwon rhyfel i ystyriaeth, er enghraifft. A wnewch chi edrych ar hyn yn fanwl yn awr neu yn y dyfodol a sicrhau nad yw gweddwon rhyfel yn waeth eu byd wrth wneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor gan y gall rhai awdurdodau lleol ffactoreiddio pensiynau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol cyn rhoi gostyngiad yn y dreth gyngor am nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael digon o arian o'r pot canolog?</p>
14:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, with regard to the council tax reduction scheme, you will be aware that we have one in Wales, as opposed to the situation in England, where there are myriad schemes, which has led to a lot of people paying council tax for the first time and has led to increased debt. I thought that it was really important that we had just one scheme, which we did in partnership with local authorities. I will take up the issue that you raised with me with local authorities.</p>	<p>Wel, o ran cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, byddwch yn ymwybodol fod gennym un yng Nghymru, o gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr, lle y ceir cynlluniau fyrdd, sydd wedi arwain at lawer o bobl yn talu'r dreth gyngor am y tro cyntaf ac mae hyn wedi arwain at fwy o ddyled. Roeddwn i'n meddwl ei bod yn bwysig iawn mai un cynllun yn unig sydd gennym, a gwnaethom hynny mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Byddaf yn codi'r mater y cyfeirwch ato gydag awdurdodau lleol.</p>
	Trefniadau Ariannu	Funding Arrangements
14:53	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>9. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch trefniadau ariannu? OAQ(4)0450(LG)</p>	<p>9. What discussions has the Minister had with local authorities regarding funding arrangements? OAQ(4)0450(LG)</p>
14:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I meet regularly with local authority leaders to discuss finance matters. We discussed the funding outlook for local government for 2015-16 at the finance sub-group on 23 June, and I have had further discussions on financial issues in a variety of fora since then.</p>	<p>Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr awdurdodau lleol i drafod materion cyllid. Buom yn trafod rhagolygon cyllid llywodraeth leol ar gyfer 2015-16 yn yr is-grŵp cyllid ar 23 Mehefin, ac rwyf wedi cael trafodaethau pellach ar faterion ariannol mewn amrywiaeth o fforymau ers hynny.</p>

14:53	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch. Mae adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes yn y Cynulliad a gafodd ei gyhoeddi heddiw yn cynnwys argymhellion ar sut i sicrhau bod Cymru yn defnyddio pob cyfle i fanteisio ar gyllid Ewropeaidd, a bod awdurdodau lleol yn manteisio ar bob cyfle. Yn Ynys Môn, y bwriad ydy sicrhau bod y fantais fwyaf yn dod i'r sir honno yn y cyfnod nesaf. Fodd bynnag, efo cronfa arian strwythurol Ewrop, mae hi'n bryder gan awdurdodau lleol bod cynlluniau Cymru-gyfan yn aml iawn yn cael blaenoriaeth dros gynlluniau awdurdodau lleol. A all y Gweinidog ddweud wrthym faint o drafod y mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn ei wneud efo awdurdodau lleol am gronfeydd arian strwythurol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael chwarae teg, a pha gynlluniau sydd i wneud i'r system weithio yn well?</p>	<p>Thank you. The Enterprise and Business Committee's report that was published today includes recommendations on how to ensure that Wales takes all opportunities to take advantage of European funding, and that local authorities take those opportunities too. On Anglesey, the intention is to ensure that the greatest possible benefits come to that county over this ensuing period. However, with the European structural funds, it is a concern among local authorities that pan-Wales schemes are very often prioritised over local authority schemes. Can the Minister tell us how much discussion the Welsh European Funding Office has with local authorities on structural funds to ensure that local authorities are given fair play, and what plans are in place to make the system work better?</p>
14:54	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am not aware of how many discussions WEFO has had with individual local authorities on the issue of European structural funds. I think it is a really important issue and it is very important that that money is used wisely. However, certainly, I am not aware of individual local authorities having discussions with WEFO. I would suggest that you write to local authorities or Ynys Môn directly to ask what engagement they have had with WEFO.</p>	<p>Nid wyf yn ymwybodol o faint o drafodaethau y mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi'u cael gydag awdurdodau lleol unigol ar y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Rwy'n credu ei fod yn fater pwysig iawn ac mae'n bwysig iawn fod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth. Yn bendant, fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol fod awdurdodau lleol unigol yn cael trafodaethau gyda WEFO. Byddwn yn awgrymu eich bod yn ysgrifennu at awdurdodau lleol neu Ynys Môn yn uniongyrchol i ofyn pa ymgysylltiad y maent wedi'i gael gyda WEFO.</p>
14:55	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>With several councillors and Assembly Members raising the issue of the current funding formula that disproportionately disadvantages the older population—my own authority of Conwy County Borough Council being a typical example—what steps are you taking as the Minister to ensure that the current funding formula actually does address the real demographic need across Wales?</p>	<p>Gyda nifer o gynghorwyr ac Aelodau'r Cynulliad yn codi mater y fformiwla ariannu bresennol sy'n rhoi'r boblogaeth hŷn dan anfantais anghymesur—y mae fy awdurdod fy hun, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn enghraifft nodweddiadol ohono—pa gamau rydych yn eu cymryd fel Gweinidog i sicrhau bod y fformiwla gyllido bresennol yn mynd i'r afael mewn gwirionedd â'r angen demograffig go iawn ar draws Cymru?</p>
14:55	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think the funding formula does just that. You will be aware that the funding formula is set by us in partnership with local government, and it is reviewed every year.</p>	<p>Rwy'n meddwl bod y fformiwla ariannu yn gwneud yn union hynny. Byddwch yn ymwybodol fod y fformiwla ariannu wedi'i gosod gennym mewn partneriaeth â llywodraeth leol, ac mae'n cael ei hadolygu bob blwyddyn.</p>
	Gwariant Llywodraeth Leol	Local Government Expenditure
14:55	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wariant llywodraeth leol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0454(LG)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on local government expenditure in North Wales? OAQ(4)0454(LG)</i></p>
14:56	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Over the past three years, Welsh local authorities, including those in north Wales, have been protected from the worst of the public spending cuts, in contrast to the significant reductions faced by local authorities in England over the same period.</p>	<p>Dros y tair blynedd diwethaf, mae awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys y rhai yng ngogledd Cymru, wedi cael eu gwarchod rhag y gwaethaf o'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus, yn wahanol i'r gostyngiadau sylweddol a wynebir gan awdurdodau lleol yn Lloegr yn ystod yr un cyfnod.</p>

14:56	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae cyllideb chwe awdurdod lleol y gogledd gyda'i gilydd yn dod i gyfanswm eleni o ryw £943 miliwn. Mae toriadau difrifol wedi bod, wrth gwrs, ac rydym yn clywed o hyd bod toriadau difrifol eto i ddod. Sut ydych chi'n meddwl y bydd yr awdurdodau lleol hynny yn teimlo os yw Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen i wario mwy na'r gyllideb gyfan honno ar 15 cilomedr o ffordd yr M4 ger Casnewydd?</p>	<p>The budgets of the six north Wales local authorities together come to a total this year of some £943 million. There have been severe cuts, of course, and we continuously hear that there will be further cuts to come. How do you think those local authorities will feel if the Welsh Government proceeds to spend more than the entirety of that budget on 15 km of the M4 near Newport?</p>
14:56	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I have a pot of money, which I am able to pass on in the revenue support grant to local authorities. Those discussions are ongoing. You are talking about something within another Minister's budget.</p>	<p>Wel, mae gen i bot o arian y gallaf ei drosglwyddo i awdurdodau lleol yn y grant cynnal refeniw. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau. Rydych yn sôn am rywbeth sydd yng nghyllideb Gweinidog arall.</p>
14:56	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Unfortunately, it is council tax payers in north Wales who have to make up the deficit through dramatic increases in their council tax due to Welsh Government cuts. Are you now regretting, Minister, that you did not fight harder for the £52 million that was spent on an airport or the other numerous pots of money that have been spent for them to go to north Wales councils?</p>	<p>Yn anffodus, talwyr y dreth gyngor yng ngogledd Cymru sy'n gorfod gwneud iawn am y diffyg drwy gynydd dramatig yn eu treth gyngor oherwydd toriadau Llywodraeth Cymru. A ydych yn awr yn difaru, Weinidog, nad ymladdasoch yn galetach dros y £52 miliwn a wariwyd ar faes awyr neu botiau eraill niferus o arian a wariwyd, er mwyn iddo fynd i gynghorau gogledd Cymru?</p>
14:57	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No.</p>	<p>Na.</p>
	Diogelwch Cymunedol	Community Safety
14:57	Christine Chapman Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>11. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch cymunedol yng Nghwm Cynon?</i> OAQ(4)0455(LG)</p>	<p><i>11. What action is the Welsh Government taking to improve community safety in the Cynon Valley?</i> OAQ(4)0455(LG)</p>
14:57	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Chapter 7 of the programme for government outlines our commitment to making communities safer across Wales, with the recruitment of 500 community support officers improving community safety across Wales. This includes 45 South Wales Police CSOs in the basic command unit, which covers Cynon Valley, and six British Transport Police CSOs on the Cynon Valley line.</p>	<p>Unfortunately, it is council tax payers in north Wales who have to make up the deficit through dramatic increases in their council tax due to Welsh Government cuts. Are you now regretting, Minister, that you did not fight harder for the £52 million that was spent on an airport or the other numerous pots of money that have been spent for them to go to north Wales councils?</p>
14:57	Christine Chapman Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. We know that to improve community safety it is important that we work with young people to ensure that they know how to stay safe in our communities and that they respect the safety of others. I also understand that the improvement of safety for children and young people was one of the policy priorities for Wales, as highlighted in the Royal College of Paediatrics and Child Health report launched by my colleague, Lynne Neagle, yesterday. I understand that this touches on many areas of Government. What work are you doing with colleagues in the Welsh Government to ensure that this is the case?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Er mwyn gwella diogelwch cymunedol, rydym yn gwybod ei bod yn bwysig inni weithio gyda phobl ifanc i sicrhau eu bod yn gwybod sut i gadw'n ddiogel yn ein cymunedau a'u bod yn parchu diogelwch pobl eraill. Rwyf hefyd yn deall bod gwella diogelwch plant a phobl ifanc yn un o'r blaenoriaethau polisi ar gyfer Cymru, fel yr amlygwyd yn adroddiad y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a lanswyd gan fy nghydweithiwr, Lynne Neagle, ddoe. Rwy'n deall bod hyn yn cyffwrdd ar nifer o feysydd y Llywodraeth. Pa waith rydych yn ei wneud gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn yn digwydd?</p>

- 14:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In relation to the RCPCH report, I have not had time to read it yet, but I will and I will consider its findings, along, I am sure, with other Ministers, to see whether there are any implications in that report for our policies. A great deal of work is going on outside of that. I launched last Thursday the new youth justice strategy, which highlights the importance of working with all partners to ensure that young people are diverted away from crime and anti-social behaviour.
- Mewn perthynas ag adroddiad y Coleg, nid wyf wedi cael amser i'w ddarllen eto, ond byddaf yn gwneud hynny a byddaf yn ystyried ei ganfyddiadau, ynghyd â Gweinidogion eraill, rwy'n siŵr, i weld a oes unrhyw oblygiadau yn deillio o'r adroddiad o ran ein polisiau. Mae llawer iawn o waith yn digwydd ar wahân i hynny. Ddydd lau diwethaf, lansiais y strategaeth cyfiawnder ieuencid newydd, sy'n amlygu pwysigrwydd gweithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu denu rhag troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 14:59 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I have raised on several occasions the quality of closed-circuit television cameras in the community, but predominantly at stations. I have been told that some of these cameras are not good enough to be used for court evidence should a prosecution be actioned by the Crown Prosecution Service. I asked a similar question some months ago and I was assured that I would get an answer back as to the level of cameras in the community that are compliant with the ability to be used in courts. Are you able to say today whether you have undertaken that investigation, or is that work still pending?
- Weinidog, ar sawl achlysur cyfeiriaais at ansawdd camerâu teledu cylch cyfng yn y gymuned, ond yn bennaf mewn gorsafodd. Rwyf wedi cael gwybod nad yw rhai o'r camerâu hyn yn ddigon da i gael eu defnyddio fel tystiolaeth llys mewn erlyniad gan Wasanaeth Erllyn y Goron. Gofynnais gwestiwn tebyg rai misoedd yn ôl a chefais sicrwydd y byddwn yn cael ateb yn ôl ynghylch faint o gamerâu yn y gymuned sy'n cydymffurfio â'r safon ar gyfer eu defnyddio yn y llysoedd. A allwch ddweud heddiw pa un a ydych wedi cynnal yr ymchwiliad hwnnw, neu a yw'r gwaith yn dal yn yr arfaeth?
- 14:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will have to write to the Member on that. I assure you that I will write within the week.
- Bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelodau ynglŷn â hynny. Rwy'n eich sicrhau y byddaf yn ysgrifennu o fewn yr wythnos.
- 14:59 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it has been brought to my attention that Cynon Valley Crime Prevention Association Ltd has closed. It was based in Trecynon. This organisation has been providing valuable services for the last 25 years, including home fire safety checks, work with young people with social problems, anti-burglary initiatives and prevention of domestic abuse through the fitting of secure locks. That is something that I have first-hand experience of through my involvement with Cwm Cynon Women's Aid. Concerns have been raised about the impact that this closure will have on community safety in the Cynon Valley. Minister, will you agree to look into this matter and see what can be done on a practical level to fill the void that has been left by this valuable service?
- Weinidog, daeth i fy sylw fod Cymdeithas Atal Troseddu Cwm Cynon Cyf wedi dirwyn i ben. Roedd wedi'i lleoli yn Nhrecynon. Mae'r sefydliad hwn wedi bod yn darparu gwasanaethau gwerthfawr dros y 25 mlynedd diwethaf, gan gynnwys archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, gweithio gyda phobl ifanc sydd â phroblemau cymdeithasol, mentrau gwrthfwrgeriaeth ac atal cam-drin yn y cartref drwy osod cloeon diogel. Mae hynny'n rhywbeth rwyf wedi cael profiad uniongyrchol ohono drwy fy ymwneud â Chymorth i Ferched Cwm Cynon. Mynegwyd pryderon am yr effaith y bydd dirwyn y gymdeithas i ben yn ei chael ar ddiogelwch cymunedol yng Nghwm Cynon. Weinidog, a wnech gytuno i edrych i mewn i'r mater a gweld beth y gellir ei wneud ar lefel ymarferol i lenwi'r bwlch a adawyd gan y gwasanaeth gwerthfawr hwn?
- 15:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We very much regret that Cynon Valley Crime Prevention Association has had to close down. It was creating real benefits by supporting disadvantaged young people across south-east Wales. It is certainly not the case that the Welsh European Funding Office has stopped European social fund funding. I know that that is something that has been suggested there, but they are false accusations. I think that the closure of it is a result of wider financial difficulties experienced by the CVCPA group. I know that this is being looked at to see what can be done to take it forward.
- Rydym yn gresynu'n fawr fod Cymdeithas Atal Troseddu Cwm Cynon wedi gorfod cau. Roedd yn creu manteision gwirioneddol drwy gefnogi pobl ifanc dan fantais ledled de-ddwyrain Cymru. Yn sicr, nid yw'n wir fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi rhoi'r gorau i roi arian o gronfa gymdeithasol Ewrop. Gwn fod hynny'n rhywbeth sydd wedi cael ei awgrymu yno, ond maent yn gyhuddiadau ffug. Credaf fod y cau'n deillio anawsterau ariannol ehangach a wynebodd y grŵp. Gwn fod hyn yn cael ei ystyried er mwyn gweld beth y gellir ei wneud i symud ymlaen.

Diwygio Llywodraeth Leol

Reforming Local Government

15:01 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0445(LG)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

12. Will the Minister make a statement on Welsh Government proposals to reform local government in Wales? OAQ(4)0445(LG)

15:01 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I made a statement to the Assembly last week and published 'Reforming Local Government'. This White Paper sets out our ambitions for the future of local government in Wales. There now follows a 12-week consultation period and I encourage all interested parties to respond.

Gwneuthum ddatganiad i'r Cynulliad yr wythnos diwethaf a chyhoeddais 'Diwygio Llywodraeth Leol'. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Yn awr ceir cyfnod ymgynghori o 12 wythnos ac rwy'n annog pawb sydd â diddordeb i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:01 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, if some local authorities do merge, what considerations have you given to the issue of council tax and pay scales? The differences in council tax on some property bands between some authorities are quite significant, and these would have to be bridged somehow. Pay rates, of course, was the main reason for Blaenau Gwent and Caerphilly county withdrawing their plans to merge social services. Has there been any serious consideration by you or your officials on the potential cost impact on Welsh households and councils if mergers do go ahead?

Weinidog, os bydd rhai awdurdodau lleol yn uno, pa ystyriaethau rydych wedi'u rhoi i'r dreth gyngor a graddfeydd cyflog? Mae'r gwahaniaethau yn y dreth gyngor i rai bandiau eiddo rhwng rhai awdurdodau yn eithaf sylweddol, a byddai'n rhaid pontio'r rhain rywsut. Cyfraddau cyflogau, wrth gwrs, oedd y prif reswm pam y tynnodd Blaenau Gwent a sir Caerffili eu cynlluniau i uno gwasanaethau cymdeithasol yn ôl. A fu unrhyw ystyriaeth o ddifrif gennych chi neu eich swyddogion ar yr effaith bosibl o ran y gost i gartrefi a chynghorau Cymru os yw'r uno yn mynd yn ei flaen?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The Member raises a very important point and I can assure you that both myself and my officials are considering this as we go forward with the White Paper.

Mae'r Aelod yn nodi pwynt pwysig iawn, a gallaf eich sicrhau fy mod i a fy swyddogion yn ystyried hyn wrth inni symud ymlaen â'r Papur Gwyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cyllid i Lywodraeth Leol

Funding to Local Government

15:02 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllid i lywodraeth leol? OAQ(4)0443(LG)

13. Will the Minister make a statement on the formula for the distribution of funding to local government? OAQ(4)0443(LG)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The formula for the distribution of funding to Welsh local authorities is developed and maintained in consultation with local government. The formula is designed to reflect the demographic, physical, economic and social characteristics of each local authority.

Mae'r fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllid i awdurdodau lleol Cymru yn cael ei datblygu a'i chynnal mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol. Mae'r fformiwla wedi'i chynllunio i adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol pob awdurdod lleol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:02 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer. My question is directed at the future of funding of local government, particularly in the light of the potential merger of local authorities and concern at the merger of some of the poorer authorities together. Will the Minister be having discussions on the funding formula with a view to ensuring that that formula represents and ties in with the Government's strategy against poverty?

Diolch i chi am eich ateb. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â dyfodol cyllid llywodraeth leol, yn enwedig yng ngoleuni cynlluniau posibl i uno awdurdodau lleol a phryder ynghylch uno rhai o'r awdurdodau tlotach gyda'i gilydd. A fydd y Gweinidog yn cael trafodaethau ar y fformiwla cyllido gyda golwg ar sicrhau bod y fformiwla yn cynrychioli ac yn cyd-fynd â strategaeth y Llywodraeth yn erbyn tlodi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:03	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes. That is a very important point. We will obviously need to examine any potential transitional impacts and explore the scope to develop stronger links between funding performance and delivery of strategic outcomes. I go back to what I said before: we will adhere to the principle of equity and fairness when we are designing any new formula going forward with our reforms. Certainly, if you look at England, you will see that some of the most deprived areas are being hit the hardest. I want to do everything we can to avoid that very regressive step.</p>	<p>Byddaf. Mae hwn yn bwynt pwysig iawn. Mae'n amlwg y bydd angen inni archwilio unrhyw effeithiau trosiannol posibl ac archwilio'r cyfle i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng perfformiad ariannol a chyflawni canlyniadau strategol. Rwy'n mynd yn ôl at yr hyn a ddywedais ynghynt: byddwn yn cadw at egwyddor cydraddoldeb a thegwch wrth inni gynllunio unrhyw fformiwla newydd wrth inni symud ymlaen gyda'n diwygiadau. Yn sicr, os edrychych ar Loegr, gwelwch mai rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n cael eu taro galetaf. Rwyf am wneud popeth o fewn ein gallu i osgoi cam atchweliadol iawn o'r fath.</p>
15:03	Russell George Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, you have made little reference to the reform of the local government funding formula in your White Paper—there are just a few lines on page 35. I was surprised to read this line:</p>	<p>Weinidog, nid ydych wedi cyfeirio rhyw lawer at ddiwygio fformiwla ariannu llywodraeth leol yn eich Papur Gwyn—mae ychydig o linellau ar dudalen 35. Roeddwn yn synnu wrth ddarllen y frawddeg hon.:</p>
	<p>'It may be possible to retain the existing distribution for the merged Authorities for a limitedTime'.</p>	<p>'Efallai y bydd modd parhau â'r dosbarthiad presennol ar gyfer yr Awdurdodau sy'n cael eu huno am gyfnod cyfyngedig'.</p>
	<p>It is clear from a rural perspective that, before any new structures are agreed, never mind implemented, a thorough and comprehensive review of the funding formula needs to take place. It is completely unrealistic to expect new authorities to begin with the current model. What will the process of reviewing the funding formula be? When will this take place, and will it be independently led?</p>	<p>Cyn i unrhyw strwythurau newydd gael eu cytuno, heb sôn am eu gweithredu, mae'n amlwg o safbwynt gwledig fod angen cynnal adolygiad trylwyr a chynhwysfawr o'r fformiwla ariannu. Mae'n gwbl afrealistig disgwyl i awdurdodau newydd ddechrau gyda'r model presennol. Beth fydd y broses o adolygu'r fformiwla ariannu? Pryd fydd hyn yn digwydd, ac a gaiff ei arwain yn annibynnol?</p>
15:04	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>As I mentioned before, we are out to a 12-week consultation now on the White Paper, so we will be looking at any contributions and proposals that come forward. It may be possible for a short time, or it may not be possible, but that is ongoing work.</p>	<p>Fel y soniais o'r blaen, mae ymgynghoriad 12 wythnos ar y Papur Gwyn ar y gweill yn awr, felly byddwn yn edrych ar unrhyw gyfraniadau a chynigion sy'n cael eu cyflwyno. Gallai fod yn bosibl am gyfnod byr, neu efallai na fydd yn bosibl, ond mae hynny'n waith sy'n parhau.</p>
	Cydweithrediad Gwasanaethau Cyhoeddus	Public Service Collaboration
15:04	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithrediad gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0457(LG)</p>	<p>14. Will the Minister make a statement on public service collaboration in North Wales? OAQ(4)0457(LG)</p>
15:04	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Collaboration still has a place in the delivery and improvement of public services in Wales. The 'Reforming Local Government' White Paper consultation published on 8 July recognises that collaboration and partnership working will remain essential if the public is to receive the services that it can reasonably expect.</p>	<p>Mae lle o hyd i gydweithio yn y gwaith o ddarparu a gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol', a gyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf yn cydnabod y bydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn parhau'n hanfodol os yw'r cyhoedd yn mynd i gael y gwasanaethau y gallant eu disgwyl yn rhesymol.</p>

15:04 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

When I asked you last week what would happen if local authorities proposed mergers that did not fit the Welsh Government's preferred map or merged departments between local authorities where those two authorities did not fit the Welsh Government's preferred map, you said that you would consider proposals that came forward with worked up alternatives. However, will that also apply to mergers between specific departments within local authorities that do not fit the preferred map, such as the merger between Flintshire's and Denbighshire's procurement units into a joint procurement unit?

Pan ofynnais i chi yr wythnos diwethaf beth fyddai'n digwydd pe bai awdurdodau lleol yn argymhell cynlluniau uno nad oedd yn ffitio'r map a ffafir gan Lywodraeth Cymru, neu uno adrannau rhwng awdurdodau lleol lle nad yw'r dda awdurdod yn ffitio'r map a ffafir gan Lywodraeth Cymru, dywedasoch y byddech yn ystyried cynigion a fyddai'n cael eu cyflwyno gyda dewisiadau amgen datblygedig. Fodd bynnag, a fydd hynny hefyd yn berthnasol i uno rhwng adrannau penodol o fewn awdurdodau lleol nad ydynt yn ffitio'r map a ffafir, megis uno unedau caffael Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn uned gaffael ar y cyd?

15:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Well, I had hoped that I had reassured the Member when he asked me in committee about this that we are not going to stop collaboration. Sometimes, I think when I listen to Mark Isherwood that there is a huge amount of collaboration going on that we are going to have to unpick. I wish that were the case. Perhaps if that were the case we would not be in the position we are in now.

Wel, roeddwn wedi gobeithio fy mod wedi rhoi sicrwydd i'r Aelod pan ofynnodd i mi ynglŷn â hyn yn y pwyllgor nad ydym yn mynd i roi'r gorau i gydweithio. Weithiau, rwy'n meddwl wrth wrando ar Mark Isherwood fod llawer iawn o gydweithio yn digwydd ac y byddwn yn gorfod ei ddadwneud. Byddai'n dda gennyf pe bai hynny'n wir. Pe bai hynny'n wir, efallai na fyddem yn y sefyllfa rydym ynddi yn awr.

Y Dreth Gyngor

Council Tax

15:05 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddarar af am gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn perthynas â'r dreth gyngor? OAQ(4)0459(LG)

15. Will the Minister provide an update on actions the Welsh Government is undertaking in relation to council tax? OAQ(4)0459(LG)

15:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Council tax is an established feature of local taxation and is kept up to date to ensure it remains fit for purpose.

Mae'r dreth gyngor yn nodwedd sefydledig o drethi lleol ac yn cael ei chadw'n gyfoes er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

15:06 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Y rheswm rwyf wedi gofyn y cwestiwn, wrth gwrs, yw oherwydd, yn ddiweddar, ymwelodd comisiynydd heddlu a throseddu Dyfed Powys â chwmini Gwalia, sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae mynd i'r afael â hyn yn angenrheidiol i'r rhai sy'n dioddef yn y gymuned. Yn hytrach na darparu gwasanaethu cyhoeddus eraill—. Rwy'n credu y dylai'r cyngor lleol fod yn edrych ar ôl y bobl, ac nid yr heddlu.

The reason I asked the question is that, recently, the police and crime commissioner in Dyfed-Powys visited Gwalia, which works with people who have suffered as a result of anti-social behaviour. Tackling this is crucial for those who suffer within our communities. Rather than providing other public services—. I believe that the local councils should be looking after these people, and not the police.

15:06 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

This is a matter for the police and crime commissioners. I am aware that support for victims and witnesses is primarily a matter for the UK Government, and I know that it has transferred funding to the police and crime commissioners to commission services in their areas. However, I go back to what I have constantly said, which is that I think it is about a partnership approach and I know that the police do work with local authorities in this area.

Mater i'r comisiynydd heddlu a throseddu yw hwn. Rwy'n ymwybodol bod cymorth i ddiodefwrwr a thystion yn fater i Lywodraeth y DU yn bennaf, ac rwy'n gwybod ei bod wedi trosglwyddo cyllid i'r comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, rwy'n mynd yn ôl at yr hyn rwyf wedi'i ddweud yn gyson, sef fy mod yn credu ei fod yn ymwneud â dull partneriaeth a gwn fod yr heddlu yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn y maes hwn.

15:07	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p>I agree with you, Minister, that it is about a partnership approach. In my previous question to you, I have already mentioned the council tax reduction scheme consultation. Do you agree with the Welsh Local Government Association that it is important that the scheme settled on is sustainable in the medium term and does not transfer an unacceptable burden onto already overstretched local authority budgets? If you have a scheme at the outset that appears to provide substantial assistance but then later on is not sustainable, you can actually leave councils, local authorities, with a bigger shortfall in the medium term than they would otherwise have had.</p>	<p>Rwy'n cytuno â chi ei fod yn ymwneud â dull partneriaeth, Weinidog. Yn fy nghwestiwn blaenorol i chi, rwyf wedi sôn eisoes am yr ymgynghoriad ar gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. A ydych yn cytuno â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn bwysig i'r cynllun y cytunir arno fod yn gynaliadwy yn y tymor canolig ac nad yw'n trosglwyddo baich annerbyniol ar gyllidebau awdurdodau lleol sydd wedi'u gorymestyn eisoes? Os oes gennych gynllun ar y dechrau sy'n ymddangos fel pe bai'n rhoi cymorth sylweddol ond nad yw'n gynaliadwy wedyn, gallech adael cynghorau, awdurdodau lleol, gyda mwy o ddiffyg mewn gwirionedd yn y tymor canolig nag y byddent fel arall wedi ei gael.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:07	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I think it is very important to avoid that, and any scheme should be sustainable.</p>	<p>Ie, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn osgoi hynny, a dylai unrhyw gynllun fod yn gynaliadwy.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:07	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:07	<p>Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The questions will be answered this afternoon by Commissioner Sandy Mewies. The question is from Simon Thomas.</p> <p>Diddordeb Pobl Ifanc yng Ngwaith y Cynulliad</p>	<p>Questions to the Assembly Commission</p> <p>Bydd y cwestiynau yn cael eu hateb y prynhawn yma gan y Comisiynydd Sandy Mewies. Daw'r cwestiwn gan Simon Thomas.</p> <p>Young People's Interest in the Work of the Assembly</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
15:08	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. Pa gamau mae'r Comisiwn yn cymryd i gynnal diddordeb pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad?</i> OAQ(4)0084(AC)</p>	<p><i>1. What steps is the Commission taking to maintain young people's interest in the work of the Assembly?</i> OAQ(4)0084(AC)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:08	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner</i></p> <p>May I thank Simon Thomas, the Member for Mid and West Wales, for the question? The Assembly's commitment to involving young people in our work was set out, as you heard today, by the Presiding Officer and party leaders at the start of today's proceedings. Alongside our new charter, signed by all parties, a range of enhanced Commission services will help us reach more young people across Wales.</p>	<p>A gaf fi ddiolch i Simon Thomas, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, am y cwestiwn? Mae ymrwymiad y Cynulliad i gynnwys pobl ifanc yn ein gwaith wedi'i nodi, fel y clywsoch heddiw gan y Llywydd ac arweinwyr y pleidiau ar ddechrau trafodion heddiw. Ochr yn ochr â'n siarter newydd, sydd wedi'i llofnodi gan bob plaid, bydd ystod o wasanaethau gwell gan y Comisiwn yn ein helpu i gyrraedd mwy o bobl ifanc ar draws Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:08

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am yr ateb. Rwy'n croesawu'r hyn sydd wedi cael ei ddweud gan y Llywydd ac arweinwyr pob plaid heddiw ynghylch ymwneud â phobl ifanc. Bydd pawb yn ymwybodol bod y Llywodraeth ei hunan wedi penderfynu peidio ag ariannu un math arbennig o waith, o bosibl, sef y Ddraig Ffyni, y Senedd i bobl ifanc. Mae hynny'n benderfyniad i'r Llywodraeth, ond yr hyn sy'n bwysig i mi yw ein bod yn gweld pobl ifanc yn medru dod at ei gilydd er mwyn galluogi, fel y mae datganiad y Llywydd yn dweud heddiw, trafodaeth a dadl, a bod hynny'n arwain yn ei dro at ddylanwad ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yn y fan hon yn y Cynulliad, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban, gyda Senedd Ieuencid yr Alban yn arwain y drafodaeth ar briodas deg ar gyfer pawb, er enghraifft. Felly, a oes camau penodol mynd i gael eu cymryd gan y Comisiwn Nawr i sicrhau bod rhyw fath o Senedd yn cael ei sicrhau ar gyfer pobl ifanc, ym mha bynnag ffordd y caiff hynny ei ddarparu?

Thank you for that response. I welcome what has been said by the Presiding Officer and the leaders of all parties today in terms of our interaction with young people. Everyone will be aware that the Government itself has decided to cease funding one particular kind of work, possibly, namely Funky Dragon, which is the youth Parliament. That is a Government decision, but what is important to me is that we do see young people being able to assemble to enable, as the Presiding Officer's statement today said, discussion and debate, and that that in turn leads to having an influence on what we do here in the Assembly, as has happened in Scotland where the Scottish Youth Parliament led the debate on equal marriage, for example. So, are there specific steps that can be taken by the Commission now in order to ensure that there is some sort of Parliament available for young people, however that is provided?

15:09

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that. As you are aware, the matters of Funky Dragon and funding are matters entirely for the Welsh Government. However, here, our aim is to ensure that every young person in Wales—every young person whoever they are and wherever they are, and we want to achieve that as much as we possibly can—can contribute to the work of the Assembly. So, the youth engagement project that was announced today will engage young people in the work that we do here in the National Assembly. There were 3,000 responses to the consultation process and you will not be surprised to hear that 86% of the people who responded said that they wanted to be involved in decisions that affected them and their communities. I do not think that any Member here will be surprised at that, because we have young people visiting the Assembly on a daily basis—schools and everyone else. That is what I hear in my constituency and that is what I hear here when I meet schools and so on.

Diolch i chi. Fel y gwyddoch, materion ar gyfer Lywodraeth Cymru yn llwyr yw'r Ddraig Ffyni a chyllid. Fodd bynnag, yma, ein nod yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru-pob person ifanc pwy bynnag ydynt a lle bynnag y maent, ac rydym am sicrhau hynny cymaint ag sy'n bosibl-yn gallu cyfrannu at waith y Cynulliad. Felly, bydd y prosiect ymgysylltu ag ieuencid a gyhoeddwyd heddiw yn cynnwys pobl ifanc yn y gwaith rydym yn ei wneud yma yn y Cynulliad Cenedlaethol. Cafwyd 3,000 o ymatebion i'r broses ymgynghori ac ni fydd yn syndod ichi glywed bod 86% o'r bobl a ymatebodd yn awyddus i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'u cymunedau. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n syndod i unrhyw Aelod yma, gan fod gennym bobl ifanc yn ymweld â'r Cynulliad yn ddyddiol-ysgolion a phawb arall. Dyna'r hyn rwy'n clywed yn fy etholaeth a dyna beth rwy'n ei glywed yma wrth gyfarfod ag ysgolion ac yn y blaen.

However, we are also determined to reach the young people from harder-to-reach groups. We do not want to just talk to people who are already talking to people like us; we want to reach everyone. So, we are bringing together a toolkit, which will look at best practice and advice for Members and staff and we are making the most of our online presence by using our youth website as a hub of information and discussion and through dedicated social media channels. As you know, Twitter and other social media, which seems to change, for me anyway, on a basis that is quicker than I can catch up with, are the sorts of things that we will be using.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn benderfynol o gyrraedd pobl ifanc o grwpiau anodd eu cyrraedd. Nid siarad â phobl sydd eisoes yn siarad â phobl fel ni rydym am ei wneud; rydym am gyrraedd pawb. Felly, rydym yn llunio pecyn cymorth, a fydd yn edrych ar arfer gorau a chyngor i Aelodau a staff, ac rydym yn gwneud y gorau o'n presenoldeb ar-lein drwy ddefnyddio ein gwefan ieuencid fel canolbwynt gwybodaeth a thrafodaeth a thrwy sianelau cyfryngau cymdeithasol penodol. Fel y gwyddoch, Twitter a chyfryngau cymdeithasol eraill, sy'n ymddangos i mi beth bynnag fel pe baent yn newid yn gyflymach nag y gallaf eu dilyn, yw'r math o bethau y byddwn yn eu defnyddio.

We want to be a world leader in this respect, but we certainly want to make sure that we are reaching our young people and listening to what they say and we want them to be involved in not just what we are planning, but also to come and scrutinise with us and come up with their ideas to inform the future. We are talking about young people today, but we want to go on for the young people of the future as well.

Rydym am arwain y byd yn hyn o beth, ond rydym yn sicr am wneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd ein pobl ifanc ac yn gwrandao ar yr hyn y maent yn ei ddweud ac rydym am iddynt fod yn rhan, nid yn unig o'r hyn rydym yn ei gynllunio, ond hefyd i ddod a chraffu gyda ni a chyflwyno eu syniadau ar gyfer llywio'r dyfodol. Rydym yn sôn am bobl ifanc heddiw, ond rydym am ddal ati er mwyn pobl ifanc y dyfodol yn ogystal.

- 15:11 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- It was absolutely wonderful to see so many young people in the Assembly today and to see them up in the gallery when the charter was launched.
- I am very concerned about the ceasing of the funding for Funky Dragon, but I accept that that is a Government decision. However, on what you said about trying to reach the hard-to-reach groups, what strategies would you undertake to reach some of the young people who are more disadvantaged or may have particular issues that make it difficult for them to be in the main stream?
- Roedd yn hollol wych gweld cymaint o bobl ifanc yn y Cynulliad heddiw a'u gweld i fyny yn yr oriel pan lanswyd y siarter.
- Rwy'n bryderus iawn fod yr arian ar gyfer y Ddraig Ffyni yn dod i ben, ond rwy'n derbyn mai penderfyniad y Llywodraeth yw hynny. Fodd bynnag, ar yr hyn a ddywedasocho am geisio cyrraedd y grwpiau anodd eu cyrraedd, pa strategaethau y byddech yn eu rhoi ar waith i gyrraedd rhai o'r bobl ifanc sydd dan fwy o anfantais neu sydd â phroblemau penodol efallai, sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt fod yn y brif ffrwd?
- 15:12 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The Member might be aware that we have had a steering group that came up with recommendations for the consultation process, and Funky Dragon was part of that process, as were other third sector organisations. So, we are really looking across the piece. This has gone on very well and we have had the consultations back, but it is not a process that has ended. Certainly, we have talked to organisations, such as Barnardo's and others, which do have contact with harder-to-reach groups. However, we are very mindful that we have to keep our eyes and ears open for other people as well. I am quite sure that if people and young people want to make representations, because this is what we are going to do from now on, we are going to listen to what they say. We promised that and you heard the party leaders promise that earlier on. We will be listening to what they have to say and, hopefully, we will be able to act on the ideas that they give us.
- Efallai fod yr Aelod yn gwybod ein bod wedi cael grŵp llywio a gynigiodd argymhellion ar gyfer y broses ymgynghori, ac roedd y Ddraig Ffyni yn rhan o'r broses honno, fel roedd sefydliadau eraill yn y trydydd sector. Felly, rydym yn edrych ar bopeth mewn gwirionedd. Mae hyn wedi mynd yn dda iawn, ac rydym wedi cael yr ymgynghoriadau yn ôl, ond nid yw'r broses sydd wedi dod i ben. Yn sicr, rydym wedi siarad â sefydliadau, megis Barnardo's ac eraill, sydd â chysylltiad â grwpiau anos eu cyrraedd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn bod yn rhaid inni gadw ein llygaid a'n clustiau ar agor i bobl eraill hefyd. Rwy'n eithaf siŵr y byddwn yn gwrandao ar yr hyn fydd gan bobl a phobl ifanc i'w ddweud os ydynt yn awyddus i wneud sylwadau, gan mai dyma y byddwn yn ei wneud o hyn ymlaen. Dyna a addawsom ac rydych wedi clywed arweinwyr y pleidiau yn addo hynny'n gynharach. Byddwn yn gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, a gobeithio y gallwn weithredu ar y syniadau y maent yn eu rhoi i ni.
- 15:13 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn croesawu'r datganiadau heddiw a hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni, fel Cynulliad, yn croesawu nifer fawr o bobl ifanc a phlant i'r lle hwn. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen i'r Comisiwn—. Roedd y Dirprwy Lywydd, Rhun ap Iorwerth, Ken Skates a minnau yn delio efo'r bobl ifanc hyn yn gynharach, ac, yn amlwg, mae nifer fawr ohonynt yn siomedig mai Cymru fydd yr unig wlad heb ryw fath o Senedd i'r ifanc ymysg gwledydd Ewrop. Felly, rwy'n meddwl, hwyrach, bod angen i'r Comisiwn ail-edrych ar hyn yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth yn gynharach yn yr wythnos.
- I am sure that we all welcome today's statements and also take pride in the fact that we, as an Assembly, welcome a great number of children and young people to this place. However, I do believe that there is a need for the Commission—. The Deputy Presiding Officer, Rhun ap Iorwerth, Ken Skates and I were speaking to the young people earlier on, and, obviously, a number of them are very disappointed that Wales will be the only country without some kind of youth Parliament in the whole of Europe. So, I believe that the Commission needs to revisit this following the Government's decision earlier this week.
- 15:14 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, as I said to you, the funding decision regarding the Funky Dragon organisation is not a decision for the Commission. However, I will say again that our goal is to ensure that every young person in Wales has a voice. We will look at many ways, not just the traditional ways, but the more modern ways that they want us to look at to let them have a voice here, and let them take part in what we do to contribute to the issues and the ideas that we talk about here. It is important that, as a legislature, we involve all our people, whatever their age and wherever they are.
- Wel, fel y dywedais wrthy, nid yw'r penderfyniad ynghylch ariannu mudiad y Ddraig Ffyni yn benderfyniad ar gyfer y Comisiwn. Fodd bynnag, dywedaf eto mai ein nod yw sicrhau bod gan bob person ifanc yng Nghymru lais. Byddwn yn edrych ar nifer o ffyrdd, nid y ffyrdd traddodiadol yn unig, ond y ffyrdd mwy modern y maent am inni edrych arnynt er mwyn gadael iddynt gael llais yma, a gadael iddynt gymryd rhan yn yr hyn rydym yn ei wneud a chyfrannu at y materion a'r syniadau y siaradwn amdanynt yma. Mae'n bwysig ein bod, fel deddfwrfa, yn cynnwys pawb o'r bobl, beth bynnag eu hoed a lle bynnag y maent yn byw.

15:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I see that there are no more speakers. Thank you very much.

Gwelaf nad oes mwy o siaradwyr. Diolch yn fawr iawn i chi.

15:15 **Datganiad: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod—Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)**

Statement: Introduction of a Member-proposed Bill—The Financial Education and Inclusion (Wales) Bill

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ddoe, gosodais y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) gyda'r Swyddfa Gyflwyno. Hoffwn ddiolch am y gefnogaeth drawsbleidiol y mae'r Bil wedi ei chael hyd yma. Wrth i Gymru barhau i wynebu heriau dad-ddiwydiannu ers canrif, mae'r wlad wedi cael ei hysgwyd ymhellach gan anrhefn yn y farchnad ariannol a chan galedi. Fe ddylai'r cyfrifoldeb dros wella lles ariannol y genedl bwysu'n drwm ar y Cynulliad hwn.

Yesterday, I laid the Financial Education and Inclusion (Wales) Bill with the Table Office. I would like to place on record my thanks for the cross-party support that the Bill has received to date. As Wales continues to deal with a century-old legacy of deindustrialisation, the country has been further rocked by financial market chaos, and by austerity. The responsibility for the improving the financial wellbeing of the nation should weigh heavily upon this Assembly.

My Bill will ride out to meet many of these challenges. It aims to increase prosperity among our population while growing the economy across Wales by equipping people with financial capability. I, of course, welcome the literacy and numeracy framework and the new numeracy GCSE, along with the Welsh Government's announcements this week. I welcome the review by Professor Donaldson, one of the many people whom I have met during this process.

Bydd fy Mil yn ymateb i'r heriau hyn. Ei nod yw cynyddu ffyniant ein poblogaeth gan dyfu'r economi ledled Cymru drwy roi gallu ariannol i bobl. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r TGAU rhifedd newydd, ynghyd â chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yr wythnos hon. Rwy'n croesawu'r adolygiad gan yr Athro Donaldson, un o'r nifer o bobl rwyf wedi eu cyfarfod yn ystod y broses hon.

A statutory duty to deliver financial education, in my view, would keep it on the curriculum forever. This is a core that everyone needs. It would futureproof it against Government change and make it immune from faddy change. It would also send the loudest message to inward investors that Wales is serious about financial education, understanding clearly how it underpins economic growth. The Bill would place statutory duties on local authorities, robustly underpinning the Welsh Government's own financial inclusion strategy and evening out delivery. By ensuring that local authorities take account of the financial wellbeing of citizens, it would promote preventative spend and create the greater benefits that the Welsh Local Government Association has spoken of previously.

Byddai dyletswydd statudol i ddarparu addysg ariannol, yn fy nhyb i, yn ei chadw ar y cwricwlwm am byth. Mae addysg ariannol yn bwnc craidd y mae ei angen ar bawb. Byddai'n sicrhau bod y pwnc ar gael er gwaethaf newid Llywodraeth ac yn ei warchod rhag newidiadau mympwyol. Byddai hefyd yn anfon neges glir i fewnuddsoddwyr fod Cymru o ddifrif ynghylch addysg ariannol ac yn deall y modd y mae'n sail i dwf economaidd. Byddai'r Bil yn rhoi dyletswyddau statudol i awdurdodau lleol, gan gynnig sylfaen gadarn i strategaeth cynhwysiant ariannol y Llywodraeth ei hun gan gysoni'r ddarpariaeth. Drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried lles ariannol dinasyddion, byddai'r Bil yn hyrwyddo gwariant ataliol ac yn creu'r manteision ehangach y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sôn amdanynt o'r blaen.

Nid yw'r ddeddfwriaeth hon ond yn berthnasol i'r cyfnod economaidd anodd hwn. Os byddwn ni'n anghofio'r gwers yr ydym ni wedi eu dysgu mewn dirwasgiad, mynd yn ôl at ddirwasgiad yr awn ni. Mae angen cynhwysiant ariannol arnom ar sail parhaol. Mae tystiolaeth gynyddol fod angen cefnogaeth ar bobl i wella eu gallu ariannol. Nododd y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru fis diwethaf nad yw 400,000 o bobl yng Nghymru yn gallu talu eu dyledion yn ôl. Mae diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rheswm i ddadlau ymhellach o blaid y Bil. O ganlyniad i'r credyd cynhwysol, bydd llawer yn rheoli problemau cyllidebol am y tro cyntaf erioed.

This legislation is not limited to these adverse economic times. The lessons we learn in recession, if forgotten, return us to recession. We need financial inclusion on a permanent basis. There is increasing evidence that people need support in improving their financial competency. The Public Policy Institute for Wales reported last month that 400,000 people in Wales cannot meet their debts. The UK Government's welfare reforms make the case for this Bill even more compelling. Universal credit will see many people manage budgeting issues for the first time.

Mae addysg ariannol eisoes yn cael ei dysgu yng Nghymru i ryw raddau, ond mae'r modd anghyson y caiff ei chyflwyno wedi arwain at geisio gwneud hynny'n statudol drwy'r Bil hwn.

Financial education is already taught in Wales, to some extent, but its uneven delivery has informed the inclusion of this statutory requirement.

Information that I obtained under the Freedom of Information Act 2000 found that, in 81 secondary schools across Wales, the number of hours of financial education taught in mathematics and personal and social education from ages 11 to 16 ranged from 270 to just six hours. This is a postcode lottery—a subject dependent upon individual teachers' enthusiasm. If a child's future financial competence hangs on the school that they attend, sometimes less than 10 miles apart, this Assembly, in my view, must act. A statutory duty means that from year 3 to year 11, every pupil must be taught about matters that include interest rates, borrowing, debt and budgeting, although the Bill does not specify subject matter. I envisage that the Welsh Government would provide guidance here, with schools retaining flexibility on content. This duty would, of course, require teacher training. The Minister's statement of last month on a national model of professional learning for the school workforce outlined new arrangements that would serve this Bill's outcomes.

The Bill's requirement that the Welsh Government consults experts when developing content takes account of the pace of financial innovation, and advice could come from young people, schools, the financial services industry and the third sector, with the Welsh Government ultimately deciding. The Bill stipulates reviewing the progress of financial education, with the Welsh Government required to lay an annual report before the Assembly. Monitoring the effectiveness of the statutory duty against new challenges in the curriculum and the financial industry is crucial. Having met with Estyn, whose report 'Money Matters' heavily informs this Bill, costings are provided.

Byddai'r Bil yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael addysg ariannol, gan adlewyrchu rôl awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn cyfrannu at yr agenda cynhwysiant ariannol, ond maent yn ddi-rym yn erbyn benthydwyr diwrnod cyflog a galwyr digroeso, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Mae cynghorau'n dweud wrthyf eu bod am gael pwerau yn y maes hwn. Felly, mae'n rhaid i strategaeth cynhwysiant ariannol ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu sut y byddent yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol pobl yn eu hardaloedd; annog pobl i wella eu gallu ariannol; hwyluso mynediad am ddim i addysg ariannol ar-lein; ac yn gweithio gyda sefydliadau eraill i hyrwyddo cynhwysiant ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i wella lles economaidd, ond mae pryderon yn parhau ynghylch sut y mae awdurdodau lleol wedi datblygu'r gwaith hwn. Rhaid i bob awdurdod lleol ymgynghori cyn llunio ei strategaeth, ac mae'n rhaid i'r awdurdod ddiwygio'r strategaeth bob pum mlynedd. Yn ogystal, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y mae wedi datblygu'r strategaeth honno.

Mae gwybodaeth a gefais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn dangos bod nifer yr oriau y mae addysg ariannol yn cael ei dysgu mewn 81 o ysgolion uwchradd ledled Cymru, mewn mathemateg neu Addysg Bersonol a Chymdeithasol rhwng 11 ac 16 oed, yn amrywio o 270 o oriau i ddim ond chwe awr. Loteri cod post yw hyn, ac mae'r pwnc yn dibynnu ar frwdfrydedd athrawon unigol. Os yw gallu ariannol plentyn yn y dyfodol yn dibynnu ar yr ysgol yr aeth iddi, sydd weithiau â llai na 10 milltir rhyngddynt, yn fy marn i mae'n rhaid i'r Cynulliad hwn weithredu. Mae dyletswydd statudol yn golygu y byddai'n rhaid i bob disgybl, rhwng blwyddyn 3 a blwyddyn 11, gael addysg am elfennau a allai gynnwys cyfraddau llog, benthyca, dyled a chyllidebu, er nad yw'r Bil yn pennu deunydd pwnc. Rwy'n rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu canllawiau yma, gydag ysgolion yn cadw hyblygrwydd o ran y cynnwys. Byddai'r ddyletswydd hon yn gofyn am hyfforddi athrawon. Roedd datganiad y Gweinidog fis diwethaf ynghylch model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ar gyfer gweithlu'r ysgol yn amlinellu trefniadau newydd a fyddai'n gwasanaethu canlyniadau'r Bil.

Mae gofyniad y Bil fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ag arbenigwyr wrth ddatblygu cynnwys yn ystyried cyflymder arloesi ym maes y byd ariannol, a gallai cyngor ddeillio o bobl ifanc, ysgolion, y diwydiant gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector - gyda Llywodraeth Cymru yn penderfynu. Mae'r Bil yn nodi y dylid adolygu cynnydd addysg ariannol, gan ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru osod adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad. Mae monitro effeithiolrwydd y ddyletswydd statudol o ran heriau newydd yn y cwricwlwm ac yn y diwydiant ariannol yn hanfodol. Mae adroddiad 'Materion Ariannol' Estyn wedi llywio'r Bil hwn yn fawr, ac ar ôl cwrdd ag Estyn, mae'r costau bellach ar gael.

The Bill would ensure that looked-after children receive financial education, reflecting local authorities' role as corporate parents. Many local authorities contribute to the financial inclusion agenda, but they are powerless against pay-day lenders and cold callers, particularly in deprived areas. Councils tell me that they want powers in this area. Therefore, a financial inclusion strategy, as a requirement for local authorities, must outline how they would promote the financial inclusion of people in their areas; encourage people to improve financial competency; facilitate free access to online financial education; and work with other organisations to promote financial inclusion.

The Welsh Government has taken steps to improve economic wellbeing, but concerns remain about how local authorities have advanced this work. Each local authority must consult before producing its strategy, and it must revise its strategy every five years. In addition, the authority must also publish an annual report on how it has progressed that strategy.

Yn gynyddol, mae gan y rhai sydd mewn addysg bellach ac uwch, ac sy'n fwy tebygol o gael swyddi sy'n talu'n dda, ddyledion mawr i fenthycwyr diwrnod cyflog. Mae cyfoeth yn cael ei gymryd oddi wrth y rhai a fydd yn gyrru economi yfory cyn iddynt ennill y cyfoeth hwnnw. Byddai awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid mewn addysg bellach ac uwch i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Er nad yw hyn ar wyneb y Bil, gallai awdurdodau lleol ddefnyddio cyfleoedd, fel y broses o wneud ceisiadau am gymorth i fyfyrwyr, i gynnig gwybodaeth ac arweiniad ac i gyfeirio myfyrwyr at gyngor ariannol.

Rhaid i'r Cynulliad hwn geisio datrysiaidau i heriau modern. Mae fy Mil yn darparu sylfaen i ddatblygu poblogaeth sy'n abl yn ariannol ac sy'n ddeniadol iawn i'w chyflogi. Wrth lunio'r Bil hwn, cynhaliais ddau ymgynghoriad, a siaradais â nifer fawr o sefydliadau a channoedd o unigolion. Maent oll wedi croesawu'r ymdrech ar y cyd i wella cymhwysedd ariannol. Maent oll yn deall arwyddocâd hynny.

Credaf fod y Bil hwn yn gynhwysol. Mae'r mewnbwn yr wyf wedi ei gael hyd yma wedi gwella'r Bil, ac yr wyf yn parhau i groesawu mewnbwn o'r fath ac yn edrych ymlaen at welliannau i'r Bil.

This Bill ultimately seeks to streamline current arrangements. It is emphatically not in conflict with Welsh Government policies nor with its legislative programme. I feel that it complements the work of the current Welsh Government, particularly in education and tackling poverty—stated top priorities by the Welsh Government. This is a compact and neat Bill. It is a Bill packed with punch and vision—and I would say that—and it looks to the future and the present with the determined aim of seeking real outcomes for the people of Wales. I commend this Bill to the Chamber.

Those in further and higher education more likely to go into well-paying jobs increasingly have had debt from payday lenders. Wealth is being taken from the drivers of tomorrow's economy before they have actually earned it. Local authorities would work with further and higher education partners to promote financial inclusion. While this is not on the face of the Bill, local authorities could use opportunities such as applications for student support to offer information, guidance and signposting to financial advice.

This Assembly must search for solutions to modern challenges. My Bill provides a bedrock for creating a financially competent and highly employable population. Drawing up this Bill, I conducted two consultations, and I spoke with scores of organisations and hundreds of individuals. All have welcomed a concerted effort to improve financial competency. They all understand its significance.

I believe that this Bill is inclusive. It has been improved by the input that I have had so far. I continue to welcome such input and look forward to receiving amendments.

Yn y pen draw, mae'r Bil hwn yn ceisio symleiddio'r trefniadau presennol. Yn bendant, nid yw'n gwrthdaro â pholisïau Llywodraeth Cymru, na'i rhaglen ddeddfwriaethol. Rwy'n teimlo ei fod yn ategu gwaith presennol Llywodraeth Cymru, yn enwedig ym maes addysg a threchu tlodi, sef y prif flaenoriaethau a nodwyd gan y Llywodraeth. Mae'r Bil hwn yn un cryno a thadlus. Mae'n Fil pwerus sy'n llawn gweledigaeth—buaswn i'n dweud hynny—ac mae'n edrych at y dyfodol a'r presennol, gyda'r nod pendant o geisio canlyniadau gwirioneddol i bobl Cymru. Rwy'n cymeradwyo'r Bil i'r Siambr hon.

15:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty, Jeff Cuthbert.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Jeff Cuthbert.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:22 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Diolch, Lywydd. I begin by thanking Bethan Jenkins for setting out her intentions for this legislation, although I am sorry to learn that she felt unable to attend the meeting that she was offered with the Minister for education yesterday.

Diolch, Lywydd. Dechreuaf drwy ddiolch i Bethan Jenkins am nodi ei bwriadau ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, er fy mod yn drist na themlai y gallai fynychu'r cyfarfod a gynigwyd iddi gyda'r Gweinidog addysg ddod.

I understand the sentiments underpinning this Bill, however, the Welsh Government is already doing a lot of good work in this area and I am not convinced that a new Bill and more bureaucracy is the answer. I believe that financial education is already being thoroughly addressed in schools across Wales, so can you tell us what value the Bill will add to our work on financial education for young people? This, of course, has been part of the school curriculum in Wales since 2008 and which, through the managing money strand, has been a statutory requirement in the new national literacy and numeracy framework since September 2013.

Rwy'n deall y teimladau sy'n sail i'r Bil hwn, ond mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud llawer o waith da yn y maes hwn, ac nid wyf yn argyhoeddedig mai Bil newydd a mwy o firocratiaeth yw'r ateb. Rwy'n credu bod addysg ariannol eisoes yn cael sylw trylwyr mewn ysgolion ledled Cymru, felly a allwch ddweud wrthym pa werth y bydd y Bil yn ei ychwanegu at ein gwaith ar addysg ariannol i bobl ifanc? Wrth gwrs, mae addysg ariannol wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru ers 2008 a thrwy'r llwybr rheoli arian, mae wedi bod yn ofyniad statudol yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol newydd ers mis Medi 2013.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I note from the explanatory memorandum that you give rough costs that implementing the curriculum requirements as a result of this Bill are estimated at £4.5 million per annum after year 1. In a time of extremely tight budgets, can you tell us what additional outcomes we can expect from this increased expenditure?

I agree with the sentiment in the Bill that commitment is needed at the highest level within local authorities to progress financial inclusion. However, would this aim be better achieved by ensuring that financial inclusion is reflected in the assessment of local wellbeing, which, in turn, informs the preparation of the local wellbeing plan of a public services board, as set out in the draft Well-being of Future Generations (Wales) Bill? This would ensure that financial inclusion is taken account of when formulating integrated plans for services that tackle poverty, housing issues and homelessness, welfare reform and local health and social care. Does the requirement for each authority to have a separate financial inclusion strategy lead not to more integrated services but, instead, to placing financial inclusion in its own silo? This Bill, despite its best intentions, will take us backwards, not forwards.

Nodaf o'r memorandwm esboniadol eich bod yn rhoi costau bras y byddai gweithredu gofynion y cwricwlwm o ganlyniad i'r Bil yn costio £4.5 miliwn amcangyfrifedig y flwyddyn ar ôl blwyddyn 1. Mewn cyfnod o gyllidebau tynn iawn, a allwch ddweud wrthym pa ganlyniadau ychwanegol y gallwn eu disgwyl o'r cynnydd hwn yn y gwariant?

Rwy'n cytuno â'r teimlad yn y Bil fod angen ymrwymiad ar y lefel uchaf o fewn awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â chynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, oni ellir cyflawni'r nod hwn yn well drwy sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn cael ei adlewyrchu yn yr asesiad lles lleol, sydd yn ei dro yn llywio'r gwaith o baratoi cynllun lles lleol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, fel y nodir ym Mil drafft Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? Byddai hyn yn sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn cael ei ystyried wrth lunio cynlluniau integredig ar gyfer gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â thlodi, materion tai a digartrefedd, diwygio lles ac iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Yn hytrach nag arwain at wasanaethau mwy integredig, onid yw'r gofyniad i bob awdurdod gael strategaeth cynhwysiant ariannol ar wahân yn arwain at osod cynhwysiant ariannol yn ei seilo ei hun? Bydd y Bil hwn, er gwaethaf ei fwriadau gorau, yn mynd â ni yn ôl, nid ymlaen.

15:25

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sorry that the Minister is so negative. I have been asking for a meeting for some time, and we will be checking the diary to make sure that we can have a meeting with the Minister for Education and Skills. I do not believe that this Bill conflicts, as I said in my statement, with anything that the Welsh Government is currently doing. It is disappointing to hear that the Minister believes that it will not add any value. The Centre for Economics and Business Research said that implementing financial education could benefit the UK by £3.5 billion per year. If you applied this to Wales, it would be a benefit of £162 million per year. Therefore, I believe that it is vital that we look into this area.

Enshrining this in legislation would make sure that there would not be any change as and when people would see fit. We need to make sure that young people have strategic education in this sector, and that it does not rely upon the whim of individual teachers as to whether they get that education or not. With regard to the financial inclusion strategy, the Welsh Government's own analysis of those strategies shows us that it is very patchy across Wales, in terms of those that are being delivered. The champions, with regard to financial education, feel frustrated at the lack of delivery on a local authority level. Therefore, I would have expected a little bit more positivity in that regard.

Mae'n ddrwg gennyf fod y Gweinidog mor negyddol. Rwyf wedi bod yn gofyn am gyfarfod ers peth amser, a byddwn yn gwirio'r dyddiadur i wneud yn siŵr y gallwn gael cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Fel y dywedais yn fy natganiad, nid wyf yn credu bod y Bil hwn yn gwrthdaro ag unrhyw beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae'n siomedig clywed bod y Gweinidog yn credu na fydd yn ychwanegu unrhyw werth. Dywedodd y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Economeg a Busnes y gallai gweithredu addysg ariannol greu £3.5 biliwn y flwyddyn o elw i'r DU. Pe baech yn cymhwyso hyn ar gyfer Cymru, byddai'n creu £162 miliwn y flwyddyn o elw. Felly, rwy'n credu ei bod yn hanfodol inni edrych ar y maes.

Byddai ymgorffori hyn mewn deddfwriaeth yn sicrhau na fyddai unrhyw newid yn ôl mympwy pobl. Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael addysg strategol yn y sector hwn, ac nad yw'n dibynnu ar fympwy athrawon unigol pa un a ydynt yn cael yr addysg ai peidio. O ran y strategaeth cynhwysiant ariannol, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r strategaethau hynny yn dangos eu bod yn anghyson iawn ar draws Cymru, o ran y rhai sy'n cael eu darparu. Mae hyrwyddwyr addysg ariannol yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â diffyg darpariaeth ar lefel awdurdodau lleol. Felly, byddwn wedi disgwyl agwedd ychydig yn fwy cadarnhaol yn y cyswllt hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

With regard to cost, the Minister should be aware that my team and the research team here at the Assembly tried to contact the Welsh Government on numerous occasions with regard to the costings that are carried out, and did not have responses. We estimated costs based on what we could find in work that other Governments had done and work that the all-party group in Westminster had done, so that we would be able to produce a comprehensive piece of work to put forward with this Bill, being conscious of wanting AMs to be fully informed of how the costings would move forward. In my view, the preventative spend of this Bill would far outweigh any initial spend that the Bill would be implementing, considering the fact that, only today, the Financial Services Authority said that many people were not fully educated when they were going on comparison websites, in terms of how they could access their own funding streams. In the future, I would appreciate a more positive response from the Welsh Government, but I will wait to hear what other Assembly Members have to say.

O ran costau, dylai'r Gweinidog fod yn ymwybodol fod fy nhîm a'r tîm ymchwil yma yn y Cynulliad wedi ceisio cysylltu â Llywodraeth Cymru ar nifer o achlysuron o ran y gwaith costio a wneir, ac ni chafodd ymateb. Rydym wedi amcangyfrif costau yn seiliedig ar yr hyn y gallem ddod o hyd iddo yn y gwaith roedd Llywodraethau eraill wedi'i wneud a gwaith y grŵp hollbleidiol yn San Steffan, fel y gallem gynhyrchu gwaith cynhwysfawr i'w gyflwyno gyda'r Bil hwn, gan fod yn ymwybodol bod eisiau i ACau fod yn gwbl wybodus ynglŷn â sut y byddai'r costau'n symud ymlaen. Yn fy marn i, byddai gwariant ataliol y Bil hwn yn llawer mwy nag unrhyw wariant cychwynnol y byddai'r Bil yn ei greu, o ystyried bod yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol wedi dweud heddiw ddiwethaf nad oedd llawer o bobl yn cael eu haddysgu'n llawn wrth fynd ar wefannau cymharu, o ran sut y gallent gael mynediad at eu ffrydiau cyllido eu hunain. Yn y dyfodol, byddwn yn gwerthfawrogi ymateb mwy cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, ond byddaf yn aros i glywed beth sydd gan Aelodau eraill y Cynulliad i'w ddweud.

15:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have quite a long list of speakers, and so I ask Members to stick specifically to questions to Bethan Jenkins and not to give any long preambles. I call on Keith Davies.

Mae gennyf restr eithaf hir o siaradwyr, ac felly gofynnaf i'r Aelodau gadw'n benodol at gwestiynau i Bethan Jenkins ac i beidio â rhagymadroddi'n hir. Galwaf ar Keith Davies.

15:28 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch—

Thank you—

15:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

No, I am sorry. I call on Andrew R.T. Davies. It was the wrong 'Davies'.

Na, mae'n ddrwg gennyf. Galwaf ar Andrew R.T. Davies. Roedd y 'Davies' anghywir gen i.

15:28 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I know that we look somewhat similar with our hairlines. [Laughter.]

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n gwybod bod ein gwalltiau'n edrych braidd yn debyg. [Chwerthin.]

I congratulate the Member on winning the ballot and bringing this proposal forward for consideration. I very much hope that it goes to committee and that we ultimately have the chance to take evidence. Hopefully, on the strength of that evidence, Members will be better informed as to whether this should form part of the legislative legacy of this institution and the fourth Assembly, or otherwise, if the evidence is to the contrary. I was disappointed in the Minister's totally negative outlook on the piece of legislation that was proposed. However, I would pose this question to the proposing Member: do you believe wholeheartedly that legislation is required to make these improvements in financial literacy in education? I could not agree more with the sentiments that you expressed that there is no uniformity in the education system at the moment. I visit some schools where there is good practice, and other schools where there is none at all. So, I am just trying to balance up in my own mind whether it is more robust regulation that we need from the Government of the day, or whether we need to bring this together under a piece of legislation. From the evidence that you have taken so far, does that stack up?

Rwy'n llongyfarch yr Aelod ar ennill y bleidlais a chyflwyno'r cynnig hwn i'w ystyried. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yn mynd gerbron y pwyllgor ac y cawn gyfle yn y pen draw i gymryd tystiolaeth. Ar gryfder y dystiolaeth honno, gobeithio y bydd yr Aelodau'n fwy gwybodus ynghylch a ddylai hyn fod yn rhan o etifeddiaeth deddfwriaethol y sefydliad hwn a'r pedwerydd Cynulliad, neu fel arall os yw'r dystiolaeth i'r gwrthwyneb. Roeddwn yn siomedig ynghylch agwedd hollol negyddol y Gweinidog ynglŷn â'r deddfwriaeth a gynigiwyd. Fodd bynnag, hoffwn ofyn y cwestiwn hwn i'r Aelod sy'n cynnig: a ydych yn llwyr gredu bod angen deddfwriaeth i wneud y gwelliannau hyn ym maes llythrennedd ariannol mewn addysg? Ni allwn gytuno mwy â'r teimladau a fynegwyd gennych nad oes unffurfiaeth yn y system addysg ar hyn o bryd. Rwy'n ymweld â rhai ysgolion lle y ceir arfer da, ac ysgolion eraill lle na cheir hynny o gwbl. Felly, rwy'n ceisio pwyso a mesur yn fy meddwl fy hun ai rheoleiddio mwy cadarn gan Lywodraeth y dydd sydd arnom ei angen neu a oes angen dod â hyn ynghyd mewn deddfwriaeth. O'r dystiolaeth rydych wedi'i chymryd hyd yn hyn, a yw hynny'n dal dŵr?

Secondly, there is a strong emphasis on local authorities to comply with this proposed legislation and the process that they would have to undertake—five-yearly reviews and inclusion within the community. What specific examples would local authorities be able to implement in the communities that they are elected to represent—things that they do not do at the moment, and things that this piece of legislation would enforce on them and that would ultimately have the desired effect of creating better financial understanding in young people in society today?

15:30

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Andrew R.T. Davies, and thank you for your positive response to what I am trying to do.

I would say that, for financial education to be taught by statute, it would address the current shortcomings, where aspects of financial education may be provided in schools, but reliant on inclusion in various other curriculum streams. It is not, at the moment, in one place, and therefore people are unaware, in some areas in schools, where it should be taught, and where it could be taught. That is why we are seeing such a variation across Wales. I think that it puts beyond any doubt the status of financial education within the curriculum, and ensures that it is delivered to young people in Wales.

Just to finish on that element, the Organisation for Economic Co-operation and Development's high-level principles, 'National Strategies for Financial Education', which was published in 2012, actually stipulated legislation as one of the possible means of recognising the importance of financial education. Here in this Chamber, and in committee, we are always referencing the OECD, and looking at how we can, potentially, do better in the Programme for International Student Assessment results. Financial education will be a key component of those PISA results in the future. I would like to think, therefore, that it is essential that it is enshrined in legislation, because it stays there, and it stays as a priority, despite the colour of Government, because, regardless of your age, or sex, or colour, you will always need strong financial education, so that it will equip you for the rest of your life.

As I wanted to say, when I speak to employers—and this will interest you as well—they say, 'We find, sometimes, that we do not want to set up a business in a given area', because they see in certain areas that people lack the skills in financial education. We cannot, surely, be in a position like that in 10 years' time. I am sorry that I did not address your local authority issue, but I will in various stages, as we progress with this Bill.

Yn ail, mae pwysau cryf ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth arfaethedig a'r broses y byddai'n rhaid iddynt ymgymryd â hi—adolygiadau pum mlynedd a chynhwysiant yn y gymuned. Pa enghreifftiau penodol a fyddai awdurdodau lleol yn gallu eu gweithredu yn y cymunedau y maent wedi'u hethol i'w cynrychioli—pethau nad ydynt yn eu gwneud ar hyn o bryd a phethau y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn eu gorfodi arnynt ac a fyddai yn y diwedd yn cael yr effaith a ddymunir, sef creu gwell dealltwriaeth ariannol mewn pobl ifanc yn y gymdeithas heddiw?

Diolch i chi, Andrew R.T. Davies, a diolch i chi am eich ymateb cadarnhaol i'r hyn rwy'n ceisio ei wneud.

Er mwyn i addysg ariannol gael ei addysgu drwy statud, byddwn yn dweud y byddai'n mynd i'r afael â'r diffygion presennol, lle y mae'n bosibl darparu agweddau ar addysg ariannol mewn ysgolion, ond yn ddbynol ar ei chynnwys mewn gwahanol ffyrddiau cwricwlwm eraill. Nid yw ar gael mewn un lle ar hyn o bryd, ac felly nid yw pobl yn ymwybodol, mewn ysgolion mewn rhai ardaloedd, lle y dylid ei haddysgu, a lle y gellid ei ddysgu. Dyna pam rydym yn gweld y fath amrywio ledled Cymru. Rwy'n meddwl bod y Bil yn rhoi statws addysg ariannol y tu hwnt i unrhyw amheuaeth o fewn y cwricwlwm, ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i bobl ifanc Cymru.

I offren ar yr elfen honno, mewn gwirionedd roedd egwyddorion lefel uchel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 'National Strategies for Financial Education', a gyhoeddwyd yn 2012, yn nodi deddfwriaeth fel un o'r dulliau posibl o gydnabod pwysigrwydd addysg ariannol. Yma yn y Siambr hon, ac yn y pwyllgor, rydym bob amser yn cyfeirio at y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), ac yn edrych ar sut y gallwn sicrhau canlyniadau gwell, o bosibl, yn y Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr (PISA). Bydd addysg ariannol yn elfen allweddol o'r canlyniadau PISA yn y dyfodol. Hoffwn feddwl felly ei bod yn hanfodol ei hymgorffori mewn deddfwriaeth, oherwydd ei bod yn aros yno, a bydd yn parhau'n flaenoriaeth, er gwaethaf lliw'r Llywodraeth. Beth bynnag yw eich oedran, neu ryw, neu liw, byddwch bob amser angen addysg ariannol gref, er mwyn eich paratoi ar gyfer gweddill eich bywyd.

Fel roeddwn am ei ddweud, pan fyddaf yn siarad â chyflogwyr—a bydd hyn o ddiddordeb i chi yn ogystal—maent yn dweud, 'Weithiau, gwelwn nad ydym eisiau sefydlu busnes mewn ardal benodol', oherwydd eu bod yn gweld nad yw pobl mewn rhai ardaloedd yn meddu ar sgiliau addysg ariannol. Yn sicr, ni allwn fod mewn sefyllfa o'r fath ymhen 10 mlynedd. Mae'n ddrwg gennyf nad euthum i'r afael â'ch mater yn ymwneud ag awdurdodau lleol, ond byddaf yn gwneud hynny ar gamau gwahanol wrth inni symud ymlaen gyda'r Bil hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad that Bethan Jenkins has mentioned the OECD, because, last week, on 9 July, the OECD published 'Students and Money—Financial Literacy Skills for the 21st Century'. We are talking about PISA tests, right. Now, on PISA tests—the ones that we have been debating here—over 0.5 million students, and those 0.5 million representing 28 million 15-year-olds, in 65 countries across the world, and 29,000 of those, in those PISA tests two years ago, did the tests on financial literacy skills. I do not know whether Bethan has seen this, but it is quite an important report. As an example, it says,

'Across the OECD, on average, 15% of students do not reach the baseline level of financial literacy'.

It is a huge problem. In this report, it has the financial literacy assessment framework, and gives examples of the kinds of questions that 15-year-olds are asked, and whether they can answer them or not. I do not know whether you have seen this. It also adds that there have been developments of national strategies of financial education across the world. It quotes here seven countries; I will just quote two of them. Australia adopted in 2011, and reviewed in 2013, a national strategy for financial education. New Zealand launched one in 2008. Sorry, I will name a third—Spain launched one in 2008, and revised it in 2013.

The reason that I am quoting this, Bethan, is because they look at it differently. In Australia, financial literacy was first introduced within the maths, English and science curricula, and was also included in the draft economics and business curricula. New Zealand financial literacy is included in the curriculum as a theme that schools can use. So, what I would like you to do is to have a look at these national strategies. Now, Donaldson is looking at the curriculum, we are looking at two new mathematics, and I think that there is enough information across the world to say that this is a real issue. Hopefully, we can look at, and gain from, what other countries have learned.

Rwy'n falch fod Bethan Jenkins wedi sôn am yr OECD, oherwydd yr wythnos diwethaf, ar 9 Gorffennaf, cyhoeddodd yr OECD 'Students and Money—Financial Literacy Skills for the 21st Century'. Rydym yn sôn am brofion PISA, iawn. Yn awr, ar brofion PISA—y rhai rydym wedi bod yn dadlau yn eu cylch yma—mae dros 0.5 miliwn o fyfyrwyr, a'r 0.5 miliwn hynny yn cynrychioli 28 miliwn o bobl ifanc 15 mlwydd oed, mewn 65 o wledydd ar draws y byd, a 29,000 o'r rheini, yn y profion PISA ddwy flynedd yn ôl, a wnaeth y profion ar sgiliau llythrennedd ariannol. Nid wyf yn gwybod a yw Bethan wedi gweld hwn, ond mae'n adroddiad eithaf pwysig. Er enghraifft, mae'n dweud,

'Ar draws yr OECD, ar gyfartaledd, nid yw 15% o'r myfyrwyr yn cyrraedd y lefel sylfaenol o lythrennedd ariannol'.

Mae'n broblem enfawr. Yn yr adroddiad hwn, mae'n nodi fframwaith asesu llythrennedd ariannol, ac yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau a ofynnir i rai 15 mlwydd oed, ac a allant eu hateb ai peidio. Nid wyf yn gwybod a ydych wedi gweld hwn. Mae hefyd yn ychwanegu fod strategaethau cenedlaethol ar gyfer addysg ariannol wedi cael eu datblygu ym mhob rhan o'r byd. Mae'n sôn yma am saith gwlad; rwyf am gyfeirio at ddwy ohonynt. Yn 2011, mabwysiadodd Awstralia strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg ariannol yn 2011, a'i hadolygu yn 2013. Lansiodd Seland Newydd un yn 2008. Mae'n ddrwg gennyf, rwyf am enwi trydedd—lansiodd Sbaen un yn 2008, a'i hadolygu yn 2013.

Y rheswm rwy'n cyfeirio at hyn, Bethan, yw oherwydd eu bod yn edrych ar y mater yn wahanol. Yn Awstralia, cyflwynwyd llythrennedd ariannol yn gyntaf o fewn y cwricwla mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth, a'i gynnwys hefyd yn y cwricwla drafft ar gyfer economeg a busnes. Mae llythrennedd ariannol Seland Newydd yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm fel thema y gall ysgolion eu defnyddio. Felly, yr hyn yr hoffwn i chi ei wneud yw edrych ar y strategaethau cenedlaethol hyn. Yn awr, mae Donaldson yn edrych ar y cwricwlwm, rydym ni'n edrych ar ddwy fathemateg newydd, ac rwy'n meddwl bod digon o wybodaeth ar draws y byd i ddweud bod hyn yn broblem go iawn. Gobeithio y gallwn edrych ar yr hyn y mae gwledydd eraill wedi'i ddysgu, ac elwa ohono.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Keith. I am taking from your contribution that you are broadly supportive of what I am trying to do, and, hopefully, we can discuss this further at committee level. As I said, I believe that it is important that it is enshrined in legislation, because the literacy and numeracy framework, as stands, is governed by secondary legislation, so it does not give it the strength, I believe—and we should all care about this, I think—in terms of where it fits in the legislative process.

Diolch i chi, Keith. Rwy'n cymryd o'ch cyfraniad eich bod yn gyffredinol yn cefnogi'r hyn rwy'n ceisio ei wneud, a gobeithio y gallwn drafod hyn ymhellach ar lefel pwyllgor. Fel y dywedais, rwy'n credu ei bod yn bwysig inni ei ymgorffori mewn deddfwriaeth, oherwydd bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd, fel y mae ar hyn o bryd, yn cael ei reoli gan is-ddeddfwriaeth, felly nid yw'n rhoi'r cryfder iddo, rwy'n credu—a dylem i gyd hyn falio am hyn, rwy'n meddwl—o ran sut y mae'n cymryd ei le o fewn y broses ddeddfwriaethol.

You mention Professor Donaldson. I have met with Professor Donaldson; he is very receptive to my ideas but you must understand that the directions that he received from the Welsh Government did not include the Communities and Culture Committee report into financial inclusion, and did not specifically ask him to look at this agenda. Therefore, I still believe that there is a need for this particular Bill.

I just want to add and put on record here, because I have had an e-mail from my office with regard to the meeting yesterday, that I was sitting on the Petitions Committee when the Minister said that he could meet with me. I have to perform my duties as an Assembly Member on said committee, and I look forward to a meeting with the Minister in future.

Rydych yn sôn am yr Athro Donaldson. Rwyf wedi cyfarfod â'r Athro Donaldson; mae'n barod iawn i glywed fy syniadau, ond rhaid ichi ddeall nad oedd y cyfarwyddiadau a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gynhwysiant ariannol, ac ni ofynnodd iddo edrych ar yr agenda hon yn benodol. Felly, rwy'n dal i gredu bod angen y Bil penodol hwn.

Hoffwn ychwanegu a chofnodi yma, oherwydd rwyf wedi cael e-bost o fy swyddfa mewn perthynas â'r cyfarfod ddoe, fy mod yn y Pwyllgor Deisebau pan ddywedodd y Gweinidog y gallai gyfarfod â mi. Rhaid imi gyflawni fy nyletswyddau fel Aelod Cynulliad ar y pwyllgor hwnnw, ac edrychaf ymlaen at gyfarfod gyda'r Gweinidog yn y dyfodol.

15:35

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddiolch i Bethan Jenkins am ei datganiad heddiw. Yn gyntaf oll, rwy'n cytuno â hi bod hwn yn Fil cryno a thadlus, a diolch iddi hi a phawb a fu'n gweithio ar y Bil am eu gwaith caled a chymen. Mae'r Bil yn un sy'n rhwydd i'w ddeall ac yn rhwydd i'w dehongli. Nid yw hynny yn wir am bob Bil sydd wedi cael ei gyflwyno yn y fan hon.

Mae un o'r cwestiynau sy'n codi yn sgîl y Bil felly yn gwestiwn digon teg, sef a oes angen Bil i gyflawni hyn ac onid oes modd cyflawni hyn mewn ffordd wahanol? Mae'r ateb, mewn ffordd, wedi cael ei roi eisoes gan y Gweinidog. Mae wedi dweud bod y materion hyn wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol ers 2008. A ydym ni fel Aelodau Cynulliad yn meddwl bod ein hetholwyr ni wir yn meddu ar y sgiliau hyn i ddelio gyda'r byd modern a'r ffordd y mae cwmnïau megis Wonga yn ceisio gwrthio a gwerthu'r math hwn o gynnyrch ariannol? Nid wyf yn meddwl eu bod nhw, o'r achosion rwy'n delio â nhw; rwy'n delio â phobl nad ydynt, yn syml iawn, wedi cael yr addysg a'r cefndir i allu dehongli a delio gyda rhai o'r cwmnïau hyn. Mae'n briodol, ac yn ddiddorol, rwy'n meddwl, bod Wonga ei hun, yr wythnos hon yn unig, wedi cydnabod bod ei fodel gweithredu wedi bod yn ffaeledig a'i fod eisiau newid hynny yn sylfaenol. Ond yr hyn rwyf i â diddordeb ynddo yw sicrhau bod pob un person ifanc yng Nghymru yn meddu ar y sgiliau a'r arfau i fyw mewn cymdeithas gyfalafol. Hoffi hynny neu beidio, mae'n rhaid i ni roi'r sgiliau iddynt, fel eu bod yn deall beth yw morgais, beth y benthyciad, beth yw APR a sut i ymwneud ag aps a phethau felly sy'n fwyfwy cyffredin yn y ffordd y mae cynnyrch ariannol yn cael ei ddarparu.

Rwy'n meddwl bod y Bil yn ymwneud â maes sydd yn bwysig iawn. Wedi dweud hynny, mae gen i ddau brif gwestiwn i Bethan yr hoffwn eu gofyn heddiw. Yn gyntaf oll, mae'r adolygiad o'r cwricwlwm gan Donaldson wedi cael ei grybwyll eisoes, ac rwy'n meddwl ei fod yn bwysig inni ddeall tipyn bach mwy am sut mae'r Bil hwn yn eistedd gyda'r adolygiad. Gallai'r adolygiad hwnnw, o bosibl, ddarparu rhan o'r Bil. Y cwestiwn yw: a ydym am ddefnyddio'r Bil neu'r cwricwlwm, neu'r ddau gyda'i gilydd, i sicrhau bod hyn yn digwydd? Yn y cyd-destun hwnnw, felly, dywedodd Bethan eisoes ei bod wedi cwrdd â'r Athro Donaldson. A fydd hi hefyd yn cwrdd ag athrawon, undebau athrawon, neu unrhyw un arall yn y maes hwn, i helpu i ddatblygu meddylfryd y Bil?

I would like to thank Bethan Jenkins for her statement today. First of all, I agree with her that this is a succinct and tidy Bill, and I thank her and everyone who worked on the Bill for their hard work. The Bill is easy to understand and easy to interpret. That is not true of all Bills that have been introduced here.

One question that arises as a result of the Bill, therefore, is fair enough: do we need a Bill to achieve this and is it not possible to achieve this in a different way? The answer, in a way, has already been given by the Minister. He has said that these issues have been part of the national curriculum since 2008. Do we, as Assembly Members, believe that our constituents truly have the skills to deal with the modern world and the way that companies like Wonga try to push and sell this type of financial product? I do not think so, from the cases that I deal with; I deal with people who, quite simply, have not had the education and background to be able to interpret and deal with some of these companies. It is appropriate, and interesting, I think, that Wonga itself, only this week, has recognised that its operating model has had failings and that it wants to fundamentally change it. However, what interests me is to ensure that every young person in Wales has the skills and the tools to live in a capitalist society. Like it or not, we have to provide them with the skills, so that they understand what a mortgage is, what a loan is, what APR is and how to interact with apps and all of those things that are becoming so much more common in the way that financial products are provided.

I believe that the Bill deals with an area that is very important. Having said that, I have two main questions for Bethan that I would like to ask today. First of all, the Donaldson review of the curriculum has been mentioned already, and I think that it is important that we understand a little more about how this Bill sits with that review. That review could possibly deliver part of the Bill. The question is: do we want to use the Bill or the curriculum, or both together, to ensure that this happens? In that context, therefore, Bethan has already said that she has met with Professor Donaldson. Will she also meet with teachers, teachers unions, or anyone else in this area, to help to develop the mindset behind the Bill?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yr ail gwestiwn yw: yn ôl beth rwy'n deall, er bod awdurdodau lleol yn gallu gwneud y math hwn o waith—wrth gwrs, gallant wneud pob math o bethau fel hyn os ydynt yn dymuno—dim ond un, rwy'n meddwl, sydd â strategaeth lawn ar hyn o bryd sydd wir yn ymwneud â chynhwysiant ariannol. Felly, pa fath o adborth mae Bethan Jenkins wedi'i gael gan awdurdodau lleol sydd naill ai wedi helpu i lunio'r Bil yma, neu a fydd yn bwysig inni ei drafod mewn pwyllgor wrth i'r Bil fynd yn ei flaen? Rydym i gyd yn ymwybodol bod llywodraeth leol yn wynebu cyfnod anodd iawn o doriadau.

Y pwynt olaf i'w wneud yn y cyd-destun hwn yw hyn: os ydym yn gallu darparu'r sgiliau hyn i bobl ifanc—ac i bobl o bob oed, achos mae angen y sgiliau hyn ar rai pobl hŷn hefyd, rhaid dweud—ac i bob un o'n hetholwyr a'n dinasyddion ni, yn y pen draw, mae'n golygu bod mwy o arian yn cylchredeg yn lleol a llai o arian yn cael ei odro gan y cwmnïau hyn sydd yn ysglyfaeth, yn fy marn i, ar rai o'n pobl mwyaf bregus ni.

The second question is: from what I understand, although local authorities are able to do this kind of work—of course, they can do all sorts of things like this if they want to—only one, I think, has a comprehensive strategy at present that really covers financial inclusion. So, what kind of feedback has Bethan Jenkins had from local authorities that have helped in drawing up the Bill, or that will be important as we discuss the Bill in committee stages? We are all aware that local government is facing a very difficult period of cuts.

The final point to be made in this context is: if we are able to provide these skills to young people—and to people of all ages, because these skills are needed by some older people too, it must be said—and to all of our constituents and our citizens, it will mean, at the end of the day, that more money is circulating locally, with less money being taken by these companies that prey, in my opinion, on some of our most vulnerable people.

15:39

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Simon Thomas, am y pwyntiau cadarnhaol hynny. Yng nghyd-destun cwmnïau megis Wonga, yn amlwg rydym yn ymwybodol nad oes gennym y pwerau i dacio hynny ar lefel gyllidebol, felly dyna pam rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y strategaethau lleol o ran cynhwysiant ariannol yn glir ac yn rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n bwysig, wrth weithio gyda'r trydydd sector ac elusennau, ein bod yn rhoi'r arfau i bobl gyffredin allu addysgu'u hunain yn erbyn yr hyn sy'n digwydd, ac ar sut mae cwmnïau fel Wonga yn ceisio cam-drin pobl Cymru yn hynny o beth. Dyna pam bod yr hyn rwyf wedi ei ddweud o ran ceisio cael mynediad i wefannau sy'n rhoi gwybodaeth i bobl yn bwysig. Mae edrych ar sut y gall pobl dargedu y maes hwn yn bwysig iawn.

O ran Donaldson, rwy'n cymryd y pwynt yn glir iawn ynglŷn â lle mae hyn yn ffitio. Fel y dywedais, rwy'n hapus i drafod eto gyda Donaldson. Rwy'n dal i gredu, hyd yn oed os nad yw Donaldson yn dweud bod angen cyfraith statudol yn hyn o beth, bod y Bil hwn yn angenrheidiol oherwydd mae'n rhoi heibio unrhyw amheuaeth nad yw hyn yn bwysig i Gymru ac yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu tyfu lan gyda'r adnoddau sydd eu hangen arnynt. Wrth gwrs, nid ydym wedi edrych gymaint ar oedolion. Er hyn, yn fy marn i, fel rydych wedi dweud, os ydym yn taclor broblem hon o saith oed ymlaen, rydym yn sicrhau hygredd yn y ffaith eu bod yn gallu bod yn oedolion sy'n gallu ymdrin â'r sefyllfa hon. Mae'n ddiddorol bod Llywodraeth yr Alban wedi dweud bod cael rhagor o addysg ariannol yn gallu arwain at bobl yn ennill £32,000 yn fwy pan eu bod yn 35 oed ac yn hŷn, ac mae hwnnw'n swm eithaf mawr o arian er mwyn iddynt allu ymdopi â'r sefyllfa.

O ran awdurdodau lleol, Abertawe yw'r awdurdod sydd wedi bod yn siarad â mi fwyaf aml am ei waith. Mae gan yr awdurdod grŵp llywio sy'n edrych yn fanwl ar y materion hyn. Mae'n anffodus nad yw awdurdodau lleol wedi bod mor awyddus i gyfathrebu ar y mater hwn. Rwyf wedi siarad â Chartrefi Cymunedol Cymru Cyf a thenantiaid, a dyna pam y cyflwynwyd rhagor o addysg ariannol i helpu tenantiaid—oherwydd nad yw'r awdurdodau lleol yn gwneud hynny. Felly, dyna pam rwy'n gweld yr angen am y Bil hwn.

Thank you, Simon Thomas, for those positive points. In the context of companies like Wonga, obviously we are aware that we do not have the powers to tackle that at a budgetary level. That is why I think that it is important that local strategies on financial inclusion are clear and provide people with information. It is important, when working with the third sector and charities, that we give ordinary people the tools needed to inform themselves about what can happen, and about how companies like Wonga try to mistreat people in Wales in that regard. That is why what I have said in terms of trying to access websites that give people information is important. Looking at how people can target this area is very important.

In terms of Donaldson, I take the point very clearly with regard to where this fits. As I said, I am happy to have discussions again with Donaldson. I still believe, even if Donaldson does not say that we need a statutory aspect in this regard, that this Bill is necessary, because it will get rid of any doubt that this is not important to Wales and ensure that young people can grow up with the resources that they need. Of course, we have not looked so much at provision for adults. Despite this, in my view, as you have said, if we do tackle this problem from the age of seven, we demonstrate that they can grow into adults who are able to deal with this situation. It is interesting that the Scottish Government has said that additional financial education can lead to people earning £32,000 more when they are 35 years of age and older, and that is quite a large sum of money so that they can cope with the situation.

In terms of local authorities, Swansea is the authority that has been speaking to me most often about its work. It has a steering group that is looking in detail at these issues. It is unfortunate that local authorities have not been so keen to communicate on this issue. I have spoken to Community Housing Cymru Ltd and tenants, and that is why more financial education has been given to help tenants—because local authorities are not doing it. Therefore, that is why I see the need for this Bill.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:41

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r Bil. Rwy'n meddwl bod pob un ohonom sydd â gwaith achos—ym mhob swyddfa, mae'n debyg, yng Nghymru—yn ymwybodol iawn o faint y broblem hon. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig braidd ag ymateb y Llywodraeth. Roedd yn ymddangos ei bod yn credu bod cynlluniau lleol, enfawr yn ffordd o fynd i'r afael â'r broblem hon. Fel un a oedd yn arwain cyngor, heblaw bod rhyw fath o ffocws ar faes penodol, yn gyffredinol, nid oes gobaith i awdurdodau lleol. Rwy'n meddwl bod yr hyn rydych wedi'i ddweud, eich bod yn siomedig o ran ymateb cynghorau lleol i'r ymgynghoriad ar y Bil arfaethedig, yn tanlinellu'r ffaith honno. Oni bai bod rhyw fath o ffocws, nid yw'n mynd i gael y ffocws y dylai gael.

A gaf i ofyn dau gwestiwn byr? Rwy'n dweud ein bod yn croesawu'r Bil yn gyffredinol. Mae'n debyg bod gennym rai pryderon ynglŷn â'r grymoedd y siaredir amdanynt yn y memorandwm esboniadol ar reoli'r ffordd mae pobl yn ymwneud â rhai o'r cwmnïau hyn ar y we mewn adeiladau megis llyfrgelloedd a lleoedd felly. Roedd sôn am reoli hynny. Rydym ni'n teimlo bod cyfrifoldeb ar unigolion ond hefyd yn teimlo bod rhaid inni fynd i'r afael â'r diffyg addysg. Wrth sôn am addysg, a ydych wedi cael unrhyw fath o drafodaethau ag undebau neu golegau addysg ynglŷn â sut yn union y byddent yn mynd i'r afael â datblygu hyfforddiant yn y maes hwn? Mae'n rhaid imi ddweud hyn wrth y Gweinidog: mae'n iawn i chi ddweud bod y meysydd hyn o fewn y cwricwlwm cenedlaethol ond rwy'n ymwybodol, o ran fy mhlant i, nad oes unrhyw sôn, bron, am hyn ar lawr gwlad o fewn ein hysgolion.

In general, we welcome the Bill. I think that all of us who do case work—in every office, it seems, in Wales—are well aware of the scale of this problem. I must say that I am somewhat disappointed with the Government's response. It appeared that it believes that huge local plans are a means of tackling this problem. As one who led a council, unless there is some kind of focus on a particular area, generally speaking, there is no hope for local authorities. I think that what you have said, that you are disappointed in the response of local councils to the consultation on the proposed Bill, highlights that fact. Unless there is some sort of focus, it is not going to get the focus that it should be given.

May I ask two brief questions? I say that we generally welcome the Bill. It seems that we have some concerns about the powers that are discussed in the explanatory memorandum on managing how people deal with some of these online companies in buildings such as libraries and so on. There was talk of controlling that. We feel that there is a responsibility on individuals, but we also feel that we must tackle the lack of education. Speaking of education, have you had any kind of discussions with unions or colleges about how exactly they would be able to address the development of training in this area? I have to say this to the Minister: it is fine for you to say that these areas are covered by the national curriculum, but I am aware, in terms of my own children, that there is virtually no mention of this on the ground within our schools.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:43

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Aled, am y sylwadau hynny.

Thank you, Aled, for those comments.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will just respond in English because I have the stuff on the explanatory memorandum in front of me in English. There is nothing about forcing anybody in terms of micromanaging the system. Turning to what I want to do regarding support for cold-calling zones and payday lenders, it is all about helping residents understand the implications and effects of street trading and cold calling. It is about ensuring that local authorities set out how they will promote financial inclusion of residents. It is all about asking them to consult with appropriate persons including the third sector and for that strategy then to be reviewed in five years' time. There is nothing saying—. I mentioned gambling and some other things but it is all about giving people knowledge, and empowering them to understand that it could, potentially, be bad for them financially to use them all the time. However, it is not about saying, 'This is something you should not do and we will ban you from doing it.' It is about access to websites. I think that people should be free to utilise local council websites to search and try to find out, if they are in difficulty with a particular loan company, how they can seek help either through a credit union or through Citizens Advice. I failed to mention that I have spoken to trade unions and teaching unions, representing headteachers and teachers respectively. They are concerned that they want there to be flexibility in the system so that teachers can deliver that and that is why I have been very conscious of making sure that that happens.

With regard to further and higher education, we all know from the Children, Young People and Education Committee that we do not want to restrict what they can do, that is why I have said about providing advice to students via local authorities. I would have liked to have gone further on that, but I have been told that it was not legally possible.

Rwyf am ymateb yn Saesneg am fod y deunydd yn y memorandwm esboniadol o fy mlaen yn Saesneg. Nid oes unrhyw beth ynghylch gorfodi neb o ran microreoli'r system. Gan droi at yr hyn rwyf eisiau ei wneud ynghylch cefnogi ardaloedd dim galw diwahoddiad a benthycwyr diwrnod cyflog, mae'r cyfan yn ymwneud â helpu trigolion i ddeall goblygiadau ac effeithiau masnachu ar y stryd a galw diwahoddiad. Mae'n ymwneud â sicrhau bod awdurdodau lleol yn amlinellu sut y byddant yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol ymhlith trigolion. Mae'n ymwneud â gofyn iddynt ymgynghori â phobl briodol, gan gynnwys y trydydd sector ac adolygu'r strategaeth honno wedyn ymhen pum mlynedd. Nid oes dim yn dweud—. Soniais am gamblo a rhai pethau eraill, ond mae'r cyfan yn ymwneud â rhoi gwybodaeth i bobl, a'u galluogi i ddeall y gallai eu defnyddio drwy'r amser fod yn ddrwg iddynt yn ariannol, o bosibl. Fodd bynnag, nid yw'n ymwneud â dweud, 'Mae hyn yn rhywbeth na ddylech ei wneud a byddwn yn eich gwahardd rhag gwneud hynny.' Mae'n ymwneud â mynediad i wefannau. Rwy'n credu y dylai pobl fod yn rhydd i ddefnyddio gwefannau cynghorau lleol i chwilio a cheisio cael gwybod, os ydynt mewn trafferth gyda chwmni benthyc penodol, sut y gallant ofyn am gymorth naill ai drwy undeb credyd neu drwy Cyngor ar Bopeth. Anghofiais sôn fy mod wedi siarad ag undebau llafur ac undebau athrawon, a gynrychiolai benaethiaid ac athrawon. Maent yn pryderu eu bod am weld hyblygrwydd yn y system fel y gall athrawon gyflawni hynny a dyna pam rwyf wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd.

O ran addysg bellach ac addysg uwch, rydym i gyd yn gwybod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg nad ydym eisiau cyfyngu ar yr hyn y gallant ei wneud, dyna pam rwyf wedi sôn am roi cyngor i fyfyrwyr drwy'r awdurdodau lleol. Byddwn wedi hoffi mynd ymhellach ar hynny, ond rwyf wedi cael gwybod nad oedd hynny'n bosibl yn gyfreithiol.

15:45

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I ask the remaining speakers to be very concise because we have moved out of the time that was allocated by the Business Committee?

A gaf fi ofyn i'r siaradwyr sydd i ddod i fod yn gryno iawn oherwydd ein bod wedi mynd heibio i'r amser a ddynodwyd gan y Pwyllgor Busnes?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What consideration have you given, in developing your proposal, which I welcome, to the Communities and Culture Committee report on financial inclusion and the impact of financial education, produced in November 2010, which did identify inconsistent provision across Wales alongside some good practice examples? What consideration, therefore, have you given, or might you give, to a multi-agency approach based on the evidence that that inquiry produced of the private sector, for example, Marks & Spencer and Bank of America, delivering financial literacy in schools, and banks and building societies providing resources to support similar provision? I was at a school in Bala, Ysgol y Berwyn, where the Institute of Financial Services was delivering modules and courses. The pupils told me of the benefits to pupils of all abilities and they said that everyone should have the opportunity to take up such a course. Finally, with regard to credit unions, I and other Members visited schools that had their own school credit unions, working with local credit unions, which were going up with the pupils from primary to secondary school and teaching them those essential skills at a young age. In other words, there are many ways to skin a cat without having to spend the sort of money that the Welsh Government is frightening us with?

Rwy'n croesawu eich cynnig, ond pa ystyriaeth a roddwyd gennych wrth ei ddatblygu i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol, a gynhyrchwyd ym mis Tachwedd 2010, a nodai fod y ddarpariaeth yn anghyson ar draws Cymru ynghyd â rhai enghreifftiau o arfer da? Felly, pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi, neu efallai y byddwch yn ei rhoi, i ddull gweithredu amlasiantaethol sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchodd yr ymchwiliad o'r sector preifat, er enghraifft Marks & Spencer a Bank of America, yn cyflwyno llythrennedd ariannol mewn ysgolion, a banciau a chymdeithasau adeiladu yn darparu adnoddau i gefnogi darpariaeth debyg? Roeddwn mewn ysgol yn y Bala, Ysgol y Berwyn, lle'r oedd y Sefydliad Gwasanaethau Ariannol yn cyflwyno modiwlau a chyrsiau. Soniodd y disgyblion wrthyf am y manteision i ddisgyblion o bob gallu a dywedasant y dylai pawb gael cyfle i ddilyn cwrs o'r fath. Yn olaf, o ran undebau credyd, ymwelais i ac Aelodau eraill ag ysgolion a oedd â'u hundebau credyd hysgol eu hunain, gan weithio gydag undebau credyd lleol, a oedd yn mynd i fyny gyda'r disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac yn dysgu'r sgiliau hanfodol hynny iddynt yn ifanc. Mewn geiriau eraill, mae yna sawl ffordd o gael Wil i'w wely heb orfod gwario'r math o arian y mae Llywodraeth Cymru yn sôn amdano i'n dychryn.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Mark Isherwood, for those comments. That is why, in the explanatory memorandum, I reference the Communities and Culture Committee report. That report said that the committee thought that there should be a greater strategic commitment from local authorities and that they should work with the financial inclusion champions to pursue this agenda. That is why we need to have this Bill because only nine of the 22 local authorities responded to my consultation and I had no response from the WLGA. Only 11 of the 22 local authorities answered the question on whether they had a financial inclusion strategy at all. So, I believe that we need a renewed focus on this because we cannot sit still when, again, as I have said previously, changes are happening to universal credit on a UK level and people need to be financially responsible themselves.

Diolch i chi am eich sylwadau, Mark Isherwood. Dyna pam rwy'n cyfeirio yn y memorandwm esboniadol at adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. Dywedodd yr adroddiad hwnnw fod y pwyllgor yn credu y dylai fod mwy o ymrwymiad strategol gan awdurdodau lleol ac y dylent weithio gyda hyrwyddwyr cynhwysiant ariannol i fynd ar drywydd yr agenda hon. Dyna pam y mae angen inni gael y Bil hwn gan mai dim ond naw o'r 22 awdurdod lleol a ymatebodd i fy ymgynghoriad ac ni chefais ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dim ond 11 o'r 22 awdurdod lleol a atebodd y cwestiwn yn gofyn a oedd ganddynt strategaeth cynhwysiant ariannol o gwbl. Felly, rwy'n credu ein bod angen canolbwyntio ar hyn o'r newydd gan na allwn eistedd yn llonydd pan fo newidiadau'n digwydd i gredyd cyffredinol ar lefel y DU, fel y dywedais yn gynharach, ac mae angen i bobl fod yn gyfrifol yn ariannol.

In terms of credit unions and working with businesses and so forth, as I said to Aled Roberts previously, there would be a requirement on the local authorities to consult with appropriate persons, including the third sector, and I would see that as a way in for the private sector and for the third sector, but obviously I would be happy to take amendments to the Bill if you thought that it could be made stronger in terms of how they could consult with those who are not initially in this Bill. That is also the case with the credit unions. Again, as I have said, with financial authority issues being the responsibility of the UK Government, I would have liked to have gone further on that, but I think that it is also more about awareness raising and ensuring that people can understand how they can access credit unions. When I met young people in Swansea, they did not know what a credit union was. They said that they needed to be communicated with about it on social media and for the branding of credit unions to be made more attractive to young people. All of this could be part of a local authority's financial inclusion strategy and I would like to see that as a positive way forward.

O ran undebau credyd a gweithio gyda busnesau ac yn y blaen, fel y dywedais wrth Aled Roberts yn gynharach, byddai gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â phobl briodol, gan gynnwys y trydydd sector, a byddwn yn gweld hynny fel ffordd i mewn ar gyfer y sector preifat a'r trydydd sector, ond yn amlwg, byddwn yn hapus i gymryd gwelliannau i'r Bil pe baech yn meddwl y gellid ei wneud yn gryfach o ran sut y gallent ymgynghori â'r rhai nad ydynt yn y Bil i gychwyn. Mae hynny'n wir hefyd am yr undebau credyd. Unwaith eto, fel rwyf wedi dweud, gan mai Llywodraeth y DU sydd â chyfrifoldeb dros faterion awdurdod ariannol, buaswn wedi hoffi mynd ymhellach ar hynny, ond rwy'n meddwl ei fod yn ymwneud mwy hefyd â chodi ymwybyddiaeth a sicrhau bod pobl yn deall sut i gael mynediad at undebau credyd. Pan gyfarfûm â phobl ifanc yn Abertawe, nid oeddent yn gwybod beth oedd undeb credyd. Dywedasant y byddai angen cyfathrebu â hwy yn ei gylch ar gyfryngau cymdeithasol ac y dylid brandio undebau credyd yn fwy deniadol i bobl ifanc. Gallai hyn i gyd fod yn rhan o strategaeth cynhwysiant ariannol awdurdod lleol a buaswn yn hoffi gweld hynny fel ffordd gadarnhaol ymlaen.

15:49

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to welcome this Bill. I think that it is fair to say that we live in very demanding and very changing times.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:49.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Online gambling has been talked about, along with pay-day lenders and consumerism, but just to give you some facts: in Wales, 1.2 million people have used a store or credit card to purchase items because they have insufficient funds. In 2012, a staggering 93,000 or 4% of the Welsh population had used a pay-day loan company, of which over 10,000 of these were young people. In 2008, YouGov found that 70% of 18 to 20-year-olds were in debt. There are a number of young businesspeople who want to set up their own businesses, and, let us be honest, if we want to get Wales going and growing, we need to encourage young businesspeople, but quite often, when a bank says to a young person, 'Go away and come back with a business plan', they do not have a clue. We live in a society that is changing in terms of high-demand consumerism, and it is not really down any time now to how much money you earn; it is more about how you manage to handle that money that you are given.

I really support this Bill, and I would really just like to add that I have been quite surprised to see the negativity that has come from the Minister. I hope that that does not cascade through your Members. I really would like to see this Bill go to committee. The Member and I have had online discussions about this, on Twitter and Facebook, and it has attracted, from across Wales, a lot of interest and a lot of support. I would ask that you remain open-minded and, as a younger Member of the Assembly brings through a Bill like this, I think that we should all get behind it.

Hoffwn groesawu'r Bil hwn. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud ein bod yn byw mewn cyfnod anodd a chynffwrdd iawn.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:49.

Siaradwyd am gamblo ar-lein, ynghyd â benthycwyr diwrnod cyflog a diwylliant prynu, ond dyma rai ffeithiau i chi: yng Nghymru, mae 1.2 miliwn o bobl wedi defnyddio cerdyn siop neu gerdyn credyd i brynu eitemau am nad oedd ganddynt ddigon o arian. Yn 2012, roedd cynifer â 93,000 neu 4% o boblogaeth Cymru wedi defnyddio cwmni benthyciadau diwrnod cyflog, gyda dros 10,000 o'r rhain yn bobl ifanc. Yn 2008, canfu YouGov fod dyledion gan 70% o bobl 18 i 20 mlwydd oed. Ceir nifer o bobl fusnes ifanc sydd am sefydlu eu busnesau eu hunain, a gadewch inni fod yn onest, os ydym am i Gymru dyfu, gan angen inni annog pobl fusnes ifanc, ond yn aml iawn, pan fydd banc yn dweud wrth unigolyn ifanc, 'Dowch yn ôl pan fydd gennych gynllun busnes', nid oes ganddynt syniad. Rydym yn byw mewn cymdeithas sy'n newid o ran prynwriaeth galw mawr, ac mewn gwirionedd, yn y tymor byr nid yw'n fater o faint o arian rydych yn ei ennill; mae'n ymwneud mwy â sut rydych yn llwyddo i drin yr arian a roddir i chi.

Rwy'n cefnogi'r Bil hwn, a hoffwn ychwanegu'n syml fy mod wedi fy synnu braidd gan agwedd negyddol y Gweinidog. Rwy'n gobeithio nad yw hynny'n treiddio drwy eich Aelodau. Buaswn yn falch iawn o weld y Bil yn mynd gerbron y pwyllgor. Mae'r Aelod a minnau wedi cael trafodaethau ar-lein am hyn, ar Twitter a Facebook, ac mae wedi denu llawer o ddiddordeb a llawer o gefnogaeth o bob rhan o Gymry. Gofynnaf ichi barhau'n agored eich meddwl ac wrth i Aelod iau o'r Cynulliad gyflwyno Bil fel hwn, rwy'n meddwl y dylem i gyd ei gefnogi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

My question to the Member is this: we have heard today about our Youth Assembly. It would be really good if this was almost like a project or some way in which you could really make them feel included, so that we get their perspective on bringing forward a Bill that will ultimately help and support the younger people coming forward in Wales. Thank you.

Fy nghwestiwn i'r Aelod yw hwn: rydym wedi clywed heddiw am ein Cynulliad Ieuenctid. Byddai'n dda iawn pe bai hyn bron fel prosiect neu ffordd y gallech wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn gwirionedd, fel ein bod yn cael eu persbectif ar gyflwyno Bil a fydd yn y pen draw yn helpu ac yn cefnogi'r to ifanc sy'n codi yng Nghymru. Diolch yn fawr.

15:51

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Janet, and I know that you are a keen supporter of the Bill, and you have been on platforms where you have actively promoted it without me even asking you, so I do appreciate that. With regard to young people, I should say that I have consulted with the external relations team here, whom I thank alongside the research team for giving me so much support in making the research and the Bill possible. I did a SurveyMonkey survey as well, and a lot of teachers used that, and I have had random young people come up to me, just to say, 'Oh, I filled in your survey in school today, and I really, really support what you are doing, because we don't have enough financial education'. As I said earlier, some schools do 270 hours, while some are down to six, and really if they are going to be managing bills, student loans, rent and mortgages, they need this. I did not get this information when I was in school—I had to self-learn a lot of it—and I do not want future generations to have to deal with it like that. I want future generations to just have it as a matter of ownership, as a matter of right, and as a matter of principle, and I think that for the Minister to suggest that it does not add value is something that those young people who have contacted me may take issue with, and I hope that they contact the Government to argue against that particular point.

As you said, with regard to business set-up, the point I made earlier was that, of course, we want people to have that knowledge. Knowledge is power. If they do want to set up their own businesses, they need to understand how to go about it, and I see this particular Bill as a way of ensuring that they just know, as they would know about the other things that they are taught about in school, naturally, as opposed to having to actively try to find out in other ways.

I do thank Members, not knowing if there are other Members to come in. I am hopeful that all Members on a cross-party basis will put forward new ideas, as it is not exclusive to me, but something that I want other people to have input into and ownership of, considering that this is such an important issue and considering that if we proactively spend money now, we can save money for the future. People are struggling in their everyday lives. People are not able to manage their money. People are going into debt when they should not be going into debt, and this is unacceptable if Wales wants to be prosperous for the twenty-first century. So, I do hope that we can move forward positively from here.

Diolch i chi, Janet, a gwn eich bod yn frwd eich cefnogaeth i'r Bil, a'ch bod wedi ei hyrwyddo ar lwyfannau heb i mi ofyn i chi hyd yn oed, felly rwy'n gwerthfawrogi hynny. O ran pobl ifanc, dylwn ddweud fy mod wedi ymgynghori â'r tîm cysylltiadau allanol yma, a diolch iddynt hwy a'r tîm ymchwil am roi cymaint o gefnogaeth i mi wneud y gwaith ymchwil a'r Bil yn bosibl. Hefyd cynhalias arolwg SurveyMonkey a ddefnyddiwyd gan lawer o athrawon, ac mae pobl ifanc wedi bod yn dod ataf yn ddigymell i ddweud yn syml, 'O, llenwais eich arolwg yn yr ysgol heddiw, ac rwy'n llwyr gefnogi'r hyn rydych yn ei wneud gan nad ydym yn cael digon o addysg ariannol'. Fel y dywedais yn gynharach, mae rhai ysgolion yn treulio 270 awr ar hyn, tra bod eraill ond yn treulio cyn lleied â chwe awr, ac yn wir os ydynt yn mynd i fod yn rheoli biliau, benthyciadau myfyrwyr, rhent a morgeisi, mae angen hyn arnynt. Ni chefais i'r wybodaeth hon pan oeddwn yn yr ysgol-bu'n rhaid imi ddysgu llawer ohono fy hun-ac nid wyf am i genedlaethau'r dyfodol ymdrin â hyn yn y ffordd honno. Rwyf am i genedlaethau'r dyfodol ei berchnogi, fel mater o hawl, ac fel mater o egwyddor, a chredaf fod i'r Gweinidog awgrymu nad yw'n ychwanegu gwerth yn rhywbeth y gallai'r bobl ifanc hynny sydd wedi cysylltu â mi anghytuno yn ei gylch. Rwy'n gobeithio y byddant yn cysylltu â'r Llywodraeth i ddadlau yn erbyn y pwynt penodol hwnnw.

Fel y dywedasoch, o ran sefydlu busnes, y pwynt a wneuthum yn gynharach oedd ein bod am i bobl feddu ar yr wybodaeth honno wrth gwrs. Mae gwybodaeth yn bŵer. Os ydynt yn dymuno sefydlu eu busnesau eu hunain, mae angen iddynt ddeall sut i fynd o'i chwmpas hi, ac rwy'n gweld y Bil penodol hwn fel ffordd o sicrhau eu bod yn gwybod, fel y byddent yn gwybod yn naturiol am y pethau eraill a ddysgir iddynt yn yr ysgol, yn hytrach na gorfod mynd ati i geisio dysgu mewn ffyrdd eraill.

Rwy'n diolch i'r Aelodau, heb wybod a oes Aelodau eraill i gyfrannu. Rwy'n obeithiol y bydd yr holl Aelodau ar sail drawsbleidiol yn cyflwyno syniadau newydd, gan nad rhywbeth i mi yn unig yw hyn, ond rhywbeth rwyf am i bobl eraill gael mewnbyn iddo a pherchnogaeth ohono, o ystyried bod hwn yn fater mor bwysig ac o ystyried y gallwn arbed arian ar gyfer y dyfodol os ydym yn gwario arian yn rhagweithiol yn awr. Mae pobl yn ei chael hi'n anodd yn eu bywydau bob dydd. Nid yw pobl yn gallu rheoli eu harian. Mae pobl yn mynd i ddyled pan na ddyled fod yn mynd i ddyled, ac mae hyn yn annerbyniol os yw Cymru am fod llewyrchus ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Felly, rwy'n gobeithio y gallwn symud ymlaen yn gadarnhaol o'r fan hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ynghylch y Cynllun Ieithoedd Swydddogol

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i wneud y cynnig.

Cynnig NDM5556 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8 (8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swydddogol Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2014.

The Assembly Commission's Report on the Official Languages Scheme

I call on Rhodri Glyn Thomas to move the motion.

Motion NDM5556 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with paragraph 8 (8) of Schedule 2 of the Government of Wales Act 2006:

Notes the Annual Compliance Report on the Assembly Commission's Official Languages Scheme, laid before the National Assembly for Wales on 8 July 2014.

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner

Cynigiaf y cynnig.

Mae'n bleser gennyf heddiw, ar ran Comisiwn y Cynulliad, gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi adroddiad cydymffurfio blynyddol cyntaf y Comisiwn ar ei gynllun ieithoedd swydddogol. Fe hoffwn nodi yn y lle cyntaf fod y Comisiwn yn glir iawn ynglŷn â'r nod yr ydym wedi ei osod, sef creu sefydliad cwbl ddwyieithog yma, a sefydliad lle mae'r naill iaith a'r llall yn cael eu defnyddio'n gwbl naturiol, a sefydliad lle mae unrhyw un sy'n gweithio yma, boed yn Aelod etholedig neu'n staff cyflogedig, yn gallu dewis pa iaith y mae am weithio ynddi ac yn gallu defnyddio'r iaith honno ym mhob ystod o'i waith. Yr un modd, gall unrhyw un sydd yn ymwneud â'r Cynulliad mewn unrhyw ffordd ddewis ei iaith a defnyddio'r iaith honno i gysylltu â'r Cynulliad.

Rydym yn sylweddoli ein bod ar daith. Byddwn yn dadlau ein bod wedi teithio'n o bell yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond mae gennym daith eto i'w chyflawni tan ein bod yn cyrraedd y nod hwnnw. Ond, rydym yn symud yn gyflym iawn tuag at y nod hwnnw ac yn prif ffrydio gwasanaethau dwyieithog i greu'r diwylliant hwnnw lle mae gweithio'n ddwyieithog yn naturiol.

Mae'r Comisiwn wedi nodi'n glir ei fod yn credu bod llawer iawn mwy i weithredu dwyieithog na chyfieithu. Rhaid inni greu'r cyd-destun lle mae pobl yn gallu defnyddio'r iaith yn naturiol. Rwyf am nodi rhai o'r pethau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn diwethaf. Hwyrach mai'r peth pwysicaf oedd lansio cyfleuster Microsoft Translator Cymraeg. Mae'r cyfleuster hwnnw ar gael i bawb o fewn y Cynulliad, ond mae hefyd ar gael i bawb lle bynnag y maen nhw'n byw ym mhob rhan o'r byd. Mae'r Gymraeg wedi'i gosod ar yr un llwyfan â phob iaith arall sydd wedi'i chynnwys o fewn y cyfleuster hwn.

I move the motion.

It is my pleasure today, on behalf of the Assembly Commission, to propose that the National Assembly for Wales notes the first annual compliance report on the Commission's official languages scheme. I would like to note first of all that the Commission is very clear as to the objective that we have set, namely to create a truly bilingual institution here, an institution where both languages are used entirely normally, and an institution where anyone who works here, be they elected Members or employed staff, can choose which language they use and can use that language in the full range of their working activities. Likewise, anyone who engages with the Assembly in any way can choose which language they want to use and use that language in interacting with the Assembly.

We realise that we are on a journey. I would argue that we have travelled a fair distance during our first year, but we do have some way to go yet until we reach that objective. But, we are moving very swiftly towards that point and are mainstreaming bilingual services in order to create that culture where working bilingually is a natural *modus operandi*.

The Commission has noted clearly that it believes that there is far more to working bilingually than translation alone. We have to create a context wherein people are able to use the language naturally. I will note some of the things that have happened over the past year. Perhaps the most important thing was the launch of the Welsh Microsoft Translator. That facility is available to everyone within the Assembly, but it is also available to everyone outwith the organisation, wherever they live, in all parts of the world. The Welsh language has been placed on the same platform as every other language included within that particular facility.

Mae'n bwysig nodi nad yw cyfieithu peirianyddol yn creu dogfen gwbl gywir. Mae'r broses wedi gwella'n aruthrol. Rydym wedi bod yn bwydo mwy a mwy o wybodaeth i mewn i'r bas data. Mae hynny'n golygu bod y broses gyfieithu yn gwella, ond nid yw cyfieithu peirianyddol byth, mewn gwirionedd, yn mynd i greu dogfennau perffaith. Beth mae'n ein galluogi ni i wneud yw gweithio'n ddwyieithog. Gallwn gael cyfieithiad yn union syth o'r peiriannau sy'n ddigon da i'n galluogi i weithio ag ef. Mae unrhyw ddogfennau swyddogol, yn fewnol neu'n allanol, wrth reswm, yn mynd drwy broses o olygu, sy'n golygu eu bod yn ddogfennau mor agos ag sy'n bosibl i fod yn gwbl gywir.

Mae'r gwaith rydym wedi'i wneud gyda chyfieithu peirianyddol wedi'n galluogi i weithio'n gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae hynny wedi golygu ein bod wedi gallu ailgyfeirio'r adnoddau sydd gennym i geisio cefnogi Aelodau yn eu gwaith beunyddiol. Rwy'n gobeithio bod yr Aelodau ar byllgorau wedi gweld y gwahaniaeth, bod y deunydd y maen nhw'n ei dderbyn yn awr yn y Gymraeg yn fwy cynhwysfawr a'u bod yn derbyn y deunydd hwnnw'n llawer cynharach nag yr oeddent. Rydym wedi bod yn trafod gyda'r Aelodau sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn pwyllgorau i weld beth yn union yw'r anghenion sydd ganddynt, fel ein bod yn ceisio sicrhau bod yr adnoddau yno ar eu cyfer i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r briff ar gael yn y Gymraeg bellach. Hefyd, rydym wedi bod yn paratoi geirfaeodd dwyieithog sydd, rwy'n gobeithio, yn helpu Aelodau gyda'r gwaith deddfwriaethol. Yn amlwg, rhaid i chi gael yr eirfa gwbl gywir i ddelio â deddfwriaeth. Nid yw cyfieithu'r term o'r Saesneg i'r Gymraeg yn eich pen yn ddigon da.

Rydym hefyd wedi bod yn cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithoedd swyddogol gyda'r holl staff, ar ba lefel bynnag, er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn yr adeilad hwn yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni a'u bod yn teimlo'n rhan o'r broses honno. Nid yw pawb yma yn gallu defnyddio'r Gymraeg, ond mae pawb yn gallu bod yn rhan o'r broses hon o greu sefydliad sy'n naturiol ddwyieithog. Mae hynny'n ategu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y cydgysylltwyr ieithoedd swyddogol.

Un o'r pethau byddwn yn gwneud yn yr hydref fydd cynnal adolygiad llawn o sgiliau dwyieithog ar draws y Comisiwn. Bydd hynny'n golygu y byddwn yn gallu gweld yn glir os oes bylchau o gwbl, o ran pobl sy'n medru'r Gymraeg, ac yna fe allwn ni lenwi'r bylchau hynny. Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith hwnnw: mae penodiad wedi bod yn y Swyddfa Gyflwyno a phenodiadau yn y Swyddfa Ffioedd, sy'n golygu bod y wasanaethau ar gael yn y Gymraeg yn y swyddfeydd hynny.

Felly, gobeithiaf y bydd Aelodau y prynhawn yma yn gallu ymuno â ni ar y daith hon, yn gallu ein cefnogi ni ar y daith, ac yn gallu bod yn rhan o'r broses hon o greu sefydliad gwbl ddwyieithog yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, lle mae'r ieithoedd swyddogol yn cael eu defnyddio yn gwbl naturiol ochr yn ochr â'i gilydd.

It is important to note that machine translation does not create an entirely accurate document. The process has improved significantly. We have been feeding more and more information into the database. That means that the translation process is improving, but machine translation will never, if truth be told, create perfect, accurate documents. What it does enable us to do is to work bilingually. We can access an immediate translation provided by the machine that is perfectly adequate as a working document. Any official documents, internally or externally, of course, will go through an editing process, which will mean that they are documents that are as close as possible to being entirely accurate.

The work that we have been doing on machine translation has enabled us to work more swiftly and more efficiently. That has meant that we have been able to redirect our resources in order to support Members in their daily work. I very much hope that committee members will have noticed the difference, that the material that they receive now is available to them in the Welsh language in a more comprehensive manner and that they receive that material far earlier than was the case in the past. We have been discussing with Members who use the Welsh language in committee meetings to see exactly what their requirements are, so that we can endeavour to ensure that the resources are in place to enable them to make use of the Welsh language. Committee briefs are now available through the medium of Welsh. Also, we have been preparing bilingual glossaries that, I hope, do assist Members with their legislative work. Clearly, you must have accurate vocabulary in dealing with legislation. Translating a term from English to Welsh in one's head is not always sufficient.

We have also been holding official languages awareness training with all staff, at every level, in order to ensure that everyone who works in this building is aware of our objectives and feels a part of that process. Not everyone here is able to use the Welsh language, but everyone can be a part of this process of creating a naturally bilingual organisation. That also supports the work being carried out by the official languages scheme co-ordinators.

One of the things that we will be doing in the autumn is to conduct a full audit of bilingual skills across the Commission. That will mean that we will be able to clearly identify any gaps in provision, in terms of people who are able to speak Welsh, and then we can fill those gaps. We have already commenced that work: there has been an appointment in the Table Office and appointments in the Fees Office, which means that services are available through the medium of Welsh in those offices.

So, I hope that Members this afternoon will be able to join us on this journey, support us, and be part of this process of creating an entirely bilingual institution here in the National Assembly for Wales, where the official languages are used naturally alongside each other.

Hoffwn ddiolch yn gyntaf i'r Comisiynydd a staff y Comisiwn sydd wedi gweithio ar y cynllun hwn. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn croesawu'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn a'r camau a gymerwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i weithredu'r cynllun ieithoedd swyddogol. Fel Cynulliad dwyieithog, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau ei chydaddoldeb yn yr adeilad hwn. Wedi dweud hynny, mae rhai pryderon wedi cael eu mynegi i mi mai ychydig o gynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran cyflawni'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer y 12 mis diwethaf.

Un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2013-14 oedd darparu bathodynau 'Dwi'n dysgu Cymraeg' ar gyfer Aelodau Cynulliad a'u staff. Mae'r adroddiad yn nodi yr oedd y rhain i fod i gael eu cyflwyno fis Medi y llynedd. Mae'n debyg nad yw hwn wedi digwydd o hyd ac y gallai bathodynau wedi cael eu creu, rwy'n siŵr, a'u dosbarthu yn hawdd erbyn hyn. Mae rhai wedi gofyn i mi: os na all y Comisiwn wneud bathodynau mewn 12 mis, sut y mae blaenoriaethau mwy cymhleth yn mynd i gael eu cyflawni yn y dyfodol?

Rwy'n croesawu'n fawr y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ar gyfieithu peiranyddol, ond mae dadl nad yw'r dechnoleg yn cael ei datblygu cystal â Google Translate, sy'n golygu bod Aelodau a staff, pan fyddant ar frys, yn parhau i ddefnyddio Google. Er fy mod yn croesawu'r camau a gymerwyd i annog defnydd ehangach o'r cyfleuster cyfieithydd Microsoft, gobeithiaf y bydd y gwelliannau pellach yn negyddu'r angen i ddibynnu ar Google yn y dyfodol.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr hefyd yn croesawu'r gwaith y mae'r Comisiwn yn ei wneud i alluogi staff rhengflaen i weithio'n ddwyieithog. Sylwaf o'r adroddiad fod y Comisiwn yn tynnu sylw at drosiant staff fel rheswm dros beidio â chyrraedd targed Rhagfyr ar gyfer pob aelod o'r staff yn y cantin i gael sgiliau cyfarch dwyieithog sylfaenol. Er fy mod yn gwerthfawrogi y gall trosiant staff fod yn broblem, rwy'n siŵr y gall mwy cael ei wneud i sicrhau bod y staff arlwyio presennol yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog ar lefel sylfaenol. Deallaf nad yw gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig i staff arlwyio, ac felly byddai'n ddiddorol cael gwybod a oes unrhyw gynlluniau gan y Comisiwn i ymestyn gwersi Cymraeg i staff sydd ar gcontract yn y dyfodol. Efallai, wrth ymateb i'r ddatl hon, y gall y Comisiynydd hefyd ddweud wrthym a yw'r Comisiwn yn ei wneud yn ofynnol i gcontractwyr i hysbysebu am staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

O ran gwersi Cymraeg i Aelodau a'u staff, croesawaf yr adolygiad yn fawr iawn. Er fy mod yn derbyn bod y ddarpariaeth wedi cael ei wella i gynnwys cyfleoedd mwy anffurfiol i ddysgu a defnyddio sgiliau iaith, fel sesiynau mentora, mae yna le i wella, wrth gwrs. Weithiau, mae'n hynod o anodd i Aelodau a staff roi o'u hamser ar ddiwrnodau busnes y Cynulliad, ac mae rhai pryderon bod y gwersi Cymraeg ambell waith yn ddistrwythur. Felly, gobeithiaf y bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn.

I would like to thank, first of all, the Commissioner and the Commission staff who have worked on this scheme. We, on this side of the Chamber, welcome this first annual report and the steps taken by the Assembly Commission to implement the official languages scheme. As a bilingual Assembly, it is crucial that we continue to promote the Welsh language and ensure its equality in this building. Having said that, some concerns have been expressed to me that only a little progress has been made in terms of implementing and fulfilling the priorities set for the past 12 months.

One of the priorities for 2013-14 was to provide 'I'm learning Welsh' badges for Assembly Members and their staff. The report notes that these were meant to be introduced in September last year. It appears that this still has not been done, and badges could have been produced, I am sure, and distributed easily by now. Some have asked me: if the Commission cannot make badges within 12 months, how are more complex priorities going to be achieved in future?

I very much welcome the progress that has been made in terms of machine translation, but there is an argument that the technology is not being developed as well as Google Translate, which means that Members and staff, when in a hurry, are still using Google. Although I welcome the steps taken to encourage wider use of the Microsoft translator tool, I hope that further improvements will negate the need to rely on Google in future.

We on this side of the Chamber also welcome the work that the Commission is doing to enable front-line staff to work bilingually. I note from the report that the Commission draws attention to staff turnover as a reason for not reaching the December target for every member of staff in the canteen having basic bilingual greeting skills. Although I appreciate that staff turnover can be a problem, I am sure that more can be done to ensure that the current catering staff can communicate bilingually on a basic level. I understand that Welsh lessons are not offered to catering staff, and so it would be interesting to know whether the Commission has any plans to extend Welsh lessons to contracted staff in future. In responding to this debate, perhaps the Commissioner can tell us whether the Commission is making it a requirement for contractors to advertise for Welsh-speaking staff.

In terms of Welsh lessons for Members and their staff, I welcome the review very much. Even though I accept that the provision has been improved to include opportunities for more informal lessons and using language skills, such as mentoring sessions, there is room for improvement, of course. Sometimes, it is very difficult for Members and their staff to give of their time on business days at the Assembly, and there are some concerns that the Welsh lessons are sometimes unstructured. So, I hope that the review will get to grips with some of those concerns.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn croesawu'r ddarpariaeth o rai papurau pwyllgor yn y Gymraeg, ac rydym yn edrych ymlaen at weld hyn yn cael ei ehangu at bwyllgorau eraill. Rwy'n ffodus iawn bod y Pwyllgor Cyllid yn cynhyrchu papurau briffio dwyieithog ar gyfer Aelodau, ond rwy'n deall nad yw hynny'n digwydd ar gyfer pob pwyllgor. Mae'n bwysig bod papurau briffio dwyieithog yn cael eu darparu ar gyfer pob pwyllgor ac felly rwy'n falch bod y Comisiwn yn derbyn bod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu papurau briffio dwyieithog i gynorthwyo Aelodau gyda'u gwaith, ac mae hyn wedi ei hadnabod fel maes blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae cefnogi Aelodau Cynulliad yn aml iawn yn golygu bod angen i staff droi gwaith o gwmpas yn gyflym iawn ac mewn amser byr, felly hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff y Comisiwn, sydd byth yn dweud 'na' ac sydd bob amser yn gwneud eu gorau glas i gynnig cefnogaeth i Aelodau a'u swyddfeydd. Rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar iawn am eu gwaith, ac rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno ac yn gwerthfawrogi hynny.

Yn olaf, er bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud, ac mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y llwyddiannau sydd wedi cael eu gwireddu dros y 12 mis diwethaf, mae mwy y gellid ac y dylid ei wneud. Rydym yn awyddus, wrth gwrs, i arwain y ffordd ar gydraddoldeb ar gyfer yr iaith Gymraeg drwy osod yr enghraifft gywir. Rwy'n edrych ymlaen at greu strategaeth sgiliau dwyieithog effeithiol er mwyn sicrhau bod gennym sgiliau priodol o fewn y Cynulliad, ac rwy'n deall y bydd archwiliad o sgiliau dwyieithog yr holl staff er mwyn llywio cynlluniau iaith yn y dyfodol. Mae'r rhain yn gamau cadarnhaol, ac rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn edrych ymlaen, felly, at weithio gyda'r Comisiwn i sicrhau y gall Aelodau Cynulliad a'u staff weithio'n effeithiol yn y naill neu'r ddwy iaith swyddogol.

We on this side of the Chamber welcome the provision of some committee papers in Welsh, and we look forward to seeing this being extended to other committees. I am very fortunate that the Finance Committee produces bilingual briefing papers for Members, but I understand that that does not happen for every committee. It is important that bilingual briefing papers are provided for every committee and so I am pleased the Commission accepts that more work needs to be done to develop bilingual briefing papers to support Members in their work, and this has been recognised as a priority area for the next year.

Supporting Assembly Members very often means that staff have to turn work around very quickly, so I would like to take advantage of this opportunity to thank the Commission staff, who never say 'no' and always do their best to offer support to Members and their offices. We continue to be very grateful for their work, and I am sure that every Member will agree and appreciate that.

Finally, although some progress has been made, and the report draws attention to the successes over the past 12 months, there is more that can and should be done. We are eager, of course, to lead the way on equality for the Welsh language by setting the right example. I look forward to the creation of an effective bilingual skills strategy to ensure that we have the necessary skills in the Assembly, and I understand that there will be a review of the bilingual skills of all staff in order to steer language schemes in future. These are positive steps, and we on this side of the Chamber are looking forward, therefore, to working with the Commission to ensure that Assembly Members and their staff can work effectively in either official language.

16:05

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r adroddiad blynyddol hwn ac yn nodi rhai o'r llwyddiannau sydd ynddo. Mae gennyf ychydig o sylwadau i'w gwneud, serch hynny, ar yr hyn a allai ddigwydd ar gyfer y dyfodol.

Yn sicr, mae Plaid Cymru yn credu bod angen gweithio i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn hollol gyfartal gan y Cynulliad, ac rwy'n meddwl bod camau breision iawn wedi cael eu cymryd tuag at y nod hwnnw yn ystod y blynyddoedd diweddar. Yn sicr, fel un sydd yn defnyddio'r Gymraeg mewn pwyllgorau ac yn y Cyfarfod Llawn, rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi yn well nag yr oeddwn yn y gorffennol. Serch hynny, mae rhai anawsterau yn aros o gwmpas y prosesau presennol, yn enwedig o ran papurau pwyllgor. Yn aml iawn, nid yw'r cwestiynau Cymraeg ar gael ar yr un pryd â'r rhai Saesneg, ac felly mae'r gwaith paratoi ar gyfer pwyllgor yn gorfod digwydd drwy iaith arall, er fy mod yn defnyddio'r Gymraeg gymaint ag y gallaf mewn pwyllgorau. Felly, fel sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad, mae angen gwella pellach ar y ddarpariaeth sy'n cael ei rhoi ar gyfer gwaith pwyllgorau.

I, too, welcome this annual report and note some of the successes contained therein. I have a few comments to make, however, on what could happen for the future.

Certainly, Plaid Cymru believes that we need to work to ensure that the Welsh and English languages are treated entirely equally by the Assembly, and I think that great strides have been taken towards that objective in the past few years. Certainly, as one who makes use of the Welsh language in committees and in Plenary, I feel that I am supported better than I was in the past. However, some difficulties remain around the current processes, particularly in terms of committee papers. Very often, the Welsh-language questions are not available at the same time as the English ones, and therefore the preparation work for committees must take place through the medium of another language, although I make as much use as possible of the Welsh language at committees. Therefore, as noted in the report, there is a need for further improvement of the provision made for committee work.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yr hyn sydd yn rhyfedd ar hyn o bryd yw er ein bod yn gwybod yn y fan hon fel Aelodau Cynulliad fod llawer o'n gwaith yn cael ei wneud mewn pwyllgorau ac mewn cyfarfodydd mewnol, mae'r cyhoedd yn gweld y Cofnod. Dyna'r hyn y mae cyhoedd yn ei weld—yr hyn yr ydym yn ei gyhoeddi bob dydd fel y trafodion. Mae'n wir o hyd nad yw'r Cofnod yn cael ei gyhoeddi yn y ddwy iaith ar yr un pryd, er bod gwelliant hefyd wedi cael ei wneud yn y cyddestun hwnnw. Mae hefyd yn wir, fel y mae technoleg yn datblygu, y bydd y syniad o gyhoeddi'r Cofnod yn newid o flwyddyn i flwyddyn, fel ei fod yn cael ei gyhoeddi yn fwy aml-gyfryngol ar yr un pryd, ac wedyn efallai mewn dull ffurfiol ysgrifenedig maes o law. Rwyf yn nodi fod blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o Gofnod y Trafodion a chynhyrchu fersiwn cwbl ddwyieithog, felly rwy'n edrych ymlaen at weld hynny, ac at ymateb y Comisiynydd o ran y camau penodol y mae'r Comisiwn am eu cymryd i wella yn y cyd-destun hwnnw. Dyma'r maes lle mae'r cyhoedd yn fwyaf beirniadol o'r hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud, er, fel y dywedais, nid yw o reidrwydd yn gweld pob dim arall sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni.

Mae hefyd yn wir o ran staff y Comisiwn bod gwelliant wedi bod a mwy o gefnogaeth wedi cael ei roi iddynt ddyddu a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Wedi dweud hynny, mae'r methiant i weithredu strategaeth sgiliau dwyieithog yn llwyr yn siomedig, achos un o'r pethau mwyaf creiddiol i'r ffordd yr ydych yn datblygu unrhyw sefydliad yw eich bod yn meddu ar strategaeth sgiliau dwyieithog ac yn dangos sut mae sgiliau yn cael eu defnyddio ar bob lefel. Mae hynny, i atgyfnerthu sylwadau Paul Davies, yn cynnwys y bobl sy'n gweini yn y cantin, y bobl sy'n croesawu, y porthorion sy'n cadw'r lle gyda'r nos, a phob dim arall, fel bod pawb yn cael eu cynnwys, wrth gwrs, a neb yn teimlo bod yr iaith yn cael ei defnyddio gan rai yn y sefydliad ac nid gan eraill, a bod yr iaith ar gael i bawb a'i bod yn iaith nad yw'n eithrio, ond sydd yn cynnwys. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid wrth strategaeth sgiliau dwyieithog sydd nid yn unig wedi ei pharatoi ond wedi ei gweithredu'n drylwyr. Rwy'n edrych ymlaen at glywed mwy am sut y bydd hynny'n digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn y pen draw, mae delwedd ddwyieithog y lle hwn yn dibynnu arnom ni fel Aelodau Cynulliad sydd yn meddu ar yr iaith, sydd wedi dysgu'r iaith, neu sydd wrthi'n dysgu'r iaith, yn defnyddio'r iaith gymaint ag sy'n bosibl. Felly, er fy mod yn hoff iawn o ddefnyddio Saesneg, gan mai dyna yw fy mamiaith i, rwyf serch hynny yn annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg lle maent yn gallu a lle mae'n briodol, ac rwyf yn annog y rhai sydd yn dysgu'r iaith i deimlo'n rhydd ac yn hyderus i ddefnyddio rhywfaint o'r Gymraeg yn eu cyfraniadau yn y Cynulliad, achos rwy'n meddwl bod hynny'n ein cyfoethogi ni i gyd.

What is strange is that although we know as Assembly Members that much of our work is done in committees and in internal meetings, the public will see the Record of Proceedings. That is what the public will see—what we publish every day as the record of our proceedings. It is still the case that the Record is not published in both languages at the same time, although some improvements have been made in that context. It is also true that, as technology develops, the concept of publishing the Record will change year on year, so that it is published instantaneously in a multimedia manner, perhaps followed by a formal written version. I note that the Commission's priorities for next year include a comprehensive review of the Record of Proceedings and the production of a fully bilingual version, and so I look forward to that and to hearing the Commissioner's response in terms of the specific steps the Commission will take to make improvements in that area. This is the area where the public is most critical of what the Assembly does, although, as I said, it does not necessarily see everything else that happens behind the scenes, as it were.

It is also the case with regard to Commission staff that there has been an improvement and greater support provided to staff to learn and use the Welsh language in their work. That said, the failure to implement a full bilingual skills strategy is disappointing, because one of the most central points in the development of any institution is the very fact that you have a bilingual skills strategy and can demonstrate how skills are used at each level. To endorse some of the comments made by Paul Davies, that includes people working in our catering services, the front-of-house staff, the security staff who look after this place at night, and everyone else, so that everyone is included and that no-one feels that the language is used by certain people in the institution and not by others, and so that the language is available to everyone and is inclusive rather than exclusive. That means that we must have a bilingual skills strategy that has not only been drawn up but implemented properly. I look forward to hearing more about how that will happen over the next year.

Ultimately, the bilingual image of this place will depend on us as Assembly Members who speak the language, who have learned the language, or are currently learning the language, to use the language as much as possible. Therefore, although I am very fond of using English, as it is my first language, I nevertheless encourage everyone to use the Welsh language where they can and where it is appropriate, and I encourage those who are learning the language to feel confident and free to use some Welsh in their contributions in the Assembly, because I think that that enhances our proceedings.

Mae gwaith wedi cael ei wneud gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, fel y mae'n digwydd, i edrych ar y defnydd o'r Gymraeg gan bob Aelod yn gyffredinol yn y Cynulliad. Defnydd o 12% sydd ar hyn o bryd, ac rwy'n meddwl bod dyletswydd arnom i godi hynny rywfaint. Byddwn i'n meddwl, o ystyried nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yma, y byddech chi'n disgwyl gweld defnydd o'r Gymraeg gan Aelodau o gwmpas 20% neu chwarter o'r amser. Wrth gwrs, rydym yn gwneud dipyn yn well na sefydliadau eraill tebyg inni, hynny yw, seneddau eraill. Nid yw hynny'n golygu y gallwn bwysu ar ein rhwyfau, ond mae'n rhywbeth inni gofio wrth inni symud ymlaen. Mae'r cwestiwn olaf sydd gennyf i'r Comisiynydd yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â'r sôn yn yr adroddiad am dreialu modelau amgen i gynorthwyo Aelodau Cynulliad i weithio'n ddwyieithog yn y Cyfarfod Llawn o fis Medi ymlaen. Byddwn i'n licio clywed beth yw'r modelau amgen hyn a sut y maent yn mynd i weithio.

Work has been done by the Welsh Language Society, as it happens, to look at the usage of the Welsh language by each and every Member generally in the Assembly. The usage is around 12% at present, and I think that we have a duty to increase it. I would have thought, given the number of people who speak Welsh here, that you would expect that figure on the use of the Welsh language by Members to be around 20% or 25%. Of course, we are doing significantly better than other similar institutions, that is, other parliaments. That is not an excuse for us to rest on our laurels, but it is something to bear in mind as we move forward. My final question to the Commissioner in this context relates to the mention in the report of trialling alternative models to assist Assembly Members to work bilingually in Plenary from September onwards. I would like to know what those alternative models are and how they are going to work.

16:11

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf hefyd yn croesawu'r adroddiad blynyddol ac yn diolch i'r Comisiynydd a staff y Comisiwn am eu cefnogaeth. Nid oes neb yn meddwl bod y Cynulliad yn medru cyflawni gwyrthiau. Ar y llaw arall, un swyddogaeth yw rhoi arweiniad. Ar y gorau, rydym yn arwain y ffordd, gan obeithio y bydd eraill yn dilyn ein hesiampl, ac, yn sylweddol, yn rhoi'r polisiau ar waith a'u monitro'n rheolaidd. Eleni, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli. Yn barod mae sôn bod y pwyllgor gwaith yn mynd i gael ei weld fel rhywbeth parhaol, ac nid fel rhywbeth sy'n diflannu unwaith y daw'r amser i gludo'r pafiliwn i rywle arall. Nid rhywbeth dros dro yw dangos arweiniad; mae'n rhaid hefyd wrth ddyfalbarhad.

I also welcome the annual report and I thank the Commissioner and the Commission staff for their support. Nobody believes that the Assembly can perform miracles. On the other hand, one function that it can fulfil is to offer guidance. At our best, we lead the way, in the hope that others will follow our example, and a significant part of this is to implement policies and monitor them regularly. This year, the National Eisteddfod is in Llanelli. It has already been mentioned that the working group is going to be seen as something that is permanent, not as something that disappears once the time comes to transport the pavilion to another location. Showing leadership is not a transient thing; there must be perseverance.

Hyd at heddiw, mae cydbwysedd rhwng dynion a merched yn bwysig mewn gwleidyddiaeth a phob maes arall. Yn yr un modd, mae'r nod o Gymru ddwyieithog yn ganolog. Pam oedd arwyddion ffordd mor bwysig? Pam oedd yn rhaid inni gael arwyddion dwyieithog yn ein harchfarchnadoedd a lleoedd cyhoeddus yn gyffredinol? Mae oherwydd y ffaith ei bod hi'n bwysig bod yr iaith yn weladwy. Dyna pam mae Prif Weinidog Llywodraeth Cymru yr wythnos hon yn llygad ei le wrth fynnu y dylai cyhoeddiadau yn ein gorsafoedd trên a bysus fod yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Today, balance between men and women is important in politics and every other field. By the same token, the aim of having a bilingual Wales is of central importance. Why was having bilingual road signs so important? Why did we have to have bilingual signs in our supermarkets and public places in general? The answer is the fact that it is important that the language is visible. That is why the First Minister of the Welsh Government was entirely correct this week to demand that announcements in our train and bus stations should be in Welsh as well as in English.

Wrth gwrs, mae safonau'r Gymraeg yn dod i fodolaeth. Fel grŵp trawsbleidiol, rydym wedi clywed gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl ym mis Mai, gyda diweddariad yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Felly, bydd yn ddiddorol edrych ar y rhaglen hon yng ngoleuni'r safonau cyntaf—safonau a fydd yn y fan hon, i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Hoffwn godi dau bwynt sy'n debyg i rai a godais y llynedd, sef ein bod ni'n parhau i hyfforddi staff ledled y wlad, gan gynnwys yn ein swyddfeydd etholaethol ni fel Aelodau a swyddfeydd Llywodraeth Cymru, a hefyd craffu ar y cynllun rhwng y monitro blynyddol, yn enwedig yn sgil safonau'r Gymraeg a fydd yn dod i fodolaeth.

Of course, the Welsh language standards will come into being. As a cross-party group, we heard from the Welsh Language Commissioner back in May, with an update given at the Eisteddfod. It is therefore interesting to look at this scheme in the light of the first standards—standards for us, for local authorities and national park authorities. I would like to mention two points that are similar to those that I raised last year, namely that we continue to train staff across the country, including staff in our constituency offices and in Welsh Government offices, and also scrutinise the scheme between the annual monitoring reports, particularly in light of the Welsh language standards that will be put in place.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Eleni, fel y mae Paul wedi sôn yn gynharach, cafwyd ffrwyth partneriaeth rhwng y Cynulliad a Microsoft i lansio cymorth i drosi Microsoft i'r Gymraeg. Yn yr un modd mae canmol argaeledd y gwasanaethau cyfieithu. Gwnaed defnydd trwm ohonynt yn y grŵp trawsbleidiol ar yr iaith Gymraeg, fel un cyfarfod sy'n dibynnu ar gyfieithiad o'r ddwy ochr. Yn anffodus, mae'r copi o'r adroddiad rwyf wedi'i gael heddiw yn y Saesneg ar y ddwy ochr, ond dyna ni.

Rwy'n croesawu hefyd ddyfyniad Aled Roberts yn yr adroddiad hwn. Mae e'n canmol y rhyban Cymraeg a wisgir gan lawer ohonom. Mae'n ein hatgoffa bod y weithred syml hon yn cael yr effaith hollol ymarferol a buddiol o gynyddu maint y Gymraeg a siaredir rhwng y muriau hyn. Yn y rhagair i'r adroddiad mae Rhodri Glyn yn tynnu ein sylw at y ffaith bod y Gymraeg erbyn hyn yn ganolog i bob cyllideb ac nid yw'n cael ei ystyried fel atodiad yn unig. Arwain, ac nid dim ond dilyn, yw swyddogaeth Cynulliad Cymru.

This year, as Paul has mentioned earlier, the fruit of the partnership between the Assembly and Microsoft has been the launch of support for converting Microsoft into Welsh. Similarly there is praise for the availability of translation services. We make heavy use of translation services in the cross-party group on the Welsh language, as one meeting that depends on translation from both languages. Unfortunately, the copy of the report that I have received today is in English on both sides, but that is it.

I also welcome Aled Roberts's contribution to the report. He praises the Welsh ribbon that many of us wear. He reminds us that this simple act has the entirely practical and beneficial effect of increasing the amount of Welsh spoken between these walls. In the foreword to the report, Rhodri Glyn draws our attention to the fact that Welsh is by now an essential component of every budget, and is not considered to be supplementary. Leading, not following alone, is the National Assembly's role.

16:14

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf hefyd yn croesawu'r adroddiad cydymffurfio blynyddol cyntaf a hefyd yn diolch i'r Comisiynydd a'r staff. Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig hefyd gydnabod bod staff y Comisiwn wedi cadw mewn cysylltiad efo ni tra bod gwahanol gamau'n cael eu cymryd. Rwy'n meddwl mai proses yw hon; rydych wedi dweud bod llwybr yn cael ei ddilyn, ac rwy'n meddwl hefyd ei bod hi'n hollol iawn inni gydnabod ei bod hi'n llawer iawn haws i ni fel Cymry Cymraeg—yn bendant yn y pwyllgorau hynny sydd wedi cael newid o ran y papur briffio yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg ar yr un pryd—i baratoi ar gyfer y pwyllgorau hynny yn ein mamiaith, a chredaf fod Alun Ffred Jones wedi dweud bod y geirfaeodded yn gam pwysig ymlaen. Hoffwn wybod yn union beth yw'r amserlen o ran gweld y patrwm hwnnw ar waith ymhob pwyllgor. Mae rhai pwyllgorau erbyn hyn yn gweithredu'r patrwm newydd, ond rwy'n aelod o bwyllgor arall sydd ddim yn canlyn yr un patrwm. Felly, hoffwn wybod yn union lle yr ydym ar hynny. Hefyd, o'm rhan i, oherwydd nad yw'r staff yn y swyddfa yma yn siarad Cymraeg, roedd cyflwyno cyfleuster Microsoft yn gam pwysig ymlaen. Rwy'n cytuno â chi nad yw'n creu dogfen grêt, ond mae'n ddogfen y gellir ei defnyddio. Yn bendant, o'm rhan i, mae'n llawer haws i mi annerch yn y Gymraeg yn y Senedd wedi i'r papurau briffio gael eu cyfieithu gan fy staff.

Fodd bynnag, wrth gwrs, wrth inni ddathlu'r camau sydd wedi cael eu cymryd, mae'r adroddiad hefyd yn nodi, hwyrach, bod rhai camau heb eu cyflawni yn y flwyddyn gyntaf, yn ôl y disgwyl. Soniodd Simon Thomas am y Cofnod gan ddweud ei fod yn flaenoriaeth yn y flwyddyn sydd i ddod, ond, wrth gwrs, roedd yn flaenoriaeth y llynedd. Mae newid wedi bod o ran amserlen yr adolygiad. Rwy'n cymryd, o ddarllen yr adroddiad, ei bod yn debygol na fydd newid o ran y Cofnod yn y Cynulliad hwn. Mae'n debygol mai ar ôl etholiad y Cynulliad y bydd y patrwm hwnnw'n newid.

I also welcome the first annual compliance report and I also thank the Commissioner and staff. I think that it is also important to recognise the fact that Commission staff have remained in contact with us as these various steps are taken. I do think that this is a process; you have said that we are on a journey, and I do believe that it is entirely appropriate for us to acknowledge that it is far easier for us as Welsh speakers—particularly in those committees where there has been a change in terms of briefing papers provided simultaneously through the medium of Welsh—to make preparations for those committees through the medium of our first language, and I think that Alun Ffred Jones has said that the glossaries are an important step forward. I would like to know exactly what the timetable is in terms of seeing that pattern implemented in all committees. There are certain committees now that operate under the new regime, but I am a member of another committee that is not actually on the same path. So, I would like to know exactly where we are on that. Also, from my point of view, because my staff here are not Welsh speaking, the introduction of the Microsoft translator facility is an important step forward. I agree with you that it does not create a great document, but it is a working document. Certainly, from my point of view, it is far easier for me to make contributions in Welsh in the Senedd after the briefing papers have been translated by my staff.

However, of course, as we celebrate the steps that have been taken, the report also notes that, perhaps, there are certain steps that have not been achieved within the first year as was expected. Simon Thomas mentioned the Record of Proceedings and stated that it was a priority in the ensuing year, but, of course, it was a priority last year. There has been a change in terms of the timetable for the review. I assume, having read the report, that it is likely that there will be no change in terms of the Record within this Assembly term. It is likely that any change in pattern will be made after the Assembly election.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf hefyd yn meddwl bod cwestiynau i'w gofyn ynglŷn â'r strategaeth sgiliau, achos, yn fy mhrofiad i, un o'r problemau o ran cyngor Wrecsam, lle'r oeddem yn yr union sefyllfa lle'r oedd cryn oedi o ran cyflawni strategaeth sgiliau o fewn y cyngor, oedd bod hynny'n amharu ar unrhyw broses hynyddu a chynllunio o ran y gweithlu er mwyn creu sefyllfa—. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn dweud mai'r nod yn y pen draw yw creu sefydliad hollol ddwyieithog. Mae'n rhaid inni gymryd camau, ond rwy'n rhwystredig ar adegau o ran y cyflymder. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod y cyflymder wedi gwella'n arw yn ystod y flwyddyn neu'r 18 mis diwethaf, ac mae'n rhaid inni gydnabod hynny. Wrth gwrs, ein rôl ni fel Aelodau meinciau cefn, hwyrach, yw cadw'r pwysau arnoch chi wrth gydnabod y gwaith teilwng yr ydych wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

I also believe that there are questions to be asked about the skills strategy, because, in my experience, one of the problems from the point of view of Wrexham council, where we were in exactly the same situation where there was quite some delay in terms of bringing forward a skills strategy within that council, is that that then impacted on any process in terms of workforce planning in order to create a situation—. I think that it is important that we say that the ultimate aim is to create an entirely bilingual institution. We have to do this in a phased manner, but I do become frustrated occasionally given the pace of change. However, I do think that the pace has picked up a great deal over the past year or 18 months, and we must recognise that. Of course, our role as backbench Members perhaps is to maintain the pressure on you while also recognising the good work that you have done over the past year.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i ymateb i'r ddatl.

I call Rhodri Glyn Thomas to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:18 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddatl. Mae wedi bod yn ymateb cadarnhaol iawn ac rwy'n derbyn yr heriau yr ydych wedi gosod. Dyna yw eich gwaith chi, fel y dywedodd Aled—ein herio ni i fynd ymhellach ac yn gyflymach. Gallaf sicrhau Aled nad oes unrhyw un yn fwy rhwystredig na fi na allwn symud mor gyflym ag y byddem yn dymuno ei wneud. Rwy'n credu ei fod yn wir dweud ein bod wedi gosod targedau heriol iawn ar gyfer y gwaith hwn ac, mewn rhai manau, rydym wedi methu â chyrraedd y targedau hynny. Fodd bynnag, rydym wedi ailosod y targedau ac rydym yn bwriadu eu cyrraedd, ond rydym yn sylweddoli bod angen gwneud rhywfaint o waith er mwyn gwneud hynny.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and thank you to everyone who has contributed to the debate. It has been a very positive response and I accept the challenges that you have posed for us. That, as Aled said, is your job—to challenge us to move further and more swiftly. I can assure Aled that no-one is more frustrated than me that we cannot move as swiftly as we would like to. However, I think that it is true to say that we have set extremely challenging targets for this work and, in certain areas, we have failed to reach those targets. However, we have reset them and we do intend to hit the mark, but we realise that some work needs to be done in order to achieve that.

Un o'r meysydd hynny—a chredaf fod pawb wedi cyfeirio at hyn—yw'r strategaeth sgiliau ieithyddol. Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod yw bod angen mwy o wybodaeth arnom cyn ein bod yn gallu cyflwyno'r strategaeth honno. Dyna pam fod yr arolwg yn yr hydref yn mynd i fod mor bwysig—fel y gallwn gael gwybod yn union beth yw'r cymhwysedd sydd gennym ar hyn o bryd o ran sgiliau ieithyddol, fel y gallwn wedyn greu strategaeth sy'n cyfateb i'r realiti sy'n bodoli. Fodd bynnag, mae creu'r strategaeth honno yn flaenoriaeth gennym.

One of those areas—and I think that everyone has referred to this—is the language skills strategy. What we have found is that we need greater information before we can actually bring forward that strategy. That is why the survey in the autumn is going to be so important—so that we can discover exactly what level of competence we have at the moment in terms of language skills, so that we can then create a strategy that is appropriate to the reality facing us. However, creating that strategy is a priority of ours.

Mae nifer o bobl wedi cyfeirio yn gadarnhaol at y cytundeb gyda Microsoft. O ran yr hyn yr oedd Paul yn cyfeirio ato o ran y Google 'toolkit', yr hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad yw ein bod yn defnyddio'r ddwy system ar hyn o bryd, ochr yn ochr â'i gilydd. Rydym yn credu bod Microsoft yn cynnig mwy o hyblygrwydd a bod yr argaeledd yn ehangach. Mae'n rhwyddach, felly, i'w ddefnyddio gan ei fod yn gallu bod ar wyneb eich cyfrifiadur ac rydych chi'n gallu cael y cyfieithiad tipyn yn gynt oherwydd hynny. Fodd bynnag, rydym yn dal i weithio gyda'r ddwy system er mwyn gweld beth fydd yn ateb ein gofynion ni yn y pen draw. Rydym yn teimlo bod y cytundeb hwn gyda Microsoft yn un pwysig.

Many people have referred positively to the work that we have done with Microsoft. In terms of Paul's reference to the Google toolkit, what happens within the Assembly is that we use both systems at present, alongside each other. We do believe that Microsoft offers greater flexibility and that its availability is greater. It is therefore more accessible because it can appear on your interface and you can access translation far quicker as a result of that. However, we are still working with both systems to see what will best meet our requirements ultimately. We feel that this work with Microsoft has been extremely important.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cododd Paul y cwestiwn ynglŷn â bathodynau. Mae rhubanau ar gael—mae rhai pobl yn gwisgo rhubanau a rhai arall ddim yn gwisgo rhubanau, ond os ydych chi eisiau arwyddo eich bod yn medru'r Gymraeg neu'n dysgu'r Gymraeg ac yn dymuno cael eich cyfarch yn y Gymraeg, gwisgwch y rhuban. Rwy'n cael fy nghyfarch yn amlach na pheidio yn y Gymraeg pan fyddaf yn dod i mewn i'r adeilad. Digwyddodd hynny y bore yma a bore ddoe, yr wythnos hon a'r wythnos ynghynt—bob bore. Rydym wedi bod yn datblygu sgiliau cyfarch yn y Gymraeg gyda'r staff diogelwch a hefyd gyda'r bobl sy'n gweithio ar yr ochr arlwyio. Rwy'n derbyn nad yw'n digwydd bob tro, ond mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Mae hyfforddiant ar gael iddynt o ran cyfarch pobl, ac mae gweithgareddau megis coffi a chlonc, lle rydym yn trio hyrwyddo sgwrsio anffurfiol, ond mae'n rhaid cofio bod llawer o'r cytundebau hyn wedi cael eu gosod cyn ein bod wedi dechrau ar y gwaith hwn yn y Cynulliad presennol. Felly, rydym yn gorfod gweithio gyda'r amodau sydd gennym, ond gallaf eich sicrhau, Paul, bod y gwaith hwnnw yn mynd yn ei flaen. Nid ydym yn defnyddio trosiant staff fel esgus; rydym yn derbyn bod yn rhaid i hynny ddigwydd.

O ran gwersi Cymraeg, rwy'n derbyn ei bod yn anodd i bobl sy'n gweithio yma, boed yn Aelodau etholedig neu'n staff cyflogedig, ond nid wyf yn ymwybodol ein bod wedi gwrthod unrhyw gais ac rydym wedi trio bod mor hyblyg ag y gallwn. Nid oes cyllideb benodol, lle gallem ddweud, 'Na, mae'n ddrwg gen i, rydym wedi gwario'r holl arian'. Beth bynnag sy'n cael ei ofyn, byddwn yn ceisio ymateb iddo a byddwn yn parhau i wneud hynny. Roedd cyfle i Aelodau etholedig ac i staff nodi eu gofynion yn yr arolygon sydd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar, a byddwn yn ymateb i unrhyw gais yn hynny o beth.

Gwnaeth nifer o siaradwyr, gan gynnwys Paul, godi'r cwestiwn ynglŷn â phwyllgorau. Mae'r cynnydd o ran adnoddau yn y Gymraeg wedi digwydd hyd yn hyn mewn pedwar pwyllgor. Rydym hefyd wedi bod yn trafod gydag Aelodau unigol, a dyma'r pwynt wnaeth Simon godi, rwy'n credu, ynglŷn â sut rydym yn paratoi mewn ffordd arbennig ar gyfer anghenion Aelodau. Rydym wedi bod yn siarad gydag Aelodau sy'n defnyddio'r Gymraeg ac wedi gofyn, 'Beth ydych chi eisiau oddi wrthym i'ch galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml?' Wrth gwrs, mae gofynion pobl yn wahanol. Felly, nid ydym dim ond yn paratoi'n gyffredinol; rydym yn trio ymateb i anghenion unigol pobl. Fodd bynnag, fe fydd yr hyn yn ymestyn i'r holl bwyllgorau ac fe wna'f ymholiadau ynglŷn â'r pwyllgor arall, achos rwy'n ymwybodol ein bod yn cynnig gwasanaeth i Aled, ond dylai fod ar gael yn y ddau bwyllgor ac nid dim ond yn un ohonynt.

Nododd Simon y ffaith nad ydym bob amser yn llwyddo i gael y papurau a'r cwestiynau allan ar yr un pryd yn y naill iaith a'r llall. Rydym wedi bod yn holi Aelodau am hyn hefyd, oherwydd mae eu hanghenion yn wahanol. Mae rhai pobl eisiau papurau'n gynnar, ac mae'n well gan rai eu derbyn yn hwyrach. Rwy'n gwybod bod enghraifft wedi bod ar un o bwyllgorau Simon lle na chafwyd y cwestiynau yn y Gymraeg, ac rydym wedi edrych i mewn i'r sefyllfa honno. Dylai'r cwestiynau hynny fod wedi bod ar gael.

Paul raised the issue of badges. Lanyards are available—some people are wearing those and others are not, but if you want to indicate that you are a Welsh speaker or a Welsh learner and want to be greeted through the medium of Welsh, then, by all means, use those lanyards. I am greeted more often than not in Welsh when I enter the building. It happened this morning and yesterday, this week and last week—every morning. We have been developing the skills of greeting people through the medium of Welsh with our security staff and also with the people working in our catering service. I accept that it does not happen every time, but the work is progressing. Training is available to them in terms of greeting people, and there are activities such as 'coffi a chlonc', where we try to promote these informal chats, but we have to bear in mind that many of these contracts were laid before we started this work in the current Assembly. Therefore, we have to work within the conditions that we currently have, but I can assure Paul that that work is progressing. We are not using staff turnover as an excuse; we accept that that does have to happen.

In terms of Welsh lessons, I accept that it is difficult for people working here, be they elected Members or employees, but I am not aware that we have rejected any request and we have tried to be as flexible as possible. There is no specific budget, where we could say, 'No, sorry, we've spent all of the money'. Whatever the requests are, we will endeavour to meet them and we will continue to do that. There was an opportunity for elected Members and staff to note their requirements in the surveys that were conducted recently, and we will respond to any requests made therein.

Many speakers, including Paul, raised the issue of committees. The progress in terms of Welsh-language resources has happened to date in four committees. We have also been discussing with individual Members, and this is the point that Simon raised, I believe, on how we make particular provision for the individual needs of Members. We have been speaking to Members who make use of the Welsh language and have asked, 'What do you want from us that will enable you to use the Welsh language more often?' Of course, people's requirements are different. Therefore, we do not just make general provision; we try to make bespoke arrangements for individuals. However, it will extend to all committees and I will make some enquiries on that other committee that you mentioned, because I am aware that we are providing a service to Aled, but it should be available in both committees rather than just in one of them.

Simon noted the fact that we do not always succeed in getting the papers and the questions out simultaneously in both languages. We have been asking Members about this, because their requirements are different. Some people want the papers early, and others prefer to receive them later. I know that there has been an example on one of Simon's committees where the questions were not available through the medium of Welsh, and we have looked at that particular instance. The questions certainly should have been available.

Soniodd Keith am y pwysigrwydd o sicrhau bod y ddwy iaith yn gorwedd yn gysurus ochr yn ochr â'i gilydd. Nid wyf yn gwybod pam mae Keith wedi derbyn adroddiad uniaith Saesneg. Mae'r adroddiad yn ddwyieithog; mae rhywun wedi gwneud camgymeriad wrth roi honno at ei gilydd, ond gallaf sicrhau mai adroddiad dwyieithog ydyw. Fe fyddai'n beth od iawn pe na bai'n ddwyieithog. Cododd y ffaith mai sôn ydym am wasanaethau i Aelodau. Nid ydym yn sôn am gyfieithu nac am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg; rydym yn sôn am wasanaethau i Aelodau yn yr iaith y maen nhw'n dymuno eu derbyn er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith honno.

Cododd Simon bwynt hefyd mai, yn y pen draw, y cyfan y gall y Comisiwn ei wneud yw creu'r amodau i'ch galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid wyf yn siŵr sut mae'r ffigur hwn o 12% wedi cael ei gyrraedd ond mae angen inni gynyddu nifer y bobl sydd yn defnyddio'r Gymraeg—ac rwy'n croesawu'n fawr y ffaith ein bod ni wedi gweld pobl yn mentro yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Mae nifer helaeth wedi mentro ac rwy'n eu llongyfarch nhw'n fawr iawn, ond mae angen inni ddefnyddio'r Gymraeg yn llawer iawn mwy aml. Nid oes rhwystr gwirioneddol. Erbyn hyn, gallaf wneud fy ngwaith i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Hynny yw, mae'n bosibl. Felly, dylem fanteisio ar y cyfle a gwneud hynny.

Rwy'n diolch yn fawr iawn am yr ymateb cadarnhaol ac rwyf am ategu'r hyn mae'r Aelodau wedi ei ddweud, sef bod ein dyled ni'n fawr i aelodau'r Comisiwn a staff y Comisiwn, sydd wedi gweithio yn eithriadol o galed i'n galluogi ni i gyrraedd y fan rydym ni wedi ei chyrraedd, ond byddwn ni'n symud ymlaen eto. Rwy'n edrych ymlaen at gyflwyno'r adroddiad blynyddol eto ar eich cyfer chi y flwyddyn nesaf a dangos ein bod ni wedi cynyddu a symud yn bellach ar y daith hon tuag at sefydlu sefydliad cwbl ddwyieithog, lle mae'r ddwy iaith swyddogol yn cael eu defnyddio yn naturiol, ochr yn ochr â'i gilydd.

Keith mentioned the importance of ensuring that both languages live side by side. I do not know why Keith has received an English-only report. The report is available bilingually; someone has made a mistake in collating his particular copy, but I can assure him that it is a bilingual report. It would be a very strange thing indeed if it were not. He raised the fact that we are talking here about services to Members. We are not talking about translation or Welsh-language services; we are talking about services to Members provided in their language of choice in order to enable them to make use of that particular language.

Simon also raised the point that, ultimately, all that the Commission can do is create the conditions that will enable you to use the Welsh language. I am not sure how this figure of 12% has been reached, but we need to increase the number of people who make use of the Welsh language—and I warmly welcome the fact that we have seen people speaking Welsh in the Assembly for the first time. Many have done so, and I congratulate them all very much, but we need to use the Welsh language far more often. There is no real barrier. By now, I am able to work entirely through the medium of Welsh. That is, it is possible. Therefore, we should take advantage of those opportunities and do so.

I thank you all very much for the positive response and I want to endorse what the Members have said, namely that our debt is great to the Commission and Commission staff, who have worked extremely hard to enable us to reach this point, but we will move forward even further. I look forward to introducing the annual report again next year and demonstrating that we have made more progress and moved further along on this journey towards establishing a fully bilingual institution, where both official languages are used alongside each other naturally.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that the motion be agreed. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:26 **Datganiad: Y Wybodaeth** **Ddiweddaraf am Goridor yr M4 o** **amgylch Casnewydd**

Minister for Economy, Science and Transport

Today, I am pleased to be able to update Members on the outcome of the consultation on the M4 corridor around Newport. The M4 is a key east-west route providing the main gateway into south Wales and provides a facility for transporting goods, linking people to jobs and employment sites, as well as serving the Wales tourism industry.

Statement: Update on the M4 **Corridor around Newport**

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The

Heddiw, rwy'n falch o allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad ar goridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Mae'r M4 yn llwybr allweddol o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n darparu prif borth i mewn i dde Cymru ac mae'n darparu cyfleuster ar gyfer cludo nwyddau, gan gysylltu pobl â swyddi a safleoedd cyflogaeth, yn ogystal â gwasanaethu diwydiant twristiaeth Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Traffic congestion and unreliable journey times, particularly during the rush hour, are common occurrences on the M4 around Newport. Addressing these capacity and resilience issues is a significant challenge that we face in ensuring that Wales has an effective economic infrastructure that improves our competitiveness and access to jobs and services.

To tackle this, we have identified the need for substantial improvements to the network between Magor and Castleton. Working with local communities, we carried out extensive work and consultation in the development of the draft plan. A public consultation on the draft plan and associated assessments between September and December 2013 allowed everyone to have their say.

The consultation sought comments on a preferred strategy, two 'Reasonable Alternatives' and a do-minimum scenario. Various other alternatives, proposed during the consultation, were assessed as part of the consultation process. It was determined that none of the alternative solutions proposed could reasonably deliver the objectives of the draft plan. The responses to the draft plan public consultation did not provide any reasons why the draft plan should not be adopted as the plan for the M4 corridor around Newport.

After carefully considering the responses to the consultation, the environmental report that accompanied the draft plan consultation and associated assessments, I have decided to adopt the plan, which includes a new section of motorway being built between junctions 23 and 29 south of Newport, alongside complementary measures, which include: reclassifying the existing M4 between Magor and Castleton; an M4/M48/B4245 connection; providing cycling-friendly infrastructure; and providing walking-friendly infrastructure. I will be publishing the plan, its accompanying environmental and strategic environmental assessment post-adoption statement on the www.m4Newport.com website, as required by the strategic environmental assessment regulations.

The plan is seeking to improve accessibility for people, Welsh goods and services to international markets by addressing capacity and resilience issues on the main gateway into south Wales. This will deliver clear benefits for businesses and commuters and complements our proposals for a metro system for the Cardiff capital region. I have agreed for my officials to begin the procurement of a contractor to progress the design of the scheme.

Mae tagfeydd traffig ac amseroedd teithio annibynadwy, yn enwedig yn ystod yr awr frys, yn ddigwyddiadau cyffredin ar yr M4 o amgylch Casnewydd. Mae mynd i'r afael â materion capasiti a gallu i ymdopi o'r fath yn her sylweddol sy'n ein hwynebu wrth sicrhau bod gan Gymru seilwaith economaidd effeithiol sy'n gwella ein gallu cystadleuol a mynediad at swyddi a gwasanaethau.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi nodi'r angen am welliannau sylweddol i'r rhwydwaith rhwng Magwyr a Chas-bach. Gan weithio gyda chymunedau lleol, gwnaethom waith helaeth a chynhaliwyd ymgynghoriadau wrth ddatblygu'r cynllun drafft. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar y cynllun drafft ac asesiadau cysylltiedig rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2013 yn caniatáu i bawb fynegi barn.

Roedd yr ymgynghoriad yn galw am sylwadau ar strategaeth a ffafir, dau 'Ddewis Amgen Rhesymol' a senario gwneud yr hyn sy'n ofynnol yn unig. Aseswyd gwahanol ddewisiadau amgen a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad fel rhan o'r broses ymgynghori. Penderfynwyd na allai unrhyw un o'r atebion amgen a gynigiwyd gyflawni amcanion y cynllun drafft yn rhesymol. Ni ddarparodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft unrhyw resymau pam na ddylid mabwysiadu'r cynllun drafft fel y cynllun ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, yr adroddiad amgylcheddol a ddaeth gyda'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft ac asesiadau cysylltiedig, rwyf wedi penderfynu mabwysiadu'r cynllun, sy'n cynnwys adeiladu rhan newydd o'r draffordd rhwng cyffyrdd 23 a 29 i'r de o Gasnewydd, ochr yn ochr â mesurau ategol sy'n cynnwys: ailddosbarthu'r M4 bresennol rhwng Magwyr a Chas-bach; cysylltiad M4/M48/B4245; darparu seilwaith ar gyfer beiciau; a darparu seilwaith ar gyfer cerdded. Byddaf yn cyhoeddi'r cynllun, y datganiad amgylcheddol a'r asesiad amgylcheddol strategol ar ôl mabwysiadu'r cynllun ar wefan www.m4Newport.com, fel sy'n ofynnol o dan reoliadau'r asesiad amgylcheddol strategol.

Mae'r cynllun yn ceisio gwella gallu pobl, nwyddau a gwasanaethau o Gymru i gyrraedd marchnadoedd rhyngwladol drwy fynd i'r afael â materion capasiti a gallu i ymdopi'r prif borth i mewn i dde Cymru. Bydd hyn yn sicrhau manteision clir i fusnesau a chymudwyr ac yn ategu ein cynigion ar gyfer system metro i ranbarth Caerdydd. Rwyf wedi cytuno i fy swyddogion ddechrau ar y broses o gaffael contractwr i symud y gwaith o lunio'r cynllun yn ei flaen.

16:29

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a very significant statement and I have 12 Members who wish to be called. I will obviously extend the time for this item beyond the 30 minutes scheduled, but I would ask the principal spokespeople to help me by being as succinct as possible. If you are not, it will limit the number of your colleagues I am able to call.

Mae hwn yn ddatganiad arwyddocaol iawn ac mae gen i 12 o Aelodau sy'n dymuno cael eu galw. Yn amlwg, byddaf yn ymestyn yr amser ar gyfer yr eitem hon y tu hwnt i'r 30 munud a drefnwyd, ond byddwn yn gofyn i'r prif lefarwyr i fy helpu drwy fod mor gryno â phosibl. Os nad ydych, bydd yn cyfyngu ar y nifer o'ch cydweithwyr y gallaf eu galw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, indeed, it is a significant announcement, and I am very grateful for your statement today, Minister. I have to say that, once again—I am probably sounding like a broken record—I am stood here, at the end of an Assembly term, bemused that a hugely important statement has snuck onto the agenda at the last minute on the last day of this Assembly sitting, which does not enable us to scrutinise properly perhaps in this Chamber today. However, do not misunderstand me; I do welcome the decision. It is a clear bottleneck for both our transport network and national economy. The CBI was quite right yesterday when it urged you to get on with it. However, I would want an explanation around more of the rationale behind this important decision. In particular, in respect of the statement, I would like to put a few questions to you. I would ask that you publish in detail the Government's response to environmental concerns and the full consultation process. I find it hard to criticise a decision on this scale with nothing more than an A4 page from your department. I am sure that other spokespersons here, from the other parties, would perhaps agree with me.

You have outlined that you would publish the post-adoption statement with plans and environmental assessments. I looked at the detail, but urge you, Minister, to be as open as possible to ensure proper scrutiny.

So, I would ask a number of questions, as I say. You say here that it was determined that none of the alternative solutions proposed could reasonably deliver the objectives of the draft plan. Why was the blue route not acceptable, particularly given the very considerable support from organisations such as the Federation of Small Businesses, and from Professor Stuart Cole, your long-standing transport adviser? What was unreasonable about that blue route? Will you commit, as I have outlined, to publishing the full consultation responses and detailed environmental assessments with Government response? Importantly, I would also ask you to detail the timescale on appointment of contractor and start date.

I am just intrigued slightly by the 'providing cycling friendly infrastructure' and 'providing walking friendly infrastructure'—this on a major motorway. I would be quite interested to know quite how that will materialise.

On this side of the Chamber we broadly welcome the statement. I am sure that you will understand that I await much of the detail to form my proper, more considered conclusion. The M4 is the main artery of the Welsh economy. We all agree that it needs much greater capacity in a number of places. I welcome the step forward today, but I just wish that it had been done a little bit earlier with much more openness, understanding your rationale, and analysis in the public eye. I know that, in addition to myself, there are many organisations and transport companies out there listening intently to your response today, and I look forward to it. Thank you.

Ydy'n wir, mae'n gyhoeddiad arwyddocaol, ac rwy'n ddiolchgar iawn am eich datganiad heddiw, Weinidog. Mae'n rhaid imi ddweud unwaith eto—rwy'n swnio fel tiwn gron mae'n siŵr—fy mod yn sefyll yma ar ddiwedd tymor y Cynulliad, yn rhyfeddu bod datganiad hynod bwysig wedi sleifio ar yr agenda ar y funud olaf ar y diwrnod olaf o dymor y Cynulliad hwn, nad yw efallai yn ein galluogi i graffu'n briodol yn y Siambr hon heddiw. Fodd bynnag, peidiwch â'm camddeall; rwy'n croesawu'r penderfyniad. Mae'n dagfa amlwg yn ein rhwydwaith trafnidiaeth a'r economi genedlaethol. Roedd y CBI yn llygad ei le ddoe yn eich annog i fwrw ymlaen â'r cynllun. Fodd bynnag, hoffwn esboniad ar ragor o'r rhesymeg sydd wrth wraidd y penderfyniad pwysig hwn. Yn benodol, o ran y datganiad, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau i chi. Hoffwn ofyn i chi gyhoeddi ymateb manwl y Llywodraeth i bryderon amgylcheddol a'r broses ymgynghori lawn. Rwy'n ei chael hi'n anodd beirniadu penderfyniad ar y raddfa hon heb ddim mwy na thudalen A4 gan eich adran. Rwy'n siŵr bod llefarwyr eraill yma o'r pleidiau eraill a fyddai efallai'n cytuno â mi.

Rydych wedi amlinellu y byddech yn cyhoeddi datganiad ar ôl mabwysiadu'r cynllun gyda chynlluniau ac asesiadau amgylcheddol. Edrychais ar y manylion, ond rwy'n eich annog, Weinidog, i fod mor agored â phosibl er mwyn sicrhau proses graffu briodol.

Felly, byddwn yn gofyn nifer o gwestiynau, fel y dywedais. Dywedwch yma y penderfynwyd na allai unrhyw rai o'r atebion amgen arfaethedig gyflawni amcanion y cynllun drafft yn rhesymol. Pam nad oedd y llwybr glas yn dderbyniol, yn enwedig o ystyried y gefnogaeth sylweddol iawn gan sefydliadau megis y Ffederasiwn Busnesau Bach, a'r Athro Stuart Cole, eich cynghorydd trafnidiaeth hirsefydlog? Beth oedd yn afresymol am y llwybr glas? A wnewch chi ymrwmo, fel rwyf wedi amlinellu, i gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad llawn ac asesiadau amgylcheddol manwl gydag ymateb y Llywodraeth? Yn bwysig, hoffwn ofyn i chi hefyd roi manylion am yr amserlen ar gyfer penodi contractwr a dyddiad cychwyn.

Rwy'n rhyfeddu braidd at y cymal 'darparu seilwaith beicio' a 'darparu seilwaith cerdded'—a hyn ar draffordd fawr. Byddai gennyf gryn ddiddordeb mewn cael gwybod sut yn union y câi hynny ei wireddu.

Ar yr ochr hon i'r Siambr rydym yn croesawu'r datganiad at ei gilydd. Rwy'n siŵr y byddwch yn deall fy mod yn disgwyl gweld llawer o'r manylion cyn dod i gasgliad priodol ac ystyriol. Yr M4 yw prif rydwelli economi Cymru. Rydym i gyd yn cytuno bod angen llawer mwy o gapasiti mewn nifer o leoedd. Rwy'n croesawu'r cam ymlaen heddiw, ond gresynaf na chafodd ei wneud ychydig yn gynt gydag agwedd lawer mwy agored, dealltwriaeth o'ch rhesymeg, a dadansoddiad yn llygad y cyhoedd. Yn ogystal â mi fy hun, rwy'n gwybod bod llawer o sefydliadau a chwmnïau cludiant yn gwrandao'n astud ar eich ymateb heddiw ac rwy'n edrych ymlaen ato. Diolch yn fawr.

I note what you have said in your contribution. I think that I will deal with some of the issues. I have been, obviously, taking an awful lot of time to consider all of the aspects of this particular proposal that has come to me as the Minister. I have had a very full consultation process, and I am duty-bound to consider everything that has come through in the consultation process. I wanted to make the statement before the summer recess. In fact, I very much hoped to do so, and I thought that I would be criticised if I did not do, hence why it was important that I was able to make a statement today, even at this late stage.

Obviously, some of the environmental concerns that have been raised are things that I have had to consider very carefully. It would be remiss of me if I had not taken time to consider all of these issues. I appreciate that there have been mixed opinions within this Chamber around these issues, and I have to acknowledge that. At the end of the day, when you are in Government, sometimes you cannot necessarily please everyone within the Assembly Chamber or please all members of all political parties. However, I can tell you that this has honestly been looked at and appraised.

Turning to the blue route, the proposed alternative is the improvement of the A48 Newport southern distributor road and the A4810 steelworks access road south of Newport, between junction 23A—I think—and junction 28 at Tredegar Park. The blue route would not provide a long-term solution to the identified problems associated with traffic congestion, even in combination with public transport measures, such as the metro. It would not provide sufficient relief to the M4 corridor around Newport. The key reasons for its support, to have the reduced—. Perhaps we could also look at some of the appraisal work. There are cost issues around it, but I would also have to look at closing existing junctions of both the southern distributor road and the steelworks access road, which would be problematic in itself.

The blue route, because it is on a line improvement, would be more disruptive to residents and businesses, such as Newport docks, Tata, the Glan Llyn development and the users of STR and SAR. Of course, the recently opened Tata Steel headquarters, built at Llanwern, would be severely affected. It was suggested that it might even have to be demolished. Also, the health and safety executive would advise against any further upgrading of the SAR because of the proximity of the Air Products industrial gas facility, which is classified as a hazardous installation under COMA regulations. This is one of the reasons why the SAR is the only motorway emergency diversion route. So, there are quite clear issues that we have considered around the blue route.

Nodaf yr hyn rydych wedi'i ddweud yn eich cyfraniad. Rwyf am ymdrin â rhai o'r materion. Yn amlwg, rwyf wedi cymryd cryn dipyn o amser i ystyried holl agweddau'r cynnig penodol a ddaeth i fy sylw fel Gweinidog. Rwyf wedi cael proses ymgynghori lawn iawn, a fy nyletswydd yw ystyried popeth a ddaeth drwy'r broses ymgynghori. Roeddwn eisiau gwneud y datganiad cyn toriad yr haf. Yn wir, roeddwn i'n mawr obeithio gwneud hynny, ac roeddwn yn meddwl y cawn fy meirniadu pe na bawn yn ei wneud, felly dyna pam ei bod yn bwysig fy mod yn gallu gwneud datganiad heddiw, hyd yn oed ar y cam hwyr hwn.

Yn amlwg, mae rhai o'r pryderon amgylcheddol a godwyd yn bethau rwyf wedi gorfod eu hystyried yn ofalus iawn. Esgeulustod fyddai imi beidio â rhoi amser i ystyried yr holl faterion hyn. Rwy'n gwerthfawrogi bod barn gymysg yn y Siambr hon ynghylch y materion hyn, ac mae'n rhaid i mi gydnabod hynny. Ar ddiwedd y dydd, pan fyddwch mewn Llywodraeth, weithiau ni allwch blesio pawb yn Siambr y Cynulliad o reidrwydd neu blesio pob aelod o bob plaid wleidyddol. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrthyfch yn onest fod hyn wedi cael ei ystyried a'i werthuso.

Gan droi at y llwybr glas, y dewis arall arfaethedig yw gwella ffordd ddosbarthu ddeheuol Casnewydd, yr A48, a'r ffordd fynediad i'r gwaith dur, yr A4810, i'r de o Gasnewydd, rhwng cyffordd 23A—rwy'n meddwl—a chyffordd 28 ym Mharc Tredegar. Ni fyddai'r llwybr glas yn darparu ateb hirdymor i'r problemau a nodwyd mewn cysylltiad â thagfeydd traffig, hyd yn oed gyda mesurau trafniadaeth gyhoeddus, megis y metro. Ni fyddai'n lliniaru digon ar goridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Y rhesymau allweddol dros ei chefnogi, i gael llai—. Efallai y gallem edrych hefyd ar beth o'r gwaith gwerthuso. Mae yna faterion cost yn codi yn ei gylch, ond byddai'n rhaid i mi edrych hefyd ar gau cyffyrdd presennol y ffordd ddosbarthu ddeheuol a'r ffordd fynediad i'r gwaith dur, a fyddai'n broblemus ynddo'i hun.

Byddai'r llwybr glas, gan ei fod ar welliant llinell, yn tarfu mwy ar drigolion a busnesau, fel dociau Casnewydd, Tata, datblygiad Glan Llyn a defnyddwyr STR a'r SAR. Wrth gwrs, mae pencadlys Tata Steel a agorwyd yn ddiweddar, a adeiladwyd yn Llanwern, yn cael ei effeithio'n ddifrifol. Awgrymwyd y gallai fod angen ei ddymchwel hyd yn oed. Hefyd, byddai'r awdurdod gweithredol iechyd a diogelwch yn cynghori yn erbyn gwaith uwchraddio pellach ar yr SAR oherwydd agosrwydd cyfleuster nwy diwydiannol Air Products, sy'n cael ei gategoreiddio fel safle peryglus o dan reoliadau COMA. Dyma un o'r rhesymau pam mai'r SAR yw'r unig llwybr dargyfeirio oddi ar y draffordd mewn argyfwng. Felly, mae problemau eithaf amlwg rydym wedi eu hystyried mewn perthynas â'r llwybr glas.

In terms of the contractual issues, I know that Members will be issued with timescales in the future. The awarding of the early contractual involvement contract will be in winter 2015. I hope that it will be in 2015. The publication of the scheme's draft orders, environmental impact assessment and habitats regulation assessment will be in spring 2016. The public local inquiry will be in the winter of 2016. The start of construction will hopefully be in the spring of 2018. The completion of motorway construction will be in autumn 2021. The completion of work associated with the reclassification of the existing motorway will be in the spring of 2022. In terms of what you asked me to publish, I will obviously give further consideration to the request about more openness and transparency about the issues that you raised with me.

O ran y materion cytundebol, rwy'n gwybod y bydd yr Aelodau yn cael amserlenni yn y dyfodol. Bydd dyfarnu'r contract ymwneud cynnar gan gontractwr yn digwydd yn ystod gaeaf 2015. Rwy'n gobeithio y bydd yn digwydd yn 2015. Mae cyhoeddi gorchmynion drafft y cynllun, yr asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd a'r asesiad o'r rheoliadau cynefinoedd yn digwydd yng ngwanwyn 2016. Bydd yr ymchwiliad cyhoeddus lleol yn digwydd yn ystod gaeaf 2016. Gobeithio y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yng ngwanwyn 2018. Cwblheir y gwaith o adeiladu'r draffordd yn hydref 2021. Bydd y gwaith sy'n gysylltiedig ag ailddosbarthu'r draffordd bresennol yn digwydd yng ngwanwyn 2022. O ran yr hyn rydych wedi gofyn i mi ei gyhoeddi, yn amlwg, byddaf yn ystyried y cais sy'n ymwneud ag agwedd fwy agored a thryloyw o ran y materion a godwyd gennych.

16:36

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a very expensive error. It is expensive in that it ties us up to a £1 billion spend that will inevitably hit our ability to invest in infrastructure across Wales for many years to come. It is also an expensive mistake in the short term that will mean Welsh businesses waiting at least 15 years for an answer to a problem that exists right now and that we all want solved. The £400 million blue route, if it had been investigated properly by this Government, could have provided an answer to the problem perhaps a decade quicker, fitting within all sensible traffic projection figures, even if the figures were wrong, with failsafe futureproofing built in. I would be grateful if the Minister could explain how she concluded that it is worth paying double and waiting twice as long to solve the same problem.

We have approached this issue with pragmatism. Earlier this month, Plaid Cymru—The Party of Wales was criticised for holding a debate in this Chamber, asking the Minister to give careful thought to all options. Now we know why the Government did not want that debate then—it is because it did not want a debate at all. Let me quote the First Minister the day before that debate:

'What I find farcical is that the Environment and Sustainability Committee is looking at the M4 at the moment...and we have a debate tomorrow prejudging the entire issue. That is a farce. It is incredible.'

He went on:

'I would urge Members to let the Environment and Sustainability Committee do its job and then to let the Minister respond when all of the facts have been considered.'

Mae hwn yn wall drud iawn. Mae'n ddud yn yr ystyr ei fod yn ein rhwymo i wariant o £1 biliwn a fydd yn anochel yn effeithio ar ein gallu i fuddsoddi mewn seilwaith ledled Cymru am flynyddoedd lawer i ddod. Mae hefyd yn gamgymeriad drud yn y tymor byr a fydd yn golygu bod busnesau Cymru yn gorfod aros o leiaf 15 mlynedd am ateb i broblem sy'n bodoli ar hyn o bryd a phroblem rydym i gyd am ei datrys. Pe bai'r Llywodraeth hon wedi ymchwilio'r llwybr glas gwerth £400 miliwn yn briodol, gallai fod wedi rhoi ateb i'r broblem ddegawd yn gynt, gan gyd-fynd â'r holl ffigurau traffig rhagamcanol synhwyrol, hyd yn oed pe bai'r ffigurau'n anghywir, gan gynnwys mesurau diogelu ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog egluro sut y mae'n dod i'r casgliad ei bod yn werth talu dwbl ac aros ddwywaith yr amser er mwyn datrys yr un broblem.

Rydym wedi ymdrin â'r mater hwn gyda phragmatiaeth. Yn gynharach y mis hwn, beirniadwyd Plaid Cymru am gynnal dadl yn y Siambr hon yn gofyn i'r Gweinidog roi ystyriaeth ofalus i'r holl opsiynau. Yn awr, gwyddom pam nad oedd y Llywodraeth eisiau'r ddadl honno ar y pryd—oherwydd nad oedd am gael dadl o gwbl. Gadewch imi ddyfynnu'r Prif Weinidog y diwrnod cyn y ddadl honno:

'Yn fy marn i, yr hyn sy'n chwerthinlyd yw bod Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn edrych ar yr M4 ar hyn o bryd... ac mae gennym ni ddadl yfory sy'n niweidio'r holl fater. Mae hynny'n ffars. Mae'n anhygoel.'

Aeth yn ei flaen:

'Byddwn yn annog yr Aelodau i adael Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i wneud ei waith ac yna gadael i'r Gweinidog ymateb pan fydd yr holl ffethiau wedi eu hystyried.'

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will the Minister comment on what is obvious to everybody else, namely that her reactions today have completely undermined that committee's work? Finally, I would like to mention the background: the UK Government's insistence that new borrowing powers are used for the M4 relief road. That is not what devolution is all about. However, even if it was, surely the blue route could have still been an option for use of those borrowing powers. This tells us all that we need to know about this Government's ability to stand up for Wales. When the UK Government says 'jump', this Labour Government clearly asks 'how high?' This is not about jumping as high as we can for Wales. Does the Minister recognise that this is a very low point that we could well be paying very dearly for, for many years to come?

A wnaiff y Gweinidog sylw ar yr hyn sy'n amlwg i bawb arall, sef bod ei hadwaith heddiw wedi tansilio gwaith y pwyllgor yn llwyr? Yn olaf, hoffwn sôn am y cefndir: Llywodraeth y DU yn mynnu bod pwerau benthyca newydd yn cael eu defnyddio ar gyfer ffordd liniar yr M4. Nid yw hynny'n ddatganoli. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai, gallai'r llwybr glas fod wedi parhau i fod yn opsiwn ar gyfer defnyddio pwerau benthyca o'r fath. Mae hyn yn dweud y cyfan sydd angen inni ei wybod am allu'r Llywodraeth hon i sefyll dros Gymru. Pan fydd Llywodraeth y DU yn dweud 'neidiwch', mae'n amlwg fod y Llywodraeth Lafur hon yn gofyn, 'pa mor uchel?' Nid mater o neidio mor uchel ag y gallwn dros Gymru yw hyn. A yw'r Gweinidog yn cydnabod bod hwn yn bwynt isel iawn y gallem fod yn talu'n ddud iawn amdano am flynyddoedd lawer i ddod?

16:39

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As the Government Minister who has taken the decisions on all of these particular issues, I am afraid that I do not accept anything that you have said in respect of the Government's position on this matter. I will always stand up for Wales, and always have done, in a wide range of areas across a number of portfolios over the years. I have always batted Wales's case. In terms of the discussions about the M4, they predate this administration. These are all discussions about land use, what would happen, and what the routes could be. There has been enormous discussion. I can remember discussions with my colleague Jane Hutt, with Sue Essex and with Andrew Davies, about what we should do about this particular route. The time has come now when it is important that we take a decision.

Fel Gweinidog y Llywodraeth sydd wedi gwneud y penderfyniadau ar bob un o'r materion penodol, mae arnaf ofn nad wyf yn derbyn unrhyw beth rydych wedi'i ddweud o ran safbwynt y Llywodraeth ar y mater hwn. Byddaf bob amser yn sefyll dros Gymru, a bob amser wedi gwneud hynny, mewn ystod eang o feysydd ar draws nifer o bortffolios dros y blynyddoedd. Rwyf bob amser wedi ymladd achos Cymru. O ran y trafodaethau ynglŷn â'r M4, maent yn rhagflaenu'r weinyddiaeth hon. Mae'r rhain i gyd yn drafodaethau am ddefnydd tir, beth fyddai'n digwydd, a'r hyn y gallai'r llwybrau fod. Cafwyd trafodaeth helaeth. Gallaf gofio trafodaethau gyda fy nghydweithiwr, Jane Hutt, gyda Sue Essex a gydag Andrew Davies, am yr hyn y dylem ei wneud am y llwybr penodol hwn. Mae'r amser wedi dod pan fo'n bwysig inni wneud penderfyniad.

I do not accept that this will be an expensive error. Everybody is bandying around figures for what this will cost. Now, I have always found in life that when you deal with contractors on anything, if I were to say to the contractor, 'Well, this project is £500 million', the bids would be in for £600 million-worth of work. If I were to say that something was £300 million, they would be in with £350 million or £400 million. It is important that when we do start to look at contractors, we drive at getting best value from this, and I know that my colleague Jane Hutt has been enormously helpful in terms of dealing with financial issues around this, as she is absolutely determined that we will be getting best value for what we are undertaking.

Nid wyf yn derbyn y bydd hwn yn gamgymeriad drud. Mae pawb yn taflu ffigurau o gwmpas o ran faint fydd yn ei gostio. Yn awr, rwyf bob amser wedi teimlo mewn bywyd, pan fyddwch yn ymdrin â chontractwyr ar unrhyw beth, pe bawn yn dweud wrth y contractwr, 'Wel, mae'r prosiect hwn yn £500 miliwn', byddai'r cynigion yn dod i mewn am waith gwerth £600 miliwn. Os dywedaf fod rhywbeth yn £300 miliwn, byddent yn cyflwyno ceisiadau gwerth £350 miliwn neu £400 miliwn. Pan fyddwn yn dechrau edrych ar gontractwyr, mae'n bwysig ein bod yn anelu i gael y gwerth gorau o hyn, a gwn fod fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, wedi bod o gymorth enfawr o ran ymdrin â materion ariannol sy'n gysylltiedig â hyn, gan ei bod yn hollol benderfynol ein bod yn cael y gwerth gorau o'r hyn rydym yn ei wneud.

You think that we are wrong. Well, I am afraid that industry does not actually agree with you. I think it was Byron Davies who referred to the comments that have been made by the CBI and others. They agree that it is absolutely important if we are to keep the economy of Wales running that we carry on and deal with some of the issues.

Rydych chi'n meddwl ein bod yn anghywir. Wel, mae arnaf ofn nad yw diwydiant yn cytuno â chi. Rwy'n credu mai Byron Davies a gyfeiriodd at y sylwadau a wnaed gan y CBI ac eraill. Os ydym am gadw economi Cymru i droi, maent yn cytuno ei bod yn gwbl bwysig inni barhau ac ymdrin â rhai o'r problemau.

With regard to what may or may not have happened in the debate before, I have been absolutely careful in all the statements that I have made about this matter to ensure that I have dealt with this matter with integrity in terms of the position. I recognise, as I think everybody else in the Chamber recognises, that this will be challenged. At the end of the day, there is a lot of interest in this and it will be challenged. So, it is important that in every stage that I have undertaken, everything that I have looked at has been undertaken absolutely properly. In terms of the final submission on these matters, that was signed off yesterday morning and the Assembly is actually having a statement from me today. So, as far as I am concerned, this is the right decision to take. I appreciate that it is not popular, and I appreciate that we all have diverse views on this, but, at the end of the day, Government is here to take these decisions, and I am determined to take this project forward.

O ran yr hyn y gallai neu na allai fod wedi digwydd yn y ddatl o'r blaen, rwyf wedi bod yn hollol ofalus yn yr holl ddatganiadau rwyf wedi'u gwneud ar y mater hwn er mwyn sicrhau fy mod wedi ymdrin â'r mater gydag uniondeb o ran y sefyllfa. Fel pawb arall yn y Siambr rwy'n credu, rwy'n cydnabod y bydd hyn yn cael ei herio. Ar ddiwedd y dydd, mae llawer o ddiddordeb yn hyn a bydd yn cael ei herio. Felly, mae'n bwysig fod popeth rwyf wedi edrych arno ar bob cam wedi cael ei wneud yn hollol gywir. O ran y cyflwyniad terfynol ar y materion hyn, cafodd ei gymeradwyo bore ddoe ac mae'r Cynulliad yn cael datganiad gennyf heddiw. Felly, o'm rhan i, dyma'r penderfyniad cywir. Rwy'n sylweddoli nad yw'n boblogaidd, ac rwy'n gwerthfawrogi ein bod i gyd â barn wahanol ar hyn, ond ar ddiwedd y dydd, mae'r Llywodraeth yma i wneud y penderfyniadau hyn ac rwy'n benderfynol o symud y prosiect hwn yn ei flaen.

16:41 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am surprised and disappointed by the timing of this statement. Only two weeks ago, I was stood here lambasting Plaid Cymru for jumping the gun on the environment committee inquiry, for undermining the scrutiny process. Of course, a key advocate of the route that has been selected is in fact CBI Wales, which has six times declined to give evidence to the inquiry so that we can scrutinise the actual substance of its evidence. Tomorrow, the environment committee will meet to conclude its report, which was delayed pending you having the time to answer a series of questions that were put to you by that committee. So, I have three questions. First, what weight would you give to the environment committee's report, when it is received? Secondly, do you agree with me that making this decision prior to the completion of that scrutiny process leaves the Welsh Government vulnerable to future legal challenge, and that, thirdly, this could also serve to undermine the standing of the Welsh Government in the eyes of the public in the exercise of its new borrowing powers?

Weinidog, rwy'n synnu ac wedi fy siomi gan amseriad y datganiad hwn. Bythefnos yn ôl yn unig, roeddwn yn sefyll yma'n lambastio Plaid Cymru am roi'r cert o flaen y ceffyl ar ymchwiliad pwyllgor yr amgylchedd, am danseilio'r broses graffu. Wrth gwrs, un o hyrwyddwr allweddol y llwybr a ddewiswyd mewn gwirionedd yw CBI Cymru, sydd ar chwe achlysur wedi gwrthod rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad inni allu craffu ar sylwedd ei dystiolaeth. Yfory, bydd pwyllgor yr amgylchedd yn cwrdd i gwblhau ei adroddiad, a gafodd ei ohirio er mwyn i chi gael amser i ateb cyfres o gwestiynau a ofynnwyd i chi gan y pwyllgor hwnnw. Felly, mae gennyf dri chwestiwn. Yn gyntaf, pa bwysau y byddwch yn ei roi ar adroddiad pwyllgor yr amgylchedd pan gaiff ei dderbyn? Yn ail, a ydych yn cytuno â mi fod gwneud y penderfyniad hwn cyn cwblhau'r broses graffu yn gadael Llywodraeth Cymru yn agored i her gyfreithiol yn y dyfodol, ac yn drydydd, a allai hyn hefyd fod yn fodd i danseilio statws Llywodraeth Cymru yn llygaid y cyhoedd o ran arfer ei phwerau benthyca newydd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:43 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will obviously read the report when it is available. I am not a lawyer to comment on your other views, and I have to say that, in terms of the Welsh public, it will make its judgment, because the number of complaints that we have about the connectivity issues around Newport, the ease of business flowing, people going to their jobs, et cetera, have been well made in this Chamber already.

Byddaf yn amlwg yn darllen yr adroddiad pan fydd ar gael. Nid wyf yn gyfreithiwr i roi sylwadau ar eich safbwyntiau eraill, ac mae'n rhaid imi ddweud y bydd y cyhoedd yng Nghymru yn ffurfio barn, gan fod nifer y cwynion sydd gennym ynghylch cysylltedd o amgylch Casnewydd, pa mor rhwydd yw hi i fusnes lifo, pobl yn mynd i'w gwaith ac ati, wedi cael eu lleisio'n hygryw yn y Siambr hon yn barod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:43 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I cannot say that I am surprised by the content of this statement, though I can say that, like Mick Antoniw, I am very surprised at the timing—absolutely I am. I am disappointed that the Welsh Government should choose an unsustainable 1970s solution to the infrastructure needs that Wales has, not just now, but also in the future. Again, I am sorry to say that I am not surprised by that either.

Ni allaf ddweud fy mod wedi fy synnu gan gynnwys y datganiad hwn, er fy mod yn gallu dweud, fel Mick Antoniw, fy mod wedi fy synnu'n fawr gan yr amseriad—mae hynny'n bendant. Rwy'n siomedig fod Llywodraeth Cymru wedi dewis ateb anghynaliadwy o'r 1970au i'r anghenion seilwaith sydd gan Gymru, nid yn unig yn awr, ond yn y dyfodol hefyd. Unwaith eto, mae'n ddrwg gennyf ddweud nad wyf wedi fy synnu gan hynny ychwaith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Again, I am not surprised that, given a chance to have borrowing powers to benefit all the people of Wales, you have chosen to blow it all in one go on a project for the southern part of Wales. Why would anybody be surprised by that? However, one sentence, Minister, today, in your statement left me frankly speechless. I cannot say that that happens all that often, so perhaps I can read it to you:

'The responses to the draft Plan public consultation did not provide any reasons why the draft Plan should not be adopted as the Plan for the M4 Corridor around Newport.'

The consultation responses that I have seen certainly did provide you with some of those reasons. Perhaps I can remind you of some of those. For example, Friends of the Earth pointed out that no business case has been published. Perhaps you can tell us what the potential economic impact that you expect this project to deliver for Wales is, so that we can make some kind of assessment as to the return on the likely investment of perhaps £1 billion.

The Federation of Small Businesses—you suggest that industry supports you—suggested in its criticism of the draft proposals that traffic forecasts do not present an accurate description of future growth. There are assumptions based on economic activity and car ownership with no interpretation of the impact of major rail investment. There is little consideration given to the proposed south-east Wales metro. A metro investment was seen by businesses in some cases to be more important than investment to improve the M4. The RSPB told us that all three options considered in the consultation would cause major irreversible damage to the wildlife of the Gwent levels. The path of both the preferred route and the reasonable alternative would run directly through a number of protected areas that are nationally important for their wildlife, including five SSSIs. We do not believe that the Welsh Government has proven the need for a new road and advocate, in line with the Welsh Government's own climate change strategy and commitment to sustainable development, that it should invest in low-carbon sustainable transport solutions to address congestion.

Sustrans told us that many of the key goals listed as part of the M4 corridor enhancement project would not be met by the progression of the proposed black route. The provision of an additional road would negatively impact on the Welsh Government's intention to create a culture shift towards more sustainable travel choices. The provision of the new road would increase the number of local journeys made both on the existing and new routes. That is undesirable and works against the Government's commitment to sustainable development and reduction of transport-related carbon emissions. It was concerned that the scoring contained within the strategic environmental assessment is not consistent with the issues highlighted in the report.

Unwaith eto, o ystyried y cyfle i gael pwerau benthyca a fyddai o fudd i holl bobl Cymru, nid wyf yn synnu eich bod wedi dewis gwario'r cyfan ar yr un pryd ar brosiect ar gyfer rhan ddeheuol Cymru. Pam y byddai unrhyw un yn cael ei synnu gan hynny? Fodd bynnag, mae un frawddeg yn eich datganiad heddiw, Weinidog, sy'n fy llorio a bod yn onest. Ni allaf ddweud bod hynny'n digwydd mor aml â hynny, felly efallai y caf ei darllen i chi:

'Ni ddarparodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft unrhyw resymau pam na ddylid mabwysiadu'r cynllun drafft fel y cynllun ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.'

Mae'r ymatebion rwyf wedi'u gweld i'r ymgynghoriad yn bendant wedi rhoi rhai o'r rhesymau hynny i chi. Efallai y caf eich atgoffa o rai o'r rheini. Er enghraifft, nododd Cyfeillion y Ddaear nad oedd unrhyw achos busnes wedi'i gyhoeddi. Efallai y gallwch ddweud wrthym beth yw'r effaith economaidd bosibl y disgwyliwch i'r prosiect hwn ei chyflawni dros Gymru, fel y gallwn wneud rhyw fath o asesiad o ran yr adenillion ar y buddsoddiad tebygol o £1 biliwn efallai.

Awgrymodd Ffederasiwn y Busnesau Bach—rydych yn awgrymu bod y diwydiant yn eich cefnogi—yn ei feirniadaeth o'r cynigion drafft nad yw rhagolygon traffig yn cyflwyno disgrifiad cywir o dwf yn y dyfodol. Ceir rhagwybiaethau yn seiliedig ar weithgaredd economaidd a pherchnogaeth ceir heb unrhyw ddehongliad o effaith buddsoddiadau mawr yn y rheilffyrdd. Ni roddwyd fawr o ystyriaeth i'r metro arfaethedig ar gyfer de-ddwyrain Cymru. Mewn rhai achosion, ystyriai busnesau fod buddsoddi yn y metro yn fwy pwysig na buddsoddi ar gyfer gwella'r M4. Dywedodd yr RSPB wrthym y byddai pob un o'r tri opsiwn a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad yn achosi niwed di-droi'n-ôl i fywyd gwyllt ar wastadeddau Gwent. Byddai llwybr yr opsiwn a ffafir a'r dewis amgen rhesymol yn rhedeg yn syth drwy nifer o ardaloedd gwarchoddedig sydd o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd eu bywyd gwyllt, gan gynnwys pum Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Nid ydym yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi profi'r angen am ffordd newydd ac rydym yn argymhell, yn unol â strategaeth newid yn yr hinsawdd Llywodraeth Cymru ei hun, a'i hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, y dylai fuddsoddi mewn atebion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy carbon isel i fynd i'r afael â thagfeydd.

Dywedodd Sustrans wrthym na fyddai llawer o'r nodau allweddol a restrir fel rhan o brosiect gwella coridor yr M4 yn cael eu cyflawni drwy ddatblygu'r llwybr du arfaethedig. Byddai darparu ffordd ychwanegol yn cael effaith negyddol ar fwriad Llywodraeth Cymru i greu newid diwylliannol tuag at ddewisiadau teithio mwy cynaliadwy. Byddai darparu'r ffordd newydd yn cynyddu nifer y siwrneiau lleol a wneir ar y llwybr presennol a'r llwybr newydd. Nid yw hynny'n ddymunol ac mae'n gweithio'n groes i ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy a lleihau allyriadau carbon. Roedd Sustrans yn pryderu nad oedd y dull sgorio yn yr asesiad amgylcheddol strategol yn gyson â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Those are some of the reasons that people have raised. It is not that there were no reasons to proceed, Minister; it is simply that you have chosen to cast those concerns aside. You have decided that you want to leave your mark on Wales like a gash across the landscape, regardless of the environmental concerns, regardless of the report of the environment committee in this place, regardless of the needs of north and mid Wales, regardless of the payment cost that will tie us to a massive mortgage and prevent us from investing across the rest of Wales in its infrastructure needs.

You say that we are bandying about figures; well, Minister, perhaps that is because nature abhors a vacuum. We need to understand what the economic reality of this road is in terms of not only its cost, but also its benefits. I would also like to see more clarification on what proposals you are taking forward today. Can we assume that it is the black route, or one of the other almost identical alternative routes that you consulted on?

I would also like to see more information on the junctions that were absolutely absent from the consultation proposals put forward for people to discuss. For example, I see that you are proposing a new junction 23, which will encompass some of the local roads around Magor and Undy. The original jumping-off point was closer to junction 23A, so I ask what impact this will have on the people of Magor and Undy, not only in the building, but also in terms of their transport infrastructure locally as they seek to commute to and from work and to move their goods and their people around their local area. What consultation are you going to have with them so that they can see specifically how this road is going to affect their community? I fail to see how the jumping-off point of junction 23 that you now propose is not going to carve the heart right out of those communities.

Dyna rai o'r rhesymau y mae pobl wedi'u mynegi. Nid yw hyn yn golygu nad oedd rhesymau dros symud ymlaen, Weinidog; mae'n ymwneud yn syml â'r ffaith eich bod wedi dewis diystyru'r pryderon hyn. Rydych wedi penderfynu eich bod am adael eich marc ar Gymru fel archoll ar draws y dirwedd, beth bynnag am y pryderon amgylcheddol, beth bynnag am adroddiad pwyllgor amgylchedd y lle hwn, beth bynnag am anghenion gogledd a chanolbarth Cymru, beth bynnag am y gost a fydd yn ein clymu wrth forgais enfawr ac yn ein hatal rhag buddsoddi ar draws gweddill Cymru o ran ei anghenion seilwaith.

Rydych yn dweud ein bod yn taflu ffigurau o gwmpas; wel, Weinidog, efallai mai'r rheswm am hynny yw bod natur yn casáu gwactod. Mae angen inni ddeall beth yw realiti economaidd y ffordd hon o ran nid yn unig ei chost, ond ei manteision hefyd. Yn ogystal, hoffwn weld mwy o eglurhad ynglŷn â pha gynigion rydych yn bwrw ymlaen â hwy heddiw. A allwn ni gymryd yn ganiataol mai'r llwybr du ydyw, neu un o'r llwybrau amgen yr ymgynghorasoch yn eu cylch, sydd bron yn union yr un fath?

Buaswn hefyd yn hoffi gweld rhagor o wybodaeth am y cyffyrdd a oedd yn gwbl absennol o'r cynigion ymgynghori a gyflwynwyd i bobl eu trafod. Er enghraifft, rwy'n gweld eich bod yn cynnig cyffordd 23 newydd, a fydd yn cwmpasu rhai o'r ffyrdd lleol o gwmpas Magwyr a Gwndy. Roedd y pwynt gadael gwreiddiol yn agosach at gyffordd 23A, felly rwy'n gofyn pa effaith fydd hyn yn ei chael ar bobl Magwyr a Gwndy, nid yn unig o ran yr adeiladu, ond hefyd o ran eu seilwaith trafnidiaeth yn lleol wrth iddynt geisio cymudo i ac o'r gwaith a symud eu nywyddau a'u pobl o amgylch eu hardal leol. Pa ymgynghori rydych chi'n mynd i'w gael gyda hwy fel y gallant weld yn benodol sut y mae'r ffordd hon yn mynd i effeithio ar eu cymuned? Rwy'n methu â gweld sut nad yw pwynt gadael cyffordd 23 rydych yn awr yn ei gynnig yn mynd i ddiaberfeddu'r cymunedau hynny.

16:48

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With reference to some of your comments, I thought it important that I made this statement to the Chamber today, having taken the decision on it yesterday. I would have been criticised if I had issued a written statement or told Members when they were in recess, so I decided that it was important that I made this today. I am well aware of the passion around these issues. I am well aware of the number of people who made their opinions known in the consultation process. Having assessed their opinion, looked at the respondents, and gone through all the documentation—we had a lot of respondents and we had 24,000 visits to the project website during the consultation—I am absolutely certain in my mind that the proposal that we have outlined is the right proposal in respect of the M4.

Gan gyfeirio at rai o'ch sylwadau, roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig fy mod yn gwneud y datganiad hwn i'r Siambr heddiw, ar ôl penderfynu yn ei gylch ddoe. Byddwn wedi cael fy meirniadu pe bawn wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig neu wedi dweud wrth yr Aelodau dros y toriad, felly penderfynais ei bod yn bwysig imi wneud hyn heddiw. Rwy'n ymwybodol iawn o'r angerdd y mae'r materion hyn yn ei chymell. Rwy'n ymwybodol iawn o faint o bobl a fynegodd farn yn ystod y broses ymgynghori. Ar ôl asesu eu barn hwy, edrych ar yr ymatebion, a mynd drwy'r holl ddogfennau—cawsom lawer o ymatebion ac ymwelwyd â'r wefan 24,000 o weithiau yn ystod yr ymgynghoriad—rwyf yn gwbl sicr yn fy meddwl mai'r cynnig rydym wedi'i amlinellu yw'r cynnig cywir mewn perthynas â'r M4.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the financial issues, one of the issues that we carefully considered—me and the Minister for Finance—was the impact on the rest of the projects in Wales. It is something that we are deliberating to get fairness and equality across the piece. It is important for us to recognise that this is a strategic decision for the long term, but it does not rule out other decisions, such as the decision you referenced on the metro. It is important to recognise that the metro is equally important to us in terms of the delivery of undertaking investment in transport. The metro work is proceeding very well. I met Mark Barry today to discuss further issues around the metro. In addition to that, I have had further discussions today about the importance of ensuring that we have the right case for the north Wales electrification. Work is also going forward on that particular business plan. These are not either/or options.

In terms of the issues around the route, everything will be available on the website. There will be plenty of information there about the preferred route. It is an opportunity, because the original preferred route was identified in 2006, I seem to recall. So, it was very important that we looked at that and considered any further changes that we could make.

I am absolutely sure that this is the direction of travel that we need to take as a Government. I understand why people are expressing their reservations and their concerns, but this was always going to be a decision that would cause division.

O ran y materion ariannol, un o'r materion a ystyriwyd yn ofalus gennym—gennyf fi a'r Gweinidog Cyllid—oedd yr effaith ar weddill y prosiectau yng Nghymru. Mae'n rhywbeth rydym yn ei drafod er mwyn sicrhau tegwch a chydardoldeb i bawb. Mae'n bwysig inni gydnabod bod hwn yn benderfyniad strategol ar gyfer y tymor hir, ond nid yw'n dystyru penderfyniadau eraill, megis y penderfyniad y cyfeiriasoch ato ynglŷn â'r metro. Mae'n bwysig cydnabod bod y metro yr un mor bwysig i ni o ran buddsoddi mewn trafniadaeth. Mae'r gwaith ar y metro mynd yn ei flaen yn dda iawn. Cyfarfûm â Mark Barry heddiw i drafod materion pellach mewn perthynas â'r metro. Yn ogystal â hynny, cefais drafodaethau pellach heddiw am bwysigrwydd sicrhau bod gennym achos cywir dros drydaneiddio gogledd Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cynllun busnes penodol hwnnw hefyd. Nid dewisiadau naill ai/neu yw'r rhain.

O ran y materion sy'n ymwneud â'r llwybr, bydd popeth ar gael ar y wefan. Bydd digon o wybodaeth yno am y llwybr a ffafrir. Mae'n gyfle, oherwydd nodwyd y llwybr a ffafrid yn wreiddiol yn 2006, os cofiaf yn iawn. Felly, roedd yn bwysig iawn ein bod yn edrych ar hynny ac yn ystyried unrhyw newidiadau pellach y gallem eu gwneud.

Rwy'n gwbl sicr mai i'r cyfeiriad hwn y dylem fynd fel Llywodraeth. Rwy'n deall pam y mae pobl yn mynegi eu hamheuron a'u pryderon, ond roedd hwn bob amser yn mynd i fod yn benderfyniad a fyddai'n achosi rhaniadau.

16:50

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have eight speakers on this statement, and I want to call everyone because of the importance of this subject, but you have one minute to ask a question—two if you are very clever and quick.

Mae gen i wyth o siaradwyr ar y datganiad hwn, ac rwyf am alw pawb oherwydd pwysigrwydd y pwnc, ond mae gennyf un funud i ofyn cwestiwn—dau os ydych yn glyfar ac yn gyflym iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:50

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am also a member of the Environment and Sustainability Committee, so I am very concerned that this decision has been made before the committee reports. The committee has taken a considerable amount of evidence and has made a site visit. It seems to me that, when you are making a contentious decision like that, it is really important to get as much evidence and as many views as possible, particularly those of an environmental committee in the Assembly, before you make a decision. So, I would like to ask why this decision was made before the Environment and Sustainability Committee produced its report. In looking at the environmental considerations, which are of huge concern to me, are we here planning for the long term, as we have been talking about in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, or are we making a short-term decision that does not look at the long-term environmental consequences?

Rwyf hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, felly rwy'n bryderus iawn fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud cyn i'r pwyllgor gyflwyno'i adroddiad. Mae'r pwyllgor wedi casglu cryn dipyn o dystiolaeth ac wedi gwneud ymweliad safle. Pan fyddwch yn gwneud penderfyniad dadleuol fel hwn, mae'n ymddangos i mi ei bod hi'n bwysig iawn cael cymaint o dystiolaeth a chymaint o safbwyntiau ag sy'n bosibl, yn enwedig gan bwyllgor yr amgylchedd yn y Cynulliad, cyn ichi wneud penderfyniad. Felly, hoffwn ofyn pam y gwnaethpwyd y penderfyniad cyn i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd lunio ei adroddiad. Wrth edrych ar yr ystyriaethau amgylcheddol, sy'n destun pryder mawr i mi, a ydym yn cynllunio ar gyfer y tymor hir, fel y buom yn ei drafod ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ynteu a ydym yn gwneud penderfyniad yn y tymor byr nad yw'n edrych ar y canlyniadau amgylcheddol hirdymor?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:51

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of environmental issues, all of the routes—the black route, the main element of the plan, the red and purple routes, which were the reasonable alternatives—crossed the sites of special scientific interest and the River Usk special area of conservation. None of the three routes cuts through the centre of the Gwent levels, as has been alleged by various groups. The three routes are the same with regard to where they would cross the SSSIs on the east side of the River Usk and follow either existing lines of severance or the edge of existing industrial land at Llanwern steelworks. The three routes cross the Usk and the Docks Way landfill site at different locations, before going the same way from the north of the main south Wales to London railway. Both the red and the purple routes, which would ride closer to the edge of the SSSI, would be significantly closer to Duffryn High School and the adjoining residential property. With the plain black route, there would be no works in the wet channel of the River Usk, which is of course the SAC, which is a key concern for Natural Resources Wales. The red and purple routes require bridges and piers in the wet channel, which could have a potential impact on migratory fish movements. The blue route would also be likely to require works within the wet channel. So, there has been a detailed consideration of the environmental issues.

With regard to the committee's report, the timescale in terms of submissions to me is as it was, but as I have indicated, I will obviously read with interest the report.

O ran materion amgylcheddol, roedd pob un o'r llwybrau-y llwybr du, prif elfen yn y cynllun, y llwybrau coch a phorffor, sef y dewsiadau amgen rhesymol-yn croesi'r safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig ac ardal cadwraeth arbennig Afon Wysg. Nid yw'r un o'r tri llwybr yn torri drwy ganol gwastadeddau Gwent, fel sydd wedi'i honni gan wahanol grwpiau. Mae'r tri llwybr yr un fath o ran lle y byddent yn croesi'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar ochr ddwyreiniol yr Afon Wysg ac yn dilyn naill ai'r llinellau gwahanu presennol neu ymylon y tir diwydiannol presennol yng ngwaith dur Llanwern. Mae'r tri llwybr yn croesi'r Afon Wysg a safle tirlenwi Docks Way mewn mannau gwahanol, cyn mynd yr un ffordd o'r ochr ogleddol i brif reilffordd de Cymru i Lundain. Byddai'r llwybr coch a'r llwybr porffor, a fyddai'n mynd yn agosach at ymyl y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gryn dipyn yn agosach at Ysgol Uwchradd Dyffryn a'r eiddo preswyl cyfagos. Gyda'r llwybr du plaen, ni fyddai unrhyw waith yn sianel wlyb yr Afon Wysg, sef yr Ardal Cadwraeth Arbennig wrth gwrs, sy'n bryder allweddol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r llwybrau coch a phorffor yn galw am godi pontydd a phileri yn y sianel wlyb, a allai gael effaith bosibl ar symudiadau pysgod mudol. Byddai'r llwybr glas hefyd yn debygol o alw am waith o fewn y sianel wlyb. Felly, cafwyd ystyriaeth fanwl o'r materion amgylcheddol.

Mewn perthynas ag adroddiad y pwyllgor, mae'r amserlen o ran cyflwyniadau i mi fel yr oedd, ond fel y dywedais, byddaf yn amlwg yn darllen yr adroddiad gyda diddordeb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:52

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I commend the Minister for her historic decision today. Having argued for this road for the last 25 years, I believe that it is a significant step forward, with money made available by the coalition Government in Westminster. I pay tribute to the Minister and also to the Minister for Finance for the way in which they have brought this forward today. It is extremely important for those people who, like myself, negotiate this road on a daily basis. I ask you, Minister, in view of the contention today, to give your assurance to the Chamber that you will bring forward statements at pertinent and relevant times.

Rwy'n cymeradwyo'r Gweinidog am ei phenderfyniad hanesyddol heddiw. Ar ôl dadlau o blaid y ffordd hon dros y 25 mlynedd diwethaf, rwy'n credu ei fod yn gam sylweddol ymlaen, gydag arian ar gael gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan. Rwy'n rhoi teyrnged i'r Gweinidog a hefyd i'r Gweinidog Cyllid am y ffordd y maent wedi cyflwyno hyn heddiw. Mae'n eithriadol o bwysig i'r bobl hynny sydd, fel fi, yn trafod y ffordd hon yn ddyddiol. Weinidog, o ystyried y gynnen heddiw, gofynnaf ichi roi sicrwydd i'r Siambr y byddwch yn cyflwyno datganiadau ar adegau perthnasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:53

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be very pleased to make further statements on the development and progress of the M4. I know, William, of course, that with your interest in relation to the business community, you have always been particularly keen to deal with the issues around Newport. It is quite clear when you speak to industry that it is very concerned that we deal with some of the issues in that regard to ensure that we continue to have growth within the Welsh economy.

Byddaf yn falch iawn o wneud datganiadau pellach ar ddatblygiad a chynnydd yr M4. Wrth gwrs, gyda'ch diddordeb yn y gymuned fusnes, William, rwy'n gwybod eich bob amser yn arbennig o awyddus i ymdrin â materion yn ymwneud â Chasnewydd. Wrth siarad â phobl mewn diwydiant, mae'n eithaf amlwg eu bod yn awyddus iawn inni ymdrin â rhai o'r materion yn hynny o beth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gael twf o fewn economi Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:53

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will call Alun Ffred Jones next, but, as he Chairs the committee that we have referred to already, I will extend him a little more latitude to put a few questions.

Galwaf ar Alun Ffred Jones nesaf, ond gan ei fod yn cadeirio'r pwyllgor rydym wedi cyfeirio ato eisoes, byddaf yn rhoi ychydig mwy o ryddid iddo ofyn ychydig o gwestiynau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, rwy'n siomedig iawn fod y penderfyniad hwn wedi ei wneud cyn inni gael cyfle i drafod a chytuno ein hadroddiad. Mae Mick Antoniw wedi dweud y cyfan sydd angen ei ddweud ar y mater hwn. Mae'r oedi cyn cytuno ar yr adroddiad wedi bod oherwydd ein bod wedi bod yn gofyn a gofyn i'r Gweinidog ddod gerbron y pwyllgor i drafod rhai o'r pryderon oedd gan yr Aelodau. Rydym hefyd wedi cyfeirio at y ffaith ein bod wedi gofyn i'r CBI, sy'n cefnogi'r llwybr hwn, ddod chwe gwaith ond nid yw wedi gallu gweld yn dda i ddod yma. Rwy'n siomedig eithriadol yn y ffordd y mae'r penderfyniad hwn wedi cael ei wneud, yn enwedig ar ôl yr ymosodiad a fu yma yn y dadl ar y mater hollbwysig hwn.

As Chair of the Environment and Sustainability Committee, I am very disappointed that this decision has been made before we have an opportunity to discuss and agree our report. Mick Antoniw said all that needs to be said on that matter. The delay in reaching agreement on the report has been because we have been asking and asking the Minister to come before the committee to discuss some of the concerns of Members. We have also referred to the fact that we have asked the CBI, which supports this route, six times to come before us but it has not been able to appear. I am extremely disappointed in the way that this decision has been made, particularly after the attack here in the debate on this crucial issue.

Rwy'n pwysleisio bod pryderon a godwyd gan y pwyllgor yn ein llythyrau at y Gweinidog yn cyfeirio at y broses ac nad ydym yn cwestiynu'r angen i ymyrryd mewn rhyw ffordd i wella amodau ar yr M4.

I stress that concerns raised by the committee in our letters to the Minister refer to the process and that we are not questioning the need to intervene in some way to improve conditions on the M4.

Rwy'n gofyn i'r Gweinidog a fydd hi yn awr ar gael ar gyfer craffu ar y penderfyniad hwn ac i edrych yn fanwl ar y cynigion hyn. Rwyf hefyd yn gofyn iddi ynglŷn â phryderon Cyfoeth Naturiol Cymru. A yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r llwybr sydd wedi cael ei ddewis ganddi hi a'r llywodraeth?

I ask the Minister whether she will now be available for scrutiny on this decision and to look in detail at these proposals. I also ask her about the concerns of Natural Resources Wales. Does NRW support the route that has been chosen by her and the Government?

Yn drydydd, faint o ystyriaeth a roddwyd i'r cynlluniau sydd yn yr arfaeth i ddatblygu rhwydwaith metro a thrydaneiddio, a pha wahaniaeth fydd hynny yn ei wneud i symud pobl i mewn ac allan mewn ffordd lanach a gwyrdach?

Thirdly, how much consideration was given to the proposed plans to develop a metro network and electrification, and what difference will that make to moving people in and out in a cleaner and greener way?

Yn olaf, a yw hi'n ystyried bod yr hawl benthg £500 miliwn a roddwyd mor garedig gan y Torïaid yn ddigonol i gyflawni'r cynllun hwn? Os nad ydyw, faint o adnoddau ychwanegol fydd eu hangen er mwyn cwblhau'r cynllun hwn, a beth fydd effaith hynny ar gynlluniau cyfalaf y llywodraeth yn y dyfodol?

Finally, does she consider that the right to borrow £500 million given so kindly by the Tories will be sufficient to achieve this scheme? If not, how much extra resources will be needed in order to complete this scheme, and what impact will that have on the Government's capital plans in the future?

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your comments. I am not responsible for the CBI and whether or not it gives evidence to the committee.

Diolch i chi am eich sylwadau. Nid wyf yn gyfrifol am y CBI a pha un a yw'n rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor ai peidio.

With regard to the issue that you raise about me attending the committee to look at the processes and other issues, there might be areas that I would not be able to comment on, but I will be pleased to attend committee for scrutiny now that this decision has been taken. The only reason that I was not prepared to do so before was because I had to be careful in terms of being objective, given the consultation being undertaken, in every decision that I took. Unfortunately, that is how the system works, but I will certainly be prepared to come to committee to discuss the issues that are relevant to this.

O ran y mater a godwch ynglŷn â fy mhresenoldeb yn y pwyllgor i edrych ar y prosesau a materion eraill, gallai fod meysydd na fyddwn yn gallu rhoi sylwadau arnynt, ond byddaf yn falch o fynychu'r pwyllgor ar gyfer craffu gan fod y penderfyniad yn awr wedi'i wneud. Yr unig reswm nad oeddwn yn barod i wneud hynny cynt oedd am fod rhaid i mi fod yn ofalus o ran bod yn wrthrychol ym mhob penderfyniad a wneuthum, o ystyried yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal. Yn anffodus, dyna sut y mae'r system yn gweithio, ond byddaf yn sicr yn barod i ddod i'r pwyllgor i drafod y materion sy'n berthnasol i hyn.

In terms of Natural Resources Wales, this was not an issue that I dealt with as Minister; that was dealt with by another Minister in terms of the discussions that had to take place with Natural Resources Wales.

O ran Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oedd hwn yn fater roeddwn yn ymdrin ag ef fel Gweinidog; Gweinidog arall a oedd yn ymdrin â'r mater o ran y trafodaethau roedd gofyn eu cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

In terms of the metro, I make it clear that we believe that the metro proposals are alive, well and kicking, and they will deal with some of the other issues within the south-east Wales area. We are proceeding on the work in that area, and I think that the work there will very much complement the further work that we are doing on transport issues around south-east Wales.

In terms of the financial matters, it is important to recognise that we get the best value in terms of how we proceed to look at the route and the early contractor involvement. That will determine the overall cost of this particular project.

O ran y metro, rwy'n ei gwneud yn glir ein bod yn credu bod cynigion y metro yn fyw ac yn iach, ac y byddant yn ymdrin â rhai o'r materion eraill yn ne-ddwyrain Cymru. Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwnnw, ac rwy'n credu y bydd yn ategiad mawr i'r gwaith pellach rydym yn ei wneud ar faterion trafniadaeth o gwmpas de-ddwyrain Cymru.

O ran y materion ariannol, mae'n bwysig cydnabod ein bod yn cael y gwerth gorau o ran sut rydym yn symud ymlaen i edrych ar y llwybr ac ymwneud cynnar gan gcontractwr. Bydd hynny'n pennu cost gyffredinol y prosiect penodol hwn.

16:57

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am also a member of the Environment and Sustainability Committee. In evidence to that committee, Natural Resources Wales said that it was very unhappy about the content of the environmental reports that accompanied the documentation that the Minister has considered. In particular, it was unhappy about the evidence on soil contamination, greenhouse gas emissions, water quality, and the landscape and townscape effects of the various proposals. Minister, I am asking you to have another look at the environmental impacts of the proposed route and the decision that you have made, to ensure that all the mitigating factors that you think are necessary are included. Will you listen carefully to the concerns of people who say that the closeness of the route that you have chosen to the SSSIs will cause other impacts? Will you also look at necessary mitigation features to ensure that this decision does not have worse environmental impacts than are strictly necessary for the route?

Weinidog, rwyf hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn anhapus iawn am gynnwys yr adroddiadau amgylcheddol a ddaeth gyda'r dogfennau y mae'r Gweinidog wedi'u hystyried. Yn benodol, roedd yn anhapus ynglŷn â'r dystiolaeth ynghylch halogiad pridd, allyriadau nwyon tŷ gwydr, ansawdd dŵr, ac effaith y gwahanol gynigion ar y dirwedd a'r treflun. Weinidog, rwy'n gofyn i chi gael golwg arall ar effeithiau amgylcheddol y llwybr arfaethedig a'r penderfyniad a wnaethoch, er mwyn sicrhau bod yr holl ffactorau lliniaru y credwch eu bod yn angenrheidiol yn cael eu cynnwys. A wnewch chi wrando'n ofalus ar bryderon pobl sy'n dweud y bydd agosrwydd y llwybr a ddewiswyd gennych at y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn achosi effeithiau eraill? A wnewch chi edrych hefyd ar nodweddion lliniaru angenrheidiol i sicrhau nad oes effeithiau amgylcheddol gwaeth i'r penderfyniad hwn nag sy'n gwblu angenrheidiol ar gyfer y llwybr?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:58

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those comments. I was assured when I took my decision that everything was in order with regard to all aspects that built up to the taking of the decision, and that this would be the statement that I would make today. I signed off the submissions accordingly. All these matters have been taken into account before the advice came to me. Other Ministers have been involved in that particular process.

I understand why people are raising these concerns, because they were raised through the consultation process. However, I still believe that the information that was in front of me allowed me to make this decision in good faith.

Diolch i chi am eich sylwadau. Cefais sicrwydd pan wneuthum fy mhenderfyniad fod popeth mewn trefn o ran yr holl agweddau a oedd yn arwain at wneud y penderfyniad, ac mai dyma'r datganiad y byddwn yn ei wneud heddiw. Cymeradwyais y cyflwyniadau yn unol â hynny. Mae'r holl faterion hyn wedi cael eu hystyried cyn i'r cyngor gael ei roi i mi. Mae Gweinidogion eraill wedi bod yn rhan o'r broses benodol honno.

Rwy'n deall pam y mae pobl yn lleisio'r pryderon hyn, oherwydd cawsant eu mynegi drwy'r broses ymgynghori. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu bod yr wybodaeth a oedd gennyf yn fy ngalluogi i wneud y penderfyniad hwn yn ddidwyll.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:59

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have two very quick questions, Minister. First, can we have clarity on this issue of reasonableness? It has been raised by a number of Members in the Chamber today. We definitely need an alternative to the current congestion problems afflicting the M4, but I am sure that you would agree that it cannot be a solution at any cost. This has to be explained, and we need to know that the alternative will be reasonable. I know that Professor Stuart Cole's blue route has come in for some criticism, but he says that that can be taken in tandem with the new metro system. You are saying that we need the new black route bypass and the metro system as well. Are you absolutely sure that that will not provide over-capacity?

Secondly and finally, in relation to the current M4, I understand—perhaps you can clarify—that a change of classification will be made to that road. In other words, it is a de-motorwaying. That will still have a number of key junctions on it, particularly with the A449, the A4042 and the A4051. Are you confident that de-motorwaying that road—we do not have many motorways in Wales—will not cause a second generation of problems, particularly with access to the Valleys?

Mae gennyf ddau gwestiwn cyflym iawn, Weinidog. Yn gyntaf, a allwn gael eglurder ar y mater hwn o resymoldeb? Mae wedi cael ei godi gan nifer o'r Aelodau yn y Siambur heddiw. Rydym yn bendant angen dewis amgen i'r problemau presennol gyda thagfeydd sy'n effeithio ar yr M4, ond rwy'n siŵr y byddech yn cytuno na all fod yn ateb ni waeth beth yw'r pris. Mae'n rhaid i hyn gael ei egluro, ac mae angen inni wybod y bydd y dewis amgen yn rhesymol. Gwn fod llwybr glas yr Athro Stuart Cole wedi wynebu beirniadaeth, ond mae'n dweud y gellir ei ystyried ar y cyd â'r system metro newydd. Rydych yn dweud ein bod angen ffordd osgoi newydd hy llwybr du a'r system metro hefyd. A ydych yn hollol siŵr na fydd hynny'n darparu gormod o gapasiti?

Yn ail ac yn olaf, mewn perthynas â'r M4 bresennol, rwy'n deall—efallai y gallwch egluro—y bydd y ffordd honno'n cael ei hailddosbarthu. Mewn geiriau eraill, bydd yn cael ei dad-drafforddeiddio. Bydd nifer o gyffyrdd allweddol arni o hyd, yn enwedig gyda'r A449, yr A4042 a'r A4051. A ydych yn hyderus na fydd dad-drafforddeiddio'r ffordd honno—nid oes gennym lawer o draffyrdd yng Nghymru—yn achosi ail genhedlaeth o broblemau, yn enwedig o ran mynediad i'r Cymoedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:00

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that we will have a second generation of problems in that particular regard. I have already, in responding, given a detailed résumé of the issues around the particular blue route, and I understand the passions there are about particular routes in taking this decision. But I believe that, in the round, this is the right decision to take in respect of this particular route, having looked carefully at all the other options.

Nid wyf yn meddwl y byddwn yn cael ail genhedlaeth o broblemau yn y cyswllt penodol hwn. Wrth ymateb, rwyf eisoes wedi ystyried crynodeb manwl o'r materion sydd ynghlwm wrth y llwybr glas yn benodol, ac rwy'n deall yr angerdd sy'n bodoli ynghylch llwybrau penodol wrth wneud y penderfyniad hwn. Ond rwy'n credu, o edrych arno o bob cyfeiriad, mai dyma'r penderfyniad cywir i'w wneud mewn perthynas â'r llwybr penodol hwn, ar ôl edrych yn ofalus ar yr holl opsiynau eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:00

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not a member of the environment committee and I rise simply to say, on behalf of my constituents, that they will be extremely disappointed at this decision. I am unclear as to why the blue route, which cost two-fifths of the cost of the route that the Minister is proposing, is insufficient. I do not feel that you have given nearly enough information as to why that is. I am particularly concerned at the mere suggestion from Nick Ramsay that, if this much more expensive proposal goes ahead, that might put in jeopardy the metro. We all know that more roads bring more cars and what we need are alternatives to roads, notwithstanding the fact that we do need to improve the M4 corridor.

Nid wyf yn aelod o bwylgor yr amgylchedd ac rwy'n codi i ddweud yn syml ar ran fy etholwyr, y byddant yn hynod siomedig ynglŷn â'r penderfyniad hwn. Nid wyf yn sicr pam y mae'r llwybr glas, sy'n costio dwy ran o bump o gost y llwybr y mae'r Gweinidog yn ei gynnig, yn annigonol. Nid wyf yn teimlo eich bod wedi rhoi hanner digon o wybodaeth ynglŷn â pham y credwch hynny. Rwy'n pryderu'n benodol ynghylch yr awgrym gan Nick Ramsay y gallai symud ymlaen â'r cynnig llawer iawn mwy costus hwn roi'r metro mewn perygl. Rydym i gyd yn gwybod bod mwy o ffyrdd yn dod â mwy o geir a'r hyn rydym ei angen yw dewisiadau yn lle ffyrdd, er gwaethaf y ffaith bod angen inni wella coridor yr M4.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:01

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those particular comments. I have no doubt that you will have constituents that will be upset by this decision, and also, probably, constituents that will not be upset by the decision on this particular matter. In terms of the cost, we will drive down the costs as well as we can in terms of any large-scale project. But let me make it absolutely clear that it is not the M4 or the metro. I think that I have made that clear from day one. We will be proceeding with the metro development, and the discussions and the plans around the metro, at the same time that we will be moving ahead with what I have outlined in my statement today.

Diolch am y sylwadau penodol hynny. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd gennych etholwyr a fydd yn gofidio am y penderfyniad hwn, a hefyd yn ôl pob tebyg, etholwyr na fydd yn gofidio am y penderfyniad ar y mater penodol hwn. O ran y gost, byddwn yn gwthio'r costau i lawr cymaint ag y gallwn ar unrhyw brosiect ar raddfa fawr. Ond gadewch imi ei gwneud yn gwbl glir nad mater o'r M4 neu'r metro yw hyn. Rwy'n meddwl fy mod wedi gwneud hynny'n glir o'r diwrnod cyntaf. Byddwn yn bwrw ymlaen gyda datblygu'r metro, a'r trafodaethau a'r cynlluniau sy'n ymwneud â'r metro, ar yr un pryd ag y byddwn yn symud ymlaen gyda'r hyn rwyf wedi'i amlinellu yn fy natganiad heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:02

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ten thousand members of the Gwent Wildlife Trust—and I am one of them—are of the opinion that this road sweeping across the Gwent levels is too environmentally damaging to be justifiable. This is not just any old piece of land; you know of its importance. I will move to my questions. If the SSSI is lost or damaged substantially, what impact will the loss of potentially 100,000 visitors have on the Welsh economy? What impact will this have on the legacy that we leave for our children, the loss of wildlife, habitat and archaeology, and how can you justify spending so much money? Where will it come from? Is it not better spent on social services, hospitals and education? I will not hear another word about a lack of money in this Chamber ever again from this Government. It is Monopoly madness. You are playing Monopoly madness with taxpayers' money.

Mae deng mil o aelodau Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent—ac rwy'n un ohonynt—o'r farn y bydd cael y ffordd hon yn ysgubo ar draws gwastadeddau Gwent yn rhy niweidiol yn amgylcheddol i allu ei chyfiawnhau. Nid unrhyw hen ddarn o dir yn unig yw hwn; gwyddoch am ei bwysigrwydd. Symudaf at fy nghwestiynau. Os yw'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael ei golli neu ei niweidio'n sylweddol, pa effaith a gaiff colli 100,000 o ymwelwyr o bosibl ar economi Cymru? Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar yr etifeddiaeth rydym yn ei gadael i'n plant, colli bywyd gwylt, cynefinoedd ac archaeoleg, a sut y gallwch gyfiawnhau gwario cymaint o arian? O ble y daw'r arian? Onid yw'n well ei wario ar wasanaethau cymdeithasol, ysbytai ac addysg? Nid wyf am glywed gair arall am ddiffyg arian yn y Siambr hon gan y Llywodraeth hon byth eto. Gêm wallgof o Monopoly yw hyn. Rydych hon chwarae gêm wallgof o Monopoly gydag arian trethdalwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:03

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am certainly not mad and I am not playing with taxpayers' money. At the end of the day, I have made a considered decision on the evidence before me about the use of the money that has come from the UK Government in terms of borrowing powers and the need to strategically develop the road network within south-east Wales, which will also be of benefit to south-west Wales in terms of the transport across. It is very important to realise that, where environmental issues are concerned, the three routes that have been discussed would all cost the SSSIs on the east side of the river Usk. So, there are issues with all particular routes. We will do everything that we can to mitigate in terms of environmental issues. At the end of the day, I acknowledge that several groups and individuals have responded to the consultation raising their concerns, but overall I feel that this is the correct decision to take.

Yn bendant, nid wyf yn wallgof ac nid wyf yn chwarae gydag arian y trethdalwyr. Ar ddiwedd y dydd, rwyf wedi gwneud penderfyniad ystyriol ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i mi am y defnydd o'r arian a ddaeth gan Lywodraeth y DU drwy bwerau benthyca a'r angen i ddatblygu'n strategol y rhwydwaith ffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru, a fydd hefyd o fudd i dde-orllewin Cymru o ran trafnidiaeth. O ran materion amgylcheddol, mae'n bwysig iawn sylweddoli y byddai'r tri llwybr a drafodwyd yn effeithio ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar ochr ddwyreiniol yr afon Wysg. Felly, mae materion yn codi ynghylch yr holl lwybrau penodol. Byddwn yn gwneud popeth a allwn i liniaru problemau amgylcheddol. Ar ddiwedd y dydd, rwy'n cydnabod bod nifer o grwpiau ac unigolion wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon, ond yn gyffredinol rwy'n teimlo mai dyma'r penderfyniad cywir i'w wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:03

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I echo the concerns raised by the other members of the Environment and Sustainability Committee. Given how many years the discussion of the M4 has been going on for, I hardly think it would have made a big difference if you had delayed your announcement until September, when you would have had the benefit of the opportunity to consider a report that called for detailed evidence, as Julie Morgan has said. There are serious unanswered questions about whether the process for selecting and deselecting the options, and in particular the deselection of the blue route, complied with the strategic environmental assessment directive. I suspect, Minister, like fellow lawyer Mick Antoniw, that you are going to be mired in legal proceedings as a result of your decision today. How much have you set aside for your legal challenges? I believe that Friends of the Earth has already issued proceedings. Have you had legal advice about the process, in particular on deselecting the blue route? Do you really feel that it is a price worth paying? I have to say that my constituents in north Wales will not agree with you. The environmental damage that is being wreaked by the Welsh Labour Government on the economy of south-east Wales, both in Blaenau Gwent, potentially, and in the Gwent levels, indicates that environmental concerns are paid no more than lip service by your Government.

Weinidog, rwy'n ategu'r pryderon a godwyd gan aelodau eraill y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. O ystyried faint o flynyddoedd a aeth heibio ers inni ddechrau trafod yr M4, prin y tybiaf y byddai wedi gwneud gwahaniaeth mawr pe baech wedi gohirio eich cyhoeddiad tan fis Medi, pan fydddech wedi elwa o'r cyfle i ystyried adroddiad a alwai am dystiolaeth fanwl, fel y dywedodd Julie Morgan. Mae yna gwestiynau difrifol iawn heb eu hateb ynglŷn ag a oedd y broses ar gyfer dethol a dad-ddethol y dewisiadau, ac yn arbennig dad-ddethol y llwybr glas, yn cydymffurfio â'r gyfarwydddeb asesu amgylcheddol strategol. Weinidog, fel eich cyd-gyfreithiwr Mick Antoniw, rwy'n tybio eich bod yn mynd i gael eich llethu gan achosion cyfreithiol o ganlyniad i'ch penderfyniad heddiw. Faint o arian a neilltuwyd gennych ar gyfer costau cyfreithiol? Rwy'n credu bod Cyfeillion y Ddaear eisoes wedi cychwyn achos. A ydych wedi cael cyngor cyfreithiol am y broses, yn enwedig ynglŷn â dad-ddethol y llwybr glas? A ydych chi wir yn teimlo ei fod yn bris gwerth ei dalu? Mae'n rhaid imi ddweud na fydd fy etholwyr yng ngogledd Cymru yn cytuno â chi. Mae'r niwed amgylcheddol sy'n cael ei achosi gan Lywodraeth Lafur Cymru i economi de-ddwyrain Cymru, ym Mlaenau Gwent o bosibl, ac ar wastadeddau Gwent, yn dangos mai sylw arwynebol iawn yn unig y mae eich Llywodraeth yn ei roi i bryderon amgylcheddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:05

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it is certainly not lip service from our Government. We do understand the environmental concerns. I am not aware of any challenge to anything at this stage. I was very conscious when I went through this process that I would probably be challenged in the courts on this particular issue, but there is not a single large infrastructure project in the whole of the UK that there is not some challenge to in terms of environmental considerations and other particular issues. I understand what you have said to me about the committee's report and everything, but I did think that it was important that I was at the stage now, having finished the consultation, where I made a decision and relayed it to Members in the Chamber today. With regard to what is happening across the piece, you alluded to Blaenau Gwent. We are moving ahead, obviously, in terms of Blaenau Gwent with what we are doing in the enterprise zone. It is also important to look at all the transport links within that area.

Wel, yn sicr nid yw'n sylw arwynebol gan ein Llywodraeth. Rydym yn deall y pryderon amgylcheddol. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw her i ddim ar hyn o bryd. Roeddwn yn ymwybodol iawn wrth fynd drwy'r broses hon y byddwn yn cael fy herio yn y llysoedd ar y mater penodol hwn yn ôl pob tebyg, ond nid oes un prosiect seilwaith mawr yn y DU gyfan nad yw wedi wynebu rhywfaint o her o ran ystyriaethau amgylcheddol a materion penodol eraill. Rwy'n deall yr hyn rydych wedi'i ddweud am adroddiad y pwyllgor a phopeth, ond roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig, ar ôl gorffen yr ymgynghoriad, fy mod bellach ar y cam lle y gallwn wneud y penderfyniad a'i gyfleu i'r Aelodau yn y Siambr heddiw. O ran yr hyn sy'n digwydd yn gyffredinol, rydych yn cyfeirio at Flaenau Gwent. Yn amlwg, rydym yn symud ymlaen o ran Blaenau Gwent â'r hyn rydym yn ei wneud yn yr ardal fenter. Mae'n bwysig edrych hefyd ar yr holl gysylltiadau trafniadaeth yn yr ardal honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:06

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Argaeledd Gwasanaethau Bariatrig

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees, i wneud y cynnig.

Cynnig NDM5557 David Rees

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The Health and Social Care Committee's Report on the Availability of Bariatric Services

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees, to move the motion.

Motion NDM5557 David Rees

To propose that the National Assembly for Wales:

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar argaeledd gwasanaethau bariatrig, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2014.

Notes the report by the Health and Social Care Committee on the availability of bariatric services, which was laid in the Table Office on 21 May 2014.

17:06

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiad y cynnig.

Mae'n bleser gen i agor y ddadl hon ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar argaeledd gwasanaethau bariatrig yng Nghymru. Mae hwn yn fater amserol inni fod yn ei drafod—gwelsom sylw eang yn y wasg yr wythnos ddiwethaf i ymgynghoriad NICE ar ei ganllawiau gordewdra.

Cyn troi at hynny, ac at ein hadroddiad, mewn mwy o fanylder, hoffwn ddiolch i'r rheini a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth i ni. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r cleifion, y clinigwyr a'r gweithwyr iechyd proffesiynol hynny a oedd yn bresennol yn ein digwyddiad grŵp ffocws ym mis Mawrth eleni, ac i staff a chleifion Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru yn Ysbyty Treforys, a'n croesawodd i unig ganolfan NHS Cymru ar gyfer llawfeddygaeth bariatrig. Roedd yn amhrisiadwy inni glywed gan y rheini sydd â phrofiad ymarferol o wasanaethau colli pwysau yng Nghymru. Fel y gwnaethom ganfod yn ystod yr ymchwiliad, nid yw siarad am ordewdra, ei achos a'r triniaethau ar ei gyfer, bob amser yn hawdd iawn. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r rheini a siaradodd mor agored gyda ni am eu profiadau. Hefyd hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor ac i'r Gweinidog am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at ein hymchwiliad.

Preventing and managing being overweight and obesity are complex problems with no easy answers. Nevertheless, as a nation, we cannot afford to allow this complexity to prevent us from tackling one of the major public health challenges of our time. We know that, in Wales, we have one of the highest rates of adult obesity in the western world. More worryingly, this does not look set to change as our childhood obesity rates are also some of the highest in the UK. Even today, we have seen obesity in children in Northern Ireland being raised as a concern. It is not going away.

In undertaking our inquiry, we acknowledged from the beginning that prevention is better than cure. We know that obesity increases the risk of developing heart disease and that it can contribute to chronic conditions such as diabetes, some cancers, high blood pressure, sleep apnoea, muscular-skeletal conditions and depression. Obese people are also estimated to die around a decade earlier than those considered to be of a healthy weight, mirroring the loss of life expectancy suffered by smokers.

I move the motion.

I am pleased to open this debate on the Health and Social Care Committee's report on the availability of bariatric services in Wales. This is a timely issue for us to be discussing—only last week we saw widespread press coverage of NICE's consultation on its obesity guidance.

Before turning to that, and our report, in more detail, I would like to thank those who gave their time to provide evidence to us. We are particularly grateful to those patients, clinicians and health professionals who attended our focus group event in March this year, and to the staff and patients at the Welsh Institute of Metabolic and Obesity Surgery at Morriston Hospital, who welcomed us to Wales's only NHS centre for bariatric surgery. It was invaluable for us to hear from those who have first-hand experience of weight-loss services in Wales. As we found out during the course of our inquiry, speaking about obesity, its causes and its treatments, is not always very easy. As such, we are particularly grateful to those who spoke so openly with us about their experiences. I would also like to extend my thanks to my fellow committee members and the Minister for their constructive and collaborative approach to our inquiry.

Mae atal a rheoli bod dros bwysau a gordewdra yn broblemau cymhleth heb unrhyw atebion hawdd. Serch hynny, fel cenedl, ni allwn fforddio caniatáu'r cymhlethdod hwn i'n rhwystro rhag mynd i'r afael ag un o'r prif heriau i iechyd cyhoeddus yr oes hon. Gwyddom mai Cymru sydd ag un o'r cyfraddau uchaf yn y byd gorllewinol o ordewdra ymhlith oedolion. Yr hyn sy'n fwy pryderus yw nad yw'n debyg o newid gan fod cyfraddau gordewdra ymhlith plant yng Nghymru hefyd ymysg yr uchaf yn y DU. Heddiw ddiwethaf, tynnwyd sylw at y pryderon ynghylch gordewdra ymhlith plant yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw'n broblem sy'n mynd i ddiffannu.

Wrth gynnal ein hymchwiliad, rydym wedi cydnabod o'r cychwyn bod atal yn well na gwella. Rydym yn gwybod bod gordewdra yn cynyddu'r risg o ddatblygu clefyd y galon ac yn gallu cyfrannu at gyflyrau cronig fel diabetes, rhai mathau o ganser, pwysedd gwaed uchel, apnoea cwsg, cyflyrau cyhyrysgerbydol ac iselder. Amcangyfrifir bod pobl sy'n ordew hefyd yn marw oddeutu degawd yn gynharach na'r rhai hynny sydd â phwysau iach, gan adlewyrchu'r gostyngiad mewn disgwyliad oes a ddioddefir gan ysmygwyr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am sure that we all agree that avoiding obesity in the first instance is paramount. Nevertheless, although we recognise the importance of population-level interventions—they are often referred to as levels 1 and 2 of the obesity pathway—the purpose of this inquiry was to examine specifically the provision of services to those to whom preventative services are no longer applicable, that is, those we would see at levels 3 and 4 of the pathway. Our overarching conclusion is that more specialist obesity support services across Wales are needed. In our view, this is where the biggest gap exists in our provision of weight-loss services in Wales.

We were disappointed to discover that only one out of seven health boards in Wales is providing a fully comprehensive specialist weight management service—or level 3 service. Although the all-Wales obesity pathway was welcomed as a clear outline of the services that ought to be delivered—and it was welcomed by everyone we spoke to—its implementation remains fragmented and further work is needed to ensure that quicker progress is made. Furthermore, it was emphasised that this progress needs to be made consistently across all regions of Wales.

We were pleased to learn from the Minister that Public Health Wales is currently preparing a nationally agreed service specification for level 3 services. We understand that this is due for publication imminently. We look forward to seeing that when it is published. We were also reassured by the Minister's indication that a much more robust assessment of progress against the pathway has been undertaken this year, with all LHBs expected to provide a plan outlining how they intend to address the gaps in service provision that we have identified. We look forward to seeing these plans published shortly.

Nevertheless, it is a source of concern and disappointment to us that patients face severe difficulties gaining access to level 3 services and the consequent support of multi-disciplinary teams—it is important to stress 'multi-disciplinary' teams. It is clear to us that these services, if provided, could lead not only to weight loss, but also to improvements in relation to other associated conditions and quality of life. Again, last week, in the report we talked about diabetes type 2 being one of the major issues. These teams also have an important role to play in identifying which patients would benefit most from the more drastic step of bariatric surgery and ensuring that these candidates understand the long-term implications of such procedures.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno bod osgoi gordewdra yn y lle cyntaf yn hollbwysig. Serch hynny, er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd ymyriadau ar lefel y boblogaeth—cyfeirir atynt yn aml fel lefelau 1 a 2 y llwybr gordewdra—diben yr ymchwiliad hwn oedd edrych yn benodol ar y gwasanaethau a ddarperir i'r rhai hynny nad yw gwasanaethau ataliol yn berthnasol iddynt mwyach, hynny yw, pobl y byddem yn eu gweld ar lefelau 3 a 4 o'r llwybr. Ein casgliad cyffredinol yw bod angen mwy o wasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer gordewdra ledled Cymru. Yn barn ni, dyma lle y gwelir y bwlch mwyaf yn y gwasanaethau colli pwysau a ddarparwn yng Nghymru.

Roeddem yn siomedig i ddarganfod mai dim ond un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth arbenigol cynhwysfawr ar gyfer rheoli pwysau—neu wasanaeth lefel 3. Er i'r llwybr gordewdra ar gyfer Cymru gyfan gael ei groesawu fel amlinelliad clir o'r gwasanaethau y dyldid eu darparu—a chât ei groesawu gan bawb y buom yn siarad â hwy—mae ei weithrediad yn parhau i fod yn dameidiog ac mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau cynnydd cyflymach. Yn ogystal, pwysleiswyd bod angen sicrhau'r cynnydd hwn yn gyson ym mhob ardal o Gymru.

Roeddem yn falch o glywed gan y Gweinidog fod lechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yn paratoi manyleb gwasanaeth wedi'i chytuno yn genedlaethol ar gyfer gwasanaethau lefel 3. Rydym yn deall ei fod i'w gyhoeddi'n fuan. Edrychwn ymlaen at ei weld pan gaiff ei gyhoeddi. Cawsom sicrwydd hefyd gan y Gweinidog fod asesiad llawer mwy trylwyr o gynnydd yn erbyn y llwybr wedi'i gynnal eleni, a bod disgwyl i bob BILL ddarparu cynllun yn amlinellu sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd gennym yn y ddarpariaeth. Edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

Serch hynny, testun pryder a siom i ni yw bod cleifion yn wynebu anawsterau difrifol i gael mynediad at wasanaethau lefel 3 a chefnogaeth timau amlddisgyblaethol o ganlyniad i hynny—mae'n bwysig nodi timau 'amlddisgyblaethol'. Mae'n amlwg i ni y gallai'r gwasanaethau hyn, o'u darparu, arwain nid yn unig at gollu pwysau, ond hefyd at welliannau mewn perthynas â chyflyrau eraill cysylltiedig ac ansawdd bywyd. Unwaith eto, yr wythnos diwethaf, soniasom yn yr adroddiad mai diabetes math 2 yw un o'r prif faterion. Mae gan y timau hyn rôl bwysig i'w chwarae o ran nodi pa gleifion a fyddai'n elwa fwyaf o'r cam mwy difrifol o lawdriniaeth bariatrig a sicrhau bod y bobl sy'n ei cheisio yn deall goblygiadau hirdymor triniaethau o'r fath.

The important interaction between level 3 and level 4 services was a clear theme in our inquiry. This is particularly true if we are to ensure that surgery remains the last resort, which is a very important consideration—we consider it to be the last resort of any process and it should be used only in the minority of cases where lifestyle interventions have been unsuccessful. The ability to be referred between levels is a key component of the pathway, but it was clear from the evidence that we received that level 3 services not being fully available meant that moving up and down was very difficult for many patients. So, our third recommendation called on the Government to measure the consistency and effectiveness of the referral pathway to allow these patients to move up and down the relevant tiers of support. We welcome the Minister's acceptance of this recommendation.

We also talked about the training and skills mix of health professionals, which arose during our inquiry and in other inquiries as well. Some suggested that health practitioners required more confidence when raising weight management issues with patients; others felt that the ignorance and prejudice displayed by some health professionals towards obesity need to be addressed. The importance of ensuring the correct skills mix among the health workforce was also emphasised, particularly the need for specialist training in the fields of dietetics, psychology and lifestyle interventions—you can see the multi-disciplinary teams.

Our report therefore recommended that the Welsh Government work with the Wales Deanery and relevant colleges to consider training for health professionals, across all disciplines, on obesity, its causes, its treatment and its consequences. We specified that this training should include motivational interviewing and behaviour-change management. We are pleased to learn that the royal colleges are already considering how this can be incorporated into revised curricula and we welcome the Welsh Government's commitment to working with the Wales Deanery to ensure that this is delivered.

Turning to bariatric surgery, which is something that people often focus on when we talk about obesity and addressing it. We made four additional recommendations. We recommended that the Government undertakes a comprehensive cost-benefit analysis of bariatric surgery procedures, to include consideration of societal cost-benefits, which is an additional feature here, to identify the extent to which they provide value for money, and perhaps, also, whether the Minister wishes to continue to explore the concept of invest-to-save bids, which he did raise with the committee. In the current economic climate, value for money and effective outcomes must be at the heart of any service development. We welcome the Government's acceptance of our recommendation and look forward to reviewing the outcome of its analysis in due course.

We are also pleased to note that the NICE compliant criteria have been used from April 2014 onwards, but we remain concerned that the current lack of level 3 services could have an adverse effect on the implementation of those criteria.

Roedd y rhyngweithio pwysig rhwng gwasanaeth lefel 3 a gwasanaeth lefel 4 yn thema amlwg yn ein hymchwiliad. Mae hyn yn arbennig o wir os ydym am sicrhau bod llawdriniaeth yn parhau i fod yn ddewis olaf, sy'n ystyriaeth bwysig iawn—rydym yn ystyried mai dyma'r dewis olaf mewn unrhyw broses ac mewn lleiafrif o achosion yn unig y dylid ei defnyddio lle y mae ymyriadau ffordd o fyw wedi bod yn aflwyddiannus. Mae'r gallu i atgyfeirio rhwng lefelau yn elfen allweddol o'r llwybr, ond roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod y ffaith nad oedd gwasanaethau lefel 3 ar gael yn llawn yn golygu bod symud i fyny ac i lawr yn anodd iawn i lawer o gleifion. Felly, galwai ein trydydd argymhelliad ar y Llywodraeth i fesur cyswnt ac effeithiolrwydd y llwybr atgyfeirio er mwyn caniatáu i'r cleifion hyn symud i fyny ac i lawr yr haenau cymorth perthnasol. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Siaradasom hefyd am gymysgedd hyfforddiant a sgiliau gweithwyr iechyd proffesiynol, a gododd yn ystod ein hymchwiliad ac mewn ymchwiliadau eraill yn ogystal. Awgrymodd rhai fod angen mwy o hyder ar ymarferwyr iechyd wrth gyfeirio at faterion yn ymwneud â rheoli pwysau gyda chleifion; teimlai eraill fod angen mynd i'r afael â'r anwybodaeth a'r rhagfarn sydd gan rai gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â gordewdra. Cafodd pwysigrwydd sicrhau'r cymysgedd sgiliau cywir ymhlith y gweithlu iechyd ei ategu hefyd, yn enwedig yr angen am hyfforddiant arbenigol ym meysydd deieteg, seicoleg ac ymyriadau ffordd o fyw—gallwch weld y timau amlddisgyblaethol.

Felly, roedd ein hadroddiad yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Deoniaeth Cymru a cholegau perthnasol i ystyried hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol ar draws pob disgyblaeth ar ordewdra, ei achosion, sut i'w drin a'i ganlyniadau. Nodwyd gennym y dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys cyfweld ysgogiadol a rheoli newid ymddygiad. Rydym yn falch o glywed bod y colegau brenhinol eisoes yn ystyried sut y gellir ymgorffori hyn mewn cwricwla diwygiedig ac rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda Deoniaeth Cymru er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Gan droi at lawdriniaeth bariatrig, sy'n rhywbeth y mae pobl yn aml yn canolbwyntio arno pan soniwn am fynd i'r afael â gordewdra. Gwnaethom bedwar argymhelliad ychwanegol. Argymellasom y dylai'r Llywodraeth gynnal dadansoddiad cost a budd cynhwysfawr o weithdrefnau llawdriniaeth bariatrig, i gynnwys ystyriaeth o gostau a manteision cymdeithasol, sy'n nodwedd ychwanegol yma, er mwyn nodi i ba raddau y maent yn darparu gwerth am arian, a hefyd efallai, pa un a yw'r Gweinidog yn dymuno parhau i archwilio'r cysyniad o gynigion buddsoddi i arbed, mater a gyflwynodd i'r pwyllgor. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'n rhaid i werth am arian a chanlyniadau effeithiol fod yn ganolog i unrhyw ddatblygiadau i'r gwasanaeth. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi derbyn ein hargymhelliad ac edrychwn ymlaen at adolygu canlyniad ei ddadansoddiad maes o law.

Rydym hefyd yn falch o nodi bod y meini prawf sy'n cydymffurfio â NICE wedi'u defnyddio ers mis Ebrill 2014, ond rydym yn bryderus o hyd y gallai diffyg gwasanaeth lefel 3 ar hyn o bryd gael effaith andwyol ar weithredu'r meini prawf hynny.

The issue of excess skin removal arose in our inquiry. We asked the Minister about this and he was clear that where there is a clinical need for removal, treatment could be sought via the NHS. Where the need is cosmetic, excess skin removal cannot be undertaken on the NHS. We agreed with the Minister that further work is needed in this area to ensure that bariatric patients are fully aware of the implications of surgery, including the possibility of excess skin. We did not recommend a change to the policy on the removal of excess skin, because we recognised the evidence that the Minister gave us.

One thing that was highlighted to us, and which we were quite concerned and surprised to learn about, was the extent and impact of complications arising from poor surgery undertaken outside the NHS; it was often said to us that this was done abroad. It was clear from the evidence that we received that this can be attributed to the desperation felt by some individuals who were deemed ineligible for surgery on the NHS. We think that further work needs to be done to quantify this issue and to consider how it could be addressed, but we did acknowledge that the national health service must provide a comprehensive service to all emergency cases, whatever the circumstances in which they arise.

I am conscious of the time. At this point, I will just finish this first section. At the beginning of my contribution this afternoon, I alluded to NICE's announcement last week that it will consult on its guidelines for obesity treatment. I would welcome further information from the Minister on how the Welsh Government will respond to this latest development. This is particularly important given the Minister's very clear message that no additional funding will be provided to bariatric services beyond that already allocated to this area of NHS Wales's activity. Although I am conscious of the financial constraints facing the NHS and other public services in the current economic climate, the concept of investing now to save later seems particularly applicable in the case of obesity services and could that, therefore, be another mechanism by which we can look at that? As a committee, we will continue to urge the Welsh Government to give careful consideration to the potential savings in the longer term that could be accrued by improving weight-loss services in Wales.

17:16

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to be able to take part in this debate and want to put on record my thanks too to the witnesses, other individuals who wrote in with their evidence in relation to this inquiry, and, indeed, to the Chair, fellow members of the committee, and the clerking team for the work that they have done in producing our report. It is a very timely debate. We have already heard that there is an ongoing review by NICE of the guidance, which it may tweak or change in some way, in relation to access to obesity services, and I hope that it will pay attention to what is going on in the Chamber this afternoon and listen very carefully to some of the points that we have made.

Cododd mater tynnu croen dros ben yn ein hymchwiliad. Gofynnwyd i'r Gweinidog am hyn ac roedd yn eglur y gellid gofyn am driniaeth drwy'r GIG lle y mae angen clinigol i gael gwared ar groen dros ben. Os yw'r angen yn gosmetig, ni ellir tynnu croen dros ben drwy'r GIG. Roeddem yn cytuno â'r Gweinidog fod angen gwaith pellach yn y maes i sicrhau bod cleifion bariatrig yn gwbl ymwybodol o oblygiadau llawdriniaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o groen dros ben. Nid ydym wedi argymhell newid y polisi ar gael gwared ar groen dros ben gan ein bod yn cydnabod y dystiolaeth a roddodd y Gweinidog.

Un peth a amlygwyd i ni, ac a barodd gryn bryder a syndod inni, oedd graddau ac effaith y cymhlethdodau sy'n deillio o lawdriniaeth wael a wneir y tu allan i'r GIG; dywedwyd yn aml wrthym fod hyn yn cael ei wneud dramor. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gawsom y gellir priodoli hyn i'r anobaith y bydd rhai unigolion yn ei deimlo os na chânt eu hystyried yn gymwys i gael llawdriniaeth drwy'r GIG. Credwn fod angen gwneud gwaith pellach er mwyn pwyso a mesur y mater ac ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r broblem, ond gwnaethom gydnabod bod yn rhaid i'r gwasanaeth iechyd gwladol ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ym mhob achos argyfwng, beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Rwy'n ymwybodol o'r amser. Ar y pwynt hwn, rwyf am orffen y rhan gyntaf hon. Ar ddechrau fy nghyfraniad y prynhawn yma, cyfeiriais at gyhoeddiad NICE yr wythnos diwethaf y bydd yn ymgynghori ar ei ganllawiau ar gyfer triniaeth gordewdra. Byddwn yn croesawu gwybodaeth bellach gan y Gweinidog ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r datblygiad diweddaraf hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried neges glir iawn y Gweinidog na fydd unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau bariatrig y tu hwnt i'r hyn a ddyrannwyd eisoes i'r maes hwn o waith GIG Cymru. Er fy mod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'r cysyniad o fuddsoddi yn awr er mwyn arbed yn ddiweddarach yn ymddangos yn arbennig o berthnasol yn achos gwasanaethau gordewdra ac felly, a allai hwnnw fod yn fecanwaith arall ar gyfer edrych ar hynny? Fel pwyllgor, byddwn yn parhau i annog Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth ofalus i'r arbedion posibl y gellid eu cronni yn y tymor hwy drwy wella gwasanaethau colli pwysau yng Nghymru.

Rwy'n falch iawn o allu cymryd rhan yn y ddadl hon ac yn awyddus i gofnodi fy niolch hefyd i'r tystion, unigolion eraill a gyfrannodd eu tystiolaeth yn ysgrifenedig mewn perthynas â'r ymchwiliad, ac yn wir, i'r Cadeirydd, cyd-aelodau'r pwyllgor a'r tîm clerico am y gwaith y maent wedi'i wneud i gynhyrchu ein hadroddiad. Mae'n ddadl amserol iawn. Rydym eisoes wedi clywed bod NICE yn adolygu'r canllawiau'n barhaus, a gall eu haddasu neu eu newid mewn rhyw ffordd, mewn perthynas â mynediad at wasanaethau gordewdra. Rwy'n gobeithio y bydd yn rhoi sylw i'r hyn sy'n digwydd yn y Siambr y prynhawn yma ac yn gwrandod'n ofalus iawn ar rai o'r pwyntiau rydym wedi'u gwneud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Obesity is a challenge. It is a challenge in Wales and in many parts of the western world because of our diets and our lifestyles, and it seems to me that we need to make much more of an effort to educate the public, through our public health schemes, about the risks of obesity and about the links with diabetes and other health conditions, and to promote a greater level of patient responsibility in Wales so that people can be aware that what goes into their mouths can have an effect on their health in the longer term. I do not think that we have been strong enough as a nation perhaps, not just in Wales, but elsewhere in the UK, at getting the message out there about the need for patients to be responsible for their own health. So, I would very much like to see much more of a focus on changing people's behaviour through education and on motivating people to lose weight, rather than them having to have a surgical intervention, which is not without its risks and can, of course, cause longer-term health problems for individuals who pursue that particular route.

There was a very interesting recommendation that we made about the need for people to sign up and subscribe to some sort of aftercare programme and follow-up programme if a surgical intervention was going to be required. I think that that is absolutely right, because it re-emphasises the need for patients to be responsible for themselves and that the surgical sorts of interventions and bariatric surgery are not a silver bullet. They may help on a one-off basis initially, but there needs to be adequate follow-up as well from the patients themselves.

There is not a lot of time, but I just want to touch on a couple of other points. First of all, I was very disappointed that the all-Wales obesity pathway has not been fully implemented in Wales. We find time and again, unfortunately, as a health committee, when we visit many of these policy areas, that the documents are all in place, saying the right things, but they are not always delivered on the ground, and I think that there is a job of work to do in holding health boards to account for the fulfilment of their roles on the ground when the Welsh Government issues these sorts of documents in the future.

In addition to that, I noted the situation in north Wales. There obviously has to be a certain prevalence of people requiring a level 3 bariatric service in terms of surgical intervention. We are not at that prevalence in north Wales at the moment, and patients in north Wales seem very happy and content with the existing arrangements whereby people go over to Salford for bariatric surgery. I would encourage the Minister to keep that under watch, as the recommendation states in the report, but nevertheless to reinforce those links with the north-west, really, in terms of perhaps improving access to the lower levels of service as well, because I do know that other hospitals in the north-west may have something that they can contribute to ensuring that the other parts of the obesity pathway are also met.

Mae gordewdra yn her. Mae'n her yng Nghymru ac mewn sawl rhan o'r byd gorllewinol oherwydd ein deiet a'n ffordd o fyw, ac mae'n ymddangos i mi fod angen inni wneud llawer mwy o ymdrech i addysgu'r cyhoedd, drwy ein cynlluniau iechyd y cyhoedd, am risgiau gordewdra ac am y cysylltiadau â diabetes a chyflyrau iechyd eraill, ac i hyrwyddo mwy o gyfrifoldeb ymhlith cleifion Cymru er mwyn i bobl fod yn ymwybodol fod yr hyn sy'n mynd i mewn i'w cegau yn gallu cael effaith ar eu hiechyd yn y tymor hwy. Nid wyf yn credu ein bod wedi cyfleu'r neges yn ddigon cryf fel cenedl efallai, nid yn unig yng Nghymru, ond mewn mannau eraill yn y DU, fod angen i gleifion fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain. Felly, hoffwn yn fawr iawn weld llawer mwy o ffocws ar newid ymddygiad pobl drwy addysg ac ar ysgogi pobl i golli pwysau, yn hytrach na'u bod yn gorfod wynebu ymyrraeth lawfeddygol. Mae risgiau'n gysylltiedig â hynny ac wrth gwrs, gallant achosi problemau iechyd mwy hirdymor i unigolion sy'n dilyn y llwybr penodol hwnnw.

Gwnaethom argymhelliad diddorol iawn am yr angen i bobl gymryd rhan a dilyn rhyw fath o raglen ôl-ofal a rhaglen ddilydol os oedd gofyn cael ymyrraeth lawfeddygol. Rwy'n meddwl fod hynny'n hollol gywir, gan ei fod yn ail-bwysleisio'r angen i gleifion fod yn gyfrifol am eu hunain ac nad yw'r mathau o ymyriadau llawfeddygol a llawdriniaeth bariatrig yn ateb i bob dim. Efallai y gallant helpu ar sail unwaith yn unig ar y cychwyn, ond mae angen i'r cleifion eu hunain roi digon o gamau dilydol ar waith hefyd.

Nid oes llawer o amser, ond rwyf am grybwyll un neu ddau o bwyntiau eraill. Yn gyntaf oll, rwy'n siomedig iawn nad yw llwybr gordewdra Cymru gyfan wedi'i roi ar waith yn llawn yng Nghymru. Yn anffodus, pan fyddwn fel pwyllgor iechyd yn edrych â llawer o'r meysydd polisi hyn, gwelwn dro ar ôl tro fod y dogfennau i gyd yn eu lle ac yn dweud y pethau iawn, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cyflawni ar lawr gwlad, ac rwy'n meddwl bod gwaith i'w wneud ar ddwyn byrddau iechyd i gyfrif am gyflawni eu rolau ar lawr gwlad pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r mathau hyn o ddogfennau yn y dyfodol.

Yn ogystal â hynny, nodais y sefyllfa yng ngogledd Cymru. Mae'n amlwg fod yn rhaid cael nifer benodol o bobl sydd angen gwasanaeth bariatrig lefel 3 o ran ymyrraeth lawfeddygol. Nid ydym wedi cyrraedd y lefel honno o achosion yn y gogledd ar hyn o bryd, ac mae cleifion yn y gogledd yn ymddangos yn hapus ac yn fodlon iawn â'r trefniadau presennol lle y bydd pobl yn mynd draw i Salford i gael llawdriniaeth bariatrig. Byddwn yn annog y Gweinidog i gadw llygad ar hynny, fel y mae'r argymhelliad yn ei nodi yn yr adroddiad, ond eto i atgyfnerthu'r cysylltiadau hynny â'r gogledd-orllewin o ran gwella mynediad at lefelau is o wasanaeth hefyd efallai, oherwydd rwy'n yn gwybod y gallai ysbytai eraill yn y gogledd-orllewin fod â rhywbeth i'w gyfrannu at sicrhau bod rhannau eraill o'r llwybr gordewdra yn cael eu cyflawni hefyd.

There are two responses in your response to the committee's report, Minister, that give a clear indication that you are due to publish information before the summer recess. We have yet to see that, and the summer recess is almost upon us. I just wonder, Minister, whether you can give us an indication that you will be able to fulfil your commitment to the committee in the response that you gave us and publish those pieces of information before the summer recess. It was in relation to two recommendations, if I could just remind you: recommendation 3, in terms of the publication of a monitoring and evaluation framework, and recommendation 5, which was in respect of an assessment of the cost-value benefits, if you like, of investment in bariatric surgery.

Mae dau ymateb yn eich ymateb i adroddiad y pwyllgor, Weinidog, sy'n rhoi arwydd clir eich bod yn mynd i gyhoeddi gwybodaeth cyn toriad yr haf. Rydym eto i weld hynny, ac mae toriad yr haf bron ar ein gwarthaf. Weinidog, tybed a allwch roi arwydd y gallwch gyflawni eich ymrwymiad i'r pwyllgor yn yr ymateb a roesoch i ni a chyhoeddi'r wybodaeth honno cyn toriad yr haf. Roedd yn ymwneud â dau argymhelliad, os caf eich atgoffa: argymhelliad 3, o ran cyhoeddi fframwaith monitro a gwerthuso, ac argymhelliad 5, o ran asesu manteision cost a gwerth, os hoffwch, buddsoddi mewn llawdriniaeth bariatrig.

17:21

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The problem of obesity in Wales is now reaching crisis proportions, as we have heard. As one surgeon said at the committee meeting, obesity is a chronic illness, and it is clear that we are now at epidemic proportions here in Wales.

During the inquiry, we heard not only some very moving statements from witnesses on how surgery had saved their lives, but how this surgery can actually save money for the health service in the long term. The report focuses on many issues on the levels, but the Chair of the committee, who guided us through the inquiry, has talked about those levels, so I will not touch on those. While I agree with statements by the current Minister for health—and his predecessor, to be fair—that people have a personal responsibility to avoid adopting harmful lifestyles, it is not always easy in the modern world, and we need to make sure that we spread the word about the dangers to health of becoming seriously overweight.

I believe that the Welsh Government needs to mount a vigorous and sustained publicity campaign so that every GP surgery, public building and school has information available for members of the public, and particularly parents, about the drastic effects of becoming obese. The fact that seriously obese people are likely to die 10 years earlier than those with a healthy weight really needs to be shouted from the rooftops. The chairman, again, has highlighted that.

Another important message that we need to get across is that, while we fully understand why some people go abroad to undergo surgery, the possible scenario is that they are likely to suffer complications that then have to be treated on the NHS. So, going abroad is not working for far too many people and can indeed cost your life. We also have the ludicrous situation of our surgeons now operating to correct poor procedures done abroad. Again, that is another total waste of money.

Mae problem gordewdra yng Nghymru yn awr yn cyrraedd cyfraddau argyfwng, fel rydym wedi clywed. Fel y dywedodd un llawfeddyg yng nghyfarfod y pwyllgor, mae gordewdra yn salwch cronig, ac mae'n amlwg ein bod yn awr wedi cyrraedd cyfraddau epidemig yma yng Nghymru.

Yn ystod yr ymchwiliad, clywsom rai datganiadau teimladwy iawn gan dystion ynghylch y modd y mae llawdriniaeth wedi achub eu bywydau, a hefyd sut y gall y llawdriniaeth hon arbed arian i'r gwasanaeth iechyd yn y tymor hir. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar nifer o faterion yn ymwneud â'r lefelau, ond mae Cadeirydd y pwyllgor, a'n tywysodd drwy'r ymchwiliad, wedi siarad am y lefelau hynny, felly ni soniaf am y rheini. Er fy mod yn cytuno â datganiadau gan y Gweinidog iechyd presennol— a'i ragflaenydd, i fod yn deg—fod gan bobl gyfrifoldeb personol i osgoi mabwysiadu ffyrdd o fyw sy'n niweidiol, nid yw bob amser yn hawdd yn y byd modern ac mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn lledaenu'r gair ynghylch y peryglon i iechyd o fod dros bwysau yn ddifrifol.

Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd egniol a pharhaus fel bod gan bob meddygfa, adeilad cyhoeddus ac ysgol wybodaeth sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd, ac yn enwedig rhieni, am yr effeithiau difrifol sy'n deillio o fod yn ordeu. Mae angen gweiddi o bennau'r tai fod pobl sydd dros bwysau yn ddifrifol yn debygol o farw 10 mlynedd yn gynharach na phobl sy'n cynnal pwysau iach. Unwaith eto, mae'r Cadeirydd wedi tynnu sylw at hynny.

Neges bwysig arall y mae angen inni ei chyfleu yw hon: er ein bod yn deall pam y mae rhai pobl yn mynd dramor i gael llawdriniaeth, y senario bosibl yw eu bod yn debygol o ddirodded cymhlethdodau y bydd angen i'r GIG eu trin wedyn. Felly, nid yw mynd dramor yn gweithio i lawer gormod o bobl a gallai olygu colli eich bywyd yn wir. Rydym hefyd wedi gweld sefyllfa ynyfod lle y mae ein llawfeddygon bellach yn gwneud triniaethau i gywiro llawdriniaethau gwael a wnaed dramor. Unwaith eto, mae hynny'n enghraifft arall o wastraff arian llwyr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

One of the after-effects of bariatric surgery—and I have spoken at length on this in the committee, and I do not agree with the committee's decision on this—is the problem of excess skin. This condition is not cosmetic. I would appeal to the Minister to look at that. It is not cosmetic. It leaves patients suffering psychologically as well as physical problems. I would personally support any proposal, put forward in a number of submissions to the committee, that the removal of excess skin should be included as part of the level 4 bariatric surgery service. Not to do so, quite frankly, is crazy.

On this side of the Chamber we also fully support the need to re-examine the eligibility criteria so that they conform to those issued by NICE. We were told in committee that patients in Wales are being forced to wait until they develop life-threatening illnesses, such as diabetes or stroke, before they meet the present qualifying criteria. That cannot be acceptable and I am pleased that there are, in fact, moves towards making the criteria in Wales less restricting.

Finally, let us not leave out of our debate the problem of childhood obesity, and the disturbing fact that there is no dedicated level 3 service for children here in Wales. We would not advocate bariatric surgery for those aged under 18 as a matter of course, although, again, we heard evidence that there are exceptions, and we have to trust the surgeons in this. I return to my earlier point about the urgent need to bombard parents—bombard them—with the responsibility that they have to protect their children from what amounts to neglect.

I have suggested in this Chamber in the past that we consider prosecuting people for overfeeding their children. It is a very controversial statement; I would almost like to leave you with that. I do not want to prosecute any parent, really. However, at the end of the day, they have the responsibility. There are many people who think that we live in a nanny state. I am not really here to tell adults what they should eat, because adults should have the common sense and knowledge to understand their own health conditions, but children do not, and I care particularly about the health and welfare of the children of Wales.

Un o ôl-efeithiau llawdriniaeth bariatrig—ac rwyf wedi siarad llawer am hyn yn y pwyllgor, ac nid wyf yn cytuno â phenderfyniad y pwyllgor ar hyn—yw problem croen dros ben. Nid yw'r cyflwr yn gosmetig. Byddwn yn apelio at y Gweinidog i edrych ar hynny. Nid yw'n gosmetig. Mae'n peri i gleifion ddioddef o broblemau seicolegol yn ogystal â phroblemau corfforol. Yn bersonol, byddwn yn cefnogi unrhyw gynig a roddwyd gerbron mewn nifer o gyflwyniadau i'r pwyllgor, y dylid cynnwys cael gwared ar groen dros ben yn rhan o wasanaeth llawdriniaeth bariatrig lefel 4. A dweud y gwir, byddai peidio â gwneud hynny yn wallgof.

Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym hefyd yn cefnogi'n llawn yr angen i ailedrych ar y meini prawf cymhwyster fel eu bod yn cydymffurfio â'r rhai a gyhoeddwyd gan NICE. Dywedwyd wrthym yn y pwyllgor bod cleifion yng Nghymru yn cael eu gorfodi i aros hyd nes eu bod yn datblygu salwch sy'n bygwth eu bywydau, megis diabetes neu strôc, cyn eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso presennol. Ni all hynny fod yn dderbyniol ac rwy'n falch fod camau ar y gweill, mewn gwirionedd, tuag at wneud y meini prawf yng Nghymru yn llai cyfyng.

Yn olaf, gadewch inni beidio ag anghofio problem gordewdra ymhlith plant, a'r ffaith annymunol nad oes unrhyw wasanaeth pwrpasol lefel 3 ar gyfer plant yma yng Nghymru. Ni fyddem yn argymhell llawdriniaeth bariatrig ar gyfer rhai o dan 18 oed fel mater o drefn, er inni glywed tystiolaeth unwaith eto fod eithriadau i hyn ac mae'n rhaid i ni ymddiried yn y llawfeddygon yn hyn o beth. Dychwelaf at fy mhwynt cynharach am yr angen brys i beledu rhieni—eu peledu—â'r cyfrifoldeb sydd ganddynt i amddiffyn eu plant rhag yr hyn sy'n gyfystyr ag esgeulustod.

Rwyf wedi awgrymu yn y Siambr hon yn y gorffennol ein bod yn ystyried erlyn pobl am orfwydo eu plant. Mae'n ddatganiad dadleuol iawn; bron na hoffwn eich gadael â hynny. Nid wyf am erlyn unrhyw riant mewn gwirionedd. Fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, mae ganddynt gyfrifoldeb. Mae llawer o bobl yn credu ein bod yn byw mewn gwladwriaeth faldodus. Nid wyf yma i ddweud wrth oedolion beth y dylent ei fwyta, oherwydd dylai oedolion fod â digon o synnwyr cyffredin a gwybodaeth i ddeall cyflwr eu hiechyd eu hunain, ond nid yw hynny'n wir am blant ac rwy'n poeni'n arbennig am iechyd a lles plant Cymru.

This is a very measured but depressing report. It is depressing because it captures the extent of the problem that we have. It comes only a week after we had a report from the National Trust that says that most children spend less than half an hour a day playing outside. Are we therefore surprised that they are overweight? Unfortunately, they are not just overweight; many of them are obese—34% of those aged under 16 are obese or overweight in Wales. That is not just the highest rate in the UK; I think that I am also right in saying that it is the highest rate in Europe. In that context, it is rather shocking to read that the Royal College of Physicians and the Royal College of Surgeons in their written evidence for this inquiry referred to a lack of interest in obesity among the wider health profession, particularly in primary care. So, I hope that the Government can work with health boards to change that absolutely unacceptable attitude and can make sure that every contact counts in addressing this major public health issue. If health professionals do not take it seriously, why should anybody else?

We have to look at ourselves in the mirror and note that, over the years, there have been many, many initiatives to try to address this problem: the free swimming programme, the 'Climbing Higher' programme, the food and fitness programme, the 5x60 programme, the 'Appetite for Life' programme, the 'Creating an Active Wales' programme, MEND, 'Our Healthy Future', and Change4Life. However, the number of overweight and obese children continues to rise. Of course, we are up against the wholesale adulteration of processed food with sugar, salt and cheap fat—all on the altar of maximising profits. I note the Royal College of Physicians' focus on the need for legislation to curb the advertising and availability of unhealthy foods, especially through vending machines, as well as better provision of healthy foods by public bodies such as schools and the NHS. That is in addition to more investment in health change programmes in and outside schools. The latter without the former will struggle to succeed.

If we look at the cost of obesity in Wales, I am told that it is £73 million a year. However, if we include overweight people, it is £86 million. The whole of the prevention budget is, I understand, 4% of the health budget, which is £214 million a year. However, obviously, there are many other aspects of prevention that have to be tackled, including smoking. I understand that the Minister is resistant to separating the budget for prevention from that for treatment. However, I fear that prevention therefore gets to be the cinderella service. We particularly have to deal with the psychology of food consumption, which, I think, is only dealt with once you get to level 3 specialist services, which, according to the inquiry, are non-existent, except in the Aneurin Bevan LHB area. I would suggest that far more people than are seen by level 3 services have a complex emotional relationship with food.

Mae hwn yn adroddiad doeth ond digalon iawn. Mae'n ddigalon oherwydd ei fod yn cyfleu maint y broblem sy'n ein hwynebu. Caiff ei gyflwyno wythnos yn unig ar ôl inni gael adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n dweud bod y rhan fwyaf o blant yn treulio llai na hanner awr y dydd yn chwarae yn yr awyr agored. A ydym yn synnu, felly, eu bod dros bwysau? Yn anffodus, mae llawer ohonynt yn ordew yn hytrach na thros bwysau yn unig—mae 34% o'r rhai dan 16 oed yn ordew neu dros bwysau yng Nghymru. Hon yw'r gyfradd uchaf yn y DU, ond hefyd, rwy'n meddwl fy mod yn iawn i ddweud mai dyma'r gyfradd uchaf yn Ewrop. Yn y cyd-destun hwn, mae'n frawychus darllen bod Coleg Brenhinol y Ffisigwyr a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn wedi cyfeirio at ddiffyg diddordeb mewn gordewdra ymysg y proffesiwn iechyd ehangach, yn enwedig mewn gofal sylfaenol. Felly, rwy'n gobeithio y gall y Llywodraeth weithio gyda byrddau iechyd i newid yr agwedd gwbl annerbyniol hon ac y gall wneud yn siŵr fod pob cyswllt yn cyfrif yn y broses o fynd i'r afael â'r mater iechyd cyhoeddus pwysig hwn. Os nad yw gweithwyr iechyd proffesiynol o ddifrif yn ei gylch, pam y dylai unrhyw un arall fod?

Mae'n rhaid inni edrych arnom ein hunain yn y drych a nodi dros y blynyddoedd fod llawer iawn o fentrau wedi'u rhoi ar waith i geisio mynd i'r afael â'r broblem hon: rhaglen nofio am ddim, rhaglen 'Dringo'n Uwch', rhaglen bwyd a ffitrwydd, rhaglen 5x60, rhaglen 'Blas am Oes', a rhaglen 'Creu Cymru Egniol', MEND, 'Ein Dyfodol Iach', a 'Newid am Oes'. Fodd bynnag, mae nifer y plant sydd dros bwysau neu'n ordew yn parhau i godi. Wrth gwrs, rydym yn wynebu'r broblem fod bwyd wedi'i brosesu yn cael ei ddiffwyno ar raddfa eang â siwgr, halen a braster rhad—er mwyn gwneud cymaint o elw â phosibl. Nodaf ffofus Coleg Brenhinol y Ffisigwyr ar yr angen am ddeddfwriaeth i atal hysbysebu ac argaeledd bwydydd afiach, yn enwedig drwy beiriannau gwerthu, yn ogystal â'r angen i gyrrff cyhoeddus fel ysgolion a'r GIG gynnig darpariaeth well o fwydydd iach. Mae hynny'n ychwanegol at yr angen i fuddsoddi rhagor mewn rhaglenni newid iechyd mewn ysgolion a thu allan iddynt. Bydd hi'n anodd sicrhau llwyddiant buddsoddiadau o'r fath heb fynd i'r afael â'r problemau y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol hefyd.

Os edrychwn ar gost gordewdra yng Nghymru, dywedir wrthyf ei fod yn £73 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, os ydym yn cynnwys pobl dros bwysau, mae'n £86 miliwn. Rwy'n deall bod cyfanswm y gyllideb atal yn 4% o'r gyllideb iechyd, sy'n £214 miliwn y flwyddyn. Er hynny, mae'n amlwg fod nifer o agweddau eraill ar atal sy'n rhaid mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys ysmegu. Deallaf fod y Gweinidog yn gwrthwynebu gwahanu'r gyllideb ar gyfer atal oddi wrth y gyllideb ar gyfer trin. Ond rwy'n ofni felly mai atal yw'r gwasanaeth sinderela. Rhaid inni ymdrin yn arbennig â seicoleg bwyta nad yw'n cael sylw nes ichi gyrraedd gwasanaethau lefel 3, rwy'n credu, ac yn ôl yr ymchwiliad, BILl Aneurian Bevan yn unig sy'n cynnig gwasanaeth lefel 3. Byddwn yn awgrymu bod gan lawer mwy o bobl nag sy'n cael eu gweld gan wasanaethau lefel 3 berthynas emosiynol gymhleth â bwyd.

I commend once again the Food Dudes scheme, which has been operating in the Denbighshire special schools that I visited with Ann Jones. There, not only did we get a change of behaviour and an increase in the consumption of fruit and vegetables, it also endured after the intervention programme had finished. It seems to me that, given the extent of the problem that we have in Wales, we need that sort of intervention in our schools across our primary sector to really start making a difference in what people eat and to prevent so many people from having a 10-year reduction in their life expectancy.

Unwaith eto, rwy'n cymeradwyo'r cynllun Food Dudes, sydd wedi bod yn gweithredu yn yr ysgolion arbennig yr ymwelais â hwy gydag Ann Jones yn Sir Ddinbych. Yno, gwelsom newid ymddygiad a chynnydd o ran faint o ffrwythau a llysiau a oedd yn cael eu bwyta, a gwelsom hefyd fod y cynllun wedi parhau wedi i'r rhaglen ymyrraeth ddod i ben. O ystyried maint y broblem sydd gennym yng Nghymru, mae'n ymddangos i mi ein bod angen y math hwn o ymyrraeth yn ein hysgolion ar draws ein sector cynradd er mwyn dechrau gwneud gwahaniaeth go iawn o ran yr hyn y mae pobl yn ei fwyta ac i atal gostyngiad o 10 mlynedd yn nisgwylad oes cymaint o bobl.

17:30

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I say how much I enjoyed the opportunity to look in-depth at what I regarded as a very important subject? I was grateful to be able to persuade my colleagues on the health committee to look at this subject, as I had been approached by a number of constituents who had found it impossible to access bariatric surgery because they simply were not obese enough. While we were never able to find hard, concrete evidence that that was the case, it was certainly my constituents' experience that they simply went away and ate more to meet the criteria. They simply made themselves sicker in an attempt to get the surgery they so badly needed.

What was so disappointing was to look at the history of this subject. In 2010, the all-Wales obesity pathway was signed off across Wales. It was regarded universally, without a dissenting voice, as a fantastic piece of work and as exactly the kind of system that Wales needed to try to tackle these issues. It is therefore so disappointing that, four years down the line, the only recognisable tier 3 service that we had in Wales after the publication of this document was in the Nye Bevan trust. Patients were literally scrabbling to get an appointment with their tier 3 service at Nye Bevan, and Dr Haboubi's waiting lists were eye-watering. Now, we have all got used to eye-watering waiting lists in recent years, but some people were literally waiting years for an opportunity to get into his clinic to be assisted and helped to lose weight. Let us be clear: the Tier 3 service is simply not there as a passporting service to surgery. Where they can possibly work with patients to get their weight under control, they do that. It is only in the most severe cases, when all else has failed, that they refer on to the tier 4 service.

A gaf fi ddweud cymaint y mwynheais y cyfle i edrych yn fanwl ar yr hyn rwy'n ei ystyried yn bwnc pwysig iawn? Roeddwn yn falch o allu perswadio fy nghydweithwyr ar y pwyllgor iechyd i edrych ar y pwnc hwn, gan fod nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi ar ôl ei chael yn amhosibl cael llawdriniaeth bariatrig am nad oeddent yn ddigon gordeu. Er na allem ddod o hyd i dystiolaeth gadarn fod hynny'n wir, profiad fy etholwyr yn bendant oedd eu bod yn syml yn bwyta mwy er mwyn bodloni'r meini prawf. Gwnaent eu hunain yn fwy sâl mewn ymgais i gael y llawdriniaeth roedd cymaint o'i hangen arnynt.

Yr hyn a oedd mor siomedig oedd edrych ar hanes y pwnc hwn. Yn 2010, cymeradwywyd llwybr gordewdra Cymru gyfan ledled Cymru. Câi ei ystyried gan bawb yn ddiwahân fel gwaith gwych ac yn union y math o system roedd ei hangen ar Gymru i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Felly, mae mor siomedig bedair blynedd ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon mai ymddiriedolaeth Nye Bevan yn unig a gynigiai'r unig wasanaeth haen 3 amlwg a oedd gennym yng Nghymru. Roedd cleifion yn llythrennol yn baglu ar draws ei gilydd i gael apwyntiad gwasanaeth haen 3 yn ardal Nye Bevan, ac roedd rhestrau aros Dr Haboubi yn ddigon i godi gwallt eich pen. Yn awr, rydym i gyd wedi dod i arfer â rhestrau aros sy'n codi gwallt eich pen dros y blynyddoedd diwethaf, ond roedd rhai pobl yn llythrennol yn aros am flynyddoedd am gyfle i fynychu ei glinig i gael cymorth a help i golli pwysau. Gadewch inni fod yn glir: nid yw'r gwasanaeth haen 3 yno'n unig fel gwasanaeth pasbort i lawdriniaeth. Os oes modd o gwbl iddynt weithio gyda chleifion i gael eu pwysau dan reolaeth, maent yn gwneud hynny. Yn yr achosion mwyaf difrifol yn unig, pan fetha popeth arall, y byddant yn atgyfeirio cleifion at y gwasanaeth haen 4.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Let us be clear: surgery is not an easy option, nor is it a risk-free option. For some patients, however, it is what is needed to turn their situation around, and the evidence is overwhelming. As we know, NICE operates some pretty clear criteria for what represents a cost-effective service and intervention. It regards bariatric services as a level 1 intervention in terms of cost-effectiveness. There is no doubt about this, and that was reiterated by the surgeons we spoke to. The cost of an operation can be repaid in two and a half years. People with type 2 diabetes have an 85% remission rate after surgery, yet the criteria that we have been operating up to the spring of this year actually mean that people who get surgery will have gone beyond the optimum time for help. We are simply operating on them when it has become even harder for them to achieve the results that we need.

I welcome very much the intervention by the Government to work towards a system from the spring in which we are NICE-compliant with the type of bariatric surgery that we are now commissioning. That is very welcome, and I commend the Minister for taking that step, but let us be clear that the ability to do that surgery is often compromised because of a lack of bed capacity at Morriston Hospital, and we heard evidence of operations and lists being cancelled because of a lack of bed capacity at that hospital. Also, just at the point when Wales has caught up in commissioning this service, we see only this week that NICE is going out once again to look at expanding its criteria. So, we have only just caught up, and potentially, we are going to see a massive movement in NICE, significantly enlarging the pool of patients that it feels would benefit health-wise from these interventions and which would actually be a cost-effective intervention when judged in terms of the ongoing, long-term costs of chronic illnesses associated with obesity.

Minister, we have a massive challenge. I know that you are aware of that. My concern is this: as a result of the interventions that you have made now, do you feel any more confident that we will develop the tier 3 services, especially, that you would like to see and we would like to see, when for the last four years LHBs have not done so? Why will it be different this time so that, in four years' time, a subsequent health committee will not be having the same debate about the lack of tier 3 services and access to bariatric surgery?

Gadewch inni fod yn glir: nid yw llawdriniaeth yn opsiwn hawdd ac nid yw'n ddewis heb risg. I rai cleifion, fodd bynnag, dyma sydd ei angen i drawsnewid eu sefyllfa ac mae'r dystiolaeth yn llethol. Fel y gwyddom, mae NICE yn gweithredu meini prawf eithaf clir o ran yr hyn sy'n wasanaeth cost-ffeithiol ac ymyrraeth. Mae'n ystyried gwasanaethau bariatrig fel ymyrraeth ar lefel 1 o ran cost-ffeithiolrwydd. Nid oes amheuaeth am hyn, a chafodd ei ategu gan y llawfeddygon y buom yn siarad â hwy. Gellir ad-dalu cost llawdriniaeth mewn dwy flynedd a hanner. Mae cyfradd gwellhad pobl sydd â diabetes math 2 yn 85% ar ôl llawdriniaeth, eto i gyd mae'r meini prawf rydym wedi bod yn eu defnyddio hyd at y gwanwyn eleni mewn gwirionedd yn golygu y bydd pobl sy'n cael llawdriniaeth wedi mynd y tu hwnt i'r amser gorau ar gyfer cael cymorth. Rydym yn rhoi llawdriniaeth iddynt pan fydd wedi mynd yn anos byth iddynt sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen.

Rwy'n croesawu'n fawr ymyrraeth y Llywodraeth i weithio tuag at system lle y gallwn gydymffurfio â NICE o ran y math o lawdriniaeth bariatrig a gomisiynwn yn awr. Mae hynny i'w groesawu'n fawr, a chanmolaf y Gweinidog am gymryd y cam hwnnw, ond gadewch inni fod yn glir fod y gallu i gyflawni'r llawdriniaeth honno'n aml wedi'i gyfaddawdu oherwydd diffyg capasiti gwelyau yn Ysbyty Treforys, a chlywsom dystiolaeth yn sôn am lawdriniaethau a rhestrau yn cael canslo oherwydd diffyg gwelyau yn yr ysbyty hwnnw. Hefyd, ar yr union adeg y mae Cymru wedi dal i fyny o ran comisiynu'r gwasanaeth hwn, yr wythnos hon gwelwn fod NICE yn edrych unwaith eto ar ehangu ei meini prawf. Felly, newydd ddal i fyny rydym wedi'i wneud, ac mae'n bosibl ein bod yn mynd i weld newid enfawr wrth i NICE ehangu'n sylweddol y nifer o gleifion y mae'n teimlo y byddai eu hiechyd yn elwa o'r ymyriadau hyn ac a fyddai'n ymyriadau cost-ffeithiol mewn gwirionedd o'u pwysu a'u mesur o ran costau parhaus a hirdymor yr afiechydon cronig sy'n gysylltiedig â gordewdra.

Weinidog, rydym yn wynebu her enfawr. Gwn eich bod yn ymwybodol o hynny. Fy mhryder yw hyn: yn sgîl yr ymyriadau rydych wedi'u gwneud yn awr, a ydych yn teimlo mwy o hyder o gwbl y byddwn yn datblygu'r gwasanaethau haen 3 penodol y byddech yn hoffi eu gweld ac y byddem yn hoffi gweld, er nad yw'r Byrddau Iechyd Lleol wedi gwneud hynny dros y pedair blynedd diwethaf? Pam y bydd pethau'n wahanol y tro hwn fel na fydd pwyllgor iechyd dilynol ymhen pedair blynedd yn cael yr un drafodaeth am ddiffyg gwasanaethau haen 3 a mynediad at lawdriniaeth bariatrig?

17:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I would like to begin as usual by thanking the committee Chair and committee members for their work in undertaking this inquiry and in producing the report. I will move directly to one of the core arguments in today's debate. I remain entirely at one with what the committee says in its report and what members of the committee have repeatedly said in the debate, which is the wish to emphasise that bariatric surgery should always remain a last rather than a first resort. The reasons for that conclusion were very well set out by the Chair and very clearly enumerated by Darren Millar as well. I echoed the same conclusion when I gave evidence to the inquiry. Surgery is not a panacea or a magic bullet; it is a life-changing intervention that leaves the individual with a range of psychological and physiological issues with which they then have to deal.

I also said, in giving evidence to the committee, and I have reinforced this message in the Welsh Government's written response to the committee's report, that in a time of deep and enduring austerity in public spending, any new investment in bariatric services can only be self-funded through the creation of service savings elsewhere—the basic invest-to-save principle. As six of the eight recommendations made by the committee have the potential to cost new money, that point simply cannot be avoided. It cannot be avoided as well in relation to the consultation that NICE has embarked upon in relation to bariatric services for type 2 diabetes. It is important to emphasise that it is only a consultation at this stage.

This week, the Welsh Government received a letter from the Academy of Medical Royal Colleges in Wales with its views on NICE's current proposals. It said that increased access to bariatric surgery for type 2 diabetes may help some, but it is not a long-term or sustainable solution. Nevertheless, as the committee learned, and as Kirsty Williams has emphasised, the Welsh Health Specialised Services Committee has agreed a plan that will increase the funding for bariatric surgery for Welsh patients. The number of procedures funded by NHS Wales will rise to a level that will bring Wales in line with current NHS guidelines. This is no mean feat in the current financial climate.

Hoffwn ddechrau fel arfer drwy ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith yn cynnal yr ymchwiliad hwn ac yn llunio'r adroddiad. Symudaf yn syth at un o'r dadleuon craidd yn y drafodaeth heddiw. Rwy'n cytuno'n gyfan gwbl â'r hyn y mae'r pwyllgor wedi'i ddweud yn ei adroddiad a'r hyn y mae aelodau'r pwyllgor wedi'i ddweud dro ar ôl tro yn ystod y ddadl, sef y dymuniad i bwysleisio y bydd llawdriniaeth bariatrig bob amser yn parhau i fod yn ddewis olaf yn hytrach na dewis cyntaf. Cafodd y rhesymau dros gasgliad o'r fath eu hamlinellu'n dda iawn gan y Cadeirydd a'u rhestru'n eglur iawn gan Darren Millar yn ogystal. Adleisiais yr un casgliad wrth roi tystiolaeth i'r ymchwiliad. Nid llawdriniaeth yw'r ateb i bob problem; mae'n ymyrraeth sy'n newid bywyd ac sy'n creu ystod o broblemau seicolegol a ffisiolegol i'r unigolyn fynd i'r afael â hwy.

Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedais hefyd mai drwy hunanariannu yn unig drwy greu arbedion gwasanaeth mewn mannau eraill y gellir gwneud buddsoddiadau newydd mewn gwasanaethau bariatrig mewn cyfnod o galedi dwfn a pharhaol mewn gwariant cyhoeddus, ac rwyf wedi atgyfnerthu'r neges hon yn ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor-egwyddor sylfaenol buddsoddi i arbed. Gan y gallai chwech o'r wyth argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor gostio arian newydd, ni ellir osgoi'r pwynt hwnnw. Ni ellir ei osgoi ychwaith mewn perthynas â'r ymgynghoriad a gychwynnodd NICE mewn perthynas â gwasanaethau bariatrig ar gyfer diabetes math 2. Mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond ymgynghoriad ydyw ar hyn o bryd.

Yr wythnos hon, cafodd Llywodraeth Cymru lythyr gan Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru yn rhoi ei safbwyntiau ar gynigion presennol NICE. Dywedodd y gallai mwy o fynediad at lawdriniaeth bariatrig ar gyfer diabetes math 2 helpu rhai pobl, ond nid yw'n ateb hirdymor a chynaliadwy. Serch hynny, fel y clywodd y pwyllgor, ac fel y mae Kirsty Williams wedi'i bwysleisio, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cytuno ar gynllun a fydd yn cynyddu'r cyllid ar gyfer llawdriniaeth bariatrig i gleifion Cymru. Bydd nifer y llawdriniaethau a ariennir gan GIG Cymru yn codi i lefel a fydd yn golygu bod Cymru yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol y GIG. Mae hyn yn dipyn o gamp yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Turning to the committee report itself, Members will see that all the committee's recommendations have been accepted. In relation to recommendations 1 and 2, we have recently undertaken a thorough review of the obesity pathway and its implementation. I will publish the findings of that review and/or the next steps imminently. I hope that that will give Kirsty Williams some comfort in the last points that she was making, because it does demonstrate that more has been achieved already at level 3 in services across Wales than we may have been aware of. I said at the committee that almost every LHB already offers elements of a multidisciplinary level 3 service. The review that we have undertaken suggests that more of those elements are in place than we were aware of. My aim is to see all health boards build co-operatively on existing strengths towards a level 3, non-surgical, weight-loss service that meets the specification that is being developed by Public Health Wales and which is available in all parts of the Welsh NHS.

Recommendation 3 asks the Welsh Government to develop a monitoring and evaluation framework for bariatric services. I have already asked Public Health Wales and WHSSC to undertake that work on our behalf. I have checked the text of the Welsh Government's written response to the committee's report, and it says that that is for introduction before the end of this Assembly term, rather than before the summer recess.

In relation to recommendation 4, the Wales Deanery confirmed that the relevant royal colleges are already considering how training on obesity can be incorporated into the revision of the curricula.

Recommendation 5 suggests that we undertake a comprehensive cost-benefit analysis of bariatric surgery. A wide range of existing research and evidence into the impacts and outcomes of bariatric procedures already exists, both at an individual and a societal level. I will deploy the Welsh Government's own knowledge and analytical services department to undertake a review of that evidence and, on completion, I will consider the conclusions of that exercise and share them with the committee.

As for recommendation 6, WHSSC has confirmed that a requirement will be added to the eligibility criteria that a patient commits to long-term follow-up once surgery has taken place. Accepting that committee recommendation, I think that it is right that we must be clear that it is essentially aspirational, rather than enforceable. It depends, as the committee concludes, on having follow-up services available, but it also depends on the actions of individual patients whose surgery has already been completed. There is an important responsibility message in that recommendation, which Darren Millar emphasised. For that reason, I believe that it is absolutely right that we accept it.

Gan droi at adroddiad y pwyllgor ei hun, bydd yr Aelodau'n gweld bod holl argymhellion y pwyllgor wedi cael eu derbyn. Mewn perthynas ag argymhellion 1 a 2, rydym wedi cynnal adolygiad trylwyr o'r llwybr gordewdra a'i weithrediad yn ddiweddar. Byddaf yn cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad hwnnw a/neu'r camau nesaf yn fuan. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n rhoi rhywfaint o gysur i Kirsty Williams ynglŷn â'r pwyntiau diwethaf a wnaeth, gan ei fod yn dangos bod mwy wedi'i gyflawni eisoes ar lefel 3 mewn gwasanaethau ar draws Cymru nag yr ydym wedi bod yn ymwybodol ohono o bosibl. Dywedais yn y pwyllgor fod bron pob BILI eisoes yn cynnig elfennau o wasanaeth lefel 3 aml-ddisgyblaethol. Mae'r adolygiad rydym wedi'i gynnal yn awgrymu bod mwy o'r elfennau hynny ar waith nag yr oeddem yn ymwybodol ohonynt. Fy nod yw gweld pob bwrdd iechyd yn adeiladu'n gydweithredol ar gryfderau presennol tuag at wasanaeth lefel 3, ar gyfer colli pwysau heb lawfeddygaeth, sy'n bodloni'r fanyleb y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei datblygu ac sydd ar gael ym mhob rhan o GIG Cymru.

Mae argymhelliad 3 yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer gwasanaethau bariatrig. Rwyf eisoes wedi gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i wneud y gwaith ar ein rhan. Rwyf wedi edrych ar destun ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor, ac mae'n dweud bod y fframwaith i'w gyflwyno cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, yn hytrach na chyn toriad yr haf.

Mewn perthynas ag argymhelliad 4, cadarnhaodd Deoniaeth Cymru fod y colegau brenhinol perthnasol eisoes yn ystyried sut y gellir ymgorffori hyfforddiant ar ordewdra yn yr adolygiad o'r cwricwla.

Mae argymhelliad 5 yn awgrymu ein bod yn cynnal dadansoddiad cost a budd cynhwysfawr o lawdriniaeth bariatrig. Mae ystod eang o waith ymchwil a thystiolaeth i effeithiau a chanlyniadau llawdriniaethau bariatrig eisoes yn bodoli, ar lefel unigol a chymdeithasol. Byddaf yn defnyddio gwybodaeth ac adran gwasanaethau dadansodol Llywodraeth Cymru ei hun i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth honno ac ar ôl ei gwblhau, byddaf yn ystyried casgliadau'r ymarferiad ac yn eu rhannu gyda'r pwyllgor.

Fel ar gyfer argymhelliad 6, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cadarnhau y bydd gofyniad yn cael ei ychwanegu at y meini prawf cymhwyster fod y claf yn ymrwymo i ofal hirdymor dilynol ar ôl cael llawdriniaeth. Gan dderbyn argymhelliad y pwyllgor, rwy'n meddwl ei bod yn iawn inni fod yn glir mai rhywbeth i ymgysylltu ato yw hyn yn ei hanfod, yn hytrach na rhywbeth y gellir ei orfodi. Fel y mae'r pwyllgor yn ei gasglu, mae'n dibynnu ar sicrhau bod gwasanaethau dilynol ar gael, ond mae hefyd yn dibynnu ar y camau y bydd cleifion unigol sydd eisoes wedi cael llawdriniaeth yn eu cymryd. Mae'r argymhelliad yn cynnwys neges bwysig ynglŷn â chyfrifoldeb a bwysleiswyd gan Darren Millar. Am y rheswm hwn, rwy'n credu ei bod yn hollol iawn inni ei dderbyn.

Recommendation 7 asks us to develop specific guidance for support arrangements that should be in place for individuals who are ineligible for bariatric surgery. Such guidance is being prepared and is close to being ready for publication.

Finally, in relation to recommendation 8, which relates to the establishment of a bariatric surgery centre in north Wales, I will of course keep this matter under review, but, as I said at committee and have restated in my written response, the provision of bariatric surgery will itself be only one component of the wider, multidisciplinary service that would be required to support individuals, both before and after surgery. That is what is provided by the Welsh Institute of Metabolic and Obesity Surgery service in Swansea, and is provided in Salford for patients from north Wales. As we have heard, it is a service that is valued by north Wales patients. The costs of providing this wider service would have to be factored in to any consideration as to whether a north Wales service was more advantageous than existing arrangements.

I would like to end by, once again, emphasising that obesity cannot be viewed simply as a health issue, let alone an NHS issue. Jenny Rathbone drew attention to the public health measures, including mandatory requirements on the food industry, which could do so much to help those of our fellow citizens who find themselves in this position and who we know, from the evidence they gave to the health committee, would themselves very much like to be able to avoid the difficulties they face. Once again, I thank the committee for its work and particularly for its innovative approach to undertaking field work in this inquiry, which I think gave much force to many of its recommendations.

Mae argymhelliad 7 yn gofyn inni ddatblygu canllawiau penodol ar gyfer trefniadau cymorth a ddylai fod ar waith ar gyfer unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer llawdriniaeth bariatrig. Mae canllawiau o'r fath yn cael eu paratoi ac maent yn agos at fod yn barod i'w cyhoeddi.

Yn olaf, o ran argymhelliad 8, sy'n ymwneud â sefydlu canolfan llawdriniaeth bariatrig yng ngogledd Cymru, byddaf yn cadw'r mater hwn dan adolygiad wrth gwrs, ond fel y dywedais yn y pwyllgor ac fel rwyf wedi'i ailddatgan yn fy ymateb ysgrifenedig, un elfen yn unig fydd darparu llawdriniaeth bariatrig o'r gwasanaeth ehangach, amlddisgyblaethol y byddai ei angen i gynorthwyo unigolion cyn ac ar ôl llawdriniaeth. Dyna yw'r hyn a ddarperir gan y Sefydliad Llawfeddygaeth Metabolaidd a Gordwedra Cymru yn Abertawe, ac a ddarperir yn Salford ar gyfer cleifion o ogledd Cymru. Fel y clywsom, mae'n wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi gan gleifion gogledd Cymru. Byddai'n rhaid ffactoreiddio costau darparu'r gwasanaeth ehangach hwn i mewn i unrhyw ystyriaeth ynghylch a fyddai gwasanaeth i ogledd Cymru yn fwy manteisiol na'r trefniadau presennol.

Hoffwn orffen drwy bwysleisio unwaith eto na ellir edrych ar ordwedra yn syml fel mater iechyd, heb sôn am fater i'r GIG. Tynnodd Jenny Rathbone sylw at y mesurau iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gofynion gorfodol ar y diwydiant bwyd, a allai wneud cymaint i helpu rhai o'n cyd-ddinasyddion sydd yn y sefyllfa hon ac y gwyddom, yn ôl y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor iechyd, y byddent yn hoffi gallu osgoi'r anawsterau y maent yn eu hwynebu yn fawr iawn. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei waith ac yn arbennig am ei ymagwedd arloesol i ymgymryd â gwaith maes yn yr ymchwiliad hwn, sydd wedi rhoi llawer o rym i nifer o'i argymhellion yn fy marn i.

17:43

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar David Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymateb i'r ddatl.

I call on David Rees, the Chair of the Health and Social Care Committee to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:44

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Members for their contributions to the debate this afternoon. First, I would like to stress that the pathway itself was welcomed by everybody we spoke to; it was the implementation that gave rise to some of the issues that we were talking about.

Darren highlighted the importance of greater responsibility upon individuals and the change of behaviour that is required. However, getting better education for the public is an important aspect, and I will come back to Jenny and Lindsay's contributions in that regard as they also talked about the same thing. We did not go into that, because it related to levels 1 and 2 and we did not want to look at those. However, it is true and we recognise that prevention is the major step. If we can get that right, then, in years to come, we will not be facing the difficulties that we currently face.

I will come back to the north Wales agenda. We did raise that and there clearly is an issue as to how that service will be provided. However, we believe that, at the moment, Salford is doing an excellent job in the north Wales area.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddatl y prynhawn yma. Yn gyntaf, hoffwn bwysleisio bod y llwybr ei hun wedi'i groesawu gan bawb y buom yn siarad â hwy; y dull o'i weithredu a arweiniodd at rai o'r materion rydym yn sôn amdanynt.

Soniodd Darren am bwysigrwydd yr angen am fwy o gyfrifoldeb i unigolion a newid ymddygiad. Fodd bynnag, mae cael addysg well i'r cyhoedd yn agwedd bwysig, a byddaf yn dod yn ôl at Jenny a chyfraniadau Lindsay yn hynny o beth gan eu bod hefyd yn sôn am yr un peth. Ni ystyriwyd hynny, gan ei fod yn ymwneud â lefelau 1 a 2 ac nid oeddem am edrych ar hynny. Fodd bynnag, mae'n wir ac rydym yn cydnabod mai atal yw'r prif gam. Os gallwn gael hynny'n iawn, yna ymhen blynnyddoedd, ni fyddwn yn wynebu'r anawsterau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

Byddaf yn dod yn ôl at agenda gogledd Cymru. Codwyd y mater hwnnw ac mae'n amlwg bod cwestiwn ynghlân â sut y bydd y gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, credwn fod Salford yn gwneud gwaith rhagorol yn ardal gogledd Cymru ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Lindsay highlighted that excess skin was an issue that many people raised, and that there was concern that it created a mental state among people as to how they looked at it and perceived it. We recognise, Minister, the aspect and the consideration of the funding approaches, but I think that Lindsay was just highlighting some of the concerns that were raised with the committee on that particular point. Many people did not understand that at the start or when they had surgery, and that is why we wanted to make sure that everybody that went into surgery had full information as to what the consequences were and the likely after-effects. Post-care was also critical, which included multidisciplinary teams and clinical psychologists in that aspect.

Jenny and Lindsay talked about childhood obesity. I stress at this point that we did not look at childhood obesity because the Children, Young People and Education Committee was looking at childhood obesity. As such, we took the decision not to look at childhood obesity but to look upon the work that that committee had done instead. So, we did not focus as a committee on children; we focused only on adult services.

Jenny talked about exercise, more enthusiasm to exercise and greater encouragement to exercise—too right—and you also talked about food and unhealthy food. You might be interested to know—I have been checking this today—that Mexico has placed restrictions on television advertising of unhealthy food and drink, so it has gone down that road because it has a worse obesity problem than we have. So, it is clearly an issue that a lot of countries are recognising, but television advertising is out of our remit, unfortunately. Having said that, the poor quality of food is an issue that we need to consider. Education, again, comes into that, because I think that Lindsay said that parents are putting food down children's throats, basically. It is the same principle, because educating people about what type of food they are eating and what type of food they are giving to their children is critical.

Kirsty highlighted the level 3 services across Wales and the difficulties she has had with constituents. She raised this in committee and she fought for this type of inquiry. I think it hit us all when we began the inquiry as to some of the difficulties that were being faced by people across Wales. We were very much told about the cost-effectiveness of surgery when needed. I appreciate your comments, Minister, about net savings and that investment can only come through savings elsewhere, and that that is a board decision. However, we were told that longer term savings were coming and that is why we asked for a cost-benefit analysis to demonstrate that that would be the case, to encourage boards to recognise that fact.

Minister, I am pleased that you identified that there are more elements of level 3 services across Wales than we first thought. That is good news, but we need to make sure that the people out there understand that, and that GP practices, as much as anything else, understand it. So, the message needs to get out there.

Amlygodd Lindsay fod croen dros ben yn fater a godwyd gan lawer o bobl, a bod pryder ei fod yn creu poen meddwl ymysg pobl o ran sut y maent yn ei weld ac yn synied amdano. Weinidog, rydym yn cydnabod yr agwedd honno a'r ystyriaeth o'r dulliau ariannu, ond rwy'n meddwl mai tynnu sylw at rai o'r pryderon a fynegwyd wrth y pwyllgor ar y pwynt penodol hwnnw roedd Lindsay. Nid oedd llawer o bobl yn deall hynny ar y cychwyn neu ar ôl iddynt gael llawdriniaeth, a dyna pam roeddem am wneud yn siŵr fod pawb sy'n cael llawdriniaeth yn cael gwybodaeth lawn ynghylch y canlyniadau a'r ôl-ffeithiau tebygol. Roedd ôl-ofal hefyd yn allweddol, yn cynnwys timau amlddisgyblaethol a seicolegwyr dinigol yn hynny o beth.

Siaradodd Jenny a Lindsay am ordewdra yn ystod plentyndod. Rwy'n pwysleisio yn y fan hon nad ydym yn edrych ar ordewdra ymhlith plant gan fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn edrych ar ordewdra yn ystod plentyndod. Fel y cyfryw, gwnaethom y penderfyniad i beidio ag edrych ar ordewdra ymhlith plant, ond i edrych ar y gwaith y mae'r pwyllgor hwnnw wedi'i wneud yn lle hynny. Felly, ni wnaethom ganolbwyntio fel pwyllgor ar blant; canolbwyntiwyd yn unig ar wasanaethau i oedolion.

Soniodd Jenny heddiw am ymarfer corff, mwy o frwdfrydedd tuag at wneud ymarfer corff a mwy o anogaeth i wneud ymarfer corff—ie'n wir—a siaradasoch hefyd am fwyd a bwyd afiach. Efallai y byddai o ddi-ddorbedd ichi wybod—edrychais ar hyn heddiw—bod Mecsico wedi gosod cyfyngiadau ar hysbysebu bwyd a diod afiach ar y teledu, felly mae wedi dilyn y trywydd hwnnw oherwydd bod ganddi broblem ordewdra waeth na ni. Felly, mae'n amlwg yn fater sy'n cael ei gydnabod gan lawer o wledydd, ond mae hysbysebion teledu y tu allan i'n cylch gwaith, yn anffodus. Wedi dweud hynny, mae ansawdd gwael bwyd yn fater sydd angen inni ei ystyried. Unwaith eto, mae hynny'n ymwneud ag addysg, oherwydd credaf fod Lindsay wedi dweud mai rhieni sy'n rhoi bwyd i lawr gyddfau plant, yn y bôn. Mae'r egwyddor yr un fath, gan fod addysgu pobl am y math o fwyd y maent yn ei fwyta a pha fath o fwyd y maent yn ei roi i'w plant yn hollbwysig.

Tynnodd Kirsty sylw at y gwasanaethau lefel 3 ar draws Cymru a'r anawsterau y mae wedi'u cael gydag etholwyr. Cododd hyn yn y pwyllgor ac ymladdodd am y math hwn o ymchwiliad. Rwy'n credu ei fod wedi ein synnu ni i gyd pan ddechreuasom yr ymchwiliad beth oedd rhai o'r anawsterau a oedd yn wynebu pobl ledled Cymru. Dywedwyd llawer wrthym am gost-ffeithiolrwydd cael llawdriniaeth pan fo'i hangen. Rwy'n gwerthfawrogi eich sylwadau, Weinidog, ynghylch cynilion net ac na ellir sicrhau buddsoddiad ond drwy arbedion mewn mannau eraill, ac mai penderfyniad y bwrdd yw hynny. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod arbedion mwy hirdymor ar eu ffordd, a dyna pam y gofynasom am ddadansoddiad cost a budd i ddangos y byddai hynny'n digwydd, er mwyn annog byrddau i gydnabod y ffaith honno.

Weinidog, rwy'n falch eich bod nodi bod mwy o elfennau o wasanaethau haen 3 i'w cael ledled Cymru nag y meddyliem yn gyntaf. Mae hynny'n newyddion da, ond mae angen inni wneud yn siŵr bod y bobl yn deall hynny, a bod practisau meddygon teulu, yn gymaint ag unrhyw beth arall, yn ei ddeall. Felly, mae angen lledaenu'r neges.

I thank the Minister and everyone else for their contributions today. I think the obesity report highlights an issue that we cannot ignore. It highlights two points, the first being that we must be preventative to stop this becoming worse than it is, and the second being that we have a problem now that we have to address. Minister, on your final point about recognising that, you said at the same time that invest-to-save can be there if we can prove the need. That is the next step; let us prove it so that we can use that invest-to-save funding.

Diolch i'r Gweinidog a phawb arall am eu cyfraniadau heddiw. Credaf fod yr adroddiad gordewdra yn tynnu sylw at broblem na allwn ei hanwybyddu. Mae'n tynnu sylw at ddau bwynt; yn gyntaf, fod yn rhaid inni fod yn ataliol i atal hyn rhag gwaethygu, ac yn ail fod gennym broblem yn awr y mae'n rhaid inni roi sylw iddi. Weinidog, ar eich pwynt olaf ynglŷn â chydabod hynny, dywedasoich ar yr un pryd y gall buddsoddi i arbed fod yno os gallwn brofi'r angen. Dyna'r cam nesaf, gadewch inni brofi hynny er mwyn gallu defnyddio'r arian buddsoddi i arbed.

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw a ddylid nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynyr y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that the report of the Health and Social Care Committee be noted. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17:49.

Sandy Mewies took the Chair at 17:49.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:49 **Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllid Cymru**

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies, to move the motion.

Cynnig NDM5558 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Cyllid Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2014.

The Finance Committee's Report on Finance Wales

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5558 Jocelyn Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Finance Committee on its inquiry into Finance Wales, which was laid in the Table Office on 30 May 2014.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:49 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I move the motion.

The Finance Committee agreed to undertake an inquiry into Finance Wales last November. The inquiry was undertaken against a backdrop of much media speculation about Finance Wales resulting from the publication of the Welsh Government-commissioned 'Access To Finance Review'. The committee agreed to look at a number of things. We wanted to see Finance Wales's outcomes and whether we felt that these constituted value for money, whether the current corporate structure of Finance Wales was appropriate, and how the activities of Finance Wales contribute to the Welsh Government's overall approach to economic development.

Diolch yn fawr. Cynigiau y cynnig.

Cytunodd y Pwyllgor Cyllid i gynnal ymchwiliad i Cyllid Cymru fis Tachwedd diwethaf. Cynhaliwyd yr ymchwiliad yng nghyd-destun llawer o ddyfalu yn y cyfryngau am Cyllid Cymru yn deillio o gyhoeddi'r 'Adolygiad Mynediad at Gyllid' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Cytunodd y pwyllgor i edrych ar nifer o bethau. Roeddem am weld canlyniadau Cyllid Cymru a pha un a oeddem yn teimlo bod y rhain yn cynnig gwerth am arian, a oedd strwythur corfforaethol presennol Cyllid Cymru yn briodol, a sut y mae gweithgareddau Cyllid Cymru yn cyfrannu at ymagwedd gyffredinol Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu economaidd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Alongside the more traditional evidence sessions, the committee held an outreach event with SMEs to gather evidence for the inquiry. During this session, it became very clear to Members that Finance Wales is well regarded across much of the business sector. This is a view that was echoed by witnesses, and is an opinion that appears to be held across the UK and further afield. The committee concluded that Finance Wales, on the whole, was making a positive contribution to the Welsh economy, and that what was needed was a clarification of its role and remit, rather than a full-scale overhaul. We made 11 recommendations in total and we are very pleased that the Minister has accepted all of these.

The committee found that there was a lack of information on the funding gap for businesses in Wales, which impacts on what people think Finance Wales should be doing. To this end, we have made a number of recommendations about defining the problems of accessing finance by Welsh businesses. This is essential to put in place appropriate solutions. We also found that there was a myriad of expectations placed on Finance Wales from its very inception, which were not necessarily within its remit to deliver. We therefore recommended that the Minister clarifies the role and remit of Finance Wales and we look forward to seeing the revised remit, which is currently under discussion.

Much of the evidence received about Finance Wales was in relation to its interest rates. We found that, although they are higher than the market average, Finance Wales interest rates were assessed against a number of factors, including risk, and that, for the type of investment made, they appear to be mainly in line with, or better than, the market. However, a significant proportion of its loans could have, potentially, been available commercially at a more competitive rate. We are pleased to note that more information will be made available on the interest rate policies at Finance Wales, and we hope that future funds make the most of the flexibility available.

We found that there was more that Finance Wales could do in terms of communicating and marketing its services, and recommended that more is done in this area. The committee was also concerned about the level of external scrutiny of Finance Wales and the transparency of its monitoring information. The committee will be undertaking further routine scrutiny of Finance Wales by considering its annual report and accounts. In addition to this, we welcome the undertaking to release more performance information that should help scrutiny by all those who are interested in Finance Wales.

Overall, this was a positive inquiry that showed that, although not perfect, there is a lot to commend in the work of Finance Wales. I would like to thank all those who took part and took time to provide us with evidence, either written or oral, and I hope that this debate helps to inform discussions around access to finance by SMEs. I look forward to hearing Members' comments today. Thank you.

Ochr yn ochr â'r sesiynau tystiolaeth mwy traddodiadol, cynhaliodd y pwyllgor ddiwyddiad allgymorth gyda Busnesau Bach a Chanolig eu maint i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad. Yn ystod y sesiwn hon, daeth yn amlwg iawn i'r Aelodau fod enw da gan Cyllid Cymru ymhlith llawer o'r sector busnes. Mae hwn yn safbwynt a adleisiwyd gan y rhai a roddodd dystiolaeth ac yn safbwynt sydd i'w weld ar draws y DU a thu hwnt. Daeth y pwyllgor i'r casgliad fod Cyllid Cymru, ar y cyfan, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi Cymru ac mai'r hyn roedd ei angen oedd egluro'i rôl a'i gylch gwaith, yn hytrach nag ailwampio'n gyfan gwbl. Gwnaethom 11 o argymhellion i gyd ac rydym yn falch iawn fod y Gweinidog wedi derbyn pob un o'r rhain.

Canfu'r pwyllgor fod yna ddiffyg gwybodaeth am y bwch cyllido ar gyfer busnesau yng Nghymru, sy'n effeithio ar yr hyn y mae pobl yn meddwl y dylai Cyllid Cymru fod yn ei wneud. I'r perwyl hwn, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch diffinio'r problemau sy'n wynebu busnesau Cymru o ran dod o hyd i gyllid. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sefydlu atebion priodol. Canfuom hefyd fod lluo o ddisgwyliadau wedi'u gosod ar Cyllid Cymru o'r cychwyn cyntaf nad oeddent o reidrwydd o fewn ei gylch gwaith i'w cyflawni. Felly, rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn egluro rôl a chylch gwaith Cyllid Cymru ac edrychwn ymlaen at weld y cylch gwaith diwygiedig, sydd o dan drafodaeth ar hyn o bryd.

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd am Cyllid Cymru yn ymwneud â'i gyfraddau llog. Er eu bod yn uwch na chyfartaledd y farchnad, canfuom fod cyfraddau llog Cyllid Cymru wedi eu hasesu yn erbyn nifer o ffactorau, gan gynnwys risg, a'u bod yn ymddangos cystal ar y cyfan neu'n well na'r farchnad am y math o fuddsoddiad a wnaed. Fodd bynnag, gallai cyfran sylweddol o'i fenthyciadau fod wedi bod ar gael yn fasnachol, o bosibl, ar raddfa fwy cystadleuol. Rydym yn falch o nodi y bydd mwy o wybodaeth ar gael ar bolisïau cyfradd llog Cyllid Cymru ac rydym yn gobeithio y bydd cronfeydd cyllid yn y dyfodol yn manteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd sydd ar gael.

Canfuom fod mwy y gallai Cyllid Cymru ei wneud o ran cyfathrebu a marchnata ei wasanaethau, ac argymellasom fod mwy yn cael ei wneud yn y maes hwn. Roedd y pwyllgor hefyd yn bryderus ynghylch lefel y craffu allanol ar Cyllid Cymru a thryloywder ei wybodaeth monitro. Bydd y pwyllgor yn gwneud gwaith craffu rheolaidd pellach ar Cyllid Cymru drwy ystyried ei adroddiad blynyddol a chyfrifon. Yn ogystal â hyn, rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ryddhau mwy o wybodaeth am berfformiad a ddylai gynorthwyo'r gwaith craffu gan bawb sydd â diddordeb yn Cyllid Cymru.

Ar y cyfan, roedd hwn yn ymchwiliad cadarnhaol sy'n dangos, er nad yw'n berffaith, bod llawer i'w ganmol yng ngwaith Cyllid Cymru. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran ac a roddodd amser i ddarparu tystiolaeth ar ein cyfer, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, ac rwy'n gobeithio y bydd y ddatl hon yn helpu i lywio trafodaethau ynglŷn â mynediad at gyllid ar gyfer BBaChau. Edrychaf ymlaen at glywed sylwadau'r Aelodau heddiw. Diolch.

I think that this is one of the most interesting reports that we have done. I was very uncertain of what evidence we could expect in view of the persistent bad publicity surrounding Finance Wales that had preceded our inquiry. I personally had had a very good experience of Finance Wales in my constituency. When I was an MP in Westminster, other MPs from other parts of the country were very jealous of the fact that Wales had such a body and felt that they would like to have something similar. So, when views were being expressed that Finance Wales was not fit for purpose, for example, I felt that such views were very concerning and potentially destabilising for the organisation and for the business community. It was therefore a great relief to receive such positive feedback on Finance Wales from the majority of the contributors to the inquiry. The Chair has also made that point very strongly. I will give just a few examples of the positive feedback we had. Alistair Wardell from Grant Thornton reflected the sort of things that I had heard from outside Wales. He thought that we were fortunate to have an organisation like Finance Wales. One of his Birmingham colleagues had said, 'We would love to have an organisation like Finance Wales here, because we don't have that. We have the lenders, the asset-based lenders, the angel investors, but we don't have an organisation like Finance Wales'.

The Chair of the committee mentioned the breakfast outreach meeting, which was very successful. There was a feeling there that Finance Wales had been treated badly. One of the participants—and this is in the report—said that Wales was shooting itself in the foot again and that there was a great deal of feeling that the negative publicity about Finance Wales was unfair and very damaging. The business person I was linked to at the breakfast meeting could not speak too highly of Finance Wales and how it had been such a support to him in developing his business. A minority of businesses did have some criticism of Finance Wales, and the Federation of Small Businesses was not very supportive of Finance Wales, but, overwhelmingly, there was a great deal of support for it.

The committee's report also gives the evidence about how Finance Wales is perceived externally. We were told that the European Investment Bank's view is that Finance Wales is actually one of the best JEREMIE fund operators in the UK and possibly in Europe. I think that the committee's recommendation 3 is very important, namely that any changes to Finance Wales should build on its existing skills and infrastructure and not damage the reputation it has developed. It is very pleasing that the Minister has accepted that recommendation. I think that it is in that context, perhaps having got over the bad publicity and what was generally being said, that it is possible to look at what improvements can be made and how openness and transparency can be increased. There is no doubt that the bad publicity has a negative impact on the staff in Finance Wales and on business confidence. I think that it is very encouraging that this can now be put behind us with the Minister's reassurance that any developments in this field will be built on its existing skills.

Credaf mai hwn yw un o'r adroddiadau mwyaf diddorol i ni ei wneud. Roeddwn yn ansicr iawn ynglŷn â pha dystiolaeth y gallem ei disgwyl o ystyried y cyhoeddusrwydd gwael parhaus mewn perthynas â Cyllid Cymru cyn ein hymchwiliad. Roeddwn i'n bersonol wedi cael profiad da iawn o Cyllid Cymru yn fy etholaeth. Pan oeddwn yn Aelod Seneddol yn San Steffan, roedd ASau eraill o rannau eraill o'r wlad yn genfigennus iawn o'r ffaith fod gan Gymru gorff o'r fath ac yn teimlo yr hoffent gael rhywbeth tebyg. Felly, pan fynegwyd safbwyntiau nad oedd Cyllid Cymru yn addas i'r diben, er enghraifft, roeddwn yn teimlo bod safbwyntiau o'r fath yn peri pryder mawr ac y gallent ansefydlogi'r sefydliad a'r gymuned fusnes. Rhyddhad mawr felly oedd derbyn y fath adborth cadarnhaol ar Cyllid Cymru gan y rhan fwyaf o'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi gwneud y pwynt hwnnw'n gadarn iawn. Rhoddaf ond ychydig o enghreifftiau o'r adborth cadarnhaol a gawsom. Adlewyrchodd Alistair Wardell o Grant Thornton y math o bethau rwyf wedi'u clywed o'r tu allan i Gymru. Credai ein bod yn ffodus i gael sefydliad fel Cyllid Cymru. Dywedodd un o'i gydweithwyr yn Birmingham, 'Byddem wrth ein bodd yn cael sefydliad fel Cyllid Cymru yma, oherwydd nad oes gennym hynny. Mae gennym y benthycwyr, y benthycwyr seiliedig ar asedau, y buddsoddwyr angel, ond nid oes gennym sefydliad fel Cyllid Cymru.'

Soniodd Cadeirydd y pwyllgor am y cyfarfod allgymorth brewcwast, a oedd yn llwyddiannus iawn. Roedd teimlad yno fod Cyllid Cymru wedi cael ei drin yn wael. Dywedodd un o'r cyfranogwyr—ac mae hyn yn yr adroddiad—fod Cymru yn saethu ei hun yn ei throed eto a bod cryn deimlad bod y cyhoeddusrwydd negyddol am Cyllid Cymru yn annheg ac yn niweidiol iawn. Roedd y dyn busnes a oedd yn gysylltiedig â mi yn y cyfarfod brewcwast yn ganmoliaethus iawn o Cyllid Cymru a'r ffordd roedd wedi bod yn gymaint o gymorth iddo wrth ddatblygu ei fusnes. Roedd lleiafrif o fusnesau ychydig yn feirniadol o Cyllid Cymru, ac nid oedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn gefnogol iawn i Cyllid Cymru, ond roedd cryn dipyn o gefnogaeth iddo gan y mwyafrif llethol.

Mae adroddiad y pwyllgor hefyd yn rhoi tystiolaeth ynglŷn â sut y mae Cyllid Cymru yn cael ei weld yn allanol. Dywedwyd wrthym mai barn Banc Buddsoddi Ewrop yw mai Cyllid Cymru mewn gwirionedd yw un o'r gweithredwyr cronfa JEREMIE gorau yn y DU ac o bosibl yn Ewrop. Credaf fod argymhelliad 3 y pwyllgor yn bwysig iawn, sef y dylai unrhyw newidiadau i Cyllid Cymru adeiladu ar ei sgiliau a'i seilwaith presennol a pheidio â niweidio'r enw da y mae wedi'i ddatblygu. Mae'n braf iawn fod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw. Rwy'n meddwl mai yn y cyd-destun hwnnw, ar ôl dod dros y cyhoeddusrwydd gwael, efallai, a'r hyn a oedd yn cael ei ddweud yn gyffredinol, y mae'n bosibl edrych ar ba welliannau y gellir eu gwneud a sut y gellir cynyddu agwedd agored a thryloywder. Nid oes amheuaeth fod y cyhoeddusrwydd gwael yn cael effaith negyddol ar staff Cyllid Cymru ac ar hyder busnes. Credaf ei bod yn galonogol iawn fod modd rhoi hyn y tu ôl i ni yn awr gyda sicrwydd y Gweinidog y bydd unrhyw ddatblygiadau yn y maes yn cael eu hadeiladu ar ei sgiliau presennol.

The Chair of the Finance Committee has been through the recommendations, so I will not repeat all of those, except to say that I think that it is a very good idea that Finance Wales has an annual report that is widely available and that it reports to an Assembly committee on an annual basis. I think that that would be widely welcomed. I think that, if there is more transparency, that again would be very welcome. In conclusion, I think that this inquiry did really clear up some of the misconceptions that there were about Finance Wales, and I felt that it was a very positive step forward.

17:58

Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

I am pleased to take part in this debate this afternoon. As usual, may I thank the Chair of the committee for her leadership on this issue and the clerk and her team for their efforts throughout this inquiry? The very aim of this inquiry was to look at the current operation and future role of Finance Wales and to examine the outcomes that Finance Wales is achieving and whether it actually constitutes value for money. I am pleased that the Minister has accepted all of the recommendations in this report, and I look forward to the Welsh Government implementing each of them. While the report notes that this was a positive inquiry, it was also a serious inquiry and very timely, given the Welsh Government's work on financial access for small businesses.

The report highlighted a number of issues, most notably around customer care and communication. Some stakeholders felt that, prior to their involvement, they had little awareness of what Finance Wales did and where it fitted into the funding mechanism. Others were critical of the marketing material that was produced, suggesting that it was dated and unclear with regard to the areas it supports. I am sure that we would all agree that start-up businesses need to easily know what is available to them and that therefore signposts to relevant bodies are really important. In the circumstances, I am particularly pleased that the Minister has accepted recommendation 9, which calls on the Welsh Government and Finance Wales to renew their strategy for communicating with businesses. Indeed, I am pleased to read from the Minister's response that a great deal of progress has been made in recent months to improve communication with businesses and that the Minister's officials are working with the main banks in Wales to pilot a bank referral scheme.

The inquiry also highlighted the challenges that are facing small businesses, which is something that has been heatedly discussed in this Chamber. There are two recommendations in this report that the Minister has accepted in relation to SMEs—recommendation 2 and recommendation 6. Even though the economy is improving, SMEs continue to face some tough economic challenges, so it is important that Finance Wales does all that it can to support them. SMEs at the stakeholder event told committee members that the process for getting a loan from Finance Wales can be off-putting and Finance Wales should consider offering some help with the application process.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi bod drwy'r argymhellion, felly nid wyf am ailadrodd pob un ohonynt, heblaw dweud ei bod yn syniad da iawn yn fy marn i fod gan Cyllid Cymru adroddiad blynyddol sydd ar gael yn eang a'i fod yn adrodd i bwyllgor Cynulliad yn flynyddol. Credaf y byddai hynny'n cael ei groesawu yn eang. Pe bai mwy o dryloywder, rwy'n credu y byddai hynny eto'n cael ei groesawu. I gloi, credaf fod yr ymchwiliad hwn wedi cael gwared yn wir ar rai o'r camsyniadau am Cyllid Cymru, ac rwy'n teimlo ei fod yn gam cadarnhaol iawn ymlaen.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma. Fel arfer, a gaf fi ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor am ei harweiniad ar y mater hwn ac i'r clerc a'i thîm am eu hymdrechion drwy gydol yr ymchwiliad hwn? Nod penodol yr ymchwiliad hwn oedd edrych ar weithrediad presennol Cyllid Cymru a'i rôl yn y dyfodol, ac ar y canlyniadau y mae Cyllid Cymru yn eu cyflawni ac a yw mewn gwirionedd yn cynnig gwerth am arian. Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ac edrychaf ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu pob un ohonynt. Er bod yr adroddiad yn nodi bod hwn yn ymchwiliad cadarnhaol, roedd hefyd yn ymchwiliad difrifol ac amserol iawn, o ystyried gwaith Llywodraeth Cymru ar fynediad ariannol i fusnesau bach.

Tynnai'r ymchwiliad sylw at nifer o faterion, yn ymwneud yn fwyaf amlwg â gofal cwsmeriaid a chyfathrebu. Teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd ganddynt lawer o ymwybyddiaeth, cyn iddynt gymryd rhan, o'r hyn roedd Cyllid Cymru yn ei wneud a'i le o fewn y system gyllido. Roedd eraill yn feirniadol o'r deunydd marchnata a gynhyrchwyd, sy'n awgrymu ei fod wedi dyddio ac yn aneglur o ran y meysydd y mae'n eu cefnogi. Rwy'n sicr y byddem i gyd yn cytuno bod angen i fusnesau sy'n cychwyn allu gwybod yn hwylus beth sydd ar gael iddynt ac felly mae cyfeirio at gyrff perthnasol yn bwysig iawn. O dan yr amgylchiadau, rwy'n arbennig o falch fod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 9, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru a Cyllid Cymru i adnewyddu eu strategaeth ar gyfer cyfathrebu â busnesau. Yn wir, rwy'n falch o ddarllen yn ymateb y Gweinidog fod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud yn ystod y misoedd diwethaf ar wella cyfathrebu gyda busnesau a bod swyddogion y Gweinidog yn gweithio gyda'r prif fanciau yng Nghymru i dreialu cynllun atgyfeirio at fanciau.

Roedd yr ymchwiliad hefyd yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu busnesau bach, sy'n rhywbeth sydd wedi'i drafod yn frwd yn y Siambr hon. Mae dau argymhelliad yn yr adroddiad hwn sydd wedi'u derbyn gan y Gweinidog mewn perthynas â BBaChau—argymhelliad 2 ac argymhelliad 6. Er bod yr economi yn gwella, mae BBaChau yn dal i wynebu rhai heriau economaidd anodd, felly mae'n bwysig i Cyllid Cymru wneud popeth o fewn ei allu i'w cefnogi. Dywedodd BBaChau wrth aelodau'r pwyllgor yn y digwyddiad rhanddeiliaid y gallai'r broses o gael benthyciad gan Cyllid Cymru fod yn annymunol ac y dylai Cyllid Cymru ystyried cynnig rhywfaint o gymorth gyda'r broses ymgeisio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It was also clear from the stakeholder event that some thought that not enough support was available to very small businesses and that support was geared too much towards the larger SMEs. The Minister has made it clear that Finance Wales has already begun a number of internal reviews of its internal working practices, as a result of the Stage 2 report on access to finance undertaken by Professor Dylan Jones-Evans, and that work is under way within Finance Wales to poll SMEs to establish market awareness. Perhaps the Minister will use today's debate as an opportunity to tell us when the results of those polls are due and when the Welsh Government will publish those results.

Very briefly, I would like to mention the final recommendation in this report, which calls on Finance Wales to adopt the same levels of transparency on its performance as that shown by other public bodies. There were concerns about the performance and transparency of Finance Wales and I very much agree with the committee's view that it needs to be much more transparent. I understand that the Welsh Government is ensuring that performance information will be made more transparent and accessible through Finance Wales's website. I hope that the Minister will continue to liaise with her officials to ensure that Finance Wales becomes much more open and transparent.

I hope, therefore, that the Minister will take forward the committee's recommendations in this report as soon as possible, notably around communication, working with SMEs and transparency. I look forward to hearing more about their implementation in due course. Of course, we on this side of the Chamber, have already published our own policy to help small businesses to access finance, called Invest Wales, which would reform Finance Wales and I hope that the Minister will look to consider some of those proposals as well as she goes forward.

Roedd hefyd yn amlwg o'r digwyddiad rhanddeiliaid fod rhai yn credu nad oedd digon o gymorth ar gael i fusnesau bach iawn, a bod cymorth wedi'i anelu'n ormodol at y BBaChau mwy o faint. Mae'r Gweinidog wedi esbonio bod Cyllid Cymru eisoes wedi dechrau nifer o adolygiadau mewnol o'i arferion gwaith mewnol, o ganlyniad i'r adroddiad Cam 2 ar fynediad at gyllid a wnaed gan yr Athro Dylan Jones-Evans, a bod gwaith ar y gweill o fewn Cyllid Cymru i gynnal polau ymysg y BBaChau er mwyn sefydlu ymwybyddiaeth o'r farchnad. Efallai y bydd y Gweinidog yn defnyddio dadl heddiw fel cyfle i ddweud wrthym pryd y daw canlyniadau'r polau hynny a phryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r canlyniadau.

Yn gryno, hoffwn sôn am argymhelliad terfynol yr adroddiad hwn, sy'n galw ar Cyllid Cymru i fabwysiadu'r un lefel o dryloywder yn ei berfformiad â'r hyn a ddangosir gan gyrff cyhoeddus eraill. Roedd pryderon am berfformiad a thryloywder Cyllid Cymru a chytunaf yn llwyr â barn y pwyllgor fod angen iddo fod yn llawer mwy tryloyw. Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei gwneud yn fwy tryloyw a hygyrch drwy wefan Cyllid Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn parhau i gysylltu gyda'i swyddogion i sicrhau bod Cyllid Cymru yn dod yn llawer mwy agored a thryloyw.

Gobeithiaf, felly, y bydd y Gweinidog yn bwrw ymlaen ag argymhellion y pwyllgor yn yr adroddiad hwn cyn gynted ag y bo modd, yn enwedig ynghylch cyfathrebu, gweithio gyda BBaChau a thryloywder. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am eu cyflawniad maes o law. Wrth gwrs, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr eisoes wedi cyhoeddi ein polisi ein hunain, o'r enw Buddsoddi Cymru, i helpu busnesau bach i ddod o hyd i gyllid. Byddai'n diwygio Cyllid Cymru ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried rhai o'r cynigion hynny yn ogystal wrth iddi symud ymlaen.

18:02

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Cyllid Cymru yn sicr wedi bod yn llwyddiant ac wedi cefnogi busnesau na fyddent wedi cael cefnogaeth banciau'r stryd fawr. Fodd bynnag, dylwn ddweud, fel un a fu'n siarad â rhai busnesau, mae busnesau sydd wedi cael profiadau gwael, ond mae'n debyg y byddai hynny'n anochel, pwy bynnag y byddech wedi'u cyfweld.

Fodd bynnag, mae cwestiwn sylfaenol ynglŷn â phwrpas Cyllid Cymru: ai offeryn datblygu economaidd ydyw, ynteu a yw'r Llywodraeth—wedi'r cwbl, corff Llywodraeth yw hwn—yn disgwyl iddo weithredu fel banc buddsoddi cyffredin a gwneud elw? Un agwedd ar waith Cyllid Cymru a oedd yn syndod i mi—mae'r Cadeirydd wedi cyfeirio at hyn—yw bod cyfran o'i fuddsoddiadau yn cael ei roi i gwmnïau a fyddai wedi gallu cael benthyciadau gan fanciau'r stryd fawr, a hynny'n rhatach. Arwyddocâd hynny, wrth gwrs, yw bod yr arian hwnnw, mewn gwirionedd, yn gwastraffu adnoddau prin a allai fynd i gwmnïau sydd mewn mwy o angen. Mae'n gwestiwn pam mae cwmnïau'n fodlon talu graddfeydd uwch am fenthyca gan Cyllid Cymru, ond mater arall yw hwnnw. Yn sicr, mae eisiau edrych ar yr agwedd honno.

Finance Wales has certainly been a success and has supported businesses that would not have received support from high street banks. However, I should say, as one who spoke to some businesses, that certain businesses have had poor experiences, but that would probably be inevitable, whoever you were interviewing.

However, there is a fundamental question about the purpose of Finance Wales: is it an economic development tool, or does the Government—after all, this is a Government body—expect it to act as a commercial investment bank and make a profit? One aspect of the work of Finance Wales that was surprising to me—the Chair has referred to this—is that a percentage of its investments was provided to companies that could have accessed loans from high street banks at lower rates. The significance of that, of course, is that that money is, in fact, wasting scarce resources that could be provided to companies in greater need. There is a question of why companies are willing to pay higher rates for loans from Finance Wales, but that is another matter. We certainly need to look at that aspect.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Agwedd arall sy'n codi cwestiynau yw diffyg craffu a thryloywder yng ngwaith Cyllid Cymru. Wrth gwrs dylai fod adroddiad blynyddol, wrth gwrs y dylai'r adroddiad hwnnw gyflwyno gwybodaeth am weithgarwch y cwmni yn eglur ac yn agored, ac wrth gwrs dylid craffu ar hwnnw gan bwyllgor yma yn y Cynulliad. Mae'n gorff rhy bwysig ac mae'n gwario arian cyhoeddus, felly rwy'n gobeithio y bydd gweithredu ar yr argymhelliad hwnnw.

Mae Cyllid Cymru wedi datblygu amrediad o sgiliau a gwybodaeth dros y blynyddoedd. Mae'n gorff eithriadol o bwysig, a dweud y gwir, a ffolineb fyddai colli hynny, ond mae lle i ystyried datblygu Cyllid Cymru a rhaglenni gwaith sy'n fwy canolog i strategaeth cefnogi a datblygu busnesau yng Nghymru. Yn wir, gallai ddatblygu i fod yn fanc Cymru go iawn, gyda 'remit' ehangach o ran cefnogi buddsoddi a mewnfuddsoddi yma yng Nghymru.

Felly, fy ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw bod Cyllid Cymru wedi cyflawni llawer ond yn ôl yr hen ymadrodd Cymraeg, nid da lle gellir gwel. Rwy'n credu mai dyletswydd a gwaith Llywodraeth Cymru yw arwain Cyllid Cymru a datblygu ei waith ymhellach i'r dyfodol.

Another aspect that raises questions is the lack of scrutiny and transparency in the work of Finance Wales. Of course there should be an annual report, of course that report should provide information on the activities of the company transparently and openly, and of course that should be scrutinised by a committee here in the Assembly. It is too important a body and is spending public money, so I hope to see action on that recommendation.

Finance Wales has developed a range of skills and knowledge over the years. It is an exceptionally important body, in fact, and it would be foolish to lose that, but there is room to develop Finance Wales and to have work programmes that are more focused on supporting and developing businesses in Wales. Indeed, it could develop into a real bank of Wales, with a wider remit to support investment and inward-investment here in Wales.

So, my response to this consultation is that Finance Wales has achieved a great deal, but there is a Welsh saying 'Nid da lle gellir gwel'—there is always room for improvement. I think that it is the duty and responsibility of the Welsh Government to lead Finance Wales and to develop its activities further for the future.

18:05

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I start by welcoming the fact that the Minister has accepted all the recommendations in the report? I think that she will be pleased to note that, at least on that point, she has achieved some consensus in the Chamber today, if not on other matters. [Laughter.]

I think that, in marketing terms, Finance Wales's problem is that many people are not clear what exactly it is there for. One of the problems that we came across in the committee was that many of the witnesses came to us with preconceptions that Finance Wales did not necessarily agree with. That is partly the reason why there are criticisms there. That is why I think that recommendation 4 is absolutely crucial in terms of this report. It says that the

'Welsh Government should clarify the aims and remit of Finance Wales. These should set out the balance between its dual roles of achieving a commercial return and contributing to economic development.'

Certainly, when the Federation of Small Businesses came to give evidence to us, it saw Finance Wales as, effectively, a development agency that was there to help small businesses to develop. Finance Wales sees itself as, effectively, a lender of last resort, if you like, and more of a commercial bank that is there to help businesses on commercial terms. Although both of those aims can work together, there are many instances where they do not, and where there is a conflict between the two. Clearly, the Minister—she has already indicated that in her response to that recommendation—needs to clarify the exact role of Finance Wales. If Finance Wales is meant to be a development bank, she needs to say so and how that is going to work. I think that that, in a sense, deals with many of the criticisms or problems that Finance Wales has faced in the lead up to this report and this particular scrutiny inquiry.

A gaf fi ddechrau drwy groesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi derbyn holl argymhellion yr adroddiad? Credaf y bydd yn falch o nodi ei bod, o leiaf ar y pwynt hwnnw, wedi cyflawni ychydig o gonsensws yn y Siambr heddiw, os nad ar faterion eraill. [Chwerthin.]

Credaf mai problem Cyllid Cymru, o ran marchnata, yw nad oes llawer o bobl yn gwbl eglur beth yn union yw ei ddiben. Un broblem y daethom ar ei thraws yn y pwyllgor oedd bod gan lawer o'r tystion ragdybiaethau, nad oedd Cyllid Cymru o reidrwydd yn cytuno â hwy. Hynny'n rhannol yw'r rheswm dros y feirniadaeth. Dyna pam rwyf yn credu bod argymhelliad 4 yn gwbl allweddol o ran yr adroddiad hwn. Mae'n dweud y

'Dylai Llywodraeth Cymru egluro nodau a chylch gwaith Cyllid Cymru. Dylai'r rhain nodi'r cydbwysedd rhwng ei ddwy rôl, sef cyflawni elw masnachol a chyfrannu at ddatblygu economaidd.'

Yn sicr, pan ddaeth y Ffederasiwn Busnesau Bach i roi tystiolaeth i ni, roedd yn ystyried bod Cyllid Cymru, yn y bôn, yn asiantaeth ddatblygu a oedd yno i helpu busnesau bach ddatblygu. Mae Cyllid Cymru yn ystyried ei hun i bob pwrpas yn fenthyciwr pan fetha popeth arall, os hoffech, ac yn fwy o fanc masnachol sydd yno i helpu busnesau ar delerau masnachol. Er y gall y ddau nod weithio gyda'i gilydd, mae llawer o achosion pan nad ydynt yn gwneud hynny, a phan geir gwrthdaro rhwng y ddau. Yn amlwg, mae angen i'r Gweinidog-ac mae hi eisoes wedi nodi hynny yn ei ymateb i'r argymhelliad hwnnw-egluo union rôl Cyllid Cymru. Os mai banc datblygu yw Cyllid Cymru i fod, mae angen iddi ddweud hynny a sut y mae'n mynd i weithio. Credaf fod hynny, mewn ffordd, yn ymdrin â llawer o'r feirniadaeth neu'r problemau y mae Cyllid Cymru wedi eu hwynebu yn y cyfnod cyn yr adroddiad a'r ymchwiliad craffu penodol hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that recommendation 5 is also important, because many of us felt on the committee that Finance Wales was, or felt that it was, above scrutiny. It was not being scrutinised to the same level as other public bodies in receipt of Government money, or in the same way. I think that that was reflected in the fact that we had great difficulty, for example, in putting our hands on an annual report and on the accounts of Finance Wales and the information about it. There has to be an understanding that, if Finance Wales is a public body being funded by public funds, delivering a particular role on behalf of Welsh Government, there has to be a means of scrutinising it, there has to be a means of asking questions of it and there has to be some transparency about how it is using those public funds and what results, outcomes and outputs are coming from the use of those funds. I think that that is particularly important in terms of how we go forward with this body. This was alluded to by previous speakers; recommendation 11 is about the levels of transparency on its performance. Again, that is highlighted in the report.

By and large, as I reflect on the contribution that Julie Morgan made, we were very surprised and pleased in terms of talking to businesses about how they viewed Finance Wales, which was far more positive than the publicity that it was getting in newspapers and the media as a result of other contributions. Part of that problem, I think, was because of the unclear view by many people as to what exactly it is there for, and how it was meant to be operating. I think that if the Minister is able to clear that up and if she is able to address the concerns of bodies such as FSB Wales that there needs to be a development bank or a development body there to help businesses when they are having particular problems, through either Finance Wales or some other agency, maybe we can all move forward together in terms of saying that this body is a useful one—I think that we all accept that it is a useful one—and one that can deliver on behalf of Wales. It is actually delivering on behalf of Wales. It is absolutely clear from talking to those businesses that many of them were very much benefiting from the help and assistance that Finance Wales was giving them, and it was not just giving them money, but giving them business support and advice, sitting on their board, and putting them in touch with other people who could help them and support them as well. I think that we as a committee felt that that was a particularly valuable role as part of that.

In conclusion, I think that recommendation 8

‘when designing future funds, both Welsh Government and Finance Wales ensure that there is sufficient flexibility to adjust interest rates and to take advantage of state aid exemptions’

is absolutely crucial. However, I believe that there is a clear role for Finance Wales, and a clear benefit to Wales of having Finance Wales. We just need to be clear that everyone else agrees what that role is, where they should be going, and what they should be delivering on that. Then, I think that we have the product that we all want to see in terms of helping business around the country.

Credaf fod argymhelliad 5 hefyd yn bwysig, gan fod llawer ohonom ar y pwyllgor yn teimlo bod Cyllid Cymru yn ystyried ei hun uwchlaw craffu. Ni châi ei graffu i'r un graddau, neu yn yr un ffordd, â chyrrff cyhoeddus eraill sy'n derbyn arian y Llywodraeth. Credaf fod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith inni gael tipyn o drafferth cael gafael ar adroddiad blynyddol ac ar gyfrifon Cyllid Cymru a'r wybodaeth amdano er enghraifft. Rhaid dod i ddealltwriaeth os yw Cyllid Cymru yn gorff cyhoeddus sy'n cael ei ariannu gan arian cyhoeddus ac yn cyflawni rôl benodol ar ran Llywodraeth Cymru, yna bydd yn rhaid cael ffordd o graffu ar hynny, bydd yn rhaid cael ffordd o ofyn cwestiynau a bydd yn rhaid cael rhywfaint o dryloywder ynglŷn â sut y mae'n defnyddio'r arian cyhoeddus hwnnw a pha effaith, canlyniadau ac allbynnau sy'n dod o ddefnyddio'r cronfeydd hynny. Rwy'n meddwl bod hynny'n arbennig o bwysig o ran y modd rydym yn parhau â'r corff hwn. Cyfeiriwyd at hyn gan siaradwyr blaenorol; mae argymhelliad 11 yn ymwneud â lefelau tryloywder ei berfformiad. Unwaith eto, tynnir sylw at hyn yn yr adroddiad.

Ar y cyfan, wrth imi ystyried cyfraniad Julie Morgan, cawsom ein synnu a'n plesio wrth siarad â busnesau ynglŷn â sut y maent yn gweld Cyllid Cymru, a oedd yn llawer mwy cadarnhaol na'r cyhoeddusrwydd a gâi yn y papurau newydd a'r cyfryngau o ganlyniad i gyfraniadau eraill. Roedd rhan o'r broblem honno, rwy'n meddwl, yn deillio o'r ffaith bod llawer o bobl yn aneglur ynglŷn â beth yn union yw ei ddiben, a sut roedd i fod i weithredu. Os gall y Gweinidog egluro hynny ac os gall fynd i'r afael â phryderon cyrrff fel Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod angen banc datblygu neu gorff datblygu i helpu busnesau pan fyddant yn cael problemau penodol, naill ai drwy Cyllid Cymru neu asiantaeth arall, efallai y gallwn i gyd symud ymlaen gyda'n gilydd o ran dweud bod y corff hwn yn un defnyddiol—credaf ein bod i gyd yn derbyn ei fod yn un defnyddiol—ac yn un sy'n gallu cyflawni dros Gymru. Mae'n cyflawni mewn gwirionedd dros Gymru. Mae'n gwbl glir ar ôl siarad â'r busnesau hynny fod llawer ohonynt yn elwa'n fawr iawn o'r help a'r cymorth roedd Cyllid Cymru yn ei roi iddynt, ac nid mater o roi arian iddynt yn unig ydoedd, ond o roi cymorth a chynngor busnes iddynt, bod yn aelodau o'u bwrdd, a'u rhoi mewn cysylltiad â phobl eraill a allai eu helpu a'u cefnogi yn ogystal. Rwy'n meddwl ein bod fel pwyllgor yn teimlo bod honno'n rôl arbennig o werthfawr fel rhan o hynny.

I gloi, rwy'n credu bod argymhelliad 8

‘wrth lunio cyllid yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru sicrhau bod digon o hyblygrwydd i addasu cyfraddau llog ac i fanteisio ar esemptiadau cymorth gwladwriaethol’

yn gwbl hanfodol. Fodd bynnag, rwy'n credu bod rôl glir ar gyfer Cyllid Cymru, ac mae budd amlwg i Gymru o gael Cyllid Cymru. Mae'n rhaid inni sicrhau bod pawb arall yn cytuno beth yw'r rôl honno, lle y dylai fod yn mynd, a'r hyn y dylai ei gyflawni ar hynny. Yna, rwy'n meddwl y bydd gennym y cynnyrch rydym i gyd yn awyddus i'w weld o ran helpu busnesau ledled y wlad.

18:10 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

I am very pleased that we are having this debate today, and I welcome the report by the Finance Committee on Finance Wales. The timing of this review could not have been better, as it was able to consider the views of stakeholders and give valuable feedback from the earlier reviews that I commissioned into SME access to finance. The findings of the report will inform the ongoing reviews into the provision of finance to SMEs, and help us to develop the right mechanisms to support businesses in Wales. The Finance Committee has confirmed my view that Finance Wales, on the whole, makes a positive contribution to the Welsh economy, and I fully agree that what is needed is a clarification of its role and remit, rather than a full-scale overhaul.

As a Government, we are committed to ensuring long-term economic growth in Wales and ensuring that our businesses are able to access appropriate and affordable forms of finance. The Finance Committee made 11 recommendations in the report, which I have accepted. They confirm many of the issues that I identified following the earlier work carried out by Professor Dylan Jones-Evans. We have already started a programme of work that will address the recommendations made in this report.

The committee's recommendations broadly cover three main themes: understanding the market gap and the need to better co-ordinate support for SMEs, which is a clear theme that has come through from everyone who has participated in the debate today; the role of Finance Wales and the development of future support, which has also come across in the contributions made today; and the need for greater transparency and clear communication about Finance Wales's role and performance. I think that that clearly came across from the evidence that the committee had taken on this, and also from contributions today.

Rwy'n falch iawn ein bod yn cael y ddatl hon heddiw, ac rwy'n croesawu'r adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid ar Cyllid Cymru. Ni allai amseriad yr adolygiad hwn fod yn well, gan ei fod wedi gallu ystyried barn rhanddeiliaid a rhoi adborth gwerthfawr o'r adolygiadau cynharach a gomisiynais ar fynediad BBaChau at gyllid. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn llywio'r adolygiadau parhaus ar ddarparu cyllid ar gyfer BBaChau, ac yn ein helpu i ddatblygu'r systemau cywir i gefnogi busnesau yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cadarnhau fy marn fod Cyllid Cymru, ar y cyfan, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi Cymru, a chytunaf yn llwyr mai'r hyn sydd ei angen yw egluro ei rôl a'i gylch gwaith, yn hytrach nag ailwampio'n llawn.

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwmo i sicrhau twf economaidd hirdymor yng Nghymru ac i sicrhau bod ein busnesau yn gallu cael mynediad at ffurfiau priodol a fforddiadwy o gyllid. Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid 11 o argymhellion yn yr adroddiad, ac rwyf wedi eu derbyn. Cadarnhânt lawer o'r materion rwyf wedi'u nodi yn dilyn y gwaith cynharach a wnaed gan yr Athro Dylan Jones-Evans. Rydym eisoes wedi dechrau ar raglen waith a fydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

Mae argymhellion y pwyllgor yn cwmpasu tair prif thema yn fras: deall y bwch yn y farchnad a'r angen i gydgyssylltu cefnogaeth i BBaChau yn well, sy'n thema amlwg a grybwyllwyd gan bawb a gymerodd ran yn y ddatl heddiw; rôl Cyllid Cymru a datblygu cymorth yn y dyfodol, sydd hefyd wedi'i grybwyll yn y cyfraniadau a wnaed heddiw; a'r angen am fwy o dryloywder a chyfathrebu dir ynglŷn â rôl a pherfformiad Cyllid Cymru. Credaf fod hynny i'w weld yn amlwg yn y dystiolaeth a gasglodd y pwyllgor ar hyn, a hefyd mewn cyfraniadau heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of understanding the market gap and the need to better co-ordinate support for SMEs, much work is already under way in the form of a number of evaluations of the JEREMIE fund and the ongoing review by Professor Dylan Jones-Evans into the feasibility of a development bank for Wales. I know that that is of interest across the Chamber. In addition, Welsh Government officials and Finance Wales will work collectively to improve intelligence surrounding the funding gap in order to better inform the development of future funding instruments. I think that that is a piece of work that will be essential to the delivery of future services by Finance Wales. I agree that if we are to get a better picture of the size and nature of the funding gap in Wales, we need to further develop our relationship and data-collecting activities with the Bank of England, the British Business Bank, and the Department for Business, Innovation and Skills. This will not be a one-off exercise. It is important to continuously monitor available data on both local and national levels to ensure that we have the right policies and products to respond to changing economic conditions. I will obviously look at what data I can make available in this particular area, because I think that Paul Davies, in his contribution, spoke about the data that can be made available.

I accept the need to better co-ordinate the way that we support SMEs, particularly those that are turned down for funding by the banks. I have asked Robert Lloyd Griffiths, director of the Institute of Directors in Wales, and chair of the Business Wales Strategic Board, to provide recommendations on how this is best achieved. Alongside that work, my officials are working on proposals for a scheme to refer businesses that are turned down by the banks to the Welsh Government business support service. I think that that is quite important to us, to link up with the commercial banks to see the type of support that we can give.

Turning now to Finance Wales, I am conscious of the need to build on the skills base and the reputation of Finance Wales in any future changes. I was interested to hear in Julie Morgan's contribution about the reputation and how it might have affected the reputation of the bank—all these inquiries and so on—but it is important that we have transparency and that we look at these issues around the role of Finance Wales, particularly given that a lot of Members are picking up concerns in their constituencies about the approach that Finance Wales had in relation to a number of businesses.

My officials are currently in discussion with Finance Wales to review and amend the organisation's remit. I want to ensure that a sensible balance is achieved between its dual roles of delivering a return on its investments and contributing to economic development in Wales. Alun Ffred's point was very interesting about why people would borrow from Finance Wales at very different levels if they could borrow from the commercial banks. This is an issue that we will have to explore: what was so attractive about Finance Wales that you actually wanted to repay more money? In the real world, you always want to get the best deal, which is the repayment of less money rather than more.

O ran deall y bwlch yn y farchnad a'r angen i gydgyssylltu cefnogaeth i BBaChau yn well, mae llawer o waith eisoes ar y gweill ar ffurf nifer o werthusiadau gan gronfa JEREMIE a'r adolygiad parhaus gan yr Athro Dylan Jones-Evans i ddichonoldeb banc datblygu ar gyfer Cymru. Gwn fod hynny o ddiddordeb ar draws y Siambr. Yn ogystal, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn gweithio ar y cyd er mwyn gwella'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r bwlch cyllido er mwyn llywio datblygiad offerynnau ariannu yn well yn y dyfodol. Rwy'n meddwl bod hwnnw'n waith hanfodol wrth gyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol gan Cyllid Cymru. Os ydym am gael gwell darlun o faint a natur y bwlch cyllido yng Nghymru, cytunaf fod angen inni ddatblygu ymhellach ein perthynas a'n gweithgareddau casglu data gyda Banc Lloegr, Banc Busnes Prydain a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Nid unwaith yn unig y cynhelir yr ymarfer. Mae'n bwysig monitro data sydd ar gael ar lefel leol a chenedlaethol yn barhaus er mwyn sicrhau bod gennym y polisiâu a'r cynnyrch cywir i ymateb i hinsawdd economaidd sy'n newid. Yn amlwg, byddaf yn edrych i weld pa ddata y gallaf ei ryddhau yn y maes penodol hwn, oherwydd credaf fod Paul Davies wedi sôn yn ei gyfraniad am y data y gellir ei ryddhau.

Rwy'n derbyn yr angen i gydgyssylltu'r modd rydym yn cefnogi BBaChau yn well, yn enwedig y busnesau y mae'r banciau yn gwrthod cyllid iddynt. Rwyf wedi gofyn i Robert Lloyd Griffiths, cyfarwyddwr Sefydliad y Cyfarwyddwyr yng Nghymru, a chadeirydd Busnes Cymru: Bwrdd Strategol, ddarparu argymhellion ar y ffordd orau o gyflawni hyn. Ochr yn ochr â'r gwaith hwnnw, mae fy swyddogion yn gweithio ar gynigion ar gyfer cynllun i atgyfeirio busnesau sy'n cael eu gwrthod gan y banciau at wasanaeth cymorth busnes Llywodraeth Cymru. Rwy'n meddwl bod hynny'n eithaf pwysig inni, er mwyn cysylltu â'r banciau masnachol i weld y math o gefnogaeth y gallwn ei roi.

Gan droi yn awr at Cyllid Cymru, rwy'n ymwybodol o'r angen i adeiladu ar sylfaen sgiliau ac enw da Cyllid Cymru mewn unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Roedd yn ddiddorol clywed yng nghyfraniad Julie Morgan am yr enw da a sut y gallai fod wedi effeithio ar enw da'r banc—yr holl ymchwiliadau hyn ac yn y blaen—ond mae'n bwysig fod gennym dryloywder a'n bod yn edrych ar y materion hyn sy'n ymwneud â rôl Cyllid Cymru, yn enwedig o ystyried bod llawer o'r Aelodau'n clywed pryderon yn eu hetholaethau ynghylch dull Cyllid Cymru o weithredu mewn perthynas â nifer o fusnesau.

Mae fy swyddogion yn trafod gyda Cyllid Cymru ar hyn o bryd er mwyn adolygu a diwygio cylch gwaith y sefydliad. Rwyf am sicrhau y gellir cael cydbwysedd synhwyrol rhwng ei ddwy rôl o ddarparu elw ar ei fuddsoddiadau a chyfrannu at ddatblygu economaidd yng Nghymru. Roedd pwynt Alun Ffred yn ddiddorol iawn ynglŷn â pham y byddai pobl yn benthycu gan Cyllid Cymru ar lefelau gwahanol iawn pe gallent fenthyg gan y banciau masnachol. Mae hwn yn fater y bydd yn rhaid inni edrych arno: beth oedd mor ddeniadol am Cyllid Cymru fel eich bod yn awyddus i ad-dalu mwy o arian? Yn y byd go iawn, rydych bob amser yn awyddus i gael y fargen orau, sef ad-dalu llai o arian yn hytrach na mwy.

It is essential that the remit allows sufficient flexibility to meet changing economic conditions. This will include due consideration of the interest rate and management fee charges, and ensuring that we maximise state aid cover. I think that that is a very important point that arises from the committee's inquiry. I am very clear that Finance Wales needs to significantly improve its stakeholder engagement. That has been reinforced by the report. I will be focusing particular attention to ensure major improvements in the transparency and effectiveness of communication. As an early deliverable, I have asked Finance Wales to provide more information to businesses on the aims and objectives of each of its funds, so that businesses have clarity. The interest rate policies and fees for each fund, along with other lending policies, will be made clear via the Finance Wales website and in information provided to businesses. Otherwise, businesses will not know what Finance Wales has to offer.

Like all organisations, Finance Wales must continuously challenge the way that it operates to ensure that it gives the best possible service to its customers. In response to some of the challenges raised, Finance Wales has already begun a number of internal reviews of its working practices. This will be further supplemented by the work already under way with Finance Wales, in conjunction with my officials, to obtain direct customer feedback, which I think is also important. This should not only provide details of customers' experiences, but it should also help to establish levels of awareness of Finance Wales and the funding that it provides. In order to address market awareness concerns, I directed my officials to continue their work with Finance Wales to help deliver clearer communications and marketing strategies. To maximise the knowledge of Finance Wales's products and services, a blended approach to marketing and communication needs to be adopted. Activities such as an improved website and roadshows will communicate directly with potential borrowers, particularly small businesses. I hope that that will help to address some of the issues that have been raised by the Federation of Small Businesses. This will be supplemented by strengthening the existing referral process operated with the banks, intermediaries and other business groups, and delivered in a co-ordinated manner with Business Wales.

Finally, as well as improving the market's knowledge of Finance Wales, I am keen that it is seen to be transparent and subject to appropriate levels of scrutiny. My officials are working with Finance Wales continually to improve the quality of performance data that it provides and the evaluation of its ongoing performance. Performance information will be made more transparent and accessible through Finance Wales's website and the annual report in its future accounts. While Finance Wales is already subject to various departmental controls and board scrutiny, in the future, I will also be requiring it to present its annual report and accounts to a relevant committee of the Assembly for scrutiny each year. I have to say that I am very pleased with the report, and I was delighted to accept all of the recommendations. I will be more than happy to report back to a Plenary meeting in the course of the next six months to show how we can update the performance of Finance Wales.

Mae'n hanfodol i'r cylch gorchwyl ganiatau digon o hyblygrwydd i allu ymdopi â hinsawdd economaidd sy'n newid. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth briodol i'r gyfradd llog a thaliadau ffioedd rheoli, a sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar sicrwydd cymorth gwladwriaethol. Rwy'n meddwl bod hynny'n bwynt pwysig iawn sy'n codi o ymchwiliad y pwyllgor. Rwy'n pwysleisio bod angen i Cyllid Cymru wella ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn sylweddol. Mae hynny wedi'i gadarnhau gan yr adroddiad. Byddaf yn canolbwyntio'n arbennig ar sicrhau gwelliannau mawr o ran tryloywder ac effeithiolrwydd cyfathrebu. Fel rhywbeth y gellir ei gyflawni'n gynnar, rwyf wedi gofyn i Cyllid Cymru roi mwy o wybodaeth i fusnesau am nodau ac amcanion pob un o'i gronfeydd, er mwyn sicrhau eglurder i fusnesau. Bydd polisiau cyfraddau llog a ffioedd pob cronfa, ynghyd â pholisïau benthycia eraill, yn cael eu gwneud yn eglur drwy wefan Cyllid Cymru ac mewn gwybodaeth a roddir i fusnesau. Fel arall, ni fydd busnesau'n gwybod beth sydd gan Cyllid Cymru i'w gynnig.

Fel pob sefydliad, rhaid i Cyllid Cymru herio'r modd y mae'n gweithredu yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i'w gwsmeriaid. Mewn ymateb i rai o'r heriau a grybwyllwyd, mae Cyllid Cymru eisoes wedi dechrau ar nifer o adolygiadau mewnol ar ei arferion gwaith. Bydd hyn yn cael ei ategu ymhellach gan y gwaith sydd eisoes ar y gweill gyda Cyllid Cymru, ar y cyd â fy swyddogion, er mwyn cael adborth uniongyrchol gan gwsmeriaid, sydd hefyd yn bwysig yn fy marn i. Dylai hyn nid yn unig ddarparu manylion am brofiadau cwsmeriaid, ond dylai hefyd helpu i sefydlu lefelau o ymwybyddiaeth o Cyllid Cymru a'r arian y mae'n ei ddarparu. Er mwyn ymdrin â phryderon yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r farchnad, cyfeiriais fy swyddogion i barhau â'u gwaith gyda Cyllid Cymru er mwyn helpu i ddarparu cyfathrebu a strategaethau marchnata cliriach. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar wybodaeth am gynnyrch a gwasanaethau Cyllid Cymru, mae angen mabwysiadu dull cymysg o farchnata a chyfathrebu. Bydd gweithgareddau fel gwefan well a sioeau teithiol yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda benthycwyr posibl, yn enwedig busnesau bach. Rwy'n gobethio y bydd yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach. Caiff hyn ei ategu drwy gryfhau'r broses gyfeirio bresennol a weithredir gyda'r banciau, canolwyr a grwpiau busnes eraill, a'u darparu mewn modd cydgysylltiedig gyda Busnes Cymru.

Yn olaf, yn ogystal â gwella gwybodaeth y farchnad am Cyllid Cymru, rwy'n awyddus ei fod i'w weld yn dryloyw ac yn ddarostyngedig i lefelau craffu priodol. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Cyllid Cymru yn barhaus i wella ansawdd data perfformiad y mae'n ei ddarparu a gwerthuso ei berfformiad parhaus. Bydd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei gwneud yn fwy tryloyw a hygyrch drwy wefan Cyllid Cymru a'r adroddiad blynyddol yn ei gyfrifon yn y dyfodol. Er bod Cyllid Cymru eisoes yn ddarostyngedig i nifer o reolaethau adrannol a chraffu gan y bwrdd, yn y dyfodol byddaf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno ei adroddiad blynyddol a chyfrifon gerbron pwyllgor Cynulliad perthnasol ar gyfer eu craffu bob blwyddyn. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn falch iawn o'r adroddiad, ac roeddwn yn falch iawn o dderbyn yr holl argymhellion. Byddaf yn fwy na pharod i adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn yn ystod y chwe mis nesaf i ddangos sut y gallwn ddiweddarau perfformiad Cyllid Cymru.

18:17 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call on the Chair of the Finance Committee to reply to the debate.

Diolch i chi, Weinidog. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:18 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was quite interesting to hear some of those comments. Julie Morgan reminded us how interesting the whole inquiry was and how concerned we were that the reputation of Finance Wales might be damaged by negative publicity. She was perfectly correct in saying that some who came to the business breakfast were not glowing in their views about Finance Wales. However, we had a feeling that some businesses should not have been referred to it in the beginning, and perhaps that was a mistake.

Roedd yn eithaf diddorol clywed rhai o'r sylwadau hynny. Cawsom ein hatgoffa gan Julie Morgan pa mor ddiddorol oedd yr holl ymchwiliad a pha mor bryderus yr oeddem y gallai enw da Cyllid Cymru gael ei niweidio gan gyhoeddusrwydd negyddol. Roedd yn berffaith gywir i ddweud nad oedd rhai o'r bobl a ddaeth i'r brecwast busnes yn hael eu barn am Cyllid Cymru. Fodd bynnag, roedd gennym deimlad na ddylai rhai busnesau fod wedi cael eu hatgyfeirio ato ar y dechrau, ac efallai mai camgymeriad oedd hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 18:18.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 18:18.

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Julie also mentioned the JEREMIE fund, and we were pleased with the reputation that Finance Wales has in administering the JEREMIE fund. The flexibility that Finance Wales offers in administering new funds is well worth preserving, we think. It gave us the example of a new housing fund that was being promoted by the Welsh Government. It was able to take that on and get it up and running very quickly. It is a shame not to utilise an existing body when you have a new scheme.

Soniodd Julie hefyd am gronfa JEREMIE, ac roeddem yn falch o'r enw da sydd gan Cyllid Cymru am weinyddu cronfa JEREMIE. Mae'r hyblygrwydd y mae Cyllid Cymru yn ei gynnis wrth weinyddu cronfeydd newydd yn werth ei gadw yn ein barn ni. Rhoddodd enghraifft o gronfa tai newydd a gâi ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru. Gallodd gyflawni hynny a'i roi ar waith yn gyflym iawn. Mae'n drueni peidio â defnyddio corff sydd eisoes yn bodoli pan fo gennyh gynllun newydd.

Paul Davies reminded us, of course, that there was little awareness of Finance Wales among some businesses. I would agree. It did seem, however, that Finance Wales was well-known among a certain elite profession. I had the uneasy feeling that there might have been a bit of gatekeeping going on there, whereas businesses should not have to go through somebody else in order to get to Finance Wales. We should keep an eye on that because this is not solely a commercial venture. It is using public funds, and it should be there for the public good.

Cawsom ein hatgoffa gan Paul Davies, wrth gwrs, nad oedd fawr o ymwybyddiaeth o Cyllid Cymru ymhlith rhai busnesau. Byddwn yn cytuno. Fodd bynnag, ymddangosai fod Cyllid Cymru yn gyfarwydd o fewn proffesiwn elitaidd penodol. Cefais y teimlad anesmwyth efallai bod tipyn o ddiidoli wedi digwydd yno, ond na ddylai busnesau orfod mynd drwy rywun arall er mwyn cyrraedd Cyllid Cymru. Dylem gadw llygad ar hynny oherwydd nid menter fasnachol yn unig yw hon. Mae'n defnyddio arian cyhoeddus, a dylai fod yno er lles y cyhoedd.

There is a gap for very small businesses. We found at the business breakfast that there were people or start-ups that wanted very small sums indeed—those that did not have any assets, for example. Finance Wales did not seem to be offering them what they needed, and perhaps Finance Wales should not be seen as the vehicle for that, but there is certainly a gap there.

Mae bwlch yn bodoli mewn perthynas â busnesau bach iawn. Yn y brecwast busnes, gwelsom fod rhai pobl neu fusnesau newydd eisiau swm bach iawn yn wir—rhai nad oedd ganddynt unrhyw asedau, er enghraifft. Ymddangosai nad oedd Cyllid Cymru yn cynnis yr hyn roeddent ei angen, ac efallai na ddylai Cyllid Cymru gael ei weld fel y cyfrwng ar gyfer hynny, ond mae bwlch yno'n sicr.

I am glad that Paul mentioned transparency, because Finance Wales's representatives told us, anyway, that they would be very pleased if they were scrutinised more often. They ought to be careful what they wish for, because I think we may very well be returning to that on a regular basis.

Rwy'n falch bod Paul wedi crybwyll tryloywder, gan fod cynrychiolwyr Cyllid Cymru wedi dweud wrthym y byddent yn falch iawn pe bai eu gwaith yn cael ei graffu'n amlach. Dylent fod yn ofalus o'r hyn y maent yn ei ddimuno, gan fy mod yn meddwl y gallem yn hawdd fod yn dychwelyd at hynny'n rheolaidd.

Alun Ffred Jones mentioned some very poor experiences that people had and, of course, even though it was a very small number of people, they had very strong feelings about that, as you can imagine, and they had a point, because some of them could tell stories of where their time had just been completely wasted, and that was not right. Of course, it was also disappointing to hear that, for some, the interest rate that they were being charged meant that they could have got a better deal on the open market. Of course, the money that was lent to those was then not available to lend to others. So, there is a knock-on effect for others as well from that.

Peter Black, we do seem united, quite rightly, in being pleased that the Minister has accepted all the recommendations. We hope as well, Minister, that we can help you with your thoughts on Finance Wales as well as with our recommendations. There was confusion, it seemed, as to whether Finance Wales was a lender of last resort or a development bank. There did seem to be a confusion of these roles. You cannot be everything to everybody, because you are going to disappoint a lot of people if you try. It is public money, and it is a public body, even if it is at arm's length, and we must have appropriate scrutiny. I thought the fact that people could not get hold of the annual report said it all—although some people had easy access to the annual report and offered to show it to us, which I thought was interesting.

Our committee, Minister, is more than happy to help you to scrutinise Finance Wales—that is, of course, in addition to your own processes. Again, Peter mentioned this issue of negative publicity, because damaging the reputation of a financial institution is, I think, a very dangerous thing to do, so we do need to be careful about the language that we use. We certainly did not want to see the baby thrown out with the bathwater, because there was much good here to be preserved.

I am glad that when the Minister made her contribution, she was grateful in her acknowledgement of the fact that our timing was useful, as well as the content of our report being helpful. You mentioned the market gap, but I do not think that Finance Wales, or the Welsh Government, actually, can be expected to fill that gap entirely, although we think it would be helpful if we were able to identify it and determine it, just to see what is actually needed. Also, of course, we are very happy to hear about additional support that could be available for SMEs that it would not be appropriate for Finance Wales to do.

I think that the increase in transparency might help in terms of that reputational risk, but of course, we have to be careful of exactly how much transparency we ask for, because, if it is not appropriate, that could be a risk in itself. We would certainly be happy to look at the policies to do with interest rates, because we found that Finance Wales could be flexible when it so chose. In fact, we heard about enterprise zones and that it could decide in one afternoon that all the businesses in an enterprise zone were a lower risk. Even those of us who are not financial wizards found that a little bit weak.

Soniodd Alun Ffred Jones am rai profiadau gwael iawn a wynebodd rhai pobl ac wrth gwrs, er mai nifer fach iawn o bobl oeddent, roedd ganddynt deimladau cryf iawn ynglŷn â hynny, fel y gallwch ddychmygu, ac roedd ganddynt bwynt, oherwydd gallai rhai ohonynt adrodd straeon am y modd y gwastraffwyd eu hamser yn llwyr, ac nid oedd hynny'n deg. Roedd yn siomedig clywed hefyd fod y gyfradd llog a gâi ei chodi arnynt yn golygu y gallent fod wedi cael bargaen well ar y farchnad agored. Wrth gwrs, nid oedd yr arian a fenthycwyd i'r rheini ar gael wedyn i'w fenthgy i eraill. Felly, mae effaith ganlyniadol i eraill hefyd o hynny.

Peter Black, rydym i'n gweld yn unedig yn ein pleser fod y Gweinidog wedi derbyn yr holl argymhellion, ac mae hynny'n iawn. Rydym yn gobeithio hefyd, Weinidog, y gallwn eich helpu gyda'ch syniadau chi ar gyfer Cyllid Cymru yn ogystal â'n hargymhellion ni. Ymddangosai fod dryswch pa un ai benthycwr pan fetha popeth arall neu fanc datblygu oedd Cyllid Cymru. Roedd dryswch i'w weld ynglŷn â'r rolau hyn. Ni allwch fod yn bopeth i bawb, oherwydd rydych yn mynd i siomi llawer o bobl wrth geisio gwneud hynny. Arian cyhoeddus ydyw, ac mae'n gorff cyhoeddus, hyd yn oed os yw'n gorff hyd braich, ac mae'n rhaid inni gael trefn graffu briodol. Yn fy marn i, roedd y ffaith na ellid cael gafael ar yr adroddiad blynyddol yn dweud y cwbl—er bod rhai wedi cael gafael ar yr adroddiad blynyddol yn rhwydd ac wedi cynnig ei ddangos i ni, sy'n ddiddorol yn fy marn i.

Mae ein pwyllgor, Weinidog, yn fwy na pharod i'ch helpu i graffu ar Cyllid Cymru—yn ychwanegol at eich prosesau eich hunain wrth gwrs. Soniodd Peter unwaith eto am gyhoeddusrwydd negyddol, gan fod niweidio enw da sefydliad ariannol yn beth peryglus iawn i'w wneud yn fy marn i, felly mae angen inni fod yn ofalus ynglŷn â'r iaith a ddefnyddiwn. Yn bendant, nid oeddem am gollir da wrth gael gwared ar y drwg gan fod llawer o dda yma i'w gadw.

Pan wnaeth y Gweinidog ei chyfraniad, rwy'n falch ei bod wedi cydnabod pa mor ddefnyddiol oedd ein hamseriad yn ogystal â chynnwys ein hadroddiad. Soniasoch am y bwlbwch yn y farchnad, ond nid wyf yn credu y gellir disgwyl i Cyllid Cymru, na Llywodraeth Cymru, lenwi'r bwlbwch hwnnw yn gyfan gwbl, er ein bod yn credu y byddai'n ddefnyddiol inni allu ei nodi a'i bennu er mwyn gweld beth sydd ei angen mewn gwirionedd. Hefyd, wrth gwrs, rydym yn falch iawn o glywed am gymorth ychwanegol a allai fod ar gael i BBaChau na fyddai'n briodol i Cyllid Cymru ei roi.

Credaf y gallai mwy o dryloywder fod o gymorth o ran y risg i enw da, ond mae'n rhaid inni fod yn ofalus faint yn union o dryloywder rydym yn gofyn amdano, oherwydd os nad yw'n briodol, gallai fod yn risg ynddo'i hun. Byddem yn sicr yn hapus i edrych ar y polisiau sy'n ymwneud â chyfraddau llog, oherwydd gwelsom y gallai Cyllid Cymru fod yn hyblyg pan oedd yn dewis bod. Yn wir, clywsom am ardaloedd menter ac y gallai benderfynu mewn un prynhawn fod yr holl fusnesau mewn ardal fenter yn llai o risg. Roedd hyd yn oed y rhai ohonom nad ydym yn ddewiniaid ariannol yn teimlo bod hynny braidd yn wan.

I think that the equity activities are something that escaped us on this occasion, because we did not really have enough time to go into them. Whichever committee returns to this at a later time, it should be looking at the equity activities, because I am sure that they would be very interesting indeed.

We have to acknowledge that businesses and people who are running businesses have very little time, and that time must not be wasted. So, Minister, when you get the customer feedback, it must be used and not just taken and then perhaps defended against or ignored. It has to be used.

Just to conclude, then, we hope that Finance Wales benefits from the work that we have done and that SMEs in Wales have its services for many years to come.

Rwy'n meddwl bod y gweithgareddau ecwiti yn rhywbeth a lithrodd drwy'r rhwyd ar yr achlysur hwn gan nad oedd gennym ddigon o amser mewn gwirionedd i ymdrin â hwy. Dylai pa bynnag pwyllgor sy'n dychwelyd at hyn yn nes ymlaen edrych ar y gweithgareddau ecwiti, oherwydd rwy'n siŵr y byddent yn ddiddorol iawn yn wir.

Mae'n rhaid inni gydnabod mai ychydig iawn o amser sydd gan fusnesau a phobl sy'n rhedeg busnesau, ac na ddylid gwastraffu amser. Felly, Weinidog, pan fyddwch yn derbyn adborth gan gwsmeriaid, mae'n rhaid ei ddefnyddio ac nid ei gymryd yn unig ac yna amddiffyn rhagddo, efallai, neu ei anwybyddu. Mae'n rhaid iddo gael ei ddefnyddio.

I gloi felly, rydym yn gobeithio y bydd Cyllid Cymru yn elwa o'r gwaith rydym wedi'i wneud, ac y bydd ei wasanaethau ar gael i BBaChau Cymru am flynyddoedd lawer i ddod.

18:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Finance Committee's report. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:24 **Cyfnod Pleidleisio**
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have arrived at voting time, but I hope that Members are not too crestfallen to hear that there is nothing to vote on, because consensus has rained this afternoon, which is appropriate on the last day before the summer recess. I ask any Member who is now going to leave the Chamber to do so quickly and quietly.

Voting Time

Rydym wedi cyrraedd y cyfnod pleidleisio, ond rwy'n gobeithio nad yw'r Aelodau'n rhy ddigalon o glywed nad oes ddim i bleidleisio yn ei gylch, gan ein bod wedi cael llawer o gonsensws y prynhawn yma, sy'n briodol ar y diwrnod olaf cyn toriad yr haf. Gofynnaf i bob Aelod sydd am adael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:25 **Dadl Fer: Chwarae Teg? Amser i Ymgynghori ar Daliadau Comisiwn Tecach wrth Werthu Cartrefi mewn Parciau**

The final item is the short debate and I call on Eluned Parrott to speak to the topic that she has chosen.

Short Debate: A Fair Slice? Time to Y Consult on Fairer Commissions on Park Home Sales

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr eitem olaf yw'r ddadl fer a galwaf ar Eluned Parrott i siarad am y pwnc y mae wedi'i ddewis.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:25 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Today, the subject of my debate is one that Members will be used to hearing my Lib Dem colleagues and I raising in this Chamber; namely, to ensure a fair deal for park home residents in Wales. I would like, at the outset, to pay tribute to the work done by both Kirsty Williams and, of course, Peter Black in fighting for that aim, and other Members as well.

Heddiw, bydd testun fy nadl yn un y mae'r Aelodau wedi arfer clywed fy nghydweithwyr o blith y Democratiaid Rhyddfrydol a minnau'n ei lleisio yn y Siambr hon; sef sicrhau bargaen deg i breswylwyr cartrefi mewn parciau yng Nghymru. Hoffwn roi teyrnged ar y dechrau i'r gwaith a wnaed gan Kirsty Williams a Peter Black, wrth gwrs, yn ymladd dros y nod hwnnw, ac Aelodau eraill yn ogystal.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Some of the campaigners who have been fighting for a fairer deal for park home owners are in the public gallery this evening. I would like to thank them, not only for their attendance today, but also for their tireless campaigning to improve the lives of park home residents in Wales, which is very much appreciated—I am sure—by your colleagues across the country. I hope that the commencement of Peter Black's Mobile Homes (Wales) Act 2013 in the autumn will have a significant impact on many of the issues that they have raised with Members in this Chamber over a long period of time.

The introduction of a fit-and-proper-person test for site owners, the removal of the ability of site owners to block sales, giving greater freedom to establish and join residents' associations, and a more modern regulatory framework for park sites in general will, I hope, have a dramatic impact on the quality of life that people living in these sites enjoy. It is a fundamental human right to be able to live without fear of intimidation in our own homes. I hope that we are finally seeing that right being extended to all of the people who are living in park homes in Wales, thanks to the legislation that has already been passed. I thank the Minister for his support for that legislation as it was processed.

However, one issue remains—a source of real concern for those residents—and it was the subject of a petition recently considered by our Petitions Committee; namely, the issue of the commission that park home owners have to pay to the site owners when they sell their properties and wish to move on. For those in the Chamber who have somehow missed this issue—but, I would find it difficult to imagine that anyone could have—let me set out the situation as it is at the moment.

When someone wants to sell a park home, site owners are able to levy a commission of up to 10% on the sale value of that home. The site owners are not obliged to do anything to assist in the sale in order to levy that fee; they simply have the right to do so. I have heard some people suggest that it is just like paying an estate agent's fee when you want to sell any kind of property. Well, it is not equivalent to an estate agent's fee for several reasons. Firstly, an estate agent has to actually market your home. Secondly, there is an open market where you are free to choose the agent that gives you the best service for the fees it charges. Finally, of course, because there is an open market, they almost always charge a lot less than 10% of the purchase price, which is what park home owners face as a commission. A park home owner who wishes to sell will still have to pay an estate agent to market their property, in any case. This is an additional fee that we are talking about. The commission on the sale of park homes simply exists, regardless of the actions of the site owner in supporting the sale of that home.

Mae rhai o'r ymgyrchwyr sydd wedi bod yn ymladd am fargen decach i berchnogion cartrefi mewn parciau yn yr oriel gyhoeddus heno. Hoffwn ddiolch iddynt, nid yn unig am eu presenoldeb heddiw, ond hefyd am eu hymgyrchu diflino i wella bywydau preswylwyr cartrefi mewn parciau yng Nghymru, sy'n cael ei werthfawrogi—rwy'n siŵr—gan eich cydweithwyr ledled y wlad. Rwy'n gobeithio y caiff cychwyn Deddf Cartrefi Symudol Peter Black (Cymru) 2013 yn yr hydref effaith sylweddol ar lawer o'r materion y maent wedi'u dwyn i sylw'r Aelodau yn y Siambr hon dros gyfnod hir o amser.

Gobeithio y bydd cyflwyno prawf person addas a phriodol ar gyfer perchnogion safleoedd, cael gwared ar allu perchnogion safleoedd i atal gwerthiant, rhoi mwy o ryddid i sefydlu ac ymuno â chymdeithasau preswylwyr, a fframwaith rheoleiddio mwy modern ar gyfer parciau, yn gyffredinol yn cael effaith ddramatig ar ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ar y safleoedd hyn. Mae gallu byw heb ofni bygythiadau yn ein cartrefi ein hunain yn hawl ddynol sylfaenol. Rwy'n gobeithio ein bod o'r diwedd yn gweld yr hawl honno yn cael ei hestyn i bob un o'r bobl sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau yng Nghymru, diolch i'r ddeddfwriaeth sydd eisoes wedi cael ei phasio. Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei gefnogaeth i'r ddeddfwriaeth honno wrth iddi gael ei phrosesu.

Fodd bynnag, mae un mater yn parhau—sy'n ffynhonnell pryder go iawn i'r preswylwyr hynny—ac roedd yn destun deiseb y bu ein Pwyllgor Deisebau yn ei hystyried yn ddiweddar; sef mater y comisiwn sy'n rhaid i berchnogion cartrefi mewn parciau ei dalu i berchnogion safleoedd pan fyddant yn gwerthu eu heiddo ac yn dymuno symud ymlaen. Ar gyfer y rhai hynny yn y Siambr sydd wedi methu'r mater hwn rywsut—ond rwy'n ei chael yn anodd dychmygu sut y gallai neb fod wedi gwneud hynny—gadewch imi nodi'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.

Pan fo rhywun yn dymuno gwerthu cartref mewn parc, gall perchnogion y safle godi comisiwn o hyd at 10% ar bris gwerthu'r cartref hwnnw. Nid oes rhaid i berchnogion safle gwneud unrhyw beth i gynorthwyo yn y gwerthiant er mwyn codi'r ffi honno; yn syml, mae ganddynt hawl i wneud hynny. Rwyf wedi clywed rhai pobl yn awgrymu ei fod yn union fel talu ffi gwerthwr tai pan fyddwch eisiau gwerthu eiddo o unrhyw fath. Wel, nid yw'n cyfateb i ffi gwerthwr tai am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae'n rhaid i werthwr tai fynd ati i farchnata eich cartref. Yn ail, ceir marchnad agored lle rydych yn rhydd i ddewis yr asiant sy'n rhoi'r gwasanaeth gorau i chi am y ffioedd y mae'n eu codi. Yn olaf wrth gwrs, oherwydd bod marchnad agored, maent bron bob amser yn codi llawer llai na 10% o'r pris prynu, sef yr hyn y mae perchnogion cartref mewn parc yn ei wynebu fel comisiwn. Bydd yn rhaid i berchennog cartref mewn parc sy'n dymuno gwerthu dalu gwerthwr tai i farchnata eu heiddo beth bynnag. Ffi ychwanegol yw'r hyn rydym yn sôn amdano. Mae'r comisiwn ar werthu cartrefi mewn parc yn bodoli beth bynnag y bydd perchennog y safle yn ei wneud o ran cefnogi gwerthiant y cartref hwnnw.

The signatories to the petition that I mentioned earlier believe that this situation is deeply unfair. Welsh Ministers have the power to alter and set this rate of commission. When we debated the mobile homes Bill, I tabled an amendment to ensure that any changes would be subject to a vote in this Chamber. Sadly, that amendment was not passed. I would like to return to that subject, and why I believe it is important, shortly. But, before I move on to that, I would like to look at some of the economic aspects of park home ownership and sales.

Living in a park home should be similar to living in any other form of leasehold premises on a day-to-day basis: you pay a rent or mortgage; you pay council tax, site fees to the site owner, and service charges for the utilities that you use. There have been many concerns around the level of service charges and a number of other issues too, but the payments due are fairly clear to see.

However, when wanting to move, the situation is very different. In addition to the usual moving fees—solicitor's fees, estate agent's fees and the cost of the new home—the park home resident, uniquely, has to pay the site owner up to 10% commission for the privilege of not living there anymore. It is the least transparent aspect of living in a park home. I fear that it disproportionately affects older people, who often choose park homes as retirement properties. It is not something that they are necessarily aware of. As residents pay when they sell their home, they are not necessarily, as I said, fully aware of the implications of this levy when they buy, and, indeed, when we were discussing this issue previously, we had evidence from a number of individuals to support that concern. Many park home residents have reported that they were not told about this commission when they bought their home and therefore could not consider it properly when weighing up decisions and looking at the lifetime cost of the home they intend to buy.

With regard to pitch fees, although there are issues with them, they are open and transparent for all to see, and they are a point of competition between park home sites when attracting new residents. The commission on sales—an exit tax, frankly, if you want to look at it in that way—is not open and transparent, comes as a surprise to many and is a considerable barrier to people who wish to move on.

Mae llofnodwyr y ddeiseb a grybwyllais yn gynharach yn credu bod y sefyllfa hon yn annheg iawn. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i newid a gosod y gyfradd hon o gomisiwn. Pan drafodasom y Bil cartrefi symudol, cyflwynais welliant i sicrhau y byddai unrhyw newidiadau yn amodol ar bleidlais yn y Siambr hon. Yn anffodus, ni phasiwyd y gwelliant hwnnw. Yn y man, hoffwn ddychwelyd at y pwnc hwnnw, a pham rwy'n credu ei fod yn bwysig. Ond cyn imi symud ymlaen at hynny, hoffwn edrych ar rai o agweddau economaidd perchnogaeth a gwerthiant cartrefi mewn parc.

Dylai byw mewn cartref mewn parc fod yn debyg i fyw mewn unrhyw fath arall o fangre lesddaliadol o ddydd i ddydd: byddwch yn talu rhent neu forgais; byddwch yn talu'r dreth gyngor, ffioedd safle i berchennog y safle, a thaliadau gwasanaeth am y cyfleustodau rydych yn eu defnyddio. Cafwyd llawer o bryderon ynghylch lefel y taliadau gwasanaeth a nifer o faterion eraill hefyd, ond mae'r taliadau sy'n ddyledus yn weddol amlwg.

Fodd bynnag, pan fo rhywun eisiau symud, mae'r sefyllfa'n wahanol iawn. Yn ychwanegol at y ffioedd symud arferol—ffioedd cyfreithiwr, ffioedd gwerthwr tai a chost y cartref newydd—rhaid i breswlydd cartref mewn parc dalu hyd at 10% o gomisiwn i'r perchennog safle am y ffrwyd o beidio â byw yno mwyach. Dyna'r agwedd leiaf tryloyw o fyw mewn cartref mewn parc. Ofnaf ei fod yn cael effaith anghymesur ar bobl hŷn, sy'n aml yn dewis cartrefi mewn parciau fel eiddo ymdddeol. Nid yw'n rhywbeth y maent o reidrydd yn ymwybodol ohono. Gan mai wrth werthu eu cartref y bydd preswylwyr yn talu, fel y dywedais, nid ydynt o reidrydd yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r ardoll hon pan fyddant yn prynu. Yn wir, pan oeddem yn trafod y mater hwn o'r blaen, cawsom dystiolaeth gan nifer o unigolion i ategu'r pryder hwnnw. Mae llawer o breswylwyr cartrefi mewn parciau wedi sôn na chawsant wybod am y comisiwn hwn wrth iddynt brynu eu cartref ac felly ni allasant ystyried y peth yn iawn wrth bwysio a mesur penderfyniadau ac edrych ar gost oes gyfan y cartref y maent yn bwriadu ei brynu.

O ran ffioedd lleiniau, er bod materion yn codi yn eu cylch, maent yn agored ac yn dryloyw i bawb eu gweld, ac maent yn destun cystadleuaeth rhwng safleoedd cartrefi mewn parciau wrth ddenu preswylwyr newydd. Nid yw'r comisiwn ar werthiannau—treth ymadael, a dweud y gwir, os edrychwch arni yn y ffordd honno—yn agored ac yn dryloyw, sy'n syndod i lawer ac mae'n rhwystr sylweddol i bobl sy'n dymuno symud ymlaen.

The economics of the park home industry are complex, and I recognise that. Back in 2001, the then UK Government commissioned a report to examine the balance between pitch fees, commissions and other charges that park home residents pay. That report by Berkeley Hanover, published back in 2002, had some interesting findings, although there are weaknesses in the report, which I am sure residents raised with the Minister in their meeting with him earlier today. The first one that jumps out is the level of commission that is usually charged. The report found that the average rate was 7% at that time, but I am by no means convinced that that is still the case. While 10% is, of course, the maximum that a site owner can charge, in the conversations that I have had with park home residents, I am not aware of any site owners who charge less than the full 10% that the law allows.

Of course, there is no incentive for a site owner to charge less than 10%, as this is a fee on exit once people already live there. Once someone lives on your site, they are a captive market and, if you are losing a customer, you have no reason to incentivise that by giving them a discount on leaving, nor does it make any commercial sense for a site owner to advertise that their exit charges are lower than someone else's, because you would hardly want to point out to potential buyers that you will levy a charge on them simply for wanting to leave. No, a site owner dealing with a potential new resident will be selling the benefits of their site in terms of its facilities and location, and the price calculation that they will focus on is the most obvious one: the pitch fees.

It is the hidden nature of this cost that really concerns me. If the cost is buried in the small print somewhere, many prospective residents, however diligently they look into the paperwork, will miss it and will not take it into account when they are making financial decisions about purchasing a park home. Those individuals can then find themselves trapped in a property that they wish to leave because they cannot afford to move on if they have to pay a 10% commission on the purchase price of their home. It is not so much a golden handcuff as a plain, old-fashioned ball and chain, and it acts as a barrier to movement in that market. I find that ironic in a sense, because another finding in the Berkeley Hanover report is that demand outstripped supply for park homes across the UK as a whole at the time when it undertook that survey. If we cannot satisfy the demand for park homes, then, clearly, we need to encourage movement in the market and we do not want people who want to move on to be forced to stay. The 10% commission is perverse in that it encourages the stagnation of the market for park homes, and I would suggest that more movement in the market could bring opportunities for growth and investment in the sector, which can only be a good thing for site owners as well as residents, in particular. So, if demand is still outstripping supply, then surely now is the time for the Welsh Government to examine ways to remove some of these barriers.

Mae economeg y diwydiant cartrefi mewn parciau yn gymhleth, ac rwy'n cydnabod hynny. Yn ôl yn 2001, comisiynodd Llywodraeth y DU ar y pryd adroddiad i archwilio'r cydbwysedd rhwng ffioedd lleiniau, comisiynau a thaliadau eraill y bydd preswylwyr cartrefi mewn parciau yn eu talu. Roedd canfyddiadau'r adroddiad hwnnw gan Berkeley Hanover, a gyhoeddwyd yn ôl yn 2002, yn ddi-ddorol er ei fod yn cynnwys rhai gwendidau, ac rwy'n siŵr fod preswylwyr wedi cyfeirio atynt yn eu cyfarfod gyda'r Gweinidog yn gynharach heddiw. Y mwyaf amlwg yw lefel y comisiwn a godir fel arfer. Canfu'r adroddiad mai'r gyfradd gyfartalog oedd 7% ar y pryd, ond nid wyf yn argyhoeddedig o gwbl fod hynny'n parhau i fod yn wir. Wrth gwrs, er mai 10% yw'r uchafswm y gall perchennog safle ei godi, yn y sgysiau a gefais gyda phreswylwyr cartrefi mewn parciau, nid wyf yn ymwybodol o berchnogion safle sy'n codi llai na'r 10% llawn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu.

Wrth gwrs, nid oes cymhelliant i berchennog safle godi llai na 10%, gan mai ffi wrth adael yw hon pan fydd pobl eisoes yn byw yno. Pan fydd rhywun yn byw ar eich safle, maent yn farchnad gaeth, ac os ydych yn colli cwsmer, nid oes gennych reswm dros gymell hynny drwy roi gostyngiad iddynt wrth adael, ac nid yw'n gwneud synnwyr masnachol i berchennog safle hysbysebu bod eu taliadau ymadael yn is na rhai rhywun arall, oherwydd prin y byddech yn awyddus i dynnu sylw prynwyr posibl at y ffaith y byddwch yn codi tâl arnynt yn syml am fod eisiau gadael. Na, bydd perchennog safle sy'n ymdrin â phreswlydd posibl newydd yn gwerthu manteision eu safle o ran ei gyfleusterau a'i leoliad, a'r cyfrifiad pris y byddant yn canolbwyntio arno yw'r un mwyaf amlwg: y ffioedd lleiniau.

Natur gudd y gost hon sy'n peri pryder i mi mewn gwirionedd. Os caiff y gost ei chladdu yn y print mân yn rhywle, ni waeth pa mor ddiwyd y bydd darpar breswylwyr yn edrych ar y gwaith papur, ni fydd llawer ohonynt yn sylwi arni ac ni fyddant yn ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ariannol ynglŷn â phrynu cartref mewn parc. Gallai'r unigolion hynny wedyn ddarganfod eu bod yn gaeth mewn eiddo y maent yn dymuno ei adael oherwydd na allant fforddio symud ymlaen os oes rhaid iddynt dalu comisiwn o 10% ar bris prynu eu cartref. Mae'n debycach i gyffion hen ffaswn na gefynnau euraid, ac mae'n gweithredu fel rhwystr i symudiad yn y farchnad honno. Rwy'n gweld hynny'n eironig mewn ffordd, oherwydd canfyddiad arall yn adroddiad Berkeley Hanover oedd bod y galw am gartrefi mewn parciau yn fwy na'r cyflenwad ar draws y DU pan gynhaliwyd yr arolwg. Os na allwn ddiwallu'r galw am gartrefi mewn parciau, yna, yn amlwg, mae angen inni annog symudiad yn y farchnad ac nid ydym am i bobl sydd eisiau symud ymlaen gael eu gorfodi i aros. Mae'r comisiwn 10% yn wrthnysig yn yr ystyr ei fod yn annog marweiddio'r farchnad cartrefi mewn parciau, a byddwn yn awgrymu y gallai mwy o symudiad yn y farchnad greu cyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddiad yn y sector, sy'n beth da i berchnogion safle yn ogystal â phreswylwyr, yn benodol. Felly, os yw'r galw'n parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad, siawns nad nawr yw'r amser i Lywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd o ddileu rhai o'r rhwystrau hyn.

However, we are, of course, discussing a report that was published more than a decade ago and which took a snapshot picture across the UK as a whole. Since that report was published in 2002, the economy has moved on, to say the least. Also, there were no specific Welsh data in this report, so we are not able to say whether or not the picture that the Berkeley Hanover report paints for us is pertinent either to the current economic climate or indeed the specific challenges faced by park home residents in Wales.

Equally, from October, when Peter Black's Bill comes into force, Wales will not only have a different economic climate from that in 2002, but a different legislative environment for park home ownership as well. Times have moved on, but the information on which we are basing that 10% commission rate has remained the same. We therefore urgently need a study to understand the impact of these changes over the last 12 years for both park home owners and for site owners. As a very minimum, the Welsh Government needs to use its power and influence to ensure that prospective buyers are aware of the exit sales costs when they purchase a park home as well as all of the fees and charges they will face during the lifetime of their ownership at the site. A more fundamental issue, though, is the need to examine again the ability of site owners to charge this fee and to see whether it is still appropriate and whether the maximum figure of 10% is proportionate.

There needs to be a balance between the needs of the site owner and their ability to run a business, and the needs of residents and their ability to move freely from one property to another.

An appropriate balance needs to be found between the 10% commission fee and the pitch fees paid. I am well aware of concerns that, if the commission is reduced or removed, pitch fees will inevitably increase and that this will hit those on fixed incomes, such as retired people, the hardest. That is why we need a Welsh consultation to examine these complex issues in more detail and give us a picture that is specific to Wales and to the Wales that we live in now, not Wales as it was in 2002.

Fodd bynnag, rydym yn trafod adroddiad a gyhoeddwyd dros ddegawd yn ôl, wrth gwrs, ac a roddodd gipolwg ar draws y DU yn gyfan. Ers i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi yn 2002, mae'r economi wedi symud ymlaen, a dweud y lleiaf. Hefyd, nid oedd data penodol ar gyfer Cymru yn yr adroddiad hwn, felly nid ydym yn gallu dweud a yw'r darlun sy'n cael ei gyfleu yn adroddiad Berkeley Hanover yn berthnasol naill ai i'r hinsawdd economaidd bresennol neu'n wir i'r heriau penodol a wynebir gan breswylwyr cartrefi mewn parciau yng Nghymru.

Yn yr un modd, o fis Hydref, pan ddaw Bil Peter Black i rym, nid yn unig y bydd gan Gymru hinsawdd economaidd wahanol i'r un yn 2002, ond bydd yr amgylchedd deddfwriaethol yn wahanol o ran perchnogaeth cartrefi mewn parciau hefyd. Mae amser wedi symud yn ei flaen, ond mae'r wybodaeth rydym yn seilio'r gyfradd gomisiwn o 10% arni wedi aros yr un fath. Felly, mae angen astudiaeth ar frys i ddeall effaith y newidiadau hyn dros y 12 mlynedd diwethaf ar berchnogion cartrefi mewn parciau a pherchnogion safle. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'i grym a'i dylanwad i sicrhau fan lleiaf fod darpar brynwyr yn ymwybodol o'r costau gwerthu wrth adael pan fyddant yn prynu cartref mewn parc yn ogystal â'r holl ffioedd a thaliadau a fydd yn eu hwynebu drwy gydol eu perchnogaeth ar y safle. Fodd bynnag, mater mwy sylfaenol yw'r angen i edrych eto ar allu perchnogion safle i godi'r ffi hon, ac i weld a yw'n dal i fod yn briodol ac a yw'r uchafswm o 10% yn gymesur.

Mae angen cydbwysedd rhwng anghenion y perchennog safle a'u gallu i redeg busnes, ac anghenion preswylwyr a'u gallu i symud yn rhwydd o un eiddo i'r llall.

Mae angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y ffi comisiwn o 10% a'r ffioedd lleiniau a delir. Os caiff y comisiwn ei ostwng neu ei ddileu, rwy'n ymwybodol o bryderon y bydd ffioedd lleiniau yn cynyddu'n anochel ac mai'r rhai sydd ar incwm sefydlog, megis pobl wedi ymddeol, fydd yn cael eu taro galetaf. Dyna pam y mae angen ymgynghoriad yng Nghymru i edrych ar y materion cymhleth hyn yn fwy manwl ac i roi darlun sy'n benodol i Gymru ac i'r Gymru rydym yn byw ynddi yn awr, nid Cymru fel yr oedd yn 2002.

I would now like to return to the issue of openness in terms of any future changes to the commission rates. When we debated Peter Black's park homes legislation, I brought forward an amendment asking the Welsh Government to use an affirmative procedure to ensure the any changes to rates of commission chargeable on the sale of park homes would be guaranteed to have a vote in this Chamber. I did this to make sure that any changes were subject to public scrutiny and so that Members could have the chance to debate and vote on the impact on their constituents. I was disappointed that the Welsh Government chose not to support that amendment. Procedural amendments are not very glamorous, I accept, but, for those people living in park homes, this is not a technical or a trivial matter. The issue of commission is a very significant one and surely worth half an hour of our debating time in this Chamber to air those issues in public fully. Personally, I would go further and say that this is not an issue that should be addressed without public consultation, and that we should have to have a superaffirmative procedure so that park home and site owners have a chance to raise their own points of view through a formal consultation process before any such changes are made.

However, Deputy Presiding Officer, I am aware that this is the last item for debate on the last day of the Assembly term, and I have probably not picked the best of moments to launch into a paean on the merits of the affirmative resolution procedure. So, perhaps we should leave that for another day. I am, however, very grateful to have had the opportunity to use this time to raise the very real concerns of park home residents in Wales when it comes to the issue of sales commissions, and I ask the Welsh Government: please, given the changing economic and legislative climate surrounding this issue, will you launch a consultation on the subject and bring it to us for debate in this Chamber so that we know that, whatever decision we reach, the right balance is struck for park home residents in Wales?

Yn awr, hoffwn ddychwelyd at fater bod yn agored o ran unrhyw newidiadau i'r cyfraddau comisiwn yn y dyfodol. Pan gawsom ddadl ynglŷn â deddfwriaeth cartrefi mewn parciau Peter Black, cyflwynais welliant yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol er mwyn sicrhau y byddai unrhyw newidiadau i gyfraddau comisiwn sy'n daladwy wrth werthu cartrefi mewn parciau yn sicr o fynd i bleidlais yn y Siambr hon. Gwneuthum hyn i wneud yn siŵr y byddai unrhyw newidiadau yn agored i'w craffu gan y cyhoedd ac er mwyn i'r Aelodau gael cyfle i drafod a phleidleisio ar yr effaith ar eu hetholwyr. Roeddwn yn siomedig fod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chefnogi'r gwelliant. Rwy'n derbyn nad yw gwelliannau gweithdrefnol yn atyniadol iawn, ond ar gyfer y bobl hynny sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau, nid yw hwn fater technegol na'n fater dibwys. Mae mater comisiwn yn un sylweddol iawn ac yn sicr yn haeddu hanner awr o'n hamser yn y Siambr hon i wyntyllu'r materion hynny yn llawn yn gyhoeddus. Yn bersonol, byddwn yn mynd ymhellach a dweud nad yw'n fater y dylid mynd i'r afael ag ef heb ymgynghori cyhoeddus, ac y dylem orfod cael gweithdrefn uwchgadarnhaol fel bod perchnogion cartrefi mewn parc a pherchnogion safle'n cael cyfle i leisio eu safbwyntiau eu hunain drwy broses ymgynghori ffurfiol cyn gwneud unrhyw newidiadau o'r fath.

Fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, rwy'n ymwybodol mai hon yw'r eitem olaf i'w thrafod ar ddiwrnod olaf tymor y Cynulliad, ac mae'n debyg nad wyf wedi dewis yr amser gorau i gychwyn ar folawd ynghylch teilyngdod y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Felly, efallai y dylem adael hynny at ddiwrnod arall. Fodd bynnag, rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i ddefnyddio'r amser hwn i leisio'r pryderon dilys iawn sydd gan breswylwyr cartrefi mewn parciau yng Nghymru o ran mater comisiynau gwerthiant, a gofynnaf i Lywodraeth Cymru: os gwelwch yn dda, o ystyried y newid yn yr hinsawdd economaidd a deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r mater hwn, a wnewch chi lansio ymgynghoriad ar y pwnc a'i gyflwyno mewn dadl yn y Siambr hon er mwyn inni gael gwybod, beth bynnag fydd ein penderfyniad, fod y cydbwysedd cywir yn cael ei sicrhau i breswylwyr cartrefi mewn parciau yng Nghymru?

- 18:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
May I confirm that it is just Kirsty Williams that you have given some time to? A gaf fi gadarnhau mai i Kirsty Williams yn unig rydych wedi rhoi amser?
- 18:37 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Indeed. Gallwch.
- 18:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Kirsty Williams. Galwaf ar Kirsty Williams.
- 18:37 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much, Deputy Presiding Officer. May I thank Eluned Parrott for highlighting this cause today, and for doing so so very eloquently? We have a proud tradition in Wales and across this Chamber of taking action in the field of developing more rights for people who live in park homes. However, because of the limitations of the Member-proposed Bill procedure, there are two outstanding issues that are still a great cause of concern to my constituents who find themselves living in park homes. Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i Eluned Parrott am dynnu sylw at yr achos hwn heddiw, ac am wneud hynny'n hynod o huawdl? Mae gennym draddodiad balch yng Nghymru ac ar draws y Siambr hon o weithredu ym maes datblygu mwy o hawliau i bobl sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau gweithdrefn y Bil Arfaethedig Aelod, mae dau fater ar ôl sy'n dal i beri pryder mawr i fy etholwyr sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau.

First is the issue of council tax banding, but there is also the issue that Eluned has highlighted today around the charging of a 10% commission. I do hope that the Minister will continue with the proud, cross-party tradition that we have here of looking to develop Welsh solutions to this problem. We have a better Bill than that across the border in England, and this presents us with an opportunity to have a fairer and better commission regime than that across the border, and I hope that the Minister will take the opportunity to do just that.

Y mater cyntaf yw bandiau'r dreth gyngor, ond hefyd, ceir y mater y tynnodd Eluned sylw ato heddiw ynghylch codi comisiwn o 10%. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn parhau â'r traddodiad balch, trawsbleidiol sydd gennym yma wrth geisio datblygu atebion Cymreig i'r broblem hon. Mae gennym Fil gwell na'r hyn a geir ar draws y ffin yn Lloegr, ac mae hyn yn rhoi cyfle inni gael trefniadau comisiwn tecach a gwell na'r hyn a geir ar draws y ffin. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn manteisio ar y cyfle i wneud hynny.

18:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Housing and Regeneration to reply to the debate—Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio i ymateb i'r ddadl—Carl Sargeant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:38 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I first of all thank the Member for bringing this debate to the Chamber today. May I start by recognising the concerns that many Members have raised from across the parties? Ann Jones, Lesley Griffiths and Members from other benches too have raised this issue with me, and I have also had a raft of correspondence from mobile home residents.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolchaf yn gyntaf i'r Aelod am gyflwyno'r ddadl hon i'r Siambr heddiw. A gaf fi ddechrau drwy gydnabod y pryderon y mae nifer o Aelodau wedi'u lleisio ar draws y pleidiau? Mae Ann Jones, Lesley Griffiths ac Aelodau o'r meinciau eraill hefyd wedi dwyn y mater hwn i fy sylw, ac rwyf hefyd wedi cael pentwr o ohebiaeth gan breswylwyr cartrefi symudol.

I know that there is considerable concern around the commission rate, and I will pick up a few points that Members have raised in the Chamber today. I do not accept that the limitations of the backbench Bill were prohibitive in terms of the drafting of this process. Indeed, the Mobile Homes (Wales) Act 2013 was endorsed by this Assembly and took forward Peter Black's recommendations through that process. We worked very carefully with the Member to ensure that the drafting of that proposal was effective and was supported across the Chamber in most parts, recognising, however, that there were elements that Members were not able to support in full.

Gwn fod cryn bryder ynghylch y gyfradd gomisiwn, a byddaf yn mynd ar ôl ychydig o bwytiau y mae Aelodau wedi'u lleisio yn y Siambr heddiw. Nid wyf yn derbyn bod cyfyngiadau'r Bil meinciau cefn yn waharddol o ran drafftio'r broses hon. Yn wir, cafodd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ei chymeradwyo gan y Cynulliad hwn a datblygwyd argymhellion Peter Black drwy'r broses honno. Buom yn gweithio'n ofalus iawn gyda'r Aelod i sicrhau bod drafftio'r cynnig hwnnw'n effeithiol a'r rhan fwyaf ohono yn cael cefnogaeth ar draws y Siambr, gan gydnabod er hynny, fod rhai elfennau nad oedd yr Aelodau'n gallu eu cefnogi yn llawn.

May I give Members some background to this debate, as Eluned Parrott also did? It is worth noting that the commission rate was formally introduced in the Mobile Homes Act 1975. It was set then at 15%, and then reduced to a maximum of 10% in 1983. It has remained at that level ever since and I think, during my commitment in the debate and the passage of the Bill, I also indicated that I had no current intention to make any alterations, or indeed to increase that.

A gaf fi roi rhywfaint o gefndir y ddadl hon i'r Aelodau, fel y gwnaeth Eluned Parrott? Mae'n werth nodi i'r gyfradd gomisiwn gael ei chyflwyno'n ffurfiol yn Neddf Cartrefi Symudol 1975. Cafodd ei gosod bryd hynny ar 15%, ac yna cafodd ei gostwng i uchafswm o 10% yn 1983. Mae wedi aros ar y lefel honno byth ers hynny, ac rwy'n meddwl, wrth roi fy ymrwymiad yn ystod y ddadl a phroses y Bil, nodais hefyd nad oedd gen i unrhyw fwriad ar hyn o bryd i wneud unrhyw newidiadau, nac yn wir i godi'r lefel honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Mobile Homes (Wales) Act 2013 that was passed by the Assembly in November includes provision by Welsh Ministers to amend the commission rate by regulation. Of course, I recognise Eluned Parrott's concern about superaffirmative procedures on the last day of the Assembly. It is certainly an interesting debate, but one that perhaps we should pursue elsewhere. The fact of the matter is that the procedures are the procedures, as supported by this Chamber. The commission rate is not, as is sometimes suggested, a sales commission in the way of a commission rate paid to an estate agent for selling a home. Rather, this is a payment system that is agreed by mobile home owners and site owners upon purchase of the mobile home. I share the Member's concern that, actually, if this is slipped passed people who are signing contracts, that is certainly not acceptable. It is something that I will commit to look at with regard to how we ensure that the operation works better. Part of the Bill, in the fit-and-proper-person test, is something that we can relate to in ensuring that we have better support for people who wish to purchase so they understand fully the consequences of signing such an agreement in that proposal.

I would certainly advise people who are purchasing a mobile home, or any home, that using the appropriate solicitors to support you is key and fundamental to ensure that you are fully aware of obligations on signing contracts. However, I share the Member's concern that some may have been inadvertently—to carefully word this—duped, Deputy Presiding Officer, in the way that those proposals are signed and have not been mentioned.

By signing the agreement, Deputy Presiding Officer, residents agree to the purchase and the ongoing pitch fees and commission rate upon the sale of their mobile homes. I believe that the commission rate is a core element of the business model for the residential mobile homes sites. It cannot be abolished or amended without considering fully the impact of such changes on residents and, indeed, site owners. Let us not forget, Deputy Presiding Officer, that these are people's homes that we are talking about and any financial changes to that may have an impact on them, which I would want them to be fully aware of in that proposal. So, in my mind, it is highly likely that one part of the tripartite system of pitch fees, sales commission, and existing sales of any new homes, would certainly have to be considered in the process where one may be offset and have to fund the shortfall, if any, during that proposal. We would have to be fully aware of that and, in particular, residents and home owners would have to understand those proposals.

Earlier, I met with a delegation of owners and they were very welcoming, may I say. Despite some interesting e-mails that I have received, they were very nice people to meet in the Chamber this afternoon. Unfortunately, a change in the commission rate would almost certainly, we believe, result in higher pitch fees. This was supported by Consumer Focus Wales's report, 'Park Life'—

Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a basiwyd gan y Cynulliad ym mis Tachwedd yn cynnwys darpariaeth gan Weinidogion Cymru i ddiwygio'r gyfradd gomisiwn drwy reoliad. Wrth gwrs, rwy'n cydnabod pryder Eluned Parrott am weithdrefnau uwchgadarnhaol ar ddiwrnod olaf y Cynulliad. Mae'n sicr yn ddadl ddiddorol, ond yn un y dylem ei chael yn rhywle arall efallai. Y ffaith yw mai'r gweithdrefnau yw'r gweithdrefnau, fel y'u cefnogir gan y Siambur hon. Nid yw'r gyfradd gomisiwn, fel yr awgrymir weithiau, yn gomisiwn ar werthiant fel y gyfradd gomisiwn a delir i asiant tai am werthu cartref. Yn hytrach, mae hon yn system daliadau y cytunir arni gan berchnogion cartrefi symudol a pherchnogion safleoedd ar adeg prynu'r cartrefi symudol. Os yw hyn yn cael ei basio heibio i'r bobl sy'n arwyddo contractau heb iddynt sylwi, rwy'n sicr yn rhannu pryder yr Aelod nad yw hynny'n dderbyniol. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ymrwymo i edrych arno o ran sut y gallwn sicrhau fod y broses yn gweithio'n well. Mae rhan o'r Bil, o ran y prawf person addas a phriodol, yn rhywbeth y gallwn ymwneud ag ef i sicrhau ein bod yn cael gwell cefnogaeth i bobl sy'n dymuno prynu fel eu bod yn deall yn llawn beth fydd canlyniadau arwyddo cytundeb o'r fath.

Buaswn yn sicr yn cynghori pobl sy'n prynu cartref symudol, neu unrhyw gartref, fod defnyddio cyfreithwyr priodol i'ch cefnogi yn allweddol ac yn hanfodol i sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o oblygiadau arwyddo contractau. Fodd bynnag, rwy'n rhannu pryder yr Aelod y gallai rhai, yn anfwriadol, fod wedi cael—byddaf yn ofalus â'r gair hwn—eu twyllo, Ddirprwy Lywydd, yn y ffordd y mae'r cynigion hynny'n cael eu harwyddo heb iddynt gael eu crybwyll.

Drwy arwyddo'r cytundeb, Ddirprwy Lywydd, mae preswylwyr yn cytuno i'r pryniad a'r ffioedd lleiniau parhaus a chyfradd gomisiwn ar werthu eu cartrefi symudol. Rwy'n credu fod y gyfradd gomisiwn yn elfen graidd o'r model busnes ar gyfer safleoedd cartrefi symudol preswyl. Ni ellir ei ddiddymu na'i ddiwygio heb ystyried yn llawn effaith newidiadau o'r fath ar breswylwyr ac yn wir, ar berchnogion safleoedd. Gadewch inni beidio ag anghofio, Ddirprwy Lywydd, mai sôn rydym am gartrefi pobl a gall unrhyw newidiadau ariannol i hynny gael effaith y byddwn am iddynt fod yn gwbl ymwybodol ohoni yn y cynnig hwnnw. Felly, yn fy marn i, mae'n debygol iawn y byddai'n rhaid i un rhan o system deiran y ffioedd lleiniau, comisiwn ar werthiannau a gwerthiant presennol unrhyw gartrefi newydd, gael ei hystyried yn y broses lle y gellid gwrthbwyso un a gorfod ariannu'r diffyg, os ceir un, yn ystod y cynnig hwnnw. Byddai'n rhaid inni fod yn gwbl ymwybodol o hynny ac yn arbennig, byddai'n rhaid i breswylwyr a pherchnogion cartrefi ddeall y cynigion hynny.

Yn gynharach, cyfarfûm â dirprwyaeth o berchnogion ac roeddent yn groesawgar iawn, os caf ddweud. Er gwaethaf rhai e-byst diddorol a dderbyniais, roeddent yn bobl ddymunol iawn i'w cyfarfod yn y Siambur y prynhawn yma. Yn anffodus, rydym yn credu y byddai newid yn y gyfradd gomisiwn bron yn sicr o arwain at ffioedd lleiniau uwch. Cefnogwyd hyn gan adroddiad Llais Defnyddwyr Cymru, 'Bywyd Parc'—

18:43

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:43	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I will in a second.	Gwnaf mewn eiliad.
	It investigated the residential mobile homes industry prior to the establishment of the Welsh Bill. I will give way to Mark Isherwood.	Roedd yn ymchwilio i'r diwydiant cartrefi preswyl symudol cyn sefydlu Bil Cymru. Ildiaf i Mark Isherwood.
18:43	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Thank you. I also met the representatives in the gallery and they did welcome the conversation that they had with you.	Diolch yn fawr. Cefais innau hefyd gyfarfod â'r cynrychiolwyr yn yr oriel ac roeddent yn croesawu'r sgwrs a gawsant gyda chi.
	You previously told them and me in correspondence what you have just stated: that this could significantly weaken the business model for park home site owners and you have cited two reports, I believe: the Berkley Hanover report and a consultation paper of 2007. However, I believe that you orally pledged to the representatives in the gallery that you would now have a look at the evidence base for that. I wonder whether you could comment upon that, given the concern raised that there may be a conflict of interest there and poor representation of the finding of the 2007 report, especially noting, as I am sure that you recognise—	Dywedasoch eisoes wrthynt hwy a minnau mewn gohebiaeth yr hyn rydych newydd ei ddweud: y gallai hyn wanhau'r model busnes ar gyfer perchnogion safleoedd cartrefi mewn parciau yn sylweddol ac rydych wedi dyfynnu dau adroddiad, rwy'n credu: adroddiad Berkley Hanover a phapur ymgynghori 2007. Fodd bynnag, rwy'n credu eich bod wedi addo ar lafar i gynrychiolwyr yn yr oriel eich bod yn awr am edrych ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer hynny. Tybed a allech roi sylwadau ar hynny, o ystyried y pryder a fynegwyd y gallai fod gwrthdaro buddiannau yno a chynrychioliad gwael o ganfyddiad adroddiad 2007, sy'n nodi'n arbennig, fel rwy'n siŵr eich bod yn cydnabod—
18:44	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I am being very indulgent. [Laughter.]	Rwy'n bod yn oddefgar iawn. [Chwerthin.]
18:44	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	You are being very indulgent, indeed.	Rydych yn bod yn oddefgar iawn, yn wir.
	It noted that a park home owner could not know how many vans would be sold, or how many homes would be sold.	Mae'n nodi na allai perchennog cartref mewn parc wybod faint o garafanau a fyddai'n cael eu gwerthu, na faint o gartrefi a fyddai'n cael eu gwerthu.
18:44	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	You were very kind, Deputy Presiding Officer, in terms of your support there for the Member's intervention. The Member jumps the gun slightly, because I was coming to the very issue that the Member raises and the discussion that we had with residents.	Roeddech yn garedig iawn, Ddirprwy Lywydd, o ran eich cefnogaeth yn awr i ymyrraeth yr Aelod. Mae'r Aelod yn mynd o flaen gofid braidd, oherwydd roeddwn yn dod at yr union fater y mae'n sôn amdano a'r drafodaeth a gawsom gyda phreswylwyr.
	Of course, I have written on several occasions to many Members in terms of detail, but, of course, what I would—. I recognise from the Member's contribution this afternoon that there is still concern around the sector and the data that were provided. I believed and still believe that the data accepted by this Assembly to support the regulations and the Act were accurate, but what I will do and have committed to do is review those data to ensure that I am still confident in that proposal. I will ensure that I inform Members of the outcome of that review, and, if I fear that the data were biased in any way, I will, indeed, seek to commission some additional work around what the Welsh effect may or may not be in terms of mobile home sites.	Wrth gwrs, rwyf wedi ysgrifennu ar sawl achlysur at lawer o Aelodau o ran y manylion, ond wrth gwrs, yr hyn y byddwn —. Rwy'n sylwi o gyfraniad yr Aelod y prynhawn yma fod pryder o hyd ynghylch y sector a'r data a ddarparwyd. Roeddwn yn credu fod y data a dderbyniodd y Cynulliad i gefnogi'r rheoliadau a'r Ddeddf yn gywir, ac rwy'n dal i gredu hynny, ond yr hyn y byddaf yn ei wneud a'r hyn rwyf wedi ymrwymo i'w wneud yw adolygu'r data i sicrhau fy mod yn dal yn hyderus ynglŷn â'r cynnig. Byddaf yn sicrhau fy mod yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad yr adolygiad hwnnw, ac os wyf yn ofni fod y data yn unochrog mewn unrhyw ffordd, byddaf yn mynd ati i gomisiynu gwaith ychwanegol ynglŷn â'r effaith yng Nghymru o ran safleoedd cartrefi symudol.

Deputy Presiding Officer, it is the last day of term in terms of the opportunity to debate such an important issue. The Member should not be so modest about the fact that this is important. This is about people's homes across our communities within Wales and, of course, a delegation from right across Wales has come to see us to press that home very clearly. I will, following the discussion that we had earlier and Members' concerns, look at the data provided to support the Bill, and, of course, if there is any further work from that, I will inform the Chamber accordingly at the appropriate time. Diolch yn fawr i chi. Thank you very much.

Ddirprwy Lywydd, dyma ddiwrnod olaf y tymor o ran y cyfle i drafod mater mor bwysig. Ni ddylai'r Aelod fod mor ddiymhongar ynglŷn â'r ffaith fod hyn yn bwysig. Mae hyn yn ymwneud â chartrefi pobl ar draws ein cymunedau yng Nghymru ac wrth gwrs, mae dirprwyaeth o bob cwr o Gymru wedi dod i'n gweld i bwysleisio'r neges honno'n glir iawn. Yn dilyn y drafodaeth a gawsom yn gynharach a phryderon yr Aelodau, byddaf yn edrych ar y data a ddarparwyd i gefnogi'r Bil, ac wrth gwrs, os oes unrhyw waith pellach yn deillio o hynny, byddaf yn rhoi gwybod i'r Siambr yn unol â hynny ar yr adeg briodol. Diolch yn fawr i chi.

18:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Diolch i chi, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:46.

The meeting ended at 18:46.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)